



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:


- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.


About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>



48.1342.





Y FFERMW'R;

NEU

HYFFORDDIADAU

YN

EGWYDDORION AMAETHYDDIAETHI.

[CYFIEITHEDIG O'R SAESON AEG.]



CAERFYRDDIN: W. SPURRELL.
LLUNDAIN: H. HUGHES, ST. MARTINS-LE-GRAND.

1848.

ANGRAFFWYD GAN W. SPURRELL, CAERFYRDDIN.

RHAGYMDRODD I'R CYFIEITHAD.

UN o'r amryw anfanteision y mae y Cymry yn llafurio danynt, a'r hyn sydd yn peri iddeu cymyd-gion y Saeson ffurfio tybiaeth gyfeiliornus iawn am eu galluoedd meddyliol, yw y terfynau cyfyngedig o fewn pa rai y mae eu hiaith yn cael ei siared. Mae hyn wedi lluddias llawer un o gyneddfau godidog rhag cyraedd unrhyw enwogrwydd, ac wedi cadw y cyffredinolrwydd yn ol rhag dyfod i afael nemawr o'r hyffordd-iadau a gynigid iddynt trwy gyfrwng yr argraff-wasg, pe byddai nifer y prynwyr yn debyg o ddigolledu yr awdwyr a'r cyhoeddwyr. I hyn, yn nghyd a rhyw bethau ereill cydfynedol a hyn, y mae anfedrusrwydd cymriaethol y Cymry mewn amaethyddiaeth yn gystal a rhyw gelfyddydau ereill i'w gyfrif, ac nid i'w iaeth gwreiddiol eu dealldwriaethau.

Yn awyddus i wneud rhyw beth er derchafu

nghydgenedl yn ngraddoliaeth cymdeithas, ceisiais a chefais ganiatâd caredig Mr. Charles Knight, perchen ysgrifhawl y gwaith Seisnig, "The Farmer," gan George Nichols, i'w gyfieithu a'u gyhoeddi yn yr iaith Gymraeg ; ac yr ydwyf yn awr yn ei gynyg i'w sylw fel yn cynwys cyfanswm o wybodaeth gywir ar un o'r pynciau pwysicaf a ddichon alw am ystyriaeth rhan fawr o honynt. Hyderus obeithir y cyfarfydda a'r cyffelyb roesawiad yn ei wisg Gymreig, ag a gafodd yn ei wisg Seisnig, er bod ei ddilladu felly yn fwy o anturiaeth.

Mae yn dda genyf allu ychwanegu fod y cyfieithad wedi cael ei wneuthur gan un yn gyfarwydd nid yn unig a'n hiaith, ond hefyd a'r dosparth hyny o wybodaeth ar ba un y mae y gwaith yn traethu.

Nid allan o le fyddai i ni hysbysu yma, bod y "Cyfarwyddiadau Meddygol er gwellâu Clefydau Anifeiliaid," a'r Dafllen ddiweddaf (tu dalen 234), yn ychwanegiadau at y gwaith gwreiddiol.

Y CYHOEDDW'R.

CYNWYSIAD.

	<i>Tu dal.</i>		<i>Tu dal.</i>
Dehongliad o Eiriau anar-ferol cynwysedig yn y gwaith	vii	Achlesoedd	40
Arweiniad i mewn	1	Calch	48
Hinsawdd	7	Marl	51
Gwahanol fathau o Ddaear Daear Sandog	8	Gypsum	52
Daear Rafelog	9	Sialc	53
Daear Gleilog	10	Tywod y Môr	53
Daear Sialcaidd	10	Gwynion	54
Daear Leidiog	11	Lludw	54
Daear Farlaidd	11	Clai Llosagedig	55
Daear Gorsog neu Fawnog	11	Esgyrn	56
Gwaelod	12	Maip-ffylor, Blawd-ffylor, Brag-ffylor	57
Gweithrediadau Amaeth-yddol	13	Guano	57
Tir Porfa	15	Achles Gwlyb	58
Doldir	15	Palu a Dwnfnglodio	60
Ucheldiroedd	16	Aredig	61
Y Glaswelt Celfyddydol	18	Braenariad	64
Diwylliant Tir Pori Oer	21	Heuad	66
Diwylliant Tir Sialcaidd	24	Cnydiad	68
Diwylliant Tir Cleiog	26	Cylchyniad Cnydau	73
Diwylliant Tir Gwylt	27	Cnydau Llafur	81
Dyhysbyddiad	30	Gwenith	83
Trwadl-ddyhysbyddiad	33	Haidd	88
Dwnf Arddiad	35	Ceirch	91
Dyfrâd	37	Rhyg	94
Llosgiad Tir	39	Ffa	95
		Pys	97
		Cyneuafa	98
		Dyrnu a Nithio	99

	<i>Tu dal.</i>		<i>Tu dal.</i>
Gwair Gynauafa	101	Y Llaethdy	188
Cnydau Gwyrdlas	103	Llaeth	189
Erfin	105	Ymenyn	190
Mangles	111	Caws	192
Bresych	114	Gwenyn	194
Moron	117	Crynodeb o Waith Pob	
Panas	119	Mis	201
Cloron	119		
Meillion Cochion	126		
Ych-laswellt Ameri- canaidd	132		
Rhyg-wellt Italaidd	132		
Efrau, neu Ffacybs	133	OL-YSGRIFF.	
Erfin Gwyltion	135	Trefniadau Teuluaidd	205
Lucerne a Sainfoin	138	Yr Ardd	206
Gosod Tir at ei Bori	141	Iechyd	213
Llin	142	Ymborth	216
Mér Helyg	146	Dillad	218
Cor-fwydo neu Las-borthi	146	Preswylfeydd	220
Chwynu	155	Rhagddarbodaeth	222
Cloddiau	157	Priodasau	223
Ffyrrd	161	Dygiaid Plant i fynu	225
Perllanau	162	Cyfarwyddiadau Meddygol er gwellâu Clefydau Ani- feiliaid	227
Osai	164	Gwartheg	227
Anifeiliaid	165	Lloï	230
Da	167	Ceffylau	230
Y Fuwch	171	Defaid	231
Y Ceffyl	173	Moch	232
Defaid	176	Pwysau a Mesurau	233
Y Mochyn	180	Chwarterol Ddyddiau y Flwyddyn	234
Creaduriaid Plyfog	184	Tafien yn dangos pryd i ddyagwyl Llo neu Oen, ar oli Fuwch gael Tarw, neu Ddafad Hwrdd	234
Gieir	185		
Wyau	185		
Hwyaid	186		
Twrciod	187		
Gwyddau	187		

DEHONGLIAD O EIRIAU ANARFEROL CYNWYS-
EDIG YN Y GWAITH.

Achles, <i>manure</i>	Cyfair, <i>an acre</i>
Afrlladenau, <i>cakes</i>	Cyffaith, <i>syrup</i>
Agerdd, <i>steam, vapour</i>	Cyfeithiau, <i>confectionary</i>
Alym, <i>alum</i>	Cylchyniad, <i>rotation</i>
Annoddadwy, <i>insoluble</i>	Chwaren, <i>murrain</i>
Ardumiol, <i>organised</i>	Chwlynogl, <i>a hoe</i>
Arwynebedd, <i>surface</i>	Dreill-flwch, <i>a dredging-box</i>
Beatws, <i>beet</i>	Dyferwi, <i>to effervesce</i>
Braenlyd, <i>putrescent</i>	Dyhysbyddiad, <i>draining</i>
Bresych, <i>cabbages</i>	Eisenu, <i>to rib</i>
Breuder, <i>brittleness</i>	Eis-laswellt, <i>rib-grass</i>
Buch-laswellt, <i>cowgrass</i>	Eiryn Mair, <i>gooseberries</i>
Cadwfa, <i>a reservoir</i>	Erfin gwylltion, <i>rape</i>
Callestr, <i>flint</i>	Eurddrain, <i>gooseberry bushes</i>
Ceiros, <i>cherries</i>	Ffaethu, <i>to till</i>
Clafr, <i>mange, scab</i>	Fferyllaidd, <i>chemical</i>
Cloron, <i>potatoes</i>	Ffumer, <i>a chimney</i>
Corfwyda, <i>stall feeding</i>	Ffylor, <i>dust</i>
Craig-halen, <i>rock-salt</i>	Gelleig, <i>pears</i>
Cronfa, <i>a reservoir</i>	Gelleig-win, <i>perry</i>

Gogawr-feillion, <i>sainfoin</i>	Maip, neu Erfin, <i>turnips</i>
Gogfran, <i>jackdaw</i>	Meddygly <i>cordial</i>
Gollyngle, <i>an outlet</i>	Mefus, <i>strawberries</i>
Gronynfaen, <i>granite</i>	Moron, <i>carrots</i>
Gwaglwys, <i>lime tree</i>	Mwgdarthiad, <i>evaporation</i>
Gwddf-leni, <i>shawls</i>	Olew-deisen, <i>oil-cake</i>
Gwif, <i>a lever</i>	Osai, <i>cider</i>
Gwrthsur, <i>alkali</i>	Peiriant, <i>machine</i>
Gwrtaith, <i>excrementitious manure</i>	Peiswyn, <i>chaff</i>
Gwrthfraenol, <i>antiseptic</i>	Pigoglys, <i>spinach</i>
Gwymon, <i>sea-weed</i>	Priddfaen, <i>brick</i>
Gwyntylliad, <i>ventilation</i>	Pwd, <i>rot</i>
Halen y graig, <i>saltpetre</i>	Pyglen, <i>tarpaulin</i>
Hyddyg!, <i>soot</i>	Rhadell, <i>a grater</i>
Hyfriw, <i>friable</i>	Rhefr-chwistrell, <i>elastic tube</i>
Hylosg, <i>gas</i>	Rhyswydd, <i>currant trees</i>
Isgell, <i>soup; tincture</i>	Siglenydd, <i>morasses</i>
Llestraid, <i>bushel</i>	Sugaethan, <i>poultice</i>
Llymeirch, <i>oysters</i>	Sygnedyddu, <i>to pump</i>
Llindys, <i>caterpillars</i>	Trydaniaeth, <i>electricity</i>
Madarch, <i>fungus, toadstool</i>	Ysgrech y coed, <i>the jay</i>
Mangles, <i>mangle wurzel</i>	Ysgothfaoedd, <i>nightsoil</i>

Y FFERMW'R.

ARWEINIAD I MEWN.

AMAETHYDDIAETH yw y gelfyddyd o godi y cnwd mwyaf, am yr amser hwyaf, trwy mor lleied o draul ag a ellir, a hyny heb hespau y tir. Dyma y prif beth sydd yn ngolwg yr amaethwr; a dylai ei holl weithrediadau gael eu llywyddu gan yr egwyddorion eglur cynwysedig yn y darluniad hwn o'i gelfyddyd. I gyraedd y dyben hwn, ac i ddwyn yn mlaen ei weithrediadau yn llwyddiannus, mae rhagfwriad a diwydwydd yn angenrheidiol, yn nhyd a meddwl abl i ganfod, a pharod i fabwysiadu pob gwelliant. Daliedydd tyddyn wedi ei esgeuluso a'i gamdrin a wna yn aml achwyn ar ei dodi, neu waelder y tir; a phe cyfeirid ef at dyddyn arall o gyyfelyb ddaear, ond yn cael ei drin yn drefnus, yr ateb fyddai, "Oh! ond y mae yna lawer o fanteision nad oes ar fy nhyddyn i." A pheth mewn gwirionedd yw y "manteision" hyn? Diwydwydd, iawn driniaeth, a threfn—cyson ymarferiad o ba rai sydd wedi gwneud siglenydd Holland yn fwy ffrwythlon na gwastadleoedd breision Italy; a thrwy yr ymarferiadau hyn yn unig y sicrheir hwylusdra a llwyddiant i'r amaethwr Prydeinig.

Mae gwahanol ddulliau o amaethu yn cael eu dwyn yn mlaen yn ngwahanol ranau o'r wlad, a hyny oddiwrth arferiad neu neillduolrwydd lleawl; ond fel rheol gyffredin, gellir yn ddiogel sicrâu mae y dull hwnnw.

amaethu yn ddiamheuol yw y goreu, *sef*, yr hwn a rydd ac a barâ i roi y cynyrch mwyaf ar y draul leiaf. Pe buasai y ddaear wedi ei bwriadu i gynal amaethwyr yn unig, gallesid cael digon o gynyrch trwy ychydig draffferth; ond y mae dospeirth ereill i'w cynal, a rhaid i'r amaethwr roi cyfran o gynyrch ei dir yn gyfnewid am eu llafur. Gan hyny, mae amaethiad trefnus a llwyddiannus yn buddioli pob dosparth, ac y mae angenrheidiwydd ar fod i bob man gynyrchu y cyflawnder mwyaf o ymborth ar y cysfartalrwydd lleiaf o gost.

Gyda golwg ar fuddioldeb a chyfleusdra tyddyn, mae llawer yn sefyll ar ba fath adeiladau a fyddo arno. Os bydd y tî byw yn rhy fychan, neu mewn cywair ddrwg, mae cysur y deiliad yn cael ei gyfyngu, ac os na fydd y beili a'r tai allan yn ddigon i'r anifeiliaid, ac i'r rheidiau perthynol i'r lle, neu os byddant wedi eu cyflêu fel ag i achosi colliant amser, gwaith, gogwr, neu achles, mae'r amaethwr felly yn cael ei osod dan anfantais, a byddai yn fuddiol i, yn gystal ag yn ddyledswydd ar feistr y tir ei gynorthwyo; trwy beri gwneud y gwelliant a'r cyfnewidiadau angenrheidiol, fel ei galluoger ef i wneud y goreu o'r tyddyn. Dylai maintioli y tî byw a'r tai allan gael, o gwrs, ei reoleiddio gan faintioli ac ansawdd y tir; a dylent gael eu cyflêu fel ag i arbed trafferth diangen, ac er hwylusu pob beth i gydweithredu. Yn gyffredin, dylai yr adeiladau gael eu trefnu yn bedairongl, yn amgylchu y beili, yn mha le y porthir y da a'r moch, ac yn mha le y mae'r achles yn cael ei gasglu. Dylai derbynle i'r biswail gael ei wneuthur mewn man cyflêus, a dylai ffos gauedig gael ei gwneud i arwain y cwbl iddo, o'r beidai, ystablau, tylcau, ac o'r tî byw, oddieithr fod rhyw le gwahanol yn ei ymyl er derbyn y gwlybwyr a deffir allan o hono.

Mae y rhan fwyaf o diroedd o ansoddau gwahanol, yn *cynwys tir i'w lafurio a thir i'w bori*; a phan fyddo *felly*, dylai y beiliau a'r tai allan gael eu gwneud yn *gyfatebol*. Dylai, hefyd, fod ar bob tyddyn, yn ol ei

faintioli, gottai i'r gweithwyr a'u teuluoedd, cysuron pa rai ni ddylent gael eu hesgeuluso. Geill dynion ieueinc sengl cyflogedig wrth y flwyddyn fel gweision, fyw yn y ty gyda'u meistr, yr hwn felly a alluogir i arolygu eu hymddygiadau; yr hyn sydd o fawr bwys, ond a esgeulusir yn ormedol. Yr un modd hefyd y gellir dyweud am y morwynion, i ba rai y mae y feistres yn lle mam. Yn y golygiadau hyn mae gan benau teuluoedd ddyledswyddau pwysig i'w cyflawni; mae eu siAMPLAU a'u rheolau, i fesur mawr, yn llunio moesau ac arferion y rhai a ymddibynant arnynt.

Rhaid i'r amaethwr, os ewyllsia ffynu, fod nid yn unig yn weithgar ac yn ddiwyd ei hun—y cyntaf i fynu yn y boreu—y cyntaf ar y mae—ar diweddaf yn myned i orphwys; ond rhaid iddo hefyd fod yn ofalus am ei dderbyniadau a'i daliadau, fel y gallo yn gyffredin wybod pa fodd y mae yn sefyll, a pheth yw'r enill a'r golled yn mhob nwydd, pa un bynag a'i anifeiliaid, llafur, neu unrhyw gynyrch arall. Cyfrifon cyflawn a manwl yw hanfod llwyddiant mewn masgnach. Heb hyn ni all amaethwr, masgnachwr, na llaw-weithiwr obeithio llwyddo. Dylai amaethwr hefyd gadw llyfr er cofrestri yn feunyddiol enwau ei weithwyr, a pha fodd a pha le y cadd pob un ei roi ar waith; a hefyd coflyfr er rhoi ynddo sylwnodau ar bethau o bwys ar ei dir ei hun, neu'r eiddo ei gymydigion—megys profion o wahanol wrtaith, neu ryw ddull neillduol o amaethu, neu, mewn gair, unrhyw beth a fyddo yn debyg o'i fuddioli ei hun neu arall. Y fath gofnodiadau, os gwneir yn fanwl mewn pryd, a allant fod yn llesiol mewn amser dyfodol.

Bydd pob meistr ystyriol yn barod i gynorthwyo deiliad ymrous mewn gwellâu ei dir. Y buddioldeb uniongyrchol o'r cyfryw welliant a fwynêir gan y deiliad, ond y lles canlyniadol a pharaol a berthyn i'r meistr. Mae'r ddu yn cael eu llesâu, y naill yn uniongyrchol, a'r llall yn ddiwedol; a dylai y ddu gyd-ddwyn draul, yn mhob achos, i'r graddau ag y byddo amgyl-

iadau yn gofyn. Y dull cyffredin o ranu y draul yw, y meistr i ddwyn y defnyddiau, ar deiliad i wneud y gwaith; ond gan gadw golwg ar amser ac ar natur y gwelliant y cytunir arno, dylai y dull hwn gael ei gyfnewid mewn rhai achosion. Bydd meistr deallgar nid yn unig yn barod i gyfranu tuag at ddwyn traul pob gwelliant, ond cymer afael ar bob cyfleusdra er anog y deiliad i ymgymeryd a hyn, ac a'i cynorthwya, a'i cynghora, ac a'i cefnoga yn ei ddygiad yn mlaen. Os bydd cwteri neu gloddio yn ofynol, gwel y meistr fod eisiau, a dengys pa fodd i'w dwyn oddiamgylch. Os bydd y tai allan yn wallus neu yn anghymwys er cyflêu yr anifeiliaid yn briodol; os bydd piswail-leoedd yn eisiau, neu ynte well cyflêad ar y tai allan, er mantais ac elw i'r deiliad, ni fydd y meistr ddim yn ol o wneud ei ran yn y cwbl. Gellid cydmaru tir i beiriant mawr, gwerth yr hwn a ymddibyna ar yr elw a ellid wneud o hono, a hyny eilwaith ar berffeithrwydd gwneuthuriad ei holl ranau. O ganlyniad, mantais y perchenog, yn ddiameuol, yw edrych na byddo dim gwallus yn ei gylch; tra y mae gan y meddiannydd hefyd ofal am dano yn gyfartal i'r draul aeth arno, ac i barâd yr amser y disgwylia y bydd yn ei feddiant: oblegid heb ryw sierwydd y caiff fwynâu ei lafur, nis gellir disgwyl y gwnaiff y deiliad anturio unrhyw welliant. Pa un a ydyw y sicrwydd hwn yn cael ei roddi mewn ffurf o lês am yspaid o amser, neu ynte ryw ffordd arall, nid yw o gymaint pwys; ond y mae yn sicr o'r pwys mwyaf, na fyddo dim drwgdybiaeth yn yr achos rhwng y naill a'r llall. Rhaid i'r deiliad deimlo diogelwch, neu ynte ni fydd grwm ynddo i fyned yn mlaen; ac y mae rhoddiad y teimlad hwn, yn mha ddull bynag y rhoddir ef, yn gorwheis ar y meistr.

Yn mhellach, gall meistr deallus lesoli ei ddeiliaid mewn golygiadau eraill: trwy eu hysbysu o bob hanes-jaeth amaethyddol; trwy gyfranu rhyngddynt gyhoedd-iadau buddiol, ac felly dwyn dan eu hystyriaethau y

profion a wnaed mewn cymydogaethau a gwledydd ereill. Geill, hefyd, fuddioli ei ddeiliaid yn ddifawr, heb ond ychydig drafferth iddo ei hun, trwy wneud prawf o'r manteision ac o'r anfanteision cymariaethol o'r gwahanol ddull o amaethu—o ansoddau gwahanol wrtaith, yn nghyd ar modd goreu i'w casglu a'u defnyddio—o natur yr amrywiol fathau o dir, ac o'r cylchyniad goreu o gnydau (*the best rotation of crops*). Geill, hefyd, wneud prawf o'r amrywiol offer llafurwaith a ddyfeisir o bryd i bryd, er lleiau trafferth a chwanegu ffrwythlonrwydd; a'r hyn a gai yn fwyaf cymwys i'w harfer, gallai eu cymeradwyo neu eu prynu i'w ddeiliaid—gan fod pob gwelliant mewn amaethu yn arwain i welliant amgylchiadau y deiliaid, ac yn y pen draw i welliant eiddo y meistr.

Ni fydd y meistr synwyrol yn ol o sylwi ar yr anifeiliaid, ac o gynorthwyo ei ddeiliaid i gael y rhywogaethau goreu. Fe allai, nad oes un ddyledswydd o eiddo y meistr a ellid ei chyflawni mor hawdd, cyffredin, a buddiol a hon. Nid oes un peth yn gymaint o ddinistr i amaethwr a rhywogaeth ddrwg o anifeiliaid, ac nid yw yn alluadwy bob amser, yn enwedig i dyddynwyr bychain, ddyfod o hyd iddeu gwell; yr hyn yn unig a ellir, trwy lawer o draul, trwy brynu rhai gwrrywaid o rywogaeth gymeradwy am bris uchel. Yn y cyfryw amgylchiadau, dylai y meistr eu cynorthwyo, trwy fynu iddynt y rhai goreu at y pwrrpas. Pe mabwysiadid y dull hwn yn gyffredin gan berchenogion tiroedd, byddai, yn mhen ychydig o flynyddoedd, yn ddyfethiad ar bob rhywogaeth ddrwg a gwael o anifeiliaid; pa rai sydd yn awr, er niwed i'r amaethwr a cholled i'r wlad, mor aml i'w gweled. Gwnaiff pob arwydd ystyriol sylwi hefyd ar sefyllfa y cottai ar ei diroedd. Yn wybodus pa gymaint y mae iechyd, cysur, a moesol ymarweddiaid y gweithwyr a'u teuluoedd yn ymddibynu ar ansawdd a threfnusrwydd eu trigfanau, cymer ofal ar i fod i adeiladaeth y cottai ar ei etifedd.

iaeth i gael y sylw dyledus gyda golwg ar hyn,—fod dyhysbyddiad a gwyntylliad priodol yn cael eu gwneud,—fod yr ystafelloedd yn ddigon o nifer a maintioli er cyfaddasrwydd i deulu y gweithiwr; fel na byddo y tylwyth ieuinc o wahanol ystlen yn cael eu gorfodi, megys y mae yn awr yn rhy aml, i gysgu yn yr un ystafell, er dadymchweliad pob gweddeidd-dra, ac er dyfetha y teimladau gwylaidd a'r attaliadau moesol hynny sydd yn cyfansoddi ymddiffynfa mor bwysig er rheoleiddio y fuchedd mewn bywyd dyfodol. Ac yn unig trwy ofalu am yr oll o'r pethau hyn, y sicréir y canlyniadau goreu i'r meistr, y deiliad, a'r gweithiwr; yna gwna pob un o honynt ffurffio rhan o un teulu mawr, wedi eu rhwymo yn un mewn dyddordeb a theimladau, y naill yn barod i gynorthwyo y llall yn ngwahanol ddamweiniau bywyd, ac mewn gweithio allan y pwnc o gael y tir i gynyrchu y cnwd mwyaf am yr amser hwyaf, ac am mor lleied o draul ag y byddo modd. Pa fodd i gyflawni y gorchwyl pwysig hwn, yw y gosodiad sydd i gael ei drin yn ei wahanol ranjadau yn y tudalenau dyfodol.

HINSAWDD (*Climate*).

Yn mhob gweithrediad amaethyddol, dylid sylwi ar natur yr hinsawdd. Yr hinsawdd hynny y gellir bod allan yn gweithio am y nifer fwyaf o ddiwrnodau yn y flwyddyn, ac a gynyrcha ac a addfed a toraeth mwyaf o ffrwythau, a hynny gyda'r sicrwydd mwyaf, raid ei ystyried y goreu; a'r un sydd yn ddarostyngedig i gyfinewidiadau mawrion a disymwth yn ei dymorau yw y gwaethaf. Mae hyn mewn rhai gwledydd, lawer gwaith, wedi dinystrio y cnydau yn gwbl. Weithiau, sychder parâus—weithiau, gormodedd o wlaw—a phryd arall, deifiad a brychni (*blight and mildew*) a niweidia y enwd yn fawr. Yr hinsawdd mwyaf dymunol i'r amaethwr yw yr un y caiff dywydd sych i hau, a chynar-wlaw, haf a hydref gwresog, a rhewogydd yn y gauaf mewn olyniad cymedrol. Mae gan uchelder y tir ddylanwad mawr ar yr hinsawdd. Pa uwchaf yr elom, mae'r awyr mewn cyfartalrwydd yn dyfod yn oerach, ysgafnach, a theneuach, ac a llai o swmp o honi yn yr un faint o le. Dyn yn anadlu ar ben Mynydd Blanc ni sugna i mewn ond haner cymaint o awyr ag a wnai yn gydwastad a'r mor; ac y mae'r awyr yn oerach i'r unrhyw gyfartalrwydd. Effeithia hyn ar y bywyd llysieuaid yn gyffelyb ag ar y bywyd anifeilaidd. Ni chynydda gyda'r un bywiogrwydd mewn lleoedd uchel ag y gwna mewn lleoedd isel; a hynny oblegid effeithiau attaliadol oerni a diffyg awyr. Yn gyffredin, mae tiroedd 400 trofedd uwchlwm y mor yn llawn deg diwrnod yn ddiweddarach, ac yn gofyn eu hau gymaint a hynny yn gynt na'r rhai a fyddo yn gydwastad ag ef.

Mae sefyllfa ac ansawdd y wlad hefyd yn effeithio ar hinsoddau. Mae bod gerllaw y mor, yr hwn yw cyfartalwr mawr tymerusrwydd, a chyfryngiad mynyddoedd er tori grym y gwynt, yn gyffredin, yn cymedroli llymder hinsawdd oer. Gwna yr unrhyw achoa hefyd

chwanegu lleithder hinsawdd, canys y mae mynyddoedd yn tynu cymylau ac yn peri gwlau. Hinsawdd yn cynwys cyfartalrwydd cymesur o leithder a gwres yw'r addasaf i lyseuyddiaeth. Gwnaiff yd-gnydau addfedu yn dda mewn hinsawdd laith, os byddir wedi cael tymor sych i hau, a'r tir wedi cael ei ffiethu yn dda, a'i agor fel y gallo lleithder gormodol gael lle i redeg ymaith. Gellir rhagflaenu effeithiau hinsoddau gwlybion trwy ddyhysbyddiad (*draining*) priodol. Gwna hyn gyfranu sychder a gwres i'r tir, ac a wellâ hinsawdd a fyddo yn naturiol oer a llaith; ac ni ellir talu gormod o sylw i'r rhan hon o amaethyddiaeth. Fel y byddo y tir yn cael ei ffiethu ac yn cael ei ddyhysbyddu, mae'r hinsawdd yn dyfod yn sychach, ac yn fwya cyfartal mewn tymerusrwydd. Ond os bydd y gwlybaniaeth yn cael ei oddef i ymgasglu mewn corsydd, a siglenydd, a llynoedd llonydd, cyfyd yn gymylau a niwl er gorchuddio yr haul ac oeri yr awyrgylch. Yn y gwledydd lle mae rhewogydd y gauaf yn faith a llym, syrth trwch cyfatebol o eira er gorchuddio a chysgodi y tir. Oni bai hyn, mae'n debygol, y gwnai llymder yr oerfel ladd y bywyd llysieuaid. Mae'r eira, gan hyny, yn werthfawr iawn fel mantell gauaf i'r llysiau, ac er attal colliant y gwres naturiol o'r ddaear; yr hyn a welir yn amlwg ar doddiad yr eira wedi yr aroso ychydig ar borfaudir.

GWAHANOL FATHAU O DDAEAR (*Soils*).

Mae y pridd neu arwyneb y ddaear, gan mwyaf, yn gynwysedig o fanion a rhanau adfeiliadol creigiau, ac y mae ei ansawdd yn ymddibynu ar natur y defnyddiau a'i cyfansoddant. Mae gwlau, llewyrch haul, a rhew, yn nghyd ag effeithiau symudiadau yr hylifau wybrenol, *ynn cyson chwalu y creigiau*, ac yn rhyddâu mân ronynnau oddiar eu hwyneb, er ffurfio haen o bridd am-ynt ac o'i cwmpas; tra y mae'r afonydd a dyfroedd

rhedegog yn ei ddwyn ymaith i'r gwastadedd islaw. Felly y mae ein dyffrynoedd ffrwythlon a'n dolydd breision yn raddol, yn nghwrs llawer o flynyddoedd, wedi eu cyfansoddi. Prif hanfodion gwahanol fathau o bridd, yw *sand*, *clai*, a *chalch*. Bod yn wybodus o natur y tir, yn nghyd ag o'r dull goreu i'w drin, fel ag i ddwyn allan, a *gwellâu* ei ansoddau, yw yr hyn yn unig a sicrâ elw i'r amaethwr. Mae i ffrwythlonrwydd pob math o dir derfynau, tu hwnt i ba rai ni wna *gwrteithiad* yn unig ei ddwyn yn mlaen. Yr hyn a ddylai yr amaethwr, gan hyny, ei wneud yw, *gwellâu* ansawdd y tir, trwy gymysgu ag ef o'r newydd ansoddau ffrwythlonrwydd yr hyn yr oedd o'r blaen yn ddiffygiol o honynt; megys cymysgiad o *glai* a *marl*, yn nghyd a phridd mawnog a *sandog*, *sialc* a *chlai*, a *chalch* a phridd marlaidd a *lleidiog*. Fel hyn y gellir *gwellâu* ansoddau, a chwanegu ffrwythlonrwydd pob math o dir. Mae'r ddaear yn amrywio yn fawr mewn lliwiau. Bydd un ran agos yn ddu, arall yn wyn, arall yn goch, ac arall yn llwyd, yn ol natur y *gwaelod*, neu y creigiau o ba rai y mae y pridd yn cael ei gyfansoddi. Mae'r ddaear fawnog bob amser yn ddu neu yn llwyd-ddu iawn, tra y mae natur yr haiarn yn ei chochi, a hyny heb leiâu ei ffrwythlonrwydd. Gellir dosparthu y gwahanol fathau dan y penau canlynol, sef: *sandog*, *grafelog*, *cleiog*, *sialcaidd*, *lleidiog*, *mawnog*, a *marlaidd*.

Daear Sandog.—*Sand* pur sydd falurion y graig gallestr, ac y mae ei sefyllfa naturiol y fath na ddeil ddim gwlybanaeth, na chwaith gynyrchu un math o lysiau; ond pan gaffo *clai*, *marl*, neu unrhyw fath arall o bridd a fyddo yn feddiannol ar ansoddau glydiog ei gymysgu ag ef, gellir ei amaethu gyda mantais. Mae amaethwyr Norfolk trwy hyn wedi *gwellâu* eu tir *sandog* a diffryth, a'i wneud yn ffrwythlon rhagorol. Mae tir *sandog*, pan barotöer yn briodol, y *mwyaf toreithog* a ddichon i neb drafod. Mae yn *hawdd ei amaethu*, ac yn *gymwys iawn er dwyn maip i borth*

defaid, ac hefyd i'w droi yn achlysuol yn dir pori. Y cnydau sydd i'w codi ar dir sandog ydynt—maip, cloron (*potatoes*), moron cochion (*carrots*), mangles (*mangel-wurzel*), haidd, pys, meillion (*clover*), a phob math o laswellt. Ond nid yw y fath hyn o dir yn gyffredin yn ddigon cryf i ddwyn gwenith a ffa.

Daear rafelog.—Mae hon yn ei natur yn debyg iawn i'r un o'r blaen, ac yn gofyn yn agos yr un driniaeth. Mae yn gyffredin yn cael ei hystyried yn ddaear wancus. Gan ei bod o ansawdd mor chwalda, mae yn sychu yn union, ac y mae aml gafodydd, yn gystal ag aml achlesiad, yn angenrheidiol er parâu ei ffrwythlonrwydd. Mae yn addas iawn i gloron, maip, a glaswellt hadau; ac yn taro hinsoddau gwlybion yn dda.

Daear gleiog.—Mae clai, neu ddaear glydiog, y fath waethaf ag a all amaethwr ymwneud a hi. Ond fe ellir ei gwellâu yn fawr trwy gymysgu *sand*, calch, *marl*, sialc, a phob math o ddefnydd calchaidd a hi. Llydw, mawn, beili-wrtaith (*farm yard manure*), ysgybion a chraffion ystrydoedd a heolydd, a helaethrwydd o sialc, sydd oll yn dda iawn er ei ysgafnâu a'i ffaethu. A thrwy ddefnyddiad helaeth o'r pethau hyn, yn nghyd a dyhysbyddiad a ffaethiad gofalus, gall y cyfryw ddaear a hon gael ei gwneud yn ffrwythlon iawn. Mae tir cleiog yn aml mor wydn a glydiog o natur, fel y parâ yn wlyb trwy yr haf. Try yr aradr y pridd i fynu yn dywyrch gwydn, fel y mae gydag anhawsdra y gellir eu gwahanu. Mae tir o'r fath hyn yn gofyn llafur ac arian cyn y gellir ei amaethu yn dda; ond fe ellir ei wneud, ac yn gyffredin, gwnaiff dalu yn dda yn y pen draw. Mae y fath yma yn gymwys i ffa, gwenith, ceirch, pys, meillion, efrau, a gwair, ond nid mor addas i'w droi yn dir pori. Ychydig o gloron a maip a godid gynt ar dir cleiog; ond gyda y dull diweddar o dyhysbyddu a diwyllio, gellir ei wneud gyda rhwyddineb.

Daear sialcaidd—a gyfansoddir gan mwyaf o ddefnyddiau calchaidd, ond yn aml yn gymsgedig a syl-

weddau eraill, i raddau mwy neu lai. Pan fo yn gymysgedig a sialc, lawer o glai, a sylweddau priddlyd ereill, mae y tir yn dyfod yn afaelgar ac yn ffrwythlon; ond pan fyldo llawer o *sand* a grafel yn gymysgedig ag ef, mae yn ddiماael ac yn bur ddiffrwyth. Y cnydau a godir ar y fath yma, yn benaf yw, pys, maip, haidd, gwenith, a meillion. A phan y byddo y tir wedi ei weithio allan, gwnaiff wedin gynyrchu gogawr-feillion (*sainfoin*), yr hyn hefyd a'i brasa; oherwydd paham fe'u codir mewn helaethrwydd yn neheudir Lloegr.

Daear leidiog—a gyfansoddir o'r manion goreu o bridd a chlai a olchir ymaith gan wlaw a dyfroedd rhedegog, ac a arosant mewn dyffrynoedd isel, trwy bair y rhed yr afonydd, ac ar y morfeydd, lle y daw y llanw i mewn ac a'i brasa â'i gynyrchion heliaidd. Tiroedd lleidiog sydd yn gyffredin yn wastad, a chyngwrant gyflawnder o laswellt, gwenith, ceirch, haidd, ffa, pys, meillion, ac efrau; ond gan eu bod gan mwyaf yn isel, ac o herwydd hyny yn llaith, dylent gael calch yn achlysurol, a hefyd dylid bod yn ofalus i gadw y ffosydd yn agored.

Daear farlaidd—sydd gynwysedig o glai, *sand*, a sylwedd calchaidd, yn nghyd a chyfran o falurion llysiuaidd, a gellir ei desgrifio yn llai glydiog na chlai, ac yn fwy felly na *sand*. O bob math dyma'r mwyaf dynunol i'r amaethwr. Mae y cwysau yn hawdd eu chwalu, a'r tir yn hawdd ei drin ar bob tymor. Mae yn hawddach ei aredig na thir cleiog, a gwnaiff oddef cyfnewidiadau y tymorau yn well. Gellir ei bori neu ei lafurio bob yn ail, a hyny gyda buddioldeb.

Cors, migwyn, neu *ddaeear fawnog*.—Mae'r fath yma yn cynyddu yn fawr yn yr Iwerddon ac yn Scotland, ac i raddau yn Lloegr, yn enwedig yn y rhanau gorllewinol, o herwydd eu bod yn fwy llaith. Ac y mae lleithder yn angenheidol er cynydd mawn. Meddygol fod mawn, gan mwyaf, wedi cael eu dechreuad yn ninystriad hen goedwigoedd—y coed wedi cael eu

cwympo gan dymestl, neu gan ddadfeiliad naturiol, ac yn cael eu gadael ar y llawr, a orchuddiwyd gan fwswn a llysiau ereill (*lichen*) ; a chan fod rhyddrediad y dwfr fel hyn yn cael ei rhwystro, cyfodai llysiau dyfrol, megys cyrs, brwyn, cors-feillion (*marsh trefoil*), &c., i fynu ; a dadfeiliant, gan adael haen o sylwedd llysieuaid, yr hwn a elwir mawn, ar eu holau. Ac fe gynydda y naill flwyddyn ar ol y llall. Mae tyfiant y llysiau dyfrol hyn yn gyfartal i'r gwlybafiaeth a fyddo oddeutu eu gwraidd, ac y mae dyfneder y corsydd, hefyd, yn cael ei achosi gan yr un peth. Mae y ceuedd yn dal gwlybafiaeth, ac yma y mae y llysiau dyfrol yn cael mwyaf o dwf, ac felly yn raddol llenwir y ceuedd i fynu. Oddi yma gwelwn nad yw y mawn ond sylwedd llysieuaid wedi myned dan wahanol gyfnewidiadau, ac eto heb ei lwyr ddadgysylltu. Mae dwfr yn anhebgorol er cyfansoddiad mawn ; ac fel y byddo y ddaear yn llai neu yn fwy dwr-llyd, mae gwahanol llysiau yn cael eu cynyrchu. Mae mawn yn feddiannol ar ansawdd rwymol, yr hyn a ddeillia mae yn debyg oddiwrth risgl dadfeiliadig coed, a'r mäl (*gum*), a'r rhwsin a gynwysa. Mae yn debyg hefyd fod y llysiau o ba rai y cyfansoddir y gors, trwy offerynoldeb naturiaeth, ag ynddynt sylwedd gwrth-fraenol (*antiseptic*), yn rhwystro eu dadfeiliad eu hunain. Mae llynoedd a phyllau dyfnion mewn rhai manau, wedi eu llenwi i fynu gan gynyddiad graddol y mawn ; ac yr ydys wedi sylwi fod ymweithiad swyfol (*fermentations*) yn digwydd yn y manau hyny. Mae sylwedd hylosg (*gas*) yn cael ei daflu ailan, fel y mae yn afiachâu y gymydogaeth ; ond y mae daear fawnog sech bob amser yn cael ei hystyried yn iachus.

Gwaelod (*sub-soils*).—Yn y dewisiad a thriniad unrhyw o'r gwahanol fathau a enwyd, ni ddylai natur y gwaelod gael ei anghofio, oblegid mae ganddo bob amser *ddylanwad mawr* ar briodoledau cynyrchiol yr wyneb.

Gyda gwaelod bas, y mae yn amhosibl codi moron coch-ion na gwynion, maip na chloron, &c.; canys y mae y

rhai hyn yn wastad yn ymddyfnâu ac yn lledu eu gwreiddiau; ac ni allant dyfu, oni chant ddyfnder daear. Gellid gwellâu basder y tir yn gyffredin, i raddau mawr beth bynag, trwy defnyddio aradr i'r pwrrpas (*sub-soil plough*), er rhwygo a rhyddâu y gwaelod caled. Trwy y gweithrediad hwn, yn nghyd a dyhysbyddiad trwadl yn flenorol, dichon i unrhyw fath o ddaear gael ei gwneud i ddwyn ffrwythau toreithiog. Adnabyddir ansawdd y ddaear weithiau wrth y llysiau a gynyrcha o honi ei hun; ond nid bob amser y mae yr arwydd hwn yn ddiogel; er pa bryd bynag y byddo gormod lleithder yn aros, bydd yn gyffredin yn cael ei ddilyn gan dyfiant brwyn, yr hyn a ddengys fod eisiau dyhysbyddu. Geill anamlder y borfa ddeilliaw oddiwrth waelder y tir, neu oddiwrth ddifyg gwlybanaeth; er mewn tymor gwlyb, geill tir bas a gwael gael ei wisgo a gwyrddlesni, tra y byddo tir cleiog cryf i'r gwrthwyneb. Wrth farnu tir, gan hyny, dyled ystyried yr hin; ac eto ni ddylem yn hollol gymeryd ein harwain gan yr olwg allanol.

GWEITHREDIADAU AMAETHYDDOL

(Agricultural Operations).

Gellir dwyn amaethyddiaeth yn mlaen yn llwyddiannus, yn neillduol ar dyddyn bychan, heb ryw wybodaeth wyddoregawl (*scientific*) anghyffredin, er fod hyn yn gwneud i fynu ran fawr o'r llyfrau a gyfansoddir ar y pwnc; ac yn briodol felly, oblegid mae llawer o bethau buddiol iawn wedi cael crybwyl am danynt gan ddynion o wybodaeth wyddoregawl, pa rai nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth ymarferawl, o amaethyddiaeth; ond ni chaiff yma beth bynag ddim ei arganmol er ei fabwysiadu, ond sydd eisoes yn bro-fedig; fel na byddo achos i'r amaethwr i redeg yr antur am ddim, ond mwynâu y buddioldeb deilliedig oddiwrth y profion helaeth sydd wedi eu gwneud yn barod. Wrth hau tir, dylid ystyried pa faint ydyw y

uwch na'r mor ; oblegid mae gan hyn ddylanwad mawr ar ansawdd y cynyrch. Pa uchaf y lle, arafaf y tyfiant a mwyaf anffrwython y borfa ; ac os yd, bydd y gwellt yn fwy na'r pen, ac ni addfeda cystal nag mor gynar. Yr uchder cyffredin y gellir codi llafur arno yn Mrydain yw o 660 i 800 o droedfeddi uwchlaw y mor ; ond mewn rhai manau, gellir codi haidd a cheirch gweddol ar yr uchder o 900 i 1000 o droedfeddi. Mewn cyfartal-rwydd i wellâd y tir trwy blanigfeydd cysgodfawr, a dyhysbyddiad, mae'r uchder ar ba un y gellir codi llafur yn fwy. Codir cnydau da o haidd a cheirch gerllaw Edinburgh ar yr uchder o 800 troedfedd. Ond yn gyffredin, mwy buddiol fyddai cadw y fath yn dir pori.

Mae'r tir fyddo ar lan dwfr rhedegog yn iachach na'r hwn fyddo gerllaw llynoedd llonydd a hesgog. Oddiwrth ddwfr marw (*stagnant waters*), lle y mae'r awyrgylch yn afiachus, cyfyd tarth afiach ac a ymlusga ar hyd y glen-ydd cyfagos, er niweidio y cnydau yn fawr. I'r gwrth-wyneb, mae dyfroedd rhedegog yn puro'r awyr, ac yn yn fuddiol iawn i'r cnwd ac i'r anifeiliaid. Mae ffordd bell i'r farchnad yn golled fawr i'r amaethwr ; alle byddo y ffordd yn gas, mae ychydig o honi cynddrwg a phe bai un dda lawer yn mhellach. Mae gwerth tyddyn, gan hyny i raddau nid bychan, yn ymddibynu ar rwyddineb a hwylusdra y ffordd a fyddo o'i gwmpas er myned ar cynyrch i farchnad fanteisiol.

Mae gweithrediadau amaethyddol mor amrywiol a lliosog, fel y mae yn angenrheidiol bod yn syr ar bob un o honynt mewn llyfr o faintoli hwn ; gan hyny cynygiwn osod i lawr yn unig y rheolau mwyaf pwysig ac angenrhediol er iawn dresniad tir amaethedig, ac er diwylliant tir diffaith ; yn nghyd a rhywsylwadau a allant yn naturiol gyfodi oddiwrth ein hymdriniaeth. Ond gobeithiwn, er hyny, na esgeulir dim ag a fyddo o bwys i'r amaethwr *i'w wybod, oddieithr rhyw bethau bychain ag y cymerir yn ganiataol fod pawb yn hysbys o honynt.* Gwnawn, *yn y lle cyntaf, rai sylwadau ar dir pori, cyn myned yn*

mlaen i son am ddiwyllio tir gwylt, nag am drin tir arddadwy.

TIR PORFA (*Grass Lands*).

Mae tir porfa o ddau fath, doldir ac ucheldir. Mae y naill yn gwahaniaethu oddiwrth y llall, ac y mae pob un hefyd yn amrywio yn fawr mewn ansawdd, a chynyrch yn ol natur a sefyllfa y lle.

Doldir.—Mae doldir gan mwyaf yn dir isel, ac o gyfansoddiad lleidiog; ac yn gyffredin cynyrrcha gnydau tor-eithiog, ac y mae ei ansawdd fras naturiol yn gwneuthur achlesiad yn llai angenrheidiol nag ar yr uchel-diroedd. Mae doldir, oddiwrth ei sefyllfa isel, yn ddarostyngedig i fod yn grym wlyb; gan hynny, dylid bod yn ofalus am y dyfr ffosydd; ac onide, niweidir y cynyrrch yn ddirfawr.

Mae y rhan fwyaf o wair a ddiféir trwy y wlad yn gynyrch doldir. Lle byddo y nifer ofynol o anifeiliaid yn cael eu cadw, mae'r oll o'r gwair yn cael ei ddefnyddio ar y tir, ac yn dychwelyd drachefn yn achlesiad iddo, er cadw ei ffrwythlonrwydd i synu. Yn y cymydogaethu agos i'r trefydd, gwerthir y gwair ymaith er diwalliant y dre. Yn y cyfryw fanau, y mae yn hawdd cael achles, yr hyn a alluoga yr amaethwr i fod heb wrtaith y beili i'w dir pori ac i'w dir llafur. Pa mor fras bynag yn naturiol y byddo doldir, eto, trwy barâus dori a dwyn ei gnwd oddiarno, gwneir ei hespau ef fel tiroedd ereill, a gofyna achlesiad cysatebol i'r hyn a ddygir ymaith oddiarno. Rhaid fod y ddaear hono yn fras iawn, a rydd yr ail gnwd o wair heb waethyg, oni chaiff ei hadnewyddu, naill ai trwy dail o'r beili neu o'r dref, gwrtraith o bridd neu ludw, calch, *marl*, sialc, neu ryw ddefnyddiau calchaidd ereill; ac ni wna un amaethwr synwyrol oddef ei dir i gael ei hespau selly.

Ble bynag y mae moddion dyfrâu (irrigation) yn *gyflëus*, gellir cadw ffrwythlonrwydd dolydd heb waethyg u dim am unrhyw yspaid o amser, trwy adael i'r dw'

redeg drostynt, os caiff hyny ei wneuthur yn ofalus, a'r tir ei ddyhysbyddu yn briodol, a'i gadw rhag dwfr marw. Ni ellir yn iawn brisio gwerth dyfrâu yn neillduol ar ddoldiroedd lle y mae y fath beth mor gyfaddas; ac y mae i'w ryfeddu na bai yn cael ei arferyd yn amlach, ac na bai pob nant a ffrwd yn cael eu defnyddio i hyn, yn lle eu gadael i redeg yn ofer, gan ddwyn ymaith ddefnyddiau ffrwythloni, yr hyn a ellid mor hawdd ei gyflëu i'r tir. Er fod dolydd yn gyffredin yn cael eu gadael i ddwyn gwair, eto nid anfynych y maent yn cael eu defnyddio er porfau anifeiliaid; ac y mae y cyflawnder o laswellt a gynyrchant yn addas iawn ar eu cyfer. Y maent yn werthfawr iawn yn yr ystyr hyn, yn neillduol ar dymorau o hir sychder.

Ucheldiroedd—gellir cyfrif y rhai hyn yn cynwys yr oll na ddarfu i ni ei nodi dan y pen blaenorol; hyny yw, y cwbl o'r mynyddau a'r bryniau o wahanol uchder, hyd y lleoedd isel a gwastad a elwir doldiroedd. Yn y fath arwynebedd eang ac amrywiol, ceir bob math o dir, a phob math o gynyrch. Y lleoedd uchaf, yn gyffredin, a ddefnyddir er cadw defaid, a'r rhanau ereill na lafurir er cadw anifeiliaid; neu mewn rhai manau, lle y mae amgylchiadau yn rhoi, fe'u cedwir yn wair. Hyn, yn fwyaf neillduol, a gymer le yn gyfagos i dref y byddo gwerthiad da ar wair, a hefyd ddiwalliant rhwydd o achles i'w gael er adnewyddu y tir drachefn.

Cawn ymddiddan eto yn mlaen am randiroedd mynyddig,* ac ni wnawn yma ond yn unig sylwi y byddai yn gamsynied mawr i feddwl nad yw tir porfa, pa un bynag ai uchel ai isel y byddo, yn gofyn unrhyw ofal am dano. Mae cael ei chwynu yn beth mor angenrheidiol i dir pori ac i dir llafur, ac os ei esgeuluso gaiff, bydd y canlyniad i'w ganfod yn fuan yn ansawdd y llysiau a gyfodant ar hyd-ddo.

Os caiff y dom ar ol yr anifeiliaid ei adael heb ei

* Gwel "Diwylliant Porfa-dir Oer," tu dalen 20.

wasgaru, gwnaiff niwed mawr i'r borfa; ond os caiff ei chwalu o gwmpas, gwna frasâu y tir heb niweidio dim ar y tyfiant; neu ynto byddai yn well eto pe'i casglid at ei gilydd i fan cyflëus, a'i wasgaru drachefn dros y cae ar dymor priodol. Mae piswail anifeiliaid yn fuddiol iawn fel achles, ac er cadw i fynu ffrwythlonrwydd y borfa; er y gwnaiff, fe allai ar dymor sych iawn, niweidio y glaswellt yn y fan lle y disgyn; ond ei ansoddau achlesawl yn fuan a redant o gwmpas, a gwnaiff y gafod gyntaf eu cyfrodedd wasgaru. Nid oes un math o achles yn y cymhwysiad o hono at un math o dir a wnaiff effeithio mor uniongyrchol ac y gwna y biswail, neu yr hyn a red allan o'r ystablau, beudai, neu luestai anifeiliaid.

Mae dyhysbyddiad mor angenheidiol i ofalu am dano mewn tir pori ag ydyw mewn tir llafur; canys oddieithr i'r gwlybanaeth gormodol gael ei symud, ni bydd y borfa yn felus, maethlon, na chyflawn. Os bydd brwyn, neu ryw lysiau ereill a fyddo yn hoff o wlybanaeth yn ymdangos, mae yn llawn bryd ymosod yn nghylch dyhysbyddu; oblegid nes y gwneir, yn ofer y disgwyllir am gnwd da o laswellt, porfa, na gwair. Gwelléir pob tir yn fawr, a thir pori yn gymaint ag un, trwy ei wneuthur yn gaeau trefnus. Fe'i gwneir yn fwy cysgodol, a thrwy hyny yn fwy tyfannol. A gwna newid yr anifeiliaid, yn achlysurol, o'r naill gae i'r llall, adnewyddu y borfa, a gwneuthur yr un faint o dir yn abl i gadw chwaneg o honyn nag y gwnai, pe heb ei ranu yn gaeau.

Dylid bod yn ofalus i ddiwreiddio pob chwyn a llysiau neweidiol; megys ysgall, tafol, danadl, &c., ac i ragflaenu tyfiant eithin, drain, banadl, neu ddrysï yn y maesydd, pa rai, a ddylent gael eu cadw yn glir oddiwrth anialwch o bob math. Dylai y perthi gael eu cyson drwsio, a'u cadw o fewn terfynau, fel ag i wneud y tir mor helaeth a rhydd ag y byddo modd, er tyfiant y glaswellt, yr hwn yn unig a gyfansodda ymborth.

anifeiliaid. Os, trwy esgeulusdra a cham driniaeth flaenorol, y bydd y tir wedi ei ddiffaethu gan fwswm na ellir ei ddifa trwy ddyhysbyddiad a chalchiad (yr hyn pa fodd bynag fydd yn bur anaml), gellai fod yn fuddiol ei droi i fynu a'i ddwyn trwy gwrs cyffredin o ffaethiad, nes y byddo yr oll o'r hen donen wedi ei dystrywio, ac yna gosod hadau ynddo, a daw yn fuan i'w le, fel tir pori drachefn.

Mae cymysg-bridd (*composts*), o bob math yn cynwys y moddion goreu er achlesu tir pori; ysgubion heolydd, lludw, carthion trefydd, pridd hen glawdd, ysgwrion ffosydd, crafion ffyrdd, mawn, sialc, *sand*, calch, *marl*, a thail ystablau; cynwysa yr oll ddefnyddiau rhagorol er gwneuthur cymysgiad i'r pwrrpas; ac wedi ei drwadl gydgorphori neu delfysgu, a'i wasgaru ar hyd y tir, ymsudda yn fuan i'r ddaear, gan ymgeleddu a chryfâu y gwreiddiau. Gwell fyddai rhoddi ychydig o'r cymysgedd hwn i'r tir bob blwyddyn, na llawer o hono yn anamlach; a hyny fyddai y drefn oreu ar bob math o achlesiad yn gyffredinol. Ar ol gwasgariad yr achles, dylai y tir gael ei lyfnu a drain; a'r ceryg, y coed, a phob ysgarthion ereill gael eu clirio ymaith yn ofalus. Ac os doldir, neu os bydd y cae yn cael ei fwriadu at wair, dylai gael ei rolio a rholbren drom, er ei wastadâu. Gwna hyn gynyddu tyfiant y glaswellt; a gellir ei dori yn glosach na phe buasai heb ei rolio.

Y GLASWELLT CELFYDDYDOL.

Ni ellir dwyn amaethu yn mlaen yn iawn, lle na byddo glaswellt celfyddydol yn cael eu gwrtieithio; oblegid nis gellir cael cylchyniad priodol o gnydau hebddynt; na chwaith ddiwalliant achles er ateb *angrenrheidiau* y tir.

Meillion a rhyg-wellt (*rye grass*), yw y prif laswellt celfyddydol a ddefnyddir yn Mrydain. Maent yn

gofyn fod y tir mewn ansawdd dda, ac fe'u heuir yn gyffredin gydag yr yd mewn braenardir ar ol cnwd o faip, cloron, neu *fangles*. Wrth ddewis had meillion, gofaler ei fod yn lan oddiwrth bob cymysgydd o hadau ereill, pa rai yn y canlyniad a ddichon egino a thyfu i fynu yn llysiau niweidiol. Gellir yn hawdd adnabod had meillion cochion, gwynion, a melynion oddiwrth eu gilydd. Y ddau olaf ydynt laswellt porfaol am flywyddyn; y llall am ddwy flynedd ac yn tyfu yn dalach ac yn rhoncach. Mae dau fath o ryg-wellt, yr Italaidd, ar un blwyddol cyffreddin; ac nid oes nôd neillduol wrth ba un y gellir eu gwahaniaethu. Dylai yr amaethwr, gan hyny, brynu ei hadau gan fasgnachwr cyfrifol, er gochelyd camgymeriad yn nghylch hyn. Pan na fwriedir gadael y tir ond dwy neu daир flynedd heb ei dori, mae y rhyg-wellt Italaidd yn well, gan y rhydd gnwd mwy toreithiog na'r un cyffredin; ond er bod yn dir pori arosol, yr olaf ddylai gael y flaenorriaeth. Pan heuir tir a meillion gwynion a rhyg-wellt, er bod yn hir heb ei dori, gwnaiff y mesurau gofynol o had amrywio ychydig. Y tir tlotaf a ofyna fwyaf. Ni ddylai meillion gwynion gael eu hau ond mewn tir wedi ei fwriadu i fod yn borfa arosol, i ba un y maent yn gyfaddas iawn; ond gwastraff fyddai gwneud felly a'i lafurio bob yn ail. Nid yw meillion cochion mor addas i'w pori, er yn eu lle priodol; ac er gwrteithio y tir nid oes dim o'u gwell mewn amaethyddiaeth gylchynol, ac ni ellir yn ormodol gefnogi y defnyddiad o honyt. Mae meillion melynion yn fwy parâus na rhai cochion, ond nid cymaint felly a'r rhai gwynion; ac nid ydynt mor flasus gan yr anifeiliaid.

Mae hadau meillion a glaswellt yn cael yn achlysuol eu hau gyda phob math o lafur; ond gyda haidd y deuant yn inlaen oreu. Mewn lleoedd uchel, lle ni thyf haidd na gwenith, gellir eu hau gyda chêwch. Mae ansawdd y tywydd, y tir, a'r dull o hau yn effeithio yn fawr ar gynyddiant y cnwd. Mae tir garv

anwastad ar yr wyneb yn gofyn mwy o had nag un llyfn. Os bydd y tywydd yn wlyb yn amser rholio yr hadau, byddant yn debyg o lynu wrth y rholbren. Dylid eu hau ar dywydd tawel, os bydd yn bosibl; a dylai yr amser gael ei reoleiddio gan yr amser yr hauwyd y llafur, neu unrhyw bryd yn Mawrth, Ebrill, neu Mai.

Gwnaiff meillion gwynion a rhyg-welt blwyddol cyffredin, os c'ant eu cymysgu a'u gwrteithio yn briodol, sefyll o hyd yn uchel fel ymborth maethlon ac iachus i anifeiliaid. Trwy offerynoliaeth y glaswellt hyn, mae llawer dernyn helaeth a gwael wedi ei wneud yn borfa fras, a chynyrch y llaethdy trwy hyny wedi ei chwanegu yn fawr. Calch yw yr achles a ddefnyddir yn benaf; ac y mae y defnyddiad o hono yn gwellâu y tir, ac yn ei gyfaddasu at ansawdd y llysiau. Ac yn wir, mewn arloesi tir gwylt, ac mewn darpariad o feillion gwynion a rhyg-welt yn borfa, ni wna y defnyddiad mwyaf helaeth o unrhyw achles arall heb galch bob amser, sicrâu tyfiant llwyddiannus.

Gwneir defnydd o daeniadau arywynebol o ddeutu Edinburgh yn awr mewn helaethrwydd er cynyrchu cnydau o ryg-welt a meillion gwynion. Defnyddir llawer iawn o huddygl; ac y mae yn effeithio yn mhob man er prysuro y cnwd. Gwneir defnydd helaeth hefyd o wrtaith gwlyb; ac y mae y biswail yn cael ei gasglu yn ofalus i'r diben o'igymhwys o'r tir. Mae gwrtaith gwlyb yn llawer hwy ei effaith na huddygl, ac yn debyg o fod yn taro meillion yn well. Mae halen y graig (*saltpetre*) hefyd yn cael ei ddefnyddio yn achlysurol, ac y mae yn wrtaith rhagorol er wyneb drwsio glaswellt hadau. A thrwy ddefnyddiad synwyrol o'r fath foddion a hyn, y galluogir amaethwyr yr Iseldiroedd (*Netherlands*) i godi y fath gnydau toreithiog ac i gadw i fynu ffrwythlonrwydd *y tir am gyhyd* o amser.

Pan fyddo y glaswellt paraol yn cael eu tori yn isel yn yr hydref, ni chodant yn y gwanwyn gyda'r fath

fywiogrwydd; oblegid darfod eu hymddifadu o'r rhanau hyn y a gynwysai y nodd angenrheidiol er cynyrchu tyfiant cynarol. Ac yn y gwanwyn hefyd, pan dorir y blagur cyntaf yn glos iawn, ni thyf y borfa yn y canlyniad mor fywiog, ac ni ymuniawna trwy yr holl dymor, fel y buasai yn gwneud pe cawsai dyfiant da cyn dechreu ei bori, a pheidio ei bori wedin yn rhy isel.

DIWYLLIANT TIR PORI OER.

Mae llawer darn o dir oer a gwael yn Lloegr ac yn Scotland, a mwy fyth yn yr Iwerddon, a ellid ei ddwyn heb ryw draul fawr o dan amaethiad manteisiol er ei llafurio, ac yn neillduol er ei bori. Mae llawer eisiores wedi eu wneud gyda golwg ar hyn, ac yn troi allan yn dda; ond y mae llawer eto i'w wneud cyn y dygir yr oll o'r fath diroedd i'r ffrwythlonrwydd hyn y ag y gellid eu dwyn. Mae tiroedd o'r fath hyn yn gyffredin yn gorwedd mewn sefyllfa oerllyd ac uchel, ac yn agored i wyntoedd llymion. Pan fyddo tir yn seyll yn uwch na rhyw uchder penodol, ni ellir yn fanteisiol ei amaethu. Mae yr awyr yn y fath uchder yn rhy deneu, ac yn ymddifad o'r rhinweddau gofynol er dwyn yn mlaen y tyfiant i'r graddau angenrheidiol o fywiogrwydd; ac y mae y ddaear oreu yn yr uchder hyn o ganlyniad yn anghymwys i'w hamaethu. Gellir dyweud fod tir yn amaethedig yn Mrydain yn yr uchder o 800 i 1000 troedfedd uwchlwm y mor; ac er diwylliant tir or uchder hyn, y peth cyntaf yw *cysgod*, ac yn nesaf *dyhysbyddiad*. Dylai gael ei gysgodi trwy berthi a gwregys o goed; a dylid defnyddio moddion er dwyn ymaith unrhyw ormodedd o ddwfr. Mae y rhagosodiadau hyn yn hanfodol angenrheidiol, ac oddieithr iddynt gael y sylw priodol bydd y fath diroedd uchel yn ddiwerth, mewn cymariaeth, i'w pori nag i'w llafurio.

Os na bydd cysgod i'r anifeiliaid a borant ar y fath rosdiroedd uchel, o braidd y bydd y rhywogaethau

caletaf fyw; ond wedi gosod perthi a phlanigfeydd arnynt, caiff awchlymder yr hin ei dymeru, ac oerder y bryniau noeth, mewn cymariaeth, ei gyfnewid am gysur a chynesrwydd. Gwna cloddiau a phlanigfeydd felly effeithio, fel pe bai, er lleiâu uchder tir uchel ac oer; ac fel y byddo yr anifeiliaid yn cael eu llesâu, tardda y borfa yn fwy rhywiog a maethlon.

Mae profiad pob porfawr yn cadarnâu yffaith, fod defaid a gwartheg yn dyfod yn mlaen yn well ar diroedd cysgod-fawr nag ar diroedd eraill, hyd yn nod pe byddai y ddau o'r un ansawdd.

Mewn ffurfio gwregys o goed, byddai gwyr gemiad achlysurol yn well na llinell hir union: rhoddai fwy o gysgod; a byddai y tu allan yn llai agored i'r gwynt; a gwnai hefyd harddach ymddangosiad. Camsyniad mawr mewn gwneuthur planigfeydd er cysgod, i'w eu gwneud yn gulion: byddai o 60 i 100 lath yn well na llai. Condemnir y caeau yn Lloegr, weithiau fel yn rhy fychain gyda golwg ar lafurio. Gall hyn fod yn wir mewn llawer o amgylchiadau, ond er bod yn dir pori, gwell yw eu bod yn fychain. Mae y porfawyr yn Lloegr wedi cael allan y gwnaiff pump cae o ddeg erw bob un, gadw cynifer o anifeiliaid ag y wnaiff un cae o dri ugain erw.

Wedi i diroedd oer ac uchel gael eu gwellâu trwy blanu a dyhysbyddu, y dull i'w trin yn y canlyniad sydd yn nesaf i sylwi arno. Y driniaeth oreu yn gyffredinol at dir o'r fath hyn, yw taenu calch ar hyd ei wyneb, yr hyn sydd ac effaith neillduol ynddo, er difetha y gwellt garw, ac er dwyn cnwd o feillion gwynion a melus-wellt ereill yn eu lle. Ac nid hyn yn unig yw y buddioldeb a ddeillia oddiwrth daeniad calch ar hyd yr wyneb; ond y gwreiddiau rhestog a gafaelgar hynny, y rhai yn aml a gadwant y tir mewn sefyllfa ddi-frwyth, a chwelir ac a wneir yn wrtaith cymwys er amaethu y tyfiant. Ac yn wir, pob math o dir lle mae natur surni neu sylwedd haiarnaidd (ferruginous salts),

y mae calch yn anhebgorol angenrheidiol er dyfod ag ef i ansawdd ffrwythlon. Gwnaiff *marl* a sialc weithredu yn gyffelyb i galch. Ond y mae *marl* yn llai effeithiol na chalch, a sialc yn llai effeithiol na *marl*.

O daenu calch, *marl*, neu ryw ddefnyddiau calchaidd ereill ar hyd wyneb daear oerlyd, lleddir y mwsym a phob llysiau geirwon ereill; a chnwd braf o feillion a llygaid-y-dydd a gyfyd yn naturiol yn eu lle. Mae hyn wedi ei brofi lawer gwaith mewn llaweroedd o fanau. Ac os oes rhyw rai o'r cyfryw dyddynwyr yn agos i'r calch, hwynt hwy eu hunain yn unig sydd i'w beio os ydyw eu tiroedd yn parâu yn ddiffrwyth.

Mewn rhoddi calch i dir wedi ei gae i mewn, yr hwn yn gyffredin a orwythir a phob math o wellt garw, dylai fod bob amser yn rheol i roi cyflawnder o hono, a hyny newydd ei yslacio. Os wedi hen yslacio, ni bydd mor rymus yn ei effeithiau er dysfetha y surni a'r gwreiddiau drwg, a phe celai ei wasgaru pan yn frwd. Ni wnaiff y calch yn unig, bob amser, wellâu rhosdir basaidd. Mae daear o'r fath hyn yn gofyn cymwysiadau maethol yn gystal a chymelliadol; a gwasgariad o bridd a chalch, neu ynte o bridd da yn unig, a wna yma gyffelyb effeithiau ac a wna calch ei hun ar diroedd trymach. Gwasgariad o glai, neu *sand*, neu gymysgiad o'r ddau, fyddai yn fuddiol iawn i rosydd uchel, lle y byddai calch a *marl* yn anghyraeddadwy. Mae y defnyddiau hyn yn effeithiol iawn er lladd y mwsym a gwellâu y borfa, a phe'u rhoddid yn y cyflawnder o fodfedd o drwch, gwnai gynyrchu porfa felus, a gwneuthur y tir yn addas i dderbyn, gyda buddioldeb, yr hyn a ddisgynai oddiwrth yr anifeiliaid, pa rai y byddai yn awr yn abl i'w cynal.

Mae darnau helaeth o ddaear uchel a gynyrcha yn eu sefyllfa naturiol borfa felus, yr hon, fe allai, a ystyrir mor dda fel nad yw yn gofyn dim gwelliant; ond ni thâl unrhyw ddarn o dir yn well am ei drin na'r fath yma. Triniaeth arwynebol o galch, *marl*, o galch a phridd, neu galch a mawndir, wna wellâu tyfiant y fath

yma o dir yn fawr iawn. Ac y mae cymysgiad o galch a mawndir yn llesiol iawn i dyfiant meillion, a mathau ereill o laswellt byrion a melus; a thrwy ei ddefnyddio, cynysgaeddir y tir a thueddrwydd i gynyrrchu y cyfryw, yn lle gwelt garw, surllyd, a dirinwedd.

Pe gosodid mawndir newydd yn domen ar ei ben ei hun, fe'i dygid yn fuan i sefyllfa friwsionllyd, yn addas iawn i'w wasgaru ar hyd wyneb tir oer a chleio, yn enwedig os byddai wedi ei lenwi a biswail gwartheg, neu ei gymysgu a thail, *marl*, *sand*, neu galch. Os bydd y tir wedi ei ddyhysbyddu yn dda yn gyntaf, gwnaiff brwyn, grug, a chwyn ereill gilio yn hollol ar daeniad digonol o galch, neu gymysgiad o galch, *marl*, pridd, neu fawndir ar hyd yr wyneb.

DIWYLLIANT TIR SIALCAIDD.

Mae helaethrwydd go lew o dir sialcaidd yn siroedd deheuol Lloegr, yr hwn ni chynyrrcha yn bresenol ond porfa wael a phrin i ddefaid; ond gellid trwy driniaeth briodol ei wneud yn abl i ddwyn cnydau da. Y dull cymwys i effeithio gwelliant ar y fath dir, raid o gwrs ymddibynu i raddau mawr ar sefyllfa yr wyneb, ac ar ddyfnder a sefyllfa y pridd sydd yn gorwedd ar y sialc; ond gwnaiff y cyfarwyddiadau a ganlyn y tro yn gyffredinol, a gellid gyda phwyll eu cymhwys o bob achos neillduol.

Os hen dir pori heb ei dori erioed, neu ynte er ys llawer o flynyddoedd yw yr wyneb, y dull goreu i wneud ag ef, yw ei ddigroeni mor deneu ag y byddo yn bosibl yn yr hydref, ac yna ei aredig a'i ddynoethi i rew y gauaf, fel y lladder y pryfed yn nghyd a'u hwyau, a'i adael felly hyd oni chyfodo chwyn y gwanwyn, ac yna buarthu defaid ar hyd-ddo. Yn Mai neu Mehefin, yn ol *ansawdd y tywydd*, paratöer y tir at faip i'w bwyta *ar y tir yn yr amser arferol*; ac yna yn y gwanwyn dyfodol hauer ynddo geirch a hadau; ac ar ol tori y ceirch,

taener ar hyd yr hadau yn mis Hydref neu Tachwedd drwch tew o sialc. Porer yr hadau y flwyddyn gannol, gan fuarthu defaid ar hyd-ddynt, ac yna gellir cael cnwd o wenith. Buarther y sofi-wenith drachefn a defaid; ac yna ardder hi i fynu. Y digroeniad o'r blaen, wedi cael ei gasglu ar ei gilydd a'i gymysgu ag unrhyw wrtaith bynag a allesid grynnöi yn nghyd, a fydd erbyn hyn yn barod i'w ddefnyddio at gnwd o faip drachefn; ac yna bydd y tir mewn cywair dda, ac ni ofyna ond yn unig triniaeth reolaidd.

Wrth ddewis sialc at wrtaith, dylai y pwll gael ei agor mor agos ag y gellir i'r tir lle y mae y sialc yn cael ei ddefnyddio; a gellir ei gywain naill ai mewn certwyni, neu mewn cewyll ar gefnau mulod; ond dylid gofalu fod y sialc o ansawdd dda. Gellir sicrâu hyn trwy fod yr un da yn dyferwi yn fywiog, ac yn toddi, neu yn holol feddalâu mewn finegr. Os na wna hyn, ni etyb y pwrpas; rhaid ei geisio yn rhyw fan arall.

Os yw yr wyneb yn gleiog ac yn wydn, ni ellir disgwyl cael cnwd, hyd nes y byddo y tir yn gyntaf wedi cael ei drwadl wrteithio a sialc da. Os bydd yr wyneb yn denau ac yn galed, ni wnaiff defnyddio sialc yn unig ddim o'r tro; ond rhaid rhoddi iddo gymaint ag a ellir ei hebor o wrtaith y beili. Os bydd yn cynyrchu cnydau toreithiog ar ol yr ail gwrs o amaethu, gellir ei ddwfn-aredig gyda chanlyniadau da. Os bydd yr wyneb yn cael ei orchuddio gan eithin, rhedyn, a manwydd, ac nid a mawn, dylai diwylliant gael ei ddechreu gyda cheibio y tir, a'i hau a hadau; a chyn y caffo un cnwd yn rhagor ei ddodi ynddo, dylid taenu sialc drosto. Yn y gwanwyn dyfodol, buarther defaid arno; ac yna gosoder maip ynddo; ac wedin canlyner y cyfarwyddiadau uchod. Dylai y manwydd, y rhedyn, yr eithin, &c., gael eu casglu yn nghyd, ac yn mis Mai neu Mehefin ei llosgi, a'u lludw gael ei denu ar hyd wyned y maip.

DIWYLLIANT TIR CLEIOG.

Mae yn anhawdd iawn gosod allan y dull goreu i wellâu tir cleiog mewn byr eiriau; oblegid fod ansawdd y clai yn gwahaniaethu cymaint mewn gwahanol fanau; ac a chymaint o neillduolrwydd yn perthyn iddo, fel y mae weithiau ddarnau o'r un cae yn gofyn triniaeth wahanol. Gan hynny ni wneir yma ond sylwi ar y prif reolau, a gadael i brofiad i lywyddu y dull o'u harferyd.

Y peth cyntaf tuag at wellâu tir cleiog, raid fod perffaith ddyhysbyddiad o bob dwfr arosol a tharddiadol. Ar ol i hyn gael ei wneuthur yn drwadl, dylai gael ei ddwfn-aredig a'i adael felly yn agored, i gael ei chwalu gan rew y gauaf a haul yr haf, ac yna ei hau ag efrau i'w pori trwy fuarthu defaid ar hyd-ddynf, yn ol fel y byddo y tywydd ac ansawdd y tir yn caniatâu. Ac yn ganlynol dylai gael ei aredig er gosod gwenith ynddo mor fuan ag y gellir. Ac os gellir cael calch i daenu dros y gwenith, goreu yn y byd; onide gwnaiff tywod y mor, mawndir, lludw, neu sialc y tro; a gadewir detholiad yr achles i ystyriaeth yr amaethwr yn ol amgylchiadau y lle. Dylai cnwd o erfin ganlyn y gwenith, ac i'w bwyta trwy gorlanu defaid ar hyd-ddynt; ac yna cnwd o ffa, ac wedin ceirch a hadau.

Dylid bod yn ofalus iawn i beidio damsang tir cleiog pan yn wlyb, ac hefyd i ddefnyddio pob moddion i'w gadw yn agored, ac i ryddâu ac ysgafnâu ei glydrwydd gymaint ag a ellir. Ac ar dywydd sych iawn, hefyd, dylid gofalu ei gadw rhag briwsioni gormod; canys y mae gormodedd o freuder yn agos cynddrwg a gormodedd o wydnedd.

Gyda gofal priodol a thriniaeth reolaidd, gellir gwneud y fath yma o dir yn bur ffrwythlon; a gwnaiff dalu yn dda am ei amaethu.

DIWYLLIANT TIR GWYLLT.

Os bydd y tir fyddo yn cael ei ddiwyllio yn dir oerlyd, gwlyb, cerygog, neu rafelog, a bas, megys y mae yn bod yn fynych, dylai yn gyntaf gael ei rigoli yn bumtheg modfedd o ddyfnader gan gadw y pridd goreu yn uchaf a thaflu y ceryg ar yr wyneb. Ni wnaiff llai na phumtheg modfedd o ddyfnader y tro. Er arbed traul a thrafferth, ceiswyd gwneud a llai lawer gwaith; a byddai y tir yn troi allan yn ddiffrwyth a dyfrllyd pan y buasai pedair neu bump modfedd yn chwaneg o ddyfnader yn ateb y pwrpas i'r dim.

Unrhyw ddaear yr hon fe allai a drinwyd am lawer o flynyddoedd i nemawr o ddim defnydd a ellid ei gwellâu yn fawr trwy ei dwfn-aredig a rhyddâu y gwaelod caled. Mae y rheswm o hyn yn amlwg: treiddia y gwallaw trwy y pridd, hyd oni chyrhaeddo y gresten galed sydd yn y gwaelod, yr hon a'i hattal i fyned yn mhellach, tra y byddo y dwfr yn cael ei ddal felly, cadw yr wyneb yn wlyb, oer, ac anffrwythlon. Pa ddyfnaf, gan hyny, y caffo y gresten galed hon ei rhyddâu, mwyaf fydd y cynyrch; a hyn yw yr achos fod daear ddofn bob amser yn fwy ffrwythlon na daear fas. Gan hyny, mae yn angenrheidiol cloddio trwy yr haen galed a geir yn gyffredin yn ngwaelod tir drwg, naill ai trwy rigoliad dwfn, neu ynter trwy ddwfn-aredig. A lle nis caiff hyn ei wneud yn drwadl, pair i'r amaethwr achwyn ar dir oerlyd a chnydau drwg, ac ar yr angenrheidrwydd o achlesu yn amlach na'i gymydogion; yr achos o hyn yw fod y gresten galed sydd yn y gwaelod yn dal i fynu y dwfr gwallaw, ac yn cadw y pridd yn oer ac yn wlyb; ond pe celai hon ei rhwygo, sychai a ffrwythlonai y tir. Eto pa sawl engraift sydd yn y rhai ni wnaed dim tuag at ryddâu y gwaelod, er yr achwynir yn barâus ar waelder a diffrrwythdra y tir.

Pan rigolir y tir, dylai y ceryg gael eu gadael am dro ar

hyd yr wyneb, er cydgorpholi y tir, ac er pydru y tywyrch a drowyd i lawr. Yna casgler hwynt, a defnyddier y rhai lleiaf i lenwi y cwterydd, a'r rhai mwyaf er gwneuthur cloddiau o gwmpas. Os bydd rhai o honynnt yn rhy fawrion i'w symud, gellir yn hawdd eu darnio, trwy, yn gyntaf gloddio o'u hamgylch, ac yna cyneu tan arnynt pan fyddo gwynt digonol i wneud iddo losgi yn fywiog, ac i chwythu ymaith y lludw; yna ni fyddant yn hir cyn holtti a chwynnpo ymaith yn ddarnau. Gellir briwio ceryg mawrion fel hyn gydag ychydig draul a thrafferth. Rhaid i'r tir weain gael ei ffurfio yn rynau cefn-uchel, deunaw trodfedd o led, gyda rhych rhwng pob un, fel y gallo y dwfr redeg iddi, ac fel y dyger ef ymaith heb yspeilio dim o'r pridd. Yn y gwanwyn gellir gosod cloron mewn tir a fyddai fel hyn wedi ei barotöi; ac yn ganlynol, gellir gwasgaru cymysgedd o bridd, mawndir, *sand*, calch, neu *farl* ar hyd-ddo, ac yna gosoder ceirch ynddo. Y drydedd flwyddyn gellir ei achlesu, a phlanu cloron ynddo drachefn, neu *ynt* ei hau a maip, neu a *mangles*; a'r flwyddyn ganlynol a cheirch a hadau; ac yna daw i gwers rheolaidd, a bydd yn gystal tir ag un fyddo yn naturiol lawer yn well.

Mae tir corsog, mawnog, neu fwswmog, yn cynwys mwy o ddefnydd llysieuaid nag unrhyw dir arall, a phan ei trinir yn briodol, daw yn bur ffrwythlon. Y beth cyntaf ddylid wneud a thir corsog ac anwastad, yw ei ddyhysbyddu yn dda, yna ei wastadâu, trwy dafu y cnyciau geirwon i'r pantau dyfrllyd, ac ar ol hyny ei ffurfio yn rynau cefn-uchel, deunaw trodfedd o led, a gadael rhych trodfedd o ddyfnder rhwng pob grwn, fel y gallo y dwfr redeg ymaith. Os bydd yno chwaneg o dywyrch na fydd eisiau i lenwi y pantleoedd, casgler hwynt yn nghyd, a phan ddelont ddigon sych, llosger *hwynt*, er gwrteithio y tir. Gwna cors ddu roi llawer *iawn o ludw da*; a gellir felly ei llosgi i fuddioldeb; *ond y mae y gors goch yn dynerach*, ac yn fwy masn,

ac ni rydd braidd ddim lludw, a'r hyn a rydd mor ysgafn fel y gwna yr awel leiaf ei wasgari.

Mae digroeni a llosgi tir yn cael ei anghymeradwyo gan amaethwyr yn gyffredin; ond gyda golwg ar gors a mawndir, grug, ceden, a phob gwellt garw, yn nghyd a'r wyneb o bump i chwech modfedd o ddyfnder, gellir eu llosgi er gwrteithio gyda buddioldeb. Wedi eu llosgi, dylid gosod y lludw yn domen gyda'u gilydd, a'i or-chuddio a thywyrch hyd oni byddo yn cael ei wasgari.

Mae calch, *marl*, a thywod y mor, bob amser yn gwellâu tiroedd o'r fath hyn, trwy chwalu a chydgy-mysgu a'r defnydd llysieuog garw a surlyd a'u cyfansoddant; a thrwy hyny wneuthur y tir yn fwy ffrwythlon, ac yn fwy sylweddol; ond ni ddylid cyfrif fod daear fwswmog wedi cael ei chwbl amaethu hyd oni byddo yno drwch da o glai, grafel, *marl*, neu ryw fath o bridd, o dair i chwech modfedd o ddyfnder, a thaeniad arwynebol o galch neu *sand*, yn nghyd a ddyhysbyddiad trwadl, er dwyn ymaith bob gormodedd o ddwfr.

Yn y gwanwyn, wedi parotöi y *tix* fel hyn, gellir ei dyllu, a phlanu cloron ynddo; a gosod ceirch ynddo yr ail flwyddyn, gyda neu heb ei achlesu, fel y byddo ansawdd y tir. Y cnwd nesaf ddyllai fod maip, cloron, neu *fangles*: ei achlesu wedin a *sand*, *marl*, neu galch, os gellir; ac yna gosod haidd a hadau ynddo, a'i rolio yn dda yn y canlyniad. Rhydd hyn yr ail flwyddyn drwch o laswellt, yr hwn a ellir, ar ddiwedd yr haf, ei dori yn wair, neu ynte gellir ei borigan ddefaid neu loi. Dylid cadw anifeiliaid mawr rhag myned iddo, gan y byddant yn debyg o feddalâu y tir. Ar ol dwy flynedd o borfa, gellir gosod ceirch ynddo drachefn, ac yn gan-lynol cloron neu faip, ac yna bydd y tir yn addas at unrhyw bwrpas, os caiff ei gadw yn sych a'i achlesu yn briodol.

Wrth ddiwyllio rhyw helaethrwydd mawr o dir gwylt, dylai gael ei ranu yn gaeau cyfatebol i faintioli y tyddyn, ac i gylchyniad rheolaidd o gnydau. Dylai y caeon

oll fod yn ysgwar; oblegid mae wedi ei brofi, y gwnaiff pump aradr mewn caeau ysgwar aredig cymaint a chwech mewn rhai heb fod felly; ac y mae hefyd lai o dir yn myned yn ofer gyda yr ymylau.

DYHYSBYDDIAD.

Dyhysbyddiad yw un o'r gweithrediadau mwyaf pwysig ac angenrhreidiol mewn amaethyddiaeth, a phan ei dygir yn mlaen yn iawn, mae iddo yn wastad ganlyniau da. Arwyddion arbenig o eisiau dyhysbyddiad mewn tir llafur, yw, pan fyddo y enwd yn tyfu yn gryf ar gefn y grynnau, ac yn wan ar yr ochrau, ac ychydig neu ddim yn y rhychiau. Pan ganfyddir hyn, dylid myned yn nghyd a dyhysbyddu y tir mor gynted ag y gellir; heb hyn ni wnaiff byth gynyrchu yn dda. Ni wna unrhyw draul na thrafferth mewn amaethu dalu ei ffordd i'r tyddynwr hyd oni chaffo y tir ei ryddâu oddiwrth y gormodedd gwlybafiaeth, pa un y mae yr arwyddion uchod yn ddangosiaeth o hono. Hyd oni wneler hyn, ni fydd unrhyw wrteithiad ond ofer; oblegid caiff ei ansoddau ffrwythlonawl eu dystrywio a'u dwyn ymaith yn uniongyrchol.

Yr un yw yr effeithiau pa un bynnag a'i o'r ffynnonau isod, neu o'r awyr uchod y deillia y gwlybafiaeth; ac y mae yn rhaid i'r gormodedd o hono gael ei symud trwy ddyhysbyddiad, cyn y byddo y tir yn abl talu am ei drin. Os ymddengys ffynnonau ynddo, rhaid eu cadw i lawr o'r wyneb trwy gwterydd dyfniön, wedi eu llenwi i fynu a cheryg man o un-ar-bumtheg i ddeunaw modfedd yn y gwaelod, a gosod tywyrch teneuon ar eu hwyneb er attal y pridd i fyned i lawr rhngddynt; ac yna llanwer hwynt i fynu yn gydwastad a'r wyneb, gan gymeryd gofal fod o un-ar-bumtheg i ddeunaw modfedd o ddaear zwchlaw y ceryg, fel na byddo aredig yn niweidio y dyhysbyddiad. Hwn yw y dull mwyaf cyffredin o ddyhysbyddiad, a hwyaf ei barâd; ond defnyddir pridd-

lechau (*tiles*), a ddefnyddiau ereill yn aml. Er mor belled ag y byddo rhydd fynediad i'r dwfr yn cael ei sicrâu, gan adael yr wyneb yn sych er ei amaethu, nid yw ond ychydig wahaniaeth pa fold y caffo ei gyflawni.

Byddis yn dyhysbyddu ambell diroedd cleiog gwydn weithiau a drain, trwy dori rhigol cul o ddeutu tair troedfedd o ddyfnder gyda chafniad bychan yn y gwaeldod; yr hwn a lenwir a gwellt o ben bwy gilydd, a drain dros hyny wedin; ac yna llenwir y rhigol i fynu. Ni wna y dull hwn o ddyhysbyddu gostio ond ychydig, ond fe barâ amryw o flynyddoedd; ac mewn clai gwydn, fe allai, y bydd y defnyddiau hyn yn barotach i ollwng y dwfr rhynghdynt na dyhysbyddiad pridd-lechawl. Ond ble caffo y tir ei bridd-lech ddyhysbyddu unwaith yn dda, fe barâ byth; ond fe bydra y drain yn mhen pumtheg neu un-ar-bumtheg o flynyddoedd; ac yna bydd rhaid gwneud y cwbl o newydd. Wrth lenwi pob cwterydd, pa fodd bynag y byddant wedi eu gwneud, dylid gofalu i ddefnyddio y rhanau ysgafnaf o'r hyn o daflywyd i fynu i'r dyben fel y byddo yn hawddach i'r dwfr i gael ei ffordd i redeg ymaith. Y rhanau trymaf o'r pridd a ellir wasgaru ar hyd yr wyneb, yn mha le y gwnaiff yr awyr yn fuan ei chwalu. Mae hyn yn neildduol angenrheidiol i sylwi arno mewn dyhysbyddu tir cleiog a gwydn.

Mae dulliau ereill o ddyhysbyddu yn cael eu harferyd mewn gwahanol ranau o'r wlad. Mae pob dull, y mae yn debyg, yn ateb i amgylchiadau y lle ac yn effeithiol i'r pwrrpas: oblegid os ceir rhydd ollyngiad i ddwfr yr wyneb ac i ddwfr y ffynnonau; nid yw o nemawr wahaniaeth, oddieithr ar gyfrif y draul, pa fodd y dygwyd hyn oddiamgylch, gan dybied fod o leiaf un modfedd ar bumtheg o bridd ar wyneb y rhigol i'r perwyl o amaethu. Dylid hesyd, bod yn ofalus ar fod dwfr yr wyneb yn cael ei ddwyn ymaith trwy ffosydd agored, pa rai ddylai bob amser gael eu cadw yn lan. Dylai pob gollyngle, a phob dwfr-redfa gael eu glanau.

unwaith yn y flwyddyn o leiaf. Os ydyw y ddaear yn fas, mae y gwaelod fel rhyw gronfa, neu gadwfa yn cadw yr oll o'r dwfr, y feddyginaeth yn y fath sefyllfa, yw cloddio i lawr trwy y fath attalfa, ac felly gwneud ffordd rydd i'r dwfr i redeg yn ddyfnach.

Pan fyddo y dwfr yn aros, ac yn gorchuddio yr wyneb, ei ddygiad ymaith trwy ffosydd agored a elwir yn arwynebol ddyhysbyddiad. Pan fyddo yn suddo trwy yr wyneb, ond yn analluog i redeg ymaith trwy ei fod yn cael ei attal gan wydnedd y gwaelod, ac yn cadw y cwbl uwchlaw iddo yn wlyb, oer, a diffrywth, y gwaith o dori trwy yr hyn sydd yn rhwystro a chasglu y dwfr i ddyfrlle sefydlog, a elwir yn is-ddyhysbyddiad.

Pan fyddo dwfr tarddiadol yn y tir, bydd y llain lle mae yr ireidd-der yn ymddangos ar yr wyneb yn gyffredin yn hawdd ei ganfod, trwy ei fod yn amrywio yn ei liw, yn nghyd ag arwyddion ereill o wlybaniaeth, megys tyfiant brwyn, &c. Trwy dori cwter gyda phen uchaf y llain hon yn ddigon dwfn er rhwystro y dwfr i gyraedd yr wyneb, gellid ei ddwyn ymaith i ryw ollyngle cyflëus.

Yn y fath amgylchiad, un ddyfr-ffos ddofn wedi ei hagor ynddo ac o faintioli cyfatebol a wna yn aml fel hyn yr hyn ni allai llawer o ffosydd llai mor rhadlawn ac effeithiol ei gyflawni. Dylai dwfr yr wyneb gael ei ddwyn ymaith trwy ffosydd agored, yn gynwysedig o'r ffos-gloddiau, pa rai a ddylai gael eu gwneud fel ag i rwyddâu rhediad y dwfr; y rhychiau rhwng y grynnau, a rhigolau agored wedi eu tori yn y lleoedd angenrheidiol er rhoi i'r dwfr rydd fynediad. Iawn drefniad ar y grynnau a'r rhychiau mewn cae, a wna yn gyffredin effeithio arwynebol ddyhysbyddiad arno; ond cyn dynesiad y gauaf, dylai ychydig o ffosydd agored yn droedsedd o led, ac yn chwech modfedd o ddyfnder, neu ragor, yn ol y dwfr a ddisgwylir i ddod iddynt, gael eu tori ar draws y cae, er dal dwfr yr wyneb, a'i arwain *allan i'r pridd ffosydd*. Mae y dyfr-ffos ddyfnder yn hswdd eu gwneud, ac fe dalant yn dda am y drafferth.

Dylai pob cwterydd cauedig ac agored fod a digon o gwypnad ynddynt, fel y gallo y dwfr redeg ymaith yn rhwydd; ond os bydd gormod, fe red yn rhy chwyrn, a dwg ymaith gydag ef bridd yr ochrau, yr hyn a daga y cwterydd yn fuan iawn. Pa fodd bynag y caffo y cwterydd eu ffurfio, dylent fod yn arwain i ddyfrlle naturiol, neu ynte i ryw brif ddyfrflos a fyddo yn arllwys iddo, fel y gallo y dwfr gael lle rhydd i redeg ymaith.

Mae dyhysbyddiad yn ei holl ranau yn teilyngu sylw blaenaf yr amaethwr; ac y mae y dull newydd a elwir Trwadl Ddyhysbyddiad, yn cael yn ddiweddar ei arferyd gyda y canlyniadau goreu. Pa sut i ddwyn hyn yn mlaen, i ganlyn Dwfn-arddiad, ni a wnawn yn awr ddesgrifio.

TRWADL-DDYHYSBYDDIAD A DWFN-ARDDIAD.

Mae'r gweithrediadau hyn yn annibynol ar eu gilydd, ac fe'u cyflawnir ar wahanol amserau, eto mae y dyben yr un. Mae y ddau yn cael eu harferyd yn bresenol yn aml iawn, ac y maent bob amser yn cynyrchu yr effeithiau mwyaf buddiol, trwy ddyfnâu a sychu y tir, a chwanegu a gwellâu ansawdd y cnydau.

Trwadl-Ddyhysbyddiad.—Gwellëir yn mron bob math o dir yn fawr trwy ddyhysbyddiad, ond yn neillduol tir trymaidd, cleiog, a gwlyb, lle byddo y gwaelod yn galed a daliadol. A thrwy drwadl-ddyhysbyddiad mae tiroedd lle na thyfai o'r blaen ddim ond hesg, a'r fath arwaf o laswellt, wedi eu gwneud yn ffrwythlon, ac addas i ddwyn pob math o gnydau. Y dull o ddwyn yn mlaen drwadl-ddyhysbyddu cae, yw, yn gyntaf, gwneud nifer o ddyfrflosydd cyfochrog, o un-ar-bum-theg i ugain troedfedd y naill oddiwrth y llall, yn ol natur ac ansawdd y tir, naill ai ar groes neu ar hyd, fel byddo yr amgylchiadau yn gofyn. Os bydd y tir yn isel a gwlyb, ac yn gynwysedig o glai gwydn, ni ddylai

dyfr-ffosydd fod dros un droedfedd ar bumtheg oddiwrth eu gilydd ; os bydd y gwaelod yn ysgafnach ac yn fwy rhydd, gallant fod o ugain i bedair-ar-ugain neu ddegar-ugain o droedfeddi ; ac mewn tir o waelod rhydd iawn, gall y pellder rhyngddynt fod o ddeugain troedfedd i bump-a-deugain. Gwneud y grynnau yn gefn-uchel a 'arbeda y drafferth o agoryd rhychau dyfnion. Dylai y dyfrffosydd fod $2\frac{1}{2}$ droedfedd o ddyfnader, a'u llenwi a cheryg i'r uchder o 12 modfedd, gan adael o 16 i 18 modfedd ar yr wyneb er ei lenwi a phridd. Gor-chuddier y ceryg a thywyrch teneuon dros eu gilydd yn y cydiadau, er rhwystro y pridd i redeg rhyngddynt, yna llanwer hwynt i fynu ; a chwedi cael y cnwd cyntaf o lafur oddiar y tir, dwfn-ardder ef ar groes y dyfr-ffosydd.

Hyn yw y dull cyffredin o drwadl-ddyshysbyddu ; ond gellid defnyddio pridd-lechau yn y lleoedd hynny lle y maent i'w cael am bris isel, neu ynte a cheryg teneuon wedi eu gosod mewn dull trionglaidd, fel hyn Δ , neu un ochr yn unionsyth ar llall yn onglaid, fel hyn Δ , lle byddo defnyddiau cyfaddas wrth law. Gellir weithiau gael digon o geryg mân ar y tir er llenwi y dyfrffosydd, ond lle ni byddo ond ceryg mawrion yn unig, dylent gael eu tori o fantoli dwy neu ddwy fodfedd a haner ysgwar, fel y gallo y dwfr yn hawdd redeg rhyngddynt. Lle byddo pridd-lechau yn cael eu defnyddio, dylid gosod un ar y gwaelod fel gosail er rhwystro yr ymylau i fyned yn rhy bell i'r ddaear, ac felly i leiâu neu ddystrywio ffordd y dwfr. Mae pridd-lechau cafnaidd yn cael weithiau eu defnyddio, ac ymddengys eu bod yn ateb yn dda ; er mewn rhai lleoedd defnyddir rhai yn debyg eu llun i bedol cefyl, a'u hymylau tewion wedi eu troi yn ol, yn ffurio megys traed i'r pridd-lechau i sefyll arnynt, fel hyn Ω , yr hyn a'u hattal i dori y llawr, ac a wna osail yn anangenrheidiol.

Rhydd rediad i'r dwfr ar hyd y gwaelod yw y pris beth sydd i gael ei gyflawni mewn trwadl-ddyshysbydd.

iad ; a dylai hyn gael ei wneud fel ag iadael o 16 i 18 modfedd o bridd ar yr wyneb. Cadwre hyn mewn golwg, ac yna bydd pob peth yn iawn. Gofaler fod un ddyfrffos i ba un y gall yr holl rai llai i arllwys eu cynwysiad ; felly sychir y tir, ac y'i haddasir er cynyrchu ffrwythau.

Dylai y brif ddyfrffos gael ei thynu ar hyd odreu y tir, ac os bydd modd, yn gydiedig a rhyw ddwfr-redfa naturiol, ar hyd pa un y geill y dwfr a arllwysa gael ei ddwyn ymaith. Mae ei maintioli i ymddibynu ar y dwfr a ddysgwylir i redeg iddi, ond dylai fod o leiaf chwe modfedd yn ddyfnach na'r dyfrffosydd ereill. Dwfr wedi ei gasglu fel hyn a ellir yn aml yn fanteisiol ei ddefnyddio er dyfrâu ; ac ni ddylai hyn gael ei esgeuluso pa le bynag y byddo yn gyflêus. Nentydd a chornentydd ydynt ddyfrffosydd natur, ac a ellir hefyd eu defnyddio er dyfrâu yn mhob man ag y byddo yn alluadwy. Nid oes dim yn waeth na gadael ffrydiau i redeg yn ofer, pa rai pe eu hiawn ddefnyddid a ffrwythlonent y tir yn fawr iawn.

Fel rheol gyffredin yn nghylch pellder y dyfrffosydd oddiwrth eu gilydd, gellir gosod i lawr yr un ganlynol : dylent fod o bump i bumtheg llath rhyngddynt, yn ol natur ac ansawdd y tir, ar hyn yr amaethwr ei hun sydd i fod yn farnydd.

Dwfn-Arddiad.—Wedi trwadl ddyhysbyddu tir, y peth nesaf yw rhyddâu a rhwygo y gresten galed sydd yn y gwaelod er ei ddyfnâu, trwy offerynoliaeth dwfn-aradr. Mae yr aradr hon yn fwy ac yn drymach na'r rhai cyffredin, ac wedi ei gwneuthur heb bridd-adenn. Treiddia trwy y ddaear i'r dyfnder o 16 modfedd, ac er ei bod yn effeithiol rwygo a rhyddâu y gwaelod, eto ni chyfyd ddim o hono i'r wyneb. Mae dwfn-aradr yn cael ei gwneud mor ysgafn ag y gellir, heb ei gwneud yn rhy wan, fel y gallo gerdded trwy y pridd mor rhwydd ag y byddo modd. Mae o bedwar i chwech o geffylau yn ofynol er ei thynu, yn ol natur y tir, pa-

rai sydd yn gofyn gofal ac amynedd ar ran yr aradwr, er cael ganddynt ymgymeryd ar gwaith yn rhwydd, ac y mae cryn ddeheurwydd hefyd yn ofynol er dal yr aradr, yr hyn, er hynny, a ddeuir yn hawdd iddo trwy ymarferiad.

Mor gynted ag y ceir y llafur oddiar y tir, mae dwfn-aredig i gael ei ddechreu. Aradr gyffredin yn gyntaf i aredig o chwech i naw modfedd o ddyfnader, goreu i gyd pa ddyfnaf; yna canlyn y ddwfn-aradr ar hyd yr un rhych, gan fyned trwy y ddaear yn 16 modfedd o ddyfnader, a chyfrif yr un o'r blaen; ac felly y dilyn y naill y llall hyd nes y gorphener. Os ni ellir cael dwfn-aradr, gwna un gyffredin y tro, ond tynu ymaith y pridd-astell. Wedi i hyn oll gael ei wneud, bydd y dyhysbyddiad mor berffaith fel na bydd yn gyffredin ddim eisiau rhychau dyfnion mwy, canys treiddia y dwfr yn awr yn rhwydd trwy y pridd ac a sudda i'r dyfr-ffosydd, pa rai a ddarparwyd i'w dderbyn megys ag y desgrifiwyd uchod. Ni chydia y gwaelod byth wedi y rhwygir ef unwaith fel hyn. Gwnaiff effeithiau cyson yr awyr, yn nghyd a hidliad y dwfr trwyddo, ei gadw yn rhydd a hyfriw, ac yn union yn barod i feithrin yr hyn a osodir ynddo.

Tir wedi ei drin fel hyn a ellir ei aredig yn ddyfnach yn mhen ychydig o flynyddoedd, ie, i'r dyfnader o 16 modfedd os byddir yn ewyllysio; a'r gwaelod, yn awr yn rhydd ac agored, a gymysgir ac a gydgoforir a'r wyneb, gan ei gryfâu a'i adnewyddu er peri iddo gynyrrchu yn doreithiog ragorol yn y canlyniad. Yn mhellach, daw y cynauaf yn gynt yn addfed o hyn allan; oblegid fod y tir yn sychach ac yn wresocach, tra y gwnaiff ei ddyfnâd chwanegol ei alluogi i dderbyn ac i gadw digonol wlybaniaeth er meithrin y tyfiant; a chaiff y gwlybanaeth, trwy effeithiau atdyniadol yr haul, ei godi i synu, yn gymwys fel y byddo eisiau er meithrin yr hyn sydd arno. Mae dyhysbyddiad, yn ei holl gangenau **ac yn mhob sefyllfaoedd**, mor angenrheidiol ac mor am-

lwg yn hanfodol i ffyniant, fel y mae'r amaethwr ag sydd ganddo ymoddion er ei ddwyn oddiamgylch, ac a chando unrhyw ddarn o dir heb ei ddyhysbyddu yn teilyngu bod yn dlawd, ac i gael ei nodi allan gan ei gymydogion fel dyn diog a diosaf.

DYFRAD.

Dyfradd, neu y gorchwyl o ddyfrâu tir, sydd oruchwliaeth trwy yr hyn, gydag ychydig o draul a llafur, y gellir sicrâu cnydau mawrion o wair a phorfa fynycha bob amser. Mae yn anhawdd cyfrif am yr esgeulusdod cyffredinol o ddyfrâu, a hyny mewn manau ag y gellid ei fabwysiadu gyda chymaint o fuddioldeb i'r amaethwr. Gweunydd lle nid oes yn awr ond tyfiant gwael ac isel a ellid yn hawdd, trwy ddyfrâd, eu gwneud yn ffrwythlon a thoreithiog iawn. Gollwng dwfr dros yr wyneb er meithrin tyfiant glaswellt, sydd wedi cael ei arferyd yn y Dwyrain er yr oesoedd boreuaf, ac ymddengys ei fod yn wybyddus yn rhyw fanau yn Lloegr er amser y Rhufeiniaid. Mae dyfrâd yn effeithio er mwydo glaswellt—er caledu tir corsog a migwynaidd—er dystrywio mathau o chwyn—ac er gwresogi y tir yn y gauaf, ac er ei oeri yn yr haf. Ymylau y ffrydiau pa rai yn achlysurol a orlifir a gynyrchant y glaswellt brasaf. Y gwreiddiau a dail tyner glaswellt, trwy gael eu gor-chuddio gan ddwfr yn y gauaf a dechreu y gwanwyn, a ddiogelir rhag y rheu; ac nid oes tir, sefyllfa, na hinsawdd yn mha un nad yw porfa-dir dyfradwy yn wasanaethgar. Mae un rhagosodiad, er hyny, yn anghen-rheidiol bob amser ac yn mhob man—*rhaid i'r tir gael ei drwadl ddyhysbyddu*.

Mae pob math o dir yn cael ei wellâu yn fawr trwy ddyfrâd; ond tiroedd sialcaidd neu sandog a grafelog yw'r cyfaddasaf i'w dyfrâu; mae'r effeithiau yn fwy hynod, buddiol, ac uniongyrchol ar y fath yma nag ar dir oedd oerllyd a chleioeg. Trwy ddyfrâd priodol, gellid

cadw tir mewn ffrwythlonrwydd parâus heb ddim achles ; a gellid gwneud tir gwael mewn cymhariaeth yn abl i gynyrchu trwch o wair, a chyflawnder o'r borfa oreu, a hyny yn aml yn gynar yn y gwanwyn, yr hyn a'i gwna yn gymaint arall o werth. Y doldir dyfradwy goreu o amgylch Avon, yn swydd Wilt, lle y mae y tyfiant brasaf, nid oes yno braidd ddim pridd, ond fe'i cyfansoddir yn benaf o wely o gerigos a grafel wedi eu croeni gan wreiddiau glaswellt, y rhai a fwydir gan ddyfrâd dwfr yr afon.

Lle mae tipyn o gwyp, a digon o ddwfr, gellir gwneud rhestr o ddyfrleoedd y naill islaw y llall, fel y gallu yr ail gasglu y dwfr a redo o'r cyntaf, a'i ollwng a'r hyd wyneb y tir fyddo rhyngddo a'r trydydd, ac felly yn y blaen, hyd oni ddarfyddo naill ai y dwfr neu y cwyp. Y gauaf a'r gwanwyn yw yr amser i ddyfrâu. Y dull i wneud hyn yw cadw y dwfr mewn cyson ac esmwyth rediad ar hyd wyneb y tir. Ni ddylai fod mor chwyrn fel ag i olchi ymaith unrhyw ffrwythlonrwydd. Dylai fod cymaint o hono fel ag i fwydo y gwraidd, ond eto heb orchuddio y brig.

Mae buddioldeb dyfrâu yn gynwysedig yn benaf mewn trosglwyddo *oxygen* i wreiddiau planigion, yr hwn sydd i gael yn ei sefyllfa doddedig mewn dwfr afonydd a ffrydiau. Nid yw doldir chwaith i gael ei wneuthur yn gors, trwy ei adael yn orchuddiedig a dwfr llonydd am amryw o fisoeedd ; ond y mae i'w frasâu trwy ollwng dwfr ar hyd-ddo am ychydig amser yn awr ac yn y man. Ychydig o brofiad fyddai yn ddigonol er gwybod pa fodd i reoleiddio mesur y dwfr a'r amser. Ffrwd fechan, os bydd iddi ychydig o gwyp, ellai orchuddio llawer o dir, a hyny lawer gwaith ; ond os bydd yn fechan iawn, dylid bod yn ofalus colli diferyn os bydd bosibl.

Dechreuir yr oruchwyliaeth hon yn gyffredin yn mis *Hydref, ar ol i'r borfa gael ei phori, neu yr ail gawd o wair ei gywain. Cedwir y dwfr dros y tir am yspaid pythefnos neu dair wythnos ; yna troir ef ymaith am*

tua phump neu chwech diwrnod. Dilynir y dull yma o sychu a dyfrâu bob yn ail hyd ddechreu Ionawr, gan gymeryd gofal i droi y dwfr i ffwrdd pan ddechreuo rewi yn galed. Fel y byddo y gwanwyn yn dyfod yn mlaen, a'r glaswellt yn ymestyn, mae amseriad goll-yngdod y dwfr ar hyd wyneb y tir yn cael ei fyrâu i bump neu chwech diwrnod. Yn mharthau deheuol Lloegr, bydd y doldiroedd yn barod i ollwng yr anifeiliaid iddynt tua diwedd Mawrth; ond yn y parthau mwy gogleddol parëir dyfrâu hyd fis Mai; yna ceir cnwd neu ddau o wair yn y canlyniad.

Lle mae gwastadrwydd y tir yn fanteisiol, gellir, trwy ddyfrâd, wellâu helaethrwydd o dir yn hawdd a didraul iawn; a gellir fel hyn wneud pob ffynnon a chorasant yn bur ddefnyddiol. Gellid hefyd ddefnyddio y dwfr a geid trwy ddyhysbyddu er dyfrâu mewn llawer o amgylchiadau; ac felly byddai y fantais yn ddwbl, yn gyntaf trwy ryddâu y tir oddiwrth ormodedd o wlybانياeth, ac yna trwy droi y dwfr a gollwyd felly er bod yn fodion i'w ffrwythloni drachefn.

LLOSGIAD TIR.

Llosgiad tir sydd ddull niweidiol o'i barotöi at had; ond a arferir i raddau mawr yn yr Iwerddon, yn neillduol yn y parthau gorllewinol o honi. Ni ddylai tir sych da byth gael ei losgi; canys felly afradir y rhanau goreu o hono, a gwneir y defnyddiau meithrinol yn lludw, yr hwn mewn cymhariaeth nid yw ond ychydig o werth er cynyrchu un cnwd; yr hyn, trwy ddull gwahanol, a ellid eu gwneud yn effeithiol er cynyrchu llawer o gnydau.

Er hyny nid yw llosgiad tir bob amser yn ananghen-rheidiol; canys yn ddiameuol hwn yw y dull goreu er dyfetha chwyn a thyfiant garw ar diroedd oer, gwlyb, a chorsoeg. Pe bai llosgiad yn cael ei arferyd ond yn unig gan y rhai hyny a wnai ddychwelyd i'r tir mew'n achles

gymaint ag a gymerwyd oddi arno, ni wneid mewn cymhariaeth ond ychydig o niwed; ond y cam y mae y tir yn gael yw, wedi llosgi yr wyneb bras gwelltog, ni chaiff unrhyw achlesiad drachefn; ac ar ol i'r ychydig effaith a gafodd y lludw arno i ddarfod, fe'i gadewir mewn ansawdd holol· ddiffrrwyth ac analluog i feithrin unrhyw dyfiant. Llosgiad tir garw corsog a morfeydd gwlyb brwynog yw, yn aml, y dull goreu o'u hamaethu. Gwnaiff hyn ddystrywio y chwyrn a'r tyfiant bras-welltog, a thrwy eu troi yn achles a wna i'r tir gynyrchu cnydau toreithiog. Ond ni ddylai hyn gael ei wneud, er hynny, oddieithr fod y tir yn gyntaf wedi ei ddyhyspyddu yn dda; ac oblegid yr esgeulusiad o hyn mae llawer o draul a thrafferth mewn ceisio amaethu tiroedd o'r fath yn holol ofer.

Pa le bynag y byddo llosgiad ymddyngedig cael ei arferyd mewn amaethu tiroedd oer a gwylb, bydded i'r lludw i gael ei gyfrodedd wasgaru ar hyd-ddo, a'i droi i lawr yn boeth. Yna hauer maip neu erfin gwylltion ynddo, i gael eu pori gan ddefaid arno; ac ar ol hynny gosoder hadau ynddo, gyda naill ai haidd neu geirch, a goll-ynnger defaid drachefn i bori yr hadau. Os bydd y tir yn cael ei aredig wedin mewn dwy neu dair blynedd, hauer ceirch ynddo, a bydded i'r gwellt gael ei droi yn achles, ai ddychwelyd iddo er ei baratöi i ddwyn cnydau gwyrddlas. Gwnaiff goruchwyliaeth o'r fath hyn yn gyffredin achlesu y tir yn dda, a hefyd dalu ei ffordd i'r amaethwr.

ACHLESOEDD.

Gellid cadw ein meusydd mewn ffrwythlondeb parâus trwy roi iddynt beb blwyddyn gymaint a ddygir oddi arnynt mewn ffordd o gynyrch; ond trwy gyson "gynyrchu, mae y ddaear oreu yn hespâu, ac yn gofyn ei hachlesu, cyn y gwnaiff ddychwelyd i'r amaethwr atdal ian am ei lafur.

Mae dau fath o achlesoedd—mallaid a chalchaidd. Y cyntaf, yn gynwysedig o sylwedd anifeilaidd a llysieuaid wedi ei ddadgysylltu, sydd yn fuddiol yn benaf er meithrin tyfiant; y llall a effeithia yn benaf fel cymellydd y tir. Y cyntaf a cynwys achles anifeilaidd a llysieuaid o bob desgrif, ac o fewn yr ail gellir cyfrif calch, marl, clai, tywod y mor, &c.

Mae achles anifeilaidd a llysieuaid yn fraenllyd yn eu natur, ac yn cynwys rhyw ranau elfenol o sylweddau anifeilaidd a llysieuaid. Mae rhanau cyfansawdd dynion ac anifeilaid yn deilliaw oddiwrth y bywyd llysieuaid; ac nid yw fail pob anifail ond gweddillion y cigfwyd ar llysiau a gymerwyd i mewn i'r cylla. Oddiwrth dreuliad parâus sylwedd ardumiol (*organised*), a'i gyfnewidiad i hylifau maethol, gellid cyfrif nad yw sylweddau anifeilaidd a llysieuaid, a defnyddiau ysgarthiadol ond yn unig gwahanol ddullweddau ar yr un hanfodion gwreiddiol. Eu helfenau gweithredol oll ydynt *hydrogen*, *carbon*, a *oxygen*, a weithiau *nitrogen*, yn gymysgedig a hwynt. Y goruchwyllyddion hyn, trwy gael eu trosglwyddo i'r tir gan ddefnyddiau gwlybyrol, a weithredant er meithrin tyfiant, ac er ffurfio hanfodion llysiau newyddion. Megys y mae mwy o gydgyfarfyddiad o'r elfenau hyn mewn cig na llysiau, mae yr achles a ddaw oddiwrth gig-fwytaawyr yn fwy ffrwythlon yn ol yr hyn fyddo o hono, na'r hyn a ddelo oddiwrth greaduriaid fyddo yn byw ar llysiau yn unig.

Mae gwerth biswail fel achles yn beth hen adnabyddus i amaethwyr y Cyfandir, ac yn neillduol yn Flanders a Switzerland, yn mha leoedd y cesglir ef yn ofalus; ac y mae y Chineaid, pa rai ydynt yr amaethwyr henaf a wyddom ni am danynt, yn gosod cymaint o werth ar ysgarthion dyn fel achles, fel y mae ganddynt cyfreithiau er eu casglu a'u cadw rhag cael eu taflu ymaith. Mae un chwart o leisw dyn yn cael ei ystyried, yn ei ansoddau ffrwythol, yn gyfartal i chwe' chwart o biswail gwartheg, ac i dri ar ddeg o'r eiddo ceffyl.

Oddiyma ymddengys pa gymaint o bwys i amaethyddiaeth yw fod lleisw dyn yn myned i golli. Y rhanau sylweddol o'r ysgarthion a ddefnyddir gan mwyaf yn y wlad hon; ond ni chynwysa y rhai hyn ond y sylweddau anhoddadwy, tra y mae y lleisw yn cynwys y sylweddau halltaidd a fferyllaia~~ll~~ fodenol yn y llysiau pan ei difawyd gan yr anifeiliaid, a'r hyn sydd hefyd yn angenrheidiol er tyfiant llysieuol.

Nid yw achles anifeiliaidd na llysieuaid o un defnydd ymarferol hyd oni byddo y sylweddau gweithredol a gynwysant wedi eu rhyddâu trwy fraeniad. Os na bydd y sylweddau anifeiliaidd a llysieuaid yn chwalu ac yn braenu, nid ynt werth dim mwy na cheryg. Er engraifft, darn o fawndir sydd bentwr llysieuaid cysglyd yn cael ei gadw rhag pydru gan ddwfr, a rhyw ansoddau gwrthfraenol sydd ynddo ei hun. Yn y cyflwr hwn mae yn ddiwerth fel achles, ond pan ddynoethir ef i'r awyr i weithredu arno, a'i chwalu, mae ei ansawdd yn newid, a gwnaiff wrtaith rhinweddol iawn. Wrth bydru dadgysylltir y rhanau elfenol i sefyllfa hylifaidd a bywiol. Pe gosodid tail ystablau yn grygyn ar ei gilydd yn yr awyr agored, poetha yn fuan, a gyrai allan darth cyfansoddedig o'r anwedd ymweithiol. Mae y domen i'w gweled yn lleiâu yn gyson mewn pwysau a maintioli; ac ar ddiwedd chwech mis, os bydd wedi bod yn gwresogi ac yn gwlychu bob yn ail, ni bydd uwchlaw chwarter y defnydd dechreuol yn aros i'w wasgaru ar hyd y tir. Mae yr hyn sydd yn rhinweddol achles wedi ei golli, ac nid yw yr hyn sydd ar ol o nemawr werth.

Nid oes un pwnc yn gysyllteidig ag amaethyddiaeth yn fwy pwysig, ag achlesiad, ac nid oes dim un ag y mae dynion yn deall mor lleied am dano nag yn sylwi mor lleied arno. Yn gyffredin, teflir y defnyddiau ysgarthiadol yn grygyn ar eu gilydd, gan eu gadael i sychu fynu yn yr awyr agored. Mae hyn y fath wrthyni mewn amaethyddiaeth, fel na ellir yn rhy fuan ei ddiwygio. Mae yr anwedd fraenol a gyfyd i fynu,

fel y byddo yr ymweithiad yn myned yn mlaen, yn cynwys hanfodion achles; a dylai naill ai cael ei gadw yn y tail, neu ynte gael ei drosglwyddo i ddefnyddiau priddlyd neu lysieuaid o'r newydd, er cyfranu iddynt ei hansoddau rhinweddol. Nis gall yr amaethwr fod yn rhy ofalus er rhagflaenu, mor bollid ag y byddo yn bosibl, y golled trwy fwgdarthiad o'r gronynau bywiol a mwyaf llesiol hyn o'i achles.

Mae y ddaear yn barod i dderbyn pob anwedd sydd yn cyfodi oddiwrth fraeniad. Gwnaiff cae wedi ei deilio yn dda, a'i aredig a'i lyfnu, roi allan arogl iachus ac adfywiol, yr hyn sydd yn brawf fod yr holl agerdd fraenol wedi cael ei lyncu i fynu er maethu y cnwd. Gellai y ddaear dlotaf i gael ei brasâu yn fawr trwy fod yn unig yn agored i dderbyn yr anwedd a gyfansoddir trwy fraeniad. Gosoder haen o bridd o ddeuddeg i ddeunaw modfedd o drwch dros domen o dail ymweithiedig, a gadawer ef yno am ysdod yr ymweithiad; ac yna pan dyner ef ymaith, ceir gweled fod ansoddau rhinweddol y dom wedi treiddio trwy yr oll o hono. Gwybodaeth o'r ffait bwysig hon, sydd wedi dwyn oddi amgylch yr arferiad o wneuthur crygiau cymysgedig, yn mha rai y mae y llifnodd rhinweddol ac anwedd pob math o achles yn cael eu llynco i fynu yn y pridd, sand, lludw, mawn-bridd, a sylweddau ereill, nes y mae y cymysgedd yn dyfod yn wrtaith rhagorol.

Mae wedi bod yn arferiad hyd yma i siarad am domenau, neu grygiau o dom; ond ni ddylai fod y fath beth a chrygiau o dom. Dylid casglu yr achles o'r beili a phob man i bwll-dom; ac y mae y dull o drin cynwysiad y pwll yma yn deilwng o sylw manylaf yr amaethwr. Ni all unrhyw ddull fod yn waeth na'r un presenol. Yn gyffredin, crygir y tail ar ei gilydd yn domen uchel, fel y byddo pob lleithder yn rhedeg oddiwrtho; ac felly aiff pob sylwedd rhinweddol yn ofer, yn lle cael ei gadw mewn derbynele priodol er achlesu y tir. Un o'r pethau cyntaf ddylai gael ei

wneud yw derbynle cyflêus i'r achles, a charthion, a phob math o ddîyhysbyddiadau a red allan o'r tŷ, o'r ystablau, o'r tylcau, ac o'r beili. Dylai gael ei wneud yn ddigon helaelt a dwfn er cynwys y cwbl. A bydded i'r gwaelod gael ei lorio a cheryg, neu gael ei ddwbiau a chlai neu bridd wedi ei ddamsang yn dda, fel na chollo un dafn a ddelo iddo. Dylid hefyd rwystru gormodedd o ddwfr yr wyneb i redeg i mewn.

Haen o gylch chwech modfedd o ddyfnder o dywyreh, clai, pridd, sand, neu ludw, a ddylai, yn gyntaf gael ei osod ar y gwaelod, ac ar hynny tail y beili a'r ystablau. At hyn dylid chwanegu carthion llysiau o'r tŷ, crafion heolydd, ysgarthion flosydd, gwymon, os gellir ei gael, perfedd ac esgyrn pysgod, anifeiliaid meirwon, tom gwartheg a cheffylau wedi ei gasglu ar hyd y ffyrdd a'r caeau, gwrysg cloron, chwyn, a phob math o ysgarthion gerddi. Gwnaiff hyn ddefnyddiau er llenwi y pwall, ond dylid gofalu ar fod haen o bridd rhygddyd er llyncu yr agerdd, a rhagflaenu colled trwy fwgarthiad. Dylai fod y pwall yn ddigon o faint, fel na byddo yr achles byth yn fwy na trodfeidd neu ddwy uwchlâu yr ymyl; onidê collir rhyw faint o'r nodd trwy redeg ymaith yn ofer. Os bydd yr achles yn ymddangos yn fras iawn, dylid yn baraus chwanegu ato haenau o bridd, lludw, clai, &c., megys ar y cyntaf, gan gymeryd gofal nad elo dim o'r llifnodd sydd ynddo ar goll. Os bydd rhyw faint yn colli drosodd, dylai gael ei gasglu i bwll arall dipyn yn is, ond mor agos ag y gellir; o ba un y gellir ei gymeryd i fynu, ai dywallt drachefn dros y tail, neu ynte ei ddwyn i'r tir ar unwaith, fel y byddo yn ymddangos fwyaf buddiol.

Mewn tiroedd mawrion, lle byddo llawer o anifeiliaid yn cael eu cadw, ni wnaiff pwall unigol, fel y darluniwyd uchod ddim o'r tro, ond gofaler am fabwysiadu yr un egwyddorion. Dylai y beili gael ei gafnu yn y canol, *mor ddwfn ag byddo yn gyflêus, a'i balmentu a'i ddwbiau yn y gwaelod, er cadw y gwlybwr gada'i gilydd*; dylai

pydewau neu gronfääu gael eu gwneud, er derbyn y biswail a'i gadw er ei ddefnyddio. Yn y sefydliadau amaethyddol goreu, mae yr achles llynol yn cael ei gasglu a'i gadw fel hyn mewn pydewau, ac yna ei sygned-yddu allan i farilau mawrion, a'i gywain i'r caeau fyddo a mwyaf o'i eisiau. Yn Switzerland, mae lleisw a phob math o wlybyroedd a deflir allan o'r tai, yn cael eu cadw gan yr amaethwyr mewn twbäau yn ofalus, a'u taflu i'r cymysg-domenau, neu ar hyd y caeau, fel y bydd yr angen yn galw. Yn China, hefyd, cymerir y gofal mwyaf am hyn; ac fe ddywedir fod hyd yn nod y sebon-drwyth a ddefnyddir wrth eillio, yn cael yno ofalu am dano, a'i werthu fel achles.

Ni ddylai un amaethwr, fod heb dderbynle i'r achles llynol, yr hwn sydd yn neil duol lesiol i dir gwair, a thir pori. Yn Holland, cyfodir cnydau mawrion o erfin gwyltton mewn tir wedi ei achlesu yn benaf a piswail anifeiliaid, yn nghyd a maip-deisen (*rape-cake*), wedi ei thoddi ynddo; claddir pydewau islaw yr ystablau a'r beudai er ei dderbyn, ac y mae yn cael ei ystyried yn fwy rhinweddol i diroedd uchel, nag un math arall o achles. Gwnaiff baril neu dwba mawr wedi ei osod yn y ddaear, wasanaethu am amser yn lle pydew, ac fel y byddo y llestr yn llanw, gellir naill ai taflu ei gynwysiad dros yr achles, neu ei gymysgu a phridd, lludw, neu sylweddau ereill; neu yn gymysgedig a dwfr, gellir ar unwaith ei daenu ar hyd tir pori, erfin, *mangels*, &c., a gwnaiff effeithio arnynt yn y modd mwyaf adfywiol. Mae rhinweddau ffrwythlonawl biswail yn cael eu chwanegu yn fawr wrth ei gymysgu haner yn haner a dwfr. Yn Holland ac yn Belgium, arferir y dull hwn yn ddieithriad, pa faintoli bynag fyddo y tir; ac y mae y cysur a fwynëir gan boblogrwydd amaethyddol y gwledydd hiyny, i gael ei gyfrif i raddau mawr i'r sylw gofalus a dalant i'r pethau bychain hyn, a ymddangosant yn aml fel gwegi, ond ar ba rai, mewn gwirionedd, y mae llwyddiant yn mhob peth yn ymddibynu.

Wrth gymysgu yr haenau yn y pwll-dom, dylid bod yn ofalus i ddethol y defnyddiau cyfaddasaf i'r tir a fwriedir ei achlesu. Os cryf a chleiog yw y tir, gwnaiff lludw, neu sand, ei wneud yn llai glydiog; neu, os bas a grafelog, byddai clai gyda'r peth mwyaf gwasanaethgar. Gwellt yw un o brif hanfodion tom y beili, a dylai gael ei gasglu a'i drefnu yn ofalus, gan fod ffrwythlonrwydd y meusydd i raddau mawr yn ymddibynu ar y dull y caffo hyn ei wneud. Gwnaiff pob tunell o wellt, os iawn drefnir ef, wneud tair tunell o achles. Gwnaiff anifeiliaid wrth bori erw o erfin gyda chyfran anghenrheidiol o wellt, wneuthur o ddeg i bumtheg llwyth o achles rhagorol; ac os cymerir gofal digonol i gasglu craffion yr heolydd, chwyn, ac ysgarthion o bob math ar y tir, ceir digon o wrtaith er achlesu yr oll o hono unwaith pob pedair blynedd.

Lle y byddo yn gyflëus i gael gwymon, dylai gael ei grynnöi; ac, os na bydd yn cael troi arno yn union, gosoder ef yn grygyn cymysgedig a thom o'r pwll, sand, pridd, neu ludw; a'i adael i dwymo yn y crygyn, ond bod yn ofalus rhag iddo fyned yn rhy boeth fel ag i atal ymweithiad, yr hyn a ellir ddwyn yn mlaen trwy dafu haen o bridd drosto. Diameu y dylai pob gwrtaith i gael yn achlysurol ei orchuddio felly; oblegid pryd bynag y byddo achles yn anweddu, mae yn colli mewn rhinwedd; ond haen o bridd drosto a geidw y naill, ac a chwanega y llall. Mae awyr agored bob amser yn niweidio achles; a phan y'i cyweinir i'r tir, ni ddylai gael aros dim heb ei guddio, fel yr achubir y llifnodd rhag mwgdarthiad. Yr hyn a osodir i lawr, ac a gaffo aros ar y tir yn noeth, a aiff yn mhen ychydig amser trwy effeithiau yr haul a'r gwlw, yn ddiwerth mewn cymariaeth. Felly dylai tom a sarn y gwartheg, os byddant yn cael eu godro ar y cae, gael ei ddwyn adref, neu ei gasglu yn grygyn a'i orchuddio hyd nes y byddo ei eisiau.

Mae pob anifail yn cyfranu tuag at gynal ei hun,

trwy gynyrchu achles ar gyfer y cnwd dyfodol, a dyled-swydd yr amaethwr yw edrych na byddo darpariaeth natur yn cael ei hafradu. Gosod yr anifeiliaid yn y ty ar bob tymor, wna nid yn unig ddiogelu diwalliant o achles rhinweddol i'r tir, ond hefyd sicrâu gwell cynyrch, a gwell iechyd i'r creaduriaid. Nid oes dim ameuaeth am y pwnc hwn, a da fyddai pe byddai ein gwartheg blithion yn mhob man yn pori mor lleied allan, ac yw yr eiddo llaethwyr Llundain, neu amaethwyr Belgium. Mae yr achles a gesglir yn yr haf oddiwrth ymborth gwyrddlas, a phan y mae yr anifeiliaid mewn cadwraeth dda, yn llawer gwell na'r hyn a gynyrchir yn y gauaf gan anifeiliaid teneuon a drwg-borthiannus.

Mae llawer o amrywiaethau o ddefnyddiau, heblaw beili-wrtaith, yn cynyddu tyfiant, ac o werth mawr i'r amaethwr yn ol y rhwyddineb y gellir dod o hyd iddynt; yn nghyd au cyfaddasrwydd i'r gwahanol fathau o dir. Lludw, glo, coed, mawn a chlai, hyddugl, *gypsum*, halen, brag-ffylor, &c., a wnant wellâu tir pori, yn neillduol os bydd yn tueddu i fod yn fwswmog, neu os yw y tyfiant yn arw a gwael. Ni ddylid rhoi ond ychydig ar y cyntaf, o *gypsum*, halen, a brag-ffylor, canys y maent yn gymellyddion cryf, ac os rhoir gormod o drwch o honyn gwna niweidio tyfiant; ond ychydig brofiad a ddengys pa faint sydd yn angenreidiol i'r gwahanol fathau o dir. Mae rhesglion gweithydd sebon y peth goreu a ellir daenu ar hyd wyneb tir oerlyd, yn neillduol. Mae gan gregyn llymeirch, a chregyn ereill, cneifiadau panwr, crafion cyrn, gwlan gadach, &c., bob un ei ansoddau maethol, ac a ddylent gael chwilio am danynt gan bob amaethwr awyddus i wneud y goreu o'i dir. Mae yn rhaid i'r defnyddiau yr ymddifadir y tir o honyn, yn y enydau a gynyrcha er cynal dyn ac anifail, gael eu dychwelyd iddo yn rhyw ddull neu gilydd, cyn y gwnelo gynyrchu y fath gnwd drachefn.

Gyda llawer o draul y byddai y gwinllanoedd gynt ar lanau y Rhine yn cael eu hachlesu yn flynyddol, i'r

dyben i gadw i fynu eu ffrwythlonrwydd; ond yn y blynnyddoedd diweddat, mae wedi ei gael allan fod ysgythriadau y gwinwydd yn Gorphenaf ac Awst, yn cynwys y moddion goreu a pharotaf, er adferu i'r tir y defnydd maethol a gollodd yn nhfyiant a meithriniad y planwydd. Yn awr mae cangenau y gwinwydd, mor gynted ag yr ysgythrir hwynt, yn uniongyrchol yn cael eu tori yn fân a'u cymysgu a phridd; ac y mae eu dadgyfansoddiad yn cymeryd lle mor fuan, fel yn mhen ychydig wythnosau, ni bydd llun yr un o honyn. Gellir fel hyn ddiogelu ffrwythlonrwydd gwinllan, am gyfnod agos diderfyn, heb ond ychydig neu ddim achles, ond a geir oddiwrth y gwinwydd eu hunain. Ar un fath fyddai yn ddiameuol gydag eurddrain a rhyswydd, a chynyrchiadau llysieuol yn gyffredin, pe cai y dail, y cangenau, a'r carthion eu dychwelyd i'r tir, yn yr un dull ag y gwneir yn bresenol ar lanau y Rhine.

Os ydyw y sylwedd maethol yr ymddfadiwyd y tir o hono wrth gynyrchu y ffrwythau yn cael ei ddychwel-y iddo drachefn, nid yw, fe allai, o gymaint pwys pa fodd y mae hyn yn cael ei wneud; ac y mae wedi cael ei ddweud, trwy awdurdod oruchel, "Y gall fod amser i ddyfod pan fyddo y meusydd yn cael eu hachlesu trwy doddiad gwydr (*silicate of potash*), gyda lludw gwelt wedi ei losgi, a chyda sur llosg (*phosphoric acid*), wedi ei barotöi mewn gweithfa fferyllaidd, yn gymwys fel y mae physygwriaeth yn cael ei rhoi yn bresenol rhag twymyn a changen."—**LIEBIG.**

Mae y sylwadau blaenorol yn cyfeirio at achlesoedd yn gyffredinol—pwnc o bwys mawr i'r amaethwr, ffyniant pa un i raddau mawr a ymddibyna ar y dull y casbla ac y gwasgara y ddefnyddiau meithrinawl hyn. Yn awr, ni ddisgrifiwn ychydig o honyn yn fwy neillduol, ac ni ddangoswn hefyd y ffordd oreu i'w cym-wys.

Calch, sydd yn cael ei ystyried y mwyaf rhinweddol o'r achlesoedd cloddiedig (fossil manures), ac i diroedd

mwswmog oer y mae yn anhebgorol anghenrheidiol. Y mae i'w gael yn y rhan fwyaf o fanau. Dylai gael ei gadw heb wlychu nac yslacio hyd nes y byddo yn cael ei roi i'r tir, ac yna ei wasgaru yn gyfrodedd, a'i guddio gyda yr had, ond nid yn rhy ddwfn; oblegid dylai calch gael ei gadw yn agos i'r wyneb. Mae calch hefyd yn neillduol ddefnyddiol er ei gymysgu a phridd, &c., a'i daenu ar hyd wyneb y borfa; ond ni fydd, mewn cymhariaeth, o ddim lles oddieithr fod y tir wedi ei ddyhybuddu yn dda. Y mesurau a ddefnyddir a ymddibyna ar natur y tir; tra y mae 80 têl yn ddigon i erw o dir sandog, gofyna marl-dir 100, a thir cleiog 150 têl am bob erw.

Dadgyfansodda calch brwd unrhyw sylwedd llysieuaid caled yn y tir, ac a'i try yn achles i'r llysiau amaethol. Hyn yw ei rinwedd i dir mwswmog. Gwellâ dir ymddfisad o ddefnyddiau calchaidd. Dettyd ronynau tir gwydn oddiwrth eu gilydd, gan eu gwneud yn fwy chwaledig; ac effeithia ar dir ysgafn trwy ei galedu a'i wneud yn fwy glydiog, ac felly gwna y naill a'r llall yn fwy addas i feithrin tyfiant. Mae y byddioldeb a ddeillia oddiwrth galch yn ymddibynu yn fawr ar natur ac ansawdd y tir. Gwellêir tir cryf yn fawr am ddwy neu dair blynedd trwy y cymellydd hwn; ond ni wna mynchiad aml o hono gynyrrchu yr un effeithiau, oddieithr i'r tir yn y cyfryw amser gael ei osod dan feillion neu ryw gnwd gwyrddlas arall, trwy yr hyn y cynyrrchir defnydd llysieuol i'r calch weithredu arno.

Fod tiroedd ysgafn yn ddiffygol mewn defnydd llysieuol, yw un o'r prif resymau paham na wna calch bob amser effeithio yn fuddiol arnynt; ac o ganlyniad ychydig ddylai gael ei ddefnyddio ar diroedd fel hyn, yn nghyd a gadael chwech neu saith flynedd rhwng pob calchiad. Yn wir, y mae yn aml mor anghenrheidiol i gyfnewid y dull o achlesu tir, ac ydyw i gyfnewid rhywogaeth y cnydau; ac oddiwrth beidio sylwi digon

ar hyn, mae tir llafur yn gwaelu, tra y mae yr amaethwr yn tybied ei fod yn gwneuthur cyflawnder ag ef trwy ei galchu bob tair neu bedair blynedd. Ond bydded i gnwd gwyrdlas i gael gwneud prawf o hono yn y cyfryw amgylchiad, a'r amaethwr yn y canlyniad a gaiff ei gnydau llafur yn gwellâu, a'i dir mewn gwell calon.

Dylai calch i dir cyflawn o ddefnydd llysieuol gael ei roddi yn frwd. Pan ei gwasgarer felly, gwnaiff ei effeithiau barâu tra y caffo unrhyw ddefnydd llysieuaid i weithredu arno; ond pan roir calch i dir a fyddo yn cael ei lafurio yn gyson, nid oes ynddo nemawr neu ddim defnydd llysieuol i weithredu arno; ac o ganlyniad, ni chaiff mewn cymhariaeth ond ychydig effaith. Ar diroedd oerllyd yn swydd Derby, gwasgarant y calch yn y gwanwyn yn ddwy fodfedd o drwch; ac erbyn diwedd yr haf fe fydd wedi hollol ddadgyfansoddi y glaswellt garw, a chynyrchu tyfiant rhinweddol yn eu lle; ond rhoddi cymaint a hyn o galch i diroedd breision, neu i diroedd wedi eu gweithio allan, a wnai eu cwbl dystrywio.

Mae rhai yn meddwl wrth weled effeithiau calch ar y tir y tro cyntaf, y gallant bob amser ei ddefnyddio gyda'r un buddioldeb, ond yn hyn byddant yn sicr o gael eu twyllo. Mae unwaith mewn chwech neu saith mlynedd, yn ol natur y tir, yn llawn mor aml ag y gellir defnyddio calch gydag un llesâd. Mae profiad yn ein dysgu, os bydd calch yn cael ei ddefnyddio yn aml, rhaid iddo gael ei ddefnyddio fel achles, ac nid yn unig fel cymellydd; ac i'r dyben hwn rhaid ei gymysgu a phridd, clai, neu ryw ddefnydd arall, er cyfranu ei ansoddau cymelliadol iddo, ac er mwyâu ei effeithiau meithrinol ei hun, ac yna gwnaiff weithredu yn effeithiol fel achles.

Gwna gwaelod y rhan fwyaf o diroedd foddion da i'w *gymysgu a chalch*. Sand a chalch, gyda mawn a thywyrch, os gellir eu cael, a ddylid gymysgu ar gyfer tir eleiog; a *gwaelod-glai a chalch* ar gyfer tiroedd sandog, grafelog,

mawnog, a marlaidd. Ni ddylai un amaethwr gwyno oblegid eisiau defnyddiau ergwneud cymysgedd achlesawî tra mae pob math o dir yn gwneud y tro at y pwrrpas; ae nid yn unig mae ffrwythlondeb lleawl yn cael ei gynyrchu trwy hyn, ond nid oes nemawr o fanau yn y deyrnas, pa mor ddiffrrwyth bynag, ar na ellir wellâu neu eu dwyn i sefyllfa ffrwythlonrwydd, trwy gymwyso atynt gymysgiad priodol o bridd, clai, sand, a chalch. Dylid cymeryd gofal, er hyny, i gyfartalu mesurau y calch yn ol natur y tir. Mae tiroedd ysgafn wedi cael eu niweidio trwy ormodedd o galch; a thra y gwnelo un ran o galch am o chwech i ddeg rhan o bridd y tro i diroedd ysgafn, mae un ran o galch am o ddwy i dair rhan o bridd yn ofynol i diroedd trymion. Rhoddi calch ei hun i dir fyddo wedi bod yn hir dan lasfur, sydd yn fynych yn anfuddiol; ond pe byddai yr un mesurau o galch yn gymysgedig a sand, tywyrch, pridd, neu glai yn cael ei roddi iddo, byddai yr effaith yn dda. Dylai calch gael ei roi yn frwd i dir marlaidd dwfn yn amlach nag i nemawr o un tir, ond y mae tystiolaeth profiad yn ffafriol i'w ddefnyddio wedi ei gymysgu.

Marl sydd bridd calchaidd; ac y mae yn llesiol iawn, yn neillduol pan daener ef ar hyd yr wyneb. Mae yn aml i'w gael yn ngwaelod cronfeydd a llynoedd, ac hefyd i lawr grynn ddyfnder yn y ddaear; ac weithiau cyfarfyddir a llawer iawn o hono yn un gloddfa gyda'i gilydd. Gwnaiff dalu yn dda am ei gasglu; a gellir ei ddefnyddio ar unrhyw dymor, a bron i unrhyw fesurau. Mae marl, fel calch, yn gymellydd cryf; ond os na chaiff ei ddefnyddio yn drefnus, yn nghyd a chael gwrtraith o'r beili, neu ryw achles braenllyd arall bob yn ail ag ef, ni wnaiff lesoli y tir bob amser. Mae i'w gael o wahanol liwiau, ac yn meddiannu gwahanol ansoddau, yn ol y defnyddiau ag y byddo yn gynwysedig o honynt.

Mae marl cleiog yn addas iawn i diroedd ysgafn sandog, pa rai a wellâ ac a wna yn fwy sylweddol. *Fath diroedd ni ellir braidd roi gormod o hono;* gellir

taenu 130 llwyth ar hyd un erw. Mae marl sandog yn dda i bob tir gwydn, gan y gwnaiff ei chwalu a'i wneud yn hawddach i'w drin. Marl cragenaidd, megys yr arwydda ei enw, sydd yn gynyrch cregyn-bysg, ac y mae yn dda iawn i bob math o dir. Ni wna effeithio mor fuan a chalch; ond y mae yn fwy parâus. Mae marl a chlai, gan ei bod mor debyg i'w gilydd, weithiau yn cael eu cam gymeryd y naill am y llall. Os bydd mewn clai unrhyw gydgymysgedd o galch, gellir bron ei alw yn farl; ac y mae y naill neu y llall bob amser yn llesiol i diroedd ysgafn.

Mewn rhai gwledydd mae cyflawnder o farl, a hwnw o'r rhyw oreu; ac fe'i rhoir i dir pori, trwy ei gywain iddo naill ai yn gynar yn y gwanwyn, neu yn ddiweddar yn yr hydref, gan ei adael i aros ar hyd wyneb y tir hyd nes y byddo wedi ei ddadgyfansoddi. Gellir profi grym ac ansawdd marl trwy sychu gronyn o hono yn gyntaf, ac yna ei wlychu mewn finegr; ac os gwna ddyferwi yn fywiog gellir ei ystyried yn un da.

Gypsum sydd sylwedd calchaidd, ac wedi bod, bellach er ys amser maith, yn cael ei ddefnyddio fel achles, ac yn cael ei werthfawrogi yn fawr gan amaethwyr yn Germany. Yr un fath a chalch a marl, mae yn gofyn ei ddefnyddio mewn doethineb, a phob yn ail ag achlesoedd ereill. Oddieithr sylwi ar hyn ni wnaiff bob amser lesâu. Ceir yn gyffredin ei fod yn fwy llesiol i feillion, *sainfoin*, a hadau, nag ydyw i lafur, erfin, neu gnydau gwyrrd leision ereill.

Y tiroedd y gwna effeithio arnynt oreu, yw rhai sychion, sandog, a grafelog. Ac ymddengys nad yw o nemawr les i diroedd trwm marlaidd, nag i diroedd cleiog cryf. Gan fod *gypsum* ei hun o ansawdd galch-aidd, gellid meddwl na ddylai gael ei roddi i diroedd o'r un natur; ond y mae profiad yn dangos i'r gwrth-wyneb. *I dir* fyddo wedi ei hespâu, ac heb gynwys *ond ychydig o ddefnydd llysieuog, ni wnaiff gypsum nemawr neu ddim daioni*; ond gwnaiff ei lesâu yn fawr,

ond iddo yn gyntaf gael tom o'r beili, neu gnwd o hadau i gael ei droi i lawr er ei achlesu. Mae pump têl yn cael ei ystyried yn ddigon i daenu dros erw o hadau. Dylai gael ei ddefnyddio ar dywydd sych; canys gwnaiff tywydd gwlyb leiâu, os nid dysstrywio, ei effeithiau yn holol.

Sialc, o ran ei ansoddau cyffredin, sydd gyffelyb i galch a marl, a gellir ei ddefnyddio yn debyg yr un fath. Y mae yn dda iawn i dir cleiog gwydn, i'r hwn y mae yn anhawdd rhoi gormod o hono. A lle y mae yn hawdd i'w gael, byddai yn llesiol hefyd i dir pori, yn neillduol gwaunydd. Mae cyflawnder rhyfeddol o sialc i'w gael mewn rhai manau yn Lloegr; a gwneir arferiad o hono fel achles, ond megys rhyw wrtaith calchaidd arall, mae yn gofyn fod defnydd llysieuaidd neu anifailaidd yn y tir iddo weithredu arno; ac onide, ni bydd ei ansoddau ffrwythlonawl ond diwerth mewn cymhariaeth.

Tywod y mor sydd achles rhinweddol iawn pa le bynag y ceir gafael arno. Mae mewn rhai manau i'w gael mewn cyflawnder. Nid yw pob math o honynt mor rhinweddol a'i gilydd, yr hyn sydd gyflawnaf o gregyn yw y goreu. Mae tywod y mor yn llesiol i bob math o dir; a gellir ei wasgaru ar hyd-ddo ar un rhyw dymor o'r flywyddyn. Ond gan ei fod yn dueddol i fyned yn ddwfn, dylai megys calch gael ei gadw mor agos ag y gellir i wyneb y tir. Mae tywod yn neillduol o dda i dir cleiog trwy ei chwalu a'i wneud yn llai glydiog; a gwna hefyd chwanegu ei ffrwythlonrwydd ar yr un pryd. Gellir defnyddio tywod hefyd yn mhob cymysgiad, ac fe chwanega at ei rinwedd yn fawr iawn. Ac yn mha ddull bynag y gwneir ei arferyd, bydd yn llesiol, oddieithr fod y tir o natur rydd, a sandog, ac yn gofyn cyfranogiad o glai neu ryw ddefnydd glydiog.

Eglur yw, mae goreu pa gyntaf y caiff tywod ei roi i'r tir, neu i'r crygiau cymysgedig. Pan fydd yn newydd ei gywain o'r traeth, cynwysa ryw gyfran o

halltrwydd y mor, yr hyn sydd yn achles rhagorol ; ond fe'i collir yn fuan wrth adael y tywod i aros yn yr awyr agored. Mae amaethwyr glan y mor, oblegid fod ganddynt y fath gyflawndor, yn fynych yn rhy esgeulus, ac yn rhy afradus yn nghylch y casgliad a'r defnyddiad o hono. Mae yn aml yn cael ei ddwyn grynn bellter i'r tir, a pha le bynag y mae i'w gael, dylid gwneud yn fawr o hono.

Gwymon, hefyd, sydd achles rhagorol. Gwnaiff gynyrchu cnydau o gloron, a phob math o lysiau, yn enwedig bresych ; ond nid yw yn barâus yn ei effeithiau ar y tir, oblegid ei fod yn cynwys cymaint o ddwfr, yr hyn a gollir trwy fwgarthiad. Pydra yn yr awyr agored heb dwymo dim ; ac ymddengys yn sychu i fynu ac yn darfod. Gwnaeth tomen fawr o hono ddarfod yn holol mewn llai na dwy flynedd, heb adael ond ychydig o fân wreiddiau duon crychiog ar ol. Mae yn debyg mae y ffordd oreu i ddefnyddio gwymon, yw ei droi i lawr mewn soffdir mor fuan ag y byddo modd. Trwy wneuthur felly fe arbedir y drafferth o gasglu, cymysgu, a chywain cydgymysgedd. A'r soff felly wedi ei throi i lawr yn gymysgedig a gwymon, yn lle gwywo ymaith yn anfuddiol, a wneir yn achles rhagorol.

Mae halltrwydd ac ansawdd rwymol gwymon yn niweidiol weithiau, yn enwedig os bydd yn cael ei ddefnyddio yn unig am hir amser, ond nid yw felly pan ei cymysger a phridd, tywod, clai, neu ddefnyddiau ereill, a'i ffiethu yn dda cyn ei roi i'r tir. Ac yn wir ymddengys fod cymysgu ddefnyddiau fel hyn, y dull goreu i ddefnyddio achles o bob math ; ac y mae cydgymysgedd yn gyfartal addas i dir pori a thir llafur.

Lludw sydd achles da i gloron a maip. Ar diroedd oerion, corsog, a grygiog, lle mae cyflawnder o dyfiant garw, gall llosgiad yn aml fod yn ddefnyddiol iawn. *Y gwrthwynebiad* i losgiad, yw ei fod yn dystriwio yr wyneb, ond mewn corsydd lle mae y fath doraeth o ddefnydd llysieuaid, bydd dyfetha cyfran o hono trwy

dân yn llesiol; a gwnaiff y gwrthsur sydd yn y lludw wneud cymellydd bywiog i'r tyfiant. Tiroedd oerion, corsog, a grygiog, heb fod yn eu sefyllfa naturiol yn werth dau swllt yr erw, trwy losgi yr wyneb, a chael wedin eu calchu, a'u hachlesu, a wnaed yn diroedd da a chynyrchiol iawn. Yn erbyn y *camarferiad* o hyn mae eisiau gofal. Ond fe allai morfeydd a thiroedd gwydn gael yn aml trwy losgiad eu gwellâu, os byddent yn gyntaf wedi eu dyhysbyddu yn dda; ac fel hyn daw tiroedd gwydn, gwlyb, ac oer, yn rhydd, sych, a gwresog.

Clai llosgedig.—Mae lludw clai wedi bod bellach, er ys hir amser, yn rhyw ranau o Loegr, yn cael ei ddefnyddio fel achles i diroedd trymion, a hyny gyda buddioldeb, gan ei fod fel hyn yn gwasanaethu er ysgafnâu a ffaethu y tir am chwech neu saith flynedd ar ol ei wasgaru ar hyd-ddo. Mae y gwaith o losgi y clai yn arfer dechreu yn Mai, ac yn parâu trwy yr haf, yn grygiau o 50 i 100 llath chwe-gyfochrog* bob un. Manwydd a ffagodau a ddefnyddir i hyn gan mwyaf; ac weithiau glo, os bydd yn o'r râd. Ni fydd dim llawer o'r un o honynyt yn eisiau os bydd y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen yn briodol.

Nid yr haen uchaf a goreu o'r ddaear yw y clai a losgir, ond math oerach a gwydnach, wedi ei dori allan o bwll o unrhyw ddyfnader islaw yr wyneb, yn nghyd ag ysgarthion ffosydd o bob desgrifiad. Mae y gwelydd, neu y tu allan i'r crygiau, yn cael eu gwneud yn gyffredin o dywyrch, ac oddi fewn gosodir y talpau clai, fel ag y gallo y tân wrth losgi fyned trwyddyt yn araf. Os byddant wedi eu gosod yn rhy ryddion, bydd y tyniad yn rhy gryf, a'r llosgiad yn rhy chwyrn; os byddant wedi eu gosod yn rhy dyn, ni bydd y tyniad yn ddigonol. Goreu pa arafaf fyddo y llosgiad, ond

* *Cubic.* Mae llathen or fath hyn yn cael eu ystyried yn gyffredin yn llwyth.

gofalu ei fod yn drwadl. Rhaid bod yn ofalus am y crygiau, nos a dydd, yn ysdod y llosgiad, rhag i'r tan fyned allan, neu ynte losgi yn rhy chwyrn, fel ag i wneud y clai yn briddfeini celyd ac yn hollol ddiwerth. Pan fydd y llosgiad yn iawn, cyfnewidir y clai i fath o lludw duaidd, a hyn yw y peth i amcanu ato.

Y mesurau gofynedig i dir llafur yw o 40 i 50 llwyth yr erw, ac o 20 i 30 llwyth i dir pori. Cyweinir y lludw yn gyffredin ar ol y cynhauf i gaeau o hadau, sofl, neu fraenar. Gellir ei roi i dir pori ar unrhyw dymor mwyaf cyflëus, a gellir ei ddefnyddio hefyd ar ben pridd, marl, sand, neu unrhyw wrtaith arall er gwneud cydgymysgedd, yr hyn fydd yn addas iawn er ei daenu ar hyd yr wyneb, er ysgafnâu a diwyllio ansawdd tir trwm a gwydn.

Esgyrn a gynwysa achles nad oes mo'i well er codi erfin. Wedi eu briwio neu eu malu, eu trulio, a'u cyson wasgaru, gwnant sicrâu cnwd cynar a thoreithiog. Yr hyn a arferir roi yn gyffredin wrth drul-hau, yw o 25 i 30 têl i bob erw, ac y mae y dull hwn o hau fynychaf yn well nag a llaw.

Mae yr achles hwn yn gymellyddol ac yn feithrinol, ac yn barâus iawn yn ei effeithiau. Wedi eu tori yn ddarnau o gylch modfedd o faintoli, parânt dair neu bedair flynedd yn y tir cyn hollol ddarfod, a hyny gan daflu ymaith o hyd haen o ddefnydd calchaidd er cynyddu tyfiant. Pan gaffant eu briwio neu eu malu, maent o gwrs yn fwy uniongyrchol yn eu heffeithiau. Mae cnwd rhagorol o ffac-bys, ac o wenith drachefn, wedi eu cynyrchu cyn hyn oddiwrth daeniad 25 têl o esgyrn wedi eu briwio i bob erw. Y mae, fel y dywedyd o'r blaen, yn achles rhagorol i erfin. Gellir ei wasgaru a'i guddio yn yr arddiad diweddaf, pa un bynag wneir, a'i trulio yr hadau, neu ynte eu hau a llaw; er mae y dull cyntaf sydd bob amser yn rhagori. Mae yn addas iawn i dir sych, ac i dir ysgafn, a sandog, ac yn neillduol i dir pori; os bydd yr esgyrn wedi eu briwio

yn fân, neu eu malu yn llwch. Oni bydd i'r cnwd erfin cynychedig gan achles esgyrn i gael eu bwyta gan ddefaid ar y tir, bydd yn gofyn ei achlesu drachefn wrth ei hau yn y gwanwyn; ond os caiff, gwnaiff wedin ddwyn cnwd o lafur heb ei achlesu.

Maip-ffylor, Blawd-ffylor, a Brag-ffylor, sydd bob un o honyt yn achles ffrwythlonawl iawn. Maent yn gymellyddol a meithrinol iawn, ac oblegid hyny yn neillduol addas i erfin. Mae eu bod hefyd mor hawdded i ddod o hyd iddynt, yn eu gwneuthur yn fan-teisiol iawn i'r amaethwr. Mae o 15 i 20 tunell o un o honyt yn ddigon i bob erw. Mae maip-ffylor wedi *drulio* gyda'r gwenith yn yr hydref, yn y trwch o bed-air i bump tunell yr erw, wedi ei gael yn ateb yn dda, ac yn cynyrchu ffrwyth toreithiog.

Guano sydd yn sylwedd a gafodd yn ddiweddar ei ddwyn i mewn er ei ddefnyddio fel achles. Fe'i cyfansoddir o dom môr-adar, y rhai sydd yn mynchu yr ynysoedd Chili a Peru; ac y mae yn rhyfeddol addas i'w ddefnyddio fel achles, gan ei fod yn cynwys cyflawnder o halen hedwrhsur yn gystal a sylweddau ereill hanfodol er cynydd llysieuaueth. Mae y Peruiaid wedi bod yn gwneud defnydd helaeth o hono oddiar y 12ed ganrif hyd yn awr; a thrwy effeithiolrwydd rhinweddol adar-dom, mae glanau diffrwyth Deheudir America wedi eu gwneud yn ffrwythlon rhyfeddol.

Nid oes dim amheuaeth am ei ansoddau ffrwythol; a phe gellid ei gael yn y fath gyflawnder, ac am bris mor isel, fel ag i ddod i gyraedd y cyffredin, byddai yn neillduol ddefnyddiol i'r amaethwr. Mae wedi bod yn cael ei ddefnyddio yn llwyddiannus er dwyn erfin yn y mesurau o dair tunell yr erw, a'i guddio gyda'r oged wrth lyfnu yr had; ac ymddengys ar y cyfan ei fod yn gyfaddasach er dwyn cnydau gwyrddlas nag er dwyn llafur.

Fe ddywedir fod cyflawnder dirfawr o hono i'w gael

yn yr ynysedd o ba le y mae yn dyfod. Mae yno gasgliad oesoedd o hono i'w gael ; ac y mae y môr-adar, y rhai a'i ystoriant mor lliosog, fel y dywedir am danynt eu bod yn gorchuddio yr haul yn holol pan gyfodant o'u gorffwysfaoedd yn y boreu. Mae'r achles hwn, yn debyg i dom colomenod, yn gymellyddol iawn, ond y mae yn fwy rhinweddol na'r hyn a gair o'r colomendy, a hyny hwyrach, oblegid fod y môr-adar yn ymborthi ar bysgod.

Mae yn awr lawer math o achles celfyddydol yn cael eu parotöi ; megys soda, hedwrhsur, &c. Ac y mai rhai o'r newydd yn gyson yn cael eu chwanegu at eu nifer ; y rhai na fyddai o un lles i wneud sylw o honynt, nes y byddo eu heffeithiolwydd yn gyntaf wedi ei brofi.

Achles Gwlyb.—Mae biswail wedi cael ei hen arfer fel achles gan amaethwyr Switzerland, Belgium, a Holland, pa rai, er yn dlawd ac isel eu hamgylchiadau, a alluogir, yn benaf trwy iawn ddefnyddio yr achles hwn, i sefyll i fynu yn wyneb y goreu o'n sefydliadau amaethyddol. Yn Flanders mae yr holl anifeiliaid yn cael eu cadw a'u bwyda yn y ty, a chesgler y biswail i gromgelloedd priddfaen, pa rai o ran eu maintioli a atebant i helaethrwydd y tir, ac i amlader yr anifeiliaid. Mae amser ac ymweithiad yn chwanegu at rinwedd y biswail, ac y mae y pydewau trefnusaf yn cael eu rhanu yn gelloedd gwahanol, gyda llifddor er gollwng y naill i'r llall, yn mha le yr erys nes y byddo yn cael ei ddefnyddio. Mae y Flemiaid yn deall gwerth achles gwlyb mor dda, fel gwedi i dail y beili ddarfod ymweithio, gwnant yn fynych daflu dwfr drosto drachefn, ac y mae yr hyn a red oddiwrth y tomenau yn cael ei ddwyn i'r maesydd ar ei ben ei hun.

Gwnaiff gwartheg, portedig ag erfin, wneuthur o ddwfr un rhan o dair o bwysau yr hyn a fwytaont, neu oddeutu galwyn am bob deuddeg pwys ; ac fe ystyrir fod biswail tair buwch yn ddigon i frasâu erw o dir *trwy ei daflu drosto*. Ac y mae hefyd wedi ei brofi

fod lleisw dyn, o faintioli cyffredin, yn dyfod i oddeutu haner galwyn y dydd, yr hyn o'i ddefnyddio yn gyffelyb a fyddai yn ddigon i achlesu haner erw yn y flwyddyn. Mae lleisw o bob math, pan ei cymysger a dwfr yn briodol, yn faethlon iawn i blanigion. Ystyriau Syr Humphrey Davy ei fod yn cynwys elfenau hanfodol llysieuau wedi eu toddi. Mae unrhyw ddull ag y gellir gwneud fwyaf o achles gwlyb yn teilyngu sylw; a gwnaiff yr arlwydd gofalus anog a chynorthwyo ei ddeiliaid i wneuthur lleoedd addas i'r perwyl.

Mae dwfr wedi mwydo llin ynddo yn beth bras iawn, ac ni ddylai gael ei ollwng i redeg yn ofer, ond ei gadw yn ofalus, a'i roddi felly i'r tir, neu ynte wedi ei gymysgu a phridd, mawn, neu ryw gydgymysgedd arall, yr hyn fe allai fyddai y dull goreu o'i gymwys. Mae effeithiau rhinweddol dwfr-llyn yn cael eu profi wrth dyfiant a lliw y glaswellt yn y manau y taenwyd llin i sychu ar hyd-ddynt. Gwelsom y cnwd mwyaf toreithiog o geirch ar dir wedi ei achlesu a dwfr-llyn. Pe bai yr achles gwerthfawr hwn yn cael ei gadw yn ofalus, a'i gyfrannu yn briodol, darfyddai yr achwyniad hwnw, fod enydau llin yn tlodi y tir.

Nid yw achles gwlyb yn llai rhinweddol i'r ardd nag i'r maes. Gwna y Chineaid ddefnydd o hono er achlesu eu coed ffrwythau, fel peth yn maethu eu tyfiant a'u ffrwythlonrwydd; ac y mae yn cael ei werthu yn y gwledydd hyny tuag at frasâu y gerddi yn y mesurau bychain o beint Seisnid. Mae yn llesiol iawn i goed syfi, ac eurddrain, a rhyswydd, pan ei cymwysir atynt cyn y toro y dail allan yn y gwanwyn. Gwnaiff gy-nyrehu cloron cynar neu ddiweddar, yn fawrion ac yn aml. Y dull goreu o'i roi yw yn y rhychiau, cyn neu gwedi gosod y planigion. Gwna yr egin ieuainc yn union sugno y rhinwedd i mewn, yr hyn a frasâ y gwrysg, ac ni ofynant am achlesiad chwanegol. Mae yn gyfartal addas hefyd i fresych o bob math. Dymunem i bob amaethwr i sylwi yn fanwl ei fod yn beth

o bwys mawr iddo yn mhob modd i gasglu yr achles gwerthfawr a ddisgrifiasom.

Cymysgir ysgothfaoedd Paris yn bresenol a chalch a lludw, ac fe'u danfonir yn aflladenau i Flanders a'r Iseldiroedd, yn mha leoedd wedi eu dadleithio a'u cyfnewid i achles gwlyb, gwneir defnydd mawr o hono, a cheir ei fod yn werthfawr neillduol er ei daenu dros diroedd pori. Pe bai yr ysgothfaoedd a'r lleisw sydd yn awr yn myned yn ofer yn Llundain a'r trefydd mawrion yn cael eu casglu a'u defnyddio er brasâu y tir, pa fath ddiwalliant diddarfod o'r moddion goreu a ellid gael trwy hyny i'r perwyl o amaethu! ac nid ymdengys fod un rheswm dros paham na wneud felly.

PALU A DWFNGLODDIO.

Mewn rhyw fathau o dir, ac mewn rhyw amgylch-iadau, gellir defnyddio y bal gyda buddioldeb fel offeryn amaethu, gellir hefyd ei harferyd er arloesi tir gwylt; ond bob amser pan fyddo llawer o dir i'w drin, mae yn rhaid defnyddio yr aradr. Yn yr hinsawdd 'amrywiog hyn, mae hwsmoniaeth fynychaf yn gofyn ebrwydd-deb; ac y mae ceffyl ag aradr, trwy yr hyn y gellir gwneud llawer o waith mewn ychydig o amser, o ganlyniad yn angenheidiol er ei gyflawni yn fuan, yn gystal ag er arbed traul a thrafferth. Aredig erw y dydd a ystyri'r yn waith hawdd i ddau geffyl ag aradr, ond byddai palu cymaint a hyny yn waith o bumtheg i ugain diwrnod. Mae yn wir y gwnai ugain dyn ei gwblâu mewn ur diwrnod; ond pa le y ceir y nifer gofynol at y gwaith pan fyddo eu heisiau? A phe byddai yn bosibl cael y fath liaws ar yr amser apwyntiedig, pa beth fyddai ganddynt i'w wneud ar dymorau ereill o'r flwyddyn?

Y bal, gan hyny, sydd offeryn cyfaddas er ei harferyd *ar diroedd bychain*, yn benaf, ar gottai, fel eu gelwir, sef *ar rai yn rhy fychain* er cadw par o geffylau. Gellir *befyd ei defnyddio yn achlysuol mewn amaethyddiaeth*

gyffredin, lle byddo llawer o waith i'w wneud a llaw ; yn y fath amgylchiad, lle y byddo y tir yn ddwfn, sandog, a marlaidd, byddai yn dda ei balu yn ddwfn, er troi yr wyneb diffrywth i lawr, a chael pridd newydd i fynu yn ei le. Mae yr arferiad hwn yn myned rhag ei flaen ar diroedd bychain yn Flanders, lle mae llafur-waith am bris isel, a lle mae cnydau gwyrdlas er porthi anifeiliaid yn cael eu codi mewn cyflawnder. Gellir palu hefyd ar dymorau gwlyb, pan na ellir aredig ; ac mewn troi tiroedd cleiog a gwydn i fynu yn yr hydref, er eu chwalu gan rew y gauaf, gellir hefyd ddefnyddio y bal gyda buddioldeb.

Pan fyddo tir yn cael ei ddwfn gloddi, troir y pridd afrywiog i'r gwaelod, a dygir un newydd i'r wyneb yn ei le. Byddai yn llesiol iawn mewn gerddi er eu diwyllio a'u dyfnâu. Mewn planu coed byddai y dull hwn y mwyaf sicr er cynyddu tyfiant. Pan eu plenir ar dir pori, oddieithr ei fod wedi ei ddwfn gloddi, a'r wyneb glas gael ei droi i lawr, mae yn digwydd yn fynych na wnaiff y planigion ieueinc wreiddio na thyfu ; ac y mae y dull hwn i'w arferyd gyda choed ffrwythau yn gystal ag ereill.

AREDIG.

Yr arddiad goreu yw yr un fyddo yn dyfod yn nesaf at ddwfngloddiad, hyny yw, yr un wnelo godi i fynu fwyaf o bridd newydd ; a'r aradr oreu yw yr un wnelo hyn gyda lleiaf o drafferth. Ac o ran y dyfnder, ystyrrir pedair modfedd yn arddiad ysgafn, chwech modfedd yn weddol, a naw modfedd yn arddiad dwfn. Mewn arddiad basaidd nid oes dim pridd newydd yn dyfod i'r wyneb, yr hyn sydd beth o bwys ; oblegid y mae yn naturiol i achles fyned i lawr, ac y mae eisiau ei ddwyn i weithrediad drachefn, trwy gymysgu yr wyneb a'r gwaelod a'u gilydd ; a thrwy arddiad dwfn yn unig y gellir gwneud hyn. Mae yr arferiad o ddofn-aradr yn dra gwerthfawr gyda golwg ar hyn ; er nad yw yn

gweithredol droi y gwaelod i fynu, eto y mae yn ei ryddâu ac yn ei ysgafnâu, ac yn ei ddynoethi, er i'r awyr agored i gael gweithredu arno, a'i addasu er maethu y bywyd llysieuol. Gwedi gwneuthur hyn, gellir yn y canlyniad yn ddiameuol ei ddwfn-aredig gyda buddioldeb; ac anaml os byth gwnaiff hyn brofi i'r gwrthwyneb, pa un bynag a fydd y ddofn-aradr wedi cael ei defnyddio a'i peidio.

Ardder y tir ar gyfer cnydau gwyrddlas mor ddwfn ag y gellir, fel y cymysger ac y dyfnær y pridd. Bydded i'r cae gael ei aredig hyd y clawdd o amgylch ogylch yn ofalus, gan edrych na byddo un talar fel meithrinfa chwyn heb gyffwrdd ag ef. Pa mor gam bynag y byddo grwn y talar, os bydd y rhai ereill yn union, gwneiff y cae ymddangosiad taclus a hyfryd. Os na ellir gyru yr aradr ddigon pell yn y conglau, bydded iddynt gael eu palu, fel na byddo un droedsedd heb ei thro i fynu. Gadewir y soflydd yn fynych heb eu haredig hyd y gwanwyn, er mwyn i'r anifeiliaid yn y gauaf i gael pigo yr ychydig sydd ar hyd-ddynt. Mae hyn yn wrth-wynebol i holl wir egwyddorion amaethyddiaeth: oblegid nid oes dim yn gwellâu tir gymaint a'i osod yn agored i ddyylanwadau yr haul a'r awyr i weithredu arno, ac y mae rhewogydd y gauaf hefyd ag effeithiau da iawn er gwellâu y tir. Mor gynted, gan hyny, ag y cywainir y cynhauf, dylai y soflydd gael eu haredig, er eu paratöi erbyn y cnwd dyfodol.

Mae yn gofyn fod y tyddyn o ddeugain i haner cant erw o dir cyn y byddo arno ddigon o waith i ddau geffyl; gan hyny, dylai tyddynwr byehan na fyddo ganddo ond o ugain i ddeg erw ar ugain o dir, ymdrechu aredig ar yn ail ag un arall. Yr amaethwyr yr ymddyddenir yma am danynt, yw y rhai hyny na fyddo ganddynt ddim gwaith i'w ceffylau ond yr hyn fyddo ar y tir; ond y *mae amgylchiadau lle hyddo ffordd bell i gywain tanwydd ac achles, &c., yn gwneud ceffyl arall yn angenrheidiol, pan na byddai oni bai hyny.*

Mae llawer math o erydr, rhai ag olwynion danynt, a rhai heb olwynion, ac ereill o hyd yn cael eu dyfeisio o'r newydd; ac fe dybir fod rhyw ragoriaeth neillduol yn perthyn i bob un, a bod un math yn addasach ar gyfer rhyw fath o diroedd na'r llall; ond fel rheol gyffredin gellir dyweud mae yr aradr a agoro fwyaf ar y tir, a hynny gyda'r hawsdra mwyaf i'r anifail, yw y goreu.

Mae y defnydd o'r aradr a'r oged, ag o unrhyw offerynau ereill o'r fath, oll yn cael ei wneud i'r diben o ryddâu, chwalu, a chymysgu y pridd, a'i osod yn agored i ddylanwadau yr awyr i weithredu arno; a pha fwyaf effeithiol y caffo hyn ei wneud, goreu yn y byd fydd y cynyrch. Mewn tir caled gwylt, gydag an-hawsdra mawr mae y llysiau yn treiddio i waered mewn ymgais am feithriniad, ac y mae eu tyfiant, o ganlyniad, yn llesg ac yn wanaidd; ond pe byddau i'r fath yma gael ei fraenaru gan yr aradr, a'i chwalu gan yr oged a'r rholbren, cai y llysiau yn rhwydd yr hyn a ofynent, ac a dysent yn gyfatebol. Dylai yr amaethwr gofio na wna talpau celyd o bridd roi un meithriniad i llysiau; ond pan y ffaether ac y chwaler hwynt yn fân ronybau yn unig, y gwnant ateb y dybenion hynny.

Mewn aredig, lled y gwys yn gyffredin yw oddentu wyth modfedd. Mai ei dyfnder i ymddibynu ar natur y tir, a'r enwd a fwriedir iddo gynyrrchu; ond ni ddylai fod yn fasach na phedair modfedd. Gwnaiff chwech neu saith modfedd y tro yn gyffredin, oddieithr mewn tir dwfn iawn, neu pan fyddo yn cael ei barotöi ar gyfer moron cochion, neu blanigion gwreiddsawr ereill, pa ddyfnaf y byddo y pridd wedi ei ryddâu gan yr aradr, goreu yn y byd y gwnant dyfu yn y canlyniad.

Mae lled ac uchder y grynnau i amrywio yn ol natur y tir. Mae un-ar-bumtheg neu ddeunaw troedfedd o led, ac wedi ei godi i uchder cymedrol, yn rwn o'r maintioli mwyaf manteisiol yn gyffredin; ond ar diroedd y cyffwrdd gellir ei wneuthur o unrhyw led. Os bydd y tir wedi ei drwadl-ddyhysbyddu a'i ddwfn-aredig, ni bydd dim

eisiau gwneud y grynau yn gefn-uchel ; gan y bydd digon o le i'r dwfr redeg heb gynorthwy rhychiau dyfnion. Pan fyddo goleddf y tir yn caniatâu, dylai rhediad y grynau fod o'r gogledd i'r de, mor belled ag y byddo yn bosibl ; gan y byddent felly yn fwy agored i ddylanwadau yr haul i effeithio arnynt, na phe byddai eu rhediad o'r dwyrain i'r gorllewin.

Dylai par o geffylau da i aredig, mewn naw o oriau, dri chwarter cyfair o dir cryf gafaelus, ac o dir rhydd ac ysgafn, gyfair, neu gyfair a chwarter yn ysdod hyny o amser. Ymddibyna llawer, er hyny, ar yr aradr, yr hon, os bydd wedi ei gwneud yn ddyladwy, a fydd yn ysgafn ac yn aredig yn rhwydd.

Cyraedda y cwysau mewn erw o dir 19,360 llath, a thybied fod pob cwys yn naw modfedd o led ; ac a chaniatâu deuddeg llath am bob 230 llath yn chwanegol, ar gyfer y troi yn ol ar ben y tir, gellir cyfrif fod y pellder a deithwyd wrth aredig erw o dir yn un filldir ar ddeig a phump ystad. Mae wedi ei gyfrif fod haner yr amser yn cael ei golli mewn troi yn ol ac yn mlaen, pan na byddo y grynau yn hwy na phedwar ugain llath o hyd ; ond pan fyddont yn 300 ni chollir ond awr yn ysdod y naw. Ymddengys, gan hyny, y dylai y caeau fod o ffurf hir-gul bob amser, os bydd amgylchiadau yn caniatâu.

Pan fyddo y tir mor wydn a glydiog, fel na ellir ei ryddâu trwy y dull cyffredin o aredig, na thrwy draws aredig, llyfnu, a rholio, dylid cymeryd gyrrdd-coed mewn llaw i'w friwio, gan ei fod yn hanfodol angenrheidiol i'r talpau celyd gael eu dryllio, ac i'r pridd gael ei chwalu yn fân, cyn y gellir byth disgwyl tyfiant llwyddiannus.

BRAENARIAD.

Os caiff y tir iawn driniaeth yn nghyd a chylchyniad rheolaidd o gnydau, ni bydd yn gyffredin eisiau ei adail yn frysner agored. Ond pan fyddo y tir yn myned yn

ddrwg oblegid esgeulusdra neu gamdriniaeth, a'r amaethwr yn cael ei orfodi i arferyd braenariad, dylai gofio fod tri pheth i amcanu atynt yn hyn, sef, yn gyntaf, dyfetha hadau a gwreiddiau chwyn—yn ail, llwyr chwalu y pridd—ac yn drydydd, ei osod yn agored i ddylanwadau rhinweddol yr haul a'r awyr; ac i'r graddau y caffo y tri pheth hyn eu cyflawni bydd hefyd i ffrwythlonrwydd y tir gael ei chwanegu.

Bydd gwreithiad rheolaidd o gnydau brynar, megys erfin truliedig, cloron, &c., yn gyffredin yn ddigon er dwyn hyn oddi amgylch, ac hefyd yn rhagorach na gadael y tir heb ddim ynddo trwy y flwyddyn. Ar dir rhydd a marlaidd, ac ar y tir a gyfenwir "tir erfin," gwnaiff y mynchy drafod fydd arnynt trwy yr haf wrth eu ceibio a'u priddo, eu gosod yn agored i'r haul a'r awyr i effeithio arnynt, a'u chwalu i'r graddau gofynol; ond am dir gwydn glydiog, os esgeulir ei drin, fe allai y bydd yn angenrheidiol ei adail yn frynar dros yr haf, er ei lanâu a'i ddwyn i ansawdd briodol. Er y gwnaiff brynar haf yn gyffredin golledu yr amaethwr o un cnwd, eto geill tir ysgafn weithiau gael ei drwadl frynaru mewn pryd i osod erfin gwynion, o rhai a ellir eu hau mor ddiweddar a diwedd Gorphenaf neu ddechreua Awst.

Er hyny yn gyffredin bydd cnwd o *fangels* brynar, neu erfin truliedig yn ddigonol er glanâu a gwellâu y tir; a gwna y cnwd hyn yn nghyd ag un o haidd ar ei ol y flwyddyn ganlynol, hwyrach dalu eu ffordd yn well na chnwd o wenith. Gellir brynaru tir dan erfin yn y rhychiau, neu gloron, *mangels*, neu ynte ryw gnwd arall ag fyddo yn cael ei osod a drul, ac a ganiatao ei chwynogli ag aradr; ond dylai fod y rhychiau yn ddigon llydain, fel y gallo gael ei wneud yn drwadl, onide bydd yn anhawdd cadw y chwyn i lawr. Ffa, hefyd, a ystyri yn gnwd brynar, ond gan fod yn rhaid eu gosod yn Mawrth, os bydd y tir yn gofyn brynariad haf, dylai fod y rhychiau o leiaf ddwy droedfedd a haner oddiwrth.

eu gilydd, fel y gellir ffaethu rhyngddynt yn dda, a hyny heb niweidio y gwrysg.

Mae brynariad noeth, pan fyddo yn angenrheidiol ar dir cryf, i gael ei ddwyn yn mlaen fel y canlyn :—Ardder ef yn y gauaf mor ddwfn fel y byddo gwreiddiau yr holl chwyn drwg i gyd i fynu, a bydded i'r tir i gael aros yn rynau culion felly hyd Chwefror neu Mawrth, yna torer y tywyrch ar draws yn yr un dyfnder ag o'r blaen, gan eu gadael mor agored ag y gellir ar wyneb y tir. Pan sycho y tir yn y gwanwyn tyner oged drom drosto, a gadawer ef felly am bythefnos, nes y byddo hadau y chwyn yn dechreu egino. Yna dylai y tir gael ei rolio yn wastad, ac wedin ei lyfnu yn dda; ond na rolier mwy o hono nag a ellir lyfnu a'i lanâu i'r eitha yn yr un diwrnod, oblegid pe digwyddai i dywydd gwlyb ei ddal wedi ei rolio, byddai yn anoddach ei ffaethu yn y canlyniad. Aroser ychydig wedin hyd nes ymddangoso chwaneg o chwyn; yna ardder ef y drydedd waith ychydig yn ddyfnach nag o'r blaen, a llyfner a rholier ef drachefn. Y pedwerydd arddiad sydd i gymeryd lle ar amser ei hau; ond os bydd y tymor wedi bod yn ffafriol er dysfetha y chwyn, ac er chwalu y pridd, ni fydd eisiau ei aredig fwy na thair gwaith yn y cwbl; er fel rheol gyffredin, gellir dyweud, pa fynychaf yr arddir tir, goreu yn y byd. Hyn yw yr unig ddull priodol i noeth traenaru, ac y mae yn wahanol iawn i'r dull a fabwysiedir yn rhy gyffredin, sef, pan fyddo y tir wedi ei weithio allan fe'i gadewir i aros yn ddiffrwyth am un tymor, ac i gynyrcchu cnwd o chwyn ac anialwch.

HEUAD.

Dylai yr had a heuir fod yn taro y tir a'r hinsawdd. Rhaid hefyd ei fod yn iachus, ac wedi addfedu yn *drwadl*, ac ni ddylai fod yn gynyrcch yr un rhywogaeth *ol-yn-ol* ar yr un tir, ond ei newid, a hyny yn aml. Mae hyn oll o bwys, a gwnaiff pob amaethwr synwyrol

dalu y sylw priodol iddo. Mae effeithiau newid had yn aml yn hynod.

Gwnaiff weithiau gynyrchu cymaint arall o gnwd. Mae modd myned, er hyny, yn rhy bell gyda hyn ; oes, i'r fath raddau fel ag i achosi methiant o'i herwydd. Dymunol gan hyny fyddai iddo gael ei wneud yn gy-medrol, gan sylwi bob amser ar yr hinsawdd ac ar natur a sefyllfa y ddaear.

Hau yn gyffredin a gymer le trwy ei daflu, a llaw, ond byddai ei wneud trwy drulio yn bur fuddiol, ac ar dyddynod bychain iawn, gwnai weithiau ei blanu, arbed mwy o had nag a dalai am y drafferth. Yn lle ei blanu, gwneir weithiau hidlo yr had a llaw i'r rhych ar ol yr aradr. Gwnaiff y dull hwn arbed llawer o had, a chyfyd y cnwd mor rheolaidd a phe buasai wedi ei drulio. Mae llai o drafferth gyda hyn na'i blanu, ond cymer fwy o had. Mewn taflu yr had a llaw, y prif orchwyl yw ei daenu yn gyfrodedd dros y tir. Wrth hau a drul bydd lle rhwng y rhychiau i chwynu a llaw neu a chwynogl, a felly cedwir y tir yn lan, a bydd y cnwd yn gyffredin yn fwy cyfartal dros bob rhan o'r cae.

Mae rhagfarn weithiau yn bod yn erbyn hau cynar, oblegid fod y gwellt yn rhonach pan y byddir yn hau yn ddiweddarach, ond pe sylwer ar arferiad yr amaeth-wyr hyny sydd fwyaf llwyddiannus, cawn fod y dyn hwnw sydd ar ol yn ei oruchwyliaeth yn ddiweddar yn hau, ac o ganlyniad yn ddiweddar yn medi, bob amser yn dlawd ; tra nad oes dim sicrach prawf o ffyniant, na gweled dyn yn mlaenllaw mewn dodi a thynu. Y prif bwnc mewn gosod pob math o lafur yw cynyrchu y mesurau mwyaf o âd oddiwrth yr had a hauwyd. Nid yw y gwellt ond ail beth, ac os bydd eisiau gogawr ar yr anifeiliaid, dylid codi gwair erfin a meillion i'r pwrrpas hwnw. Mae i'r holl weithrediadau amaethyddol eu prif ddyben, i ba rai dylid ystyried pob peth arall yn wasanaethgar ; a gellir ei gosod i lawr fel rheol

gyffredin, nad oes dim modd hau yn rhy gynar os bydd y tywydd yn ffafriol.

CNYDIAD.

Y mae rhywogaeth y cnydau a fyddai yn taro pob amaethwr yn ymddibynu ar natur y tir, yr hinsawdd, ac amgylchiadau ereill; ond mae newid yr had a'r rhywogaethau, mewn cylchyniad rheolaidd, yn hanfodol i iawn hwsmoniaeth.

Mae pob llysieuyn wrth dyfu ac addfedu yn sugno i mewn rinwedd y tir, ond nid yw pob un yn gwneuthur hyn i'r un graddau, nag yn yr un dull, nag chwaith yn dychwelyd i'r tir yr un natur, na'r un graddau o faethlonrwydd; ac o ganlyniad pa mor dda bynag byddo y driniaeth mewn golygiadau ereill, ni all un tir barâu i gynyrchu yr un rhywogaeth yn hir heb fyned yn ddi-frwyth; oblegid y mae pob cnwd yn tlodi y tir i'r cyfartalrwydd, ag y mae yn cael ei ymddifadu o'r maethlonrwydd neillduol hwnw, ag y mae y cyfryw gnwd yn ofyn er ei gynyrchu. Dylai y llysiau hyny ag sydd yn gyru ei gwreiddiau i lawr yn syth i ddyfnder y ddaear, ganlyn y rhai hyny sydd yn eu lledu yn arwynebol. Ac ni ddylai y llysiau hyny sydd yn dirfawr hespau y tir, megys llafur o bob math, gael eu gosod ond yn unig pan fyddo y tir mewn calon dda; a phryd bynag y byddo y tir yn myned yn ddi-frwyth, oblegid dilyn ar gnydau o'r un natur, dylai rhai ereill o wahanol fath, a rhai na hespao gymaint arno gael eu gosod yn eu lle, a dylid chwanegu fod newid y cnydau fel hyn, a thuedd ynddo i ddinystrio pryaidd niweidiol, gan na chai y rhai a feithrinid gan y naill gnwd ond anfynych ddim i'w cynal gan y llall.

Ymddengys fod natur bob amser yn gofyn ac yn darparu ar gyfer cyfnewidiad mewn enydau. Pan losgir coedwig i'r llawr, cyfyd coed ereill o wahanol fath *yn uniongyrchol* i lenwi lle y rhai a ddystrywiwyd.

Pan ddarfo i un llysieuyn hespâu y tir ar y fan lle y tyf, estyna ei wraidd naill ochr mewn ymchwiliad am ei borthiant neillduol ei hun, ac yn y fan hono fe dafsi flagur i fynu, tra y byddo math arall o lysiau yn dechreu cy-fanedu ei hen drigias. Mae hadau rhai lysiau, megys dant-y-llew, ysgall, &c., mor ysgafn, fel y dygir hwynt yn mhell gyda'r gwynt. Mae had-lestri ereill, megys eithin, pan yn addfed yn agor yn ddisymwth ac yn taflu yr hadau i gryn bellder oddiwrthynt. Yn yr engreifftiau hyn, a llawer ereill, cawn fod natur wedi darparu ar gyfer cyfnewidiad parâus—ymlithriad o'r naill gyflwr i'r llall—a hyny mewn olyniad diddiwedd. Ac mewn cnydio ei faesydd, gwnaiff yr amaethwr synwyrol gydffurfio ar ddeddf gyffredinol hon o eiddo natur, ac astudia pa rywogaethau o lysiau a all yntau yn fwyaf buddiol godi mewn olyniad.

Mae yn beth ddigon gwybodus nad yw toraeth cnydau ddim bob amser yn ateb i'r achles a ddefnyddiwyd, yn neillduol os bydd yr un tir am hir flynyddoedd wedi bod yn cynyrchu yr un rhywogaeth. Mae hefyd yn eitha hysbys fod tir wedi hollo fethu meithrin y naill ryw, yn llwyddiannus gynyrchu un arall; ac ar y ffeithiau hyn y mae y *gyfundraeth gylchyniadol* yn cael ei sylfaenu.

Mae yr angenrheidrwydd o newid rhywogaeth y cnydau yn cael ei gydnabod yn gyffredinol; a'r pethau sydd i'r amaethwr i'w hystyried ydynt,—yn gyntaf, pa rywogaeth o gnwd mae unrhyw gae yn abl i'w gynyrchu oreu, ac yn ail, beth yw'r olyniad goreu, a chyda hyny ystyried ansoddau y tir, yn nghyd a'r moddion sydd ganddo i'w wrteithio.

Dan yr hen ddull o amaethu, byddai y tir yn gyffredin yn cael ei lafurio hyd nes y byddai wedi myned allan o anadl; ac yna gadewid ef i orphwys ac i ymadnewyddu o hono ei hun trwy ei borï. Er pan y mae yr arferiad o osod erfin a chnydau gwyrdlas wedi dyfod i mewn, mae cyfnewid y rhain ar yn ail a llafur wedi

rhagflaenu llawer o ganlyniadau dinystriol yr hen gyf- undraeth, ac y mae cynyrch y tir wedi amlâu y nfawr. Er hynny, oddieithr i'r tir gael ei adael yn achlysurol i fod am ychydig yn dir pori, bydd gydag amser yn debyg o lesgâu i'r fath raddau, fel na allo achles yn unig ei adferu.

Ar diroedd mawrion a threfnus, lle mae gwartheg a defaid, yn gystal a llafur, yn cael talu y sylw priodol iddynt, mae y naill haner i'r llafurdir yn gyffredin yn cael ei gadw yn bôrfa a gwair, a'r haner arall yn cael ei lafurio, mae y cnydau ar y rhanau hyn yn cael eu cyson gyfnewid, yn hwy neu yn gynt, yn ol yr amgylchiadau ; a gellir ystyried y cylchyniad hwn yn hanfodol i amaeth-yddiaeth drefnus.

Ond yn y dull hwn o fyned yn mlaen, mae un peth y dylid sylwi arno yn wastadol, sef, y dylai brynar neu gnwd brynar o erfin, *mangles*, cloron, ffa, neu feillion, bob amser i fod rhwng dau gnwd o lafur. Pe sylwid ar y rheol hon, yn nghyd a chylchyniad priodol mewn golygiadau ereill; ni lesgâi y tir ond anaml iawn, os gofelid cadw y chwyn i lawr.

Mae tiroedd cryfion cleiog yn addas iawn er cynyrchu gwenith a ffa, pa rai a ellir eu codi arnynt mewn cylchyniad am amryw flynyddoedd ; a hyn hwyrach yw y dull mwyaf buddiol o amaethu tiroedd o'r fath hyn, ond dylid gofalu eu bod yn cael eu hachlèsu yn ddigonol, a'r ffa yn cael eu chwynu yn lân. Mewn rhai amgylchiadau ffafriol, geill cwrs o'r fath yma gael ei barâu am chwech neu wyth mlynedd, neu chwaneg ; ond rhaid i'r tir gael ei achlesu bob tair blynedd cyn y gwneolo gynyrrchu cnydau toreithiog. Byddai cnwd o feillion, ffacrys, neu ryg wellt yn dda yn achlysurol, yn nghyd a chnwd o geirch ar ol hynny ; ac os bydd y tir yn cael ei ddiffrwytho gan chwyn gwreiddiog, yr hyn fydd ond anaml gydag iawn driniaeth, gellir ei wneud yn frynar haf er eu dystrywio, a gwna hyn ddechreu cylchyniad *newydd ar wenith a ffa*.

Y cylchyniad a wneir fynychaf ar diroedd cryfion

Essex yw—1. Cnwd brynar wedi ei achlesu ; 2. Haidd ; 3. Meillion ; 4. Gwenith ; 5. Achles a ffa ; 6. Gwenith ; 7. Ceirch. Mae yn rheol yno i beidio byth roi gwenith ar ol brynar. Er y gwrthwynebir dau gnwd o lafur ol-yn-ol, eto ar diroedd o'r fath hyn geill cnwd o wenith a cheirch ganlyn naill y llall heb wneuthur nemawr o niwed.

Yn ngogledd Lloegr a'r rhanau oeraf o Scotland, ni wnaif ffa addfedu ar rai tymorau, ac y mae y tiroedd cleiog yn aml yn deneu a diffrywth. Yn y cyfryw fanau cafwyd y cylchyniad canlynol yn ateb yn dda :—
 1. Cnwd brynar wedi ei achlesu ; 2. Haidd neu geirch ; 3. Meillion, a'u tori y flywyddyn gyntaf a'u pori ddwy flynedd wedin ; 4. Ceirch, ac yna drosodd drachefn yr un fath. Fel hyn cedwir y cylchyniad am chwech mlynedd ; amser digon hir ar y fath diroedd oerion a gwanclyd.

Dylai cylchyniad ar diroedd ysgafn gael ei ddechreu a chnwd brynar, wedi ei ffiethu a'i achlesu yn dda. Y rhywogaethau sydd yn gyffredin yn taro tiroedd o'r fath hyn yw—1. Erfin yn rhychiau ; 2. Haidd ; 3. Meillion a rhyg wellt ; 4. Ceirch ; ac yna drosodd drachefn. Gellir parâu y cylchyniad yma yn ddiddiwedd, ond i'r cnydau erfin i gael eu bwyta ar y cae, ac i'r holl achles a ddeillia oddiwrth y meillion a'r gwair i gael ei ddychwelyd drachefn i'r tir.

Lle byddo cyflawnder o achles, geill cnydau gwyrdd-leision a gwynion gael eu codi yn y cylchyniad canlynol :—1. Cloron neu erfin yn rhychiau ; 2. Gwenith ; 3. Ffa neu bys yn rhychiau ; 4. Gwenith neu haidd ; 5. Cloron neu erfin ; 6. Gwenith neu haidd ; 7. Meillion a rhyg wellt ; 8. Ceirch. Y buddioldeb o'r dull yma yw; ei fod yn diogelu cnwd da o feillion ; ac y mae yn cael ei arferyd oddiamgylch Edinburgh i'r pwrrpas. Yn nghymydogaeth Llundain, Edinburgh, a Glasgow, y cylchyniad yn fynych yw—1. Cloron ; 2. Gwenith ; 3. Meillion a rhyg wellt ; yna dechreuir drachefn gan

rai. Gwna ereill osod ceirch ar ol meillion, ac wedin dechreu cylchyniad newydd. Mae tiroedd sandog yn gofyn triniaeth dda cyn y gwnant gynyrchu ffrwythau toreithiog; oblegid ar dymorau sychion maent yn dueddol i sychu i fynu i'r fath raddau, fel na byddont yn abl i feithrin unrhyw dyfiant. Gwnaiff clai a marl wellâu y fath yma, ac i raddau newid eu cyfansoddiad. Wedi eu achlesu yn dda, gwnaiff tiroedd sandog gynyrchu cyflawnder o gloron ac erfin. Ni ddaw gwenith, ffa, na phys, cystled mewn tiroedd o'r fath hyn, ag y daw haidd, ceirch, a rhyg, oddiwrth ba rai y daw yr atdaliad goreu yn gyffredin; ond bydd yn anghenrheidiol i'r tir gael ei adael i'w bori yn achlysurol. Mae y cylchyniad chwe blwyddol canlynol wedi ei gael yn ateb yn dda mewn tiroedd sandog ac ysgafn iawn:—
 1. Erfin gydag achles; 2. Haidd neu geirch; 3, 4,
 5. Glaswellt i'w bori gan ddefaid; 6. Ceirch.

Ar leoedd oerion a digysgod, y cnydau cyffredin a godir yw rhywogaethau cynar o geirch a haidd, yn nghyd ag erfin a chloron; a gellir eu cylchynu yn y dull canlynol:—1. Ceirch ar hen dir; 2. Erfin neu gloron; 3. Haidd neu geirch, gyda hadau; 4. Gwair, ac yna porfa.

Mewn lleoedd uchel a noethion iawn, ni fyddai llafurio o nemawr ddyben, ond mor belled ag y gwnai wasanaethu er cynyrchu erfin a gwair i'r anifeiliaid, ac er diwallu y tir ac achles. Nid yw y llafur a godir i edrych gymaint arno ag yw y gwellt a'r gogawr i'r anifeiliaid. Blith a magiad anifeiliaid yw y pethau blaenaf ar diroedd uchel a mynyddig.

Mae y dulliau uchod o amaethu yn amrywio, ond y maent oll yn cydgyfarfod mewn un egwyddor gyffredinol, ac yn dal allan yr anghenrheirdwydd o gylchyniad cnydau. Mae yn ofynol sylwi, er hyny, fod tir mewn *amser yn dueddol o flino ar yr un cylchyniad*, ac yn *gofyn cyfnewidiad arno*. Gellir gwneud hyn naill ai *trwy gyfnewid y cnydau gwyrddas yn y cylchyniad*,

neu trwy gyfnewid y naill gylchyniad am un arall. Gelwir y diweddaf yn osgoi y cwers, ac y mae yn ddull a fabwysiedir gan yr amaethwyr goreu; a gellir yn ddiogel ei gyflwyno i sylw cyffredinol.

CYLCHYNIAD CNYDAU.

Hwyrach y gellid meddwl fod yr hyn a ddywedwyd dan y pen o'r blaen yn ddigon ar y pwnc hwn; ond y mae cylchyniad priodol cnydau yn fater o gymaint pwys i bob amaethwr, fel na ellir ei gymhell yn rhy fynych i'w sylw; ac y mae y dull hwn o amaethu mor gyfaddas ag anghenrheidiol i dyddyn bychan o bump cyfair, ac i un o ddeg-a-deugain neu bum cant.

Y cylchyniad lleiaf yw o wenith a ffa bob yn ail, heb ddim rhyngddynt; ond ni ellir mabwysiadu y dull hwn ond anaml, a hyny ar y tiroedd brasaf. Un arall tebyg iddo sydd o haidd ag erfin, yn nghyd a chnwd o feillion yn achlysurol rhyngddynt, ar ol i'r erfin gael eu bwyta gan ddefaid ar y cae. Ond fe allai mae y cylchyniad henaf ag sydd yn adnabyddus, a'r hyn sydd wedi bod yn cael ei arferyd trwy holl Ewrop oddiar amser y Rhufeiniaid, yw yr un tair blwyddol o fynnar, yd gauaf, ac yd haf neu y Grawys; hyny yw, gwenith neu ryg wedi ei hau yn yr hydref, a haidd neu geirch wedi ei hau yn y gwanwyn. Yr oedd rhyw ragoriaethau yn perthyn i'r cylchyniad hwn mae yn debyg, onide ni fuasai yn parâu cyhyd mewn arferiad; ond y golled o'r drydedd ran o'r tir, pa un achosai trwy fynnar, a wnaeth o'r diwedd wthio yn mlaen amaethiad cnydau eraill llai tueddol i hespau y tir; o ba rai daeth meillion gyda'r cyntaf, ac yn ganlynol, erfin, &c.; ac y mae hyn wedi effeithio y cyfnewidiad pwysicaf yn holl gyfundraeth amaethyddiaeth Ewrop.

Trwy osod erfin yn lle gadael y tir yn fynnar noeth, a hau meillion rhwng yd haf ac yd gauaf, y dygwya oddiamgylch y cylchyniad a arferir yn Norfolk, sef—

1. Erfin wedi eu hachlesu ; 2. Haidd ; 3. Meillion ; 4. Gwenith. Diffyg y cylchyniad hwn yw fod meillion wrth gael eu hau bob pedair blynedd, yn aml iawn yn methu ; ac y mae hyn wedi peri i'r amaethwr i ddefnyddio rhywel, efrau, &c., yn ei lle, ac i fyrâu neu estyn y cylchyniadau yn ol natur y tir ag amgylchiadau ereill.

Ar dir bychan, dylai y cylchyniad fod yr hyn a elwir yn gyffredin, *cwrs pum' mlwyddol* : hynny yw—1. Cloron neu erfin wedi eu hachlesu ; 2. Haidd a hadau ; 3. Gwair ; 4. Porfa ; 5. Ceirch. Gellir gosod haidd weithiau ar ol ceirch os bydd y tir wedi ei lanâu a'i chwalu yn dda, ac os gellir hebgor cymaint a hyny o achles ; ond fel rheol gyffredin, dylai ceirch ganlyn porfa ; erfin, cloron, neu *fangles* a ddylent ganlyn ceirch ; a haidd a hadau ganlyn cnydau gwyrddlas. Nid yw gwenith yn cael ei gynwys yn y cylchyniad hwn, ond lle byddo y tir yn addas, gellir ei godi gyda buddioldeb. Dylai gael ei osod mewn safi meillion, neu ynte ar ol erfin neu gloron yn lle haidd.

Fe allai y meddylia rhai personau na wnaiff y tir ddim goddef ei droi a'i aredig fel hyn yn gyson, ond cam-synied mawr yw hyn. Os yw cael ei fynych aredig yn niweidiol i dir, pa fodd y digwydda ei fod yn cynyrchu gwell cnydau ar ol brynar haf, wedi ei aredig dair neu bedair gwaith heb ond ychydig lonydd rhygddynt ? Nid yr arddiad cyson sydd yn gwaethygu tir, ond ei gyson lafurio heb dalu un sylw i gylchyniad sydd yn gwneud y drwg. Mae aredig bob amser yn fuddiol os bydd pethau ereill yn cael eu gwneud yn briodol.

Fel rheol gyffredin, dylid cofio na all dau gnwd o lafur gael eu codi ol-yn-ol ar yr un tir heb ei niweidio, ac yn y diwedd golledu yr amaethwr. Pe gosodid cnwd *gwyrddlas* bob yn ail, ceid llawn cynifer cnwd o *lafur oddiar yr un tir*, gyda'r un cymaint o achles, o fewn yr *un nifer o flynyddoedd* ; ac a ellid gael pe'i cymeryd y *naill ar ol y llall* heb ddim rhygddynt, a hyny gyda y

fantais yn chwanegol o gael mwyniant y cnydau gwyrddion, a chadw y tir bob amser mewn calon dda.

Llafurio parâus wnaiff y tir yn y diwedd mor ddi-ffrwyth fel na ddygo ddim glaswellt; ond pe heuid had laswellt gyda y cnwd cyntaf o lafur, byddai cnwd o wair ac adladd yr ail flwyddyn; a byddai y cnwd nesaf o lafur yn llawn cystal a'r cyntaf. Hyn raid wneud ar y tiroedd lle nad yw meillion yn taro; a dylai y cnwd diweddaf o lafur gael ei ganlyn gan gloron, erfin, meillion, neu ryw gnwd gwyrddlas arall, yr hwn a adferai y tir drachefn erbyn yr ail flwyddyn, fel y byddai yn barod i ddwyn cnwd o lafur o'r newydd.

Mae yn y ddaear fathau neillduol o nodd ar gyfer meithrin llysiau neillduol, ac y mae pob llysieuyn yn hespâu y tir o'i nodd neillduol ei hun, gan adael y tir yn analluog i ddwyn cnwd arall o'r un rhyw. Tynwdy eginyn ffäen i fynu, ac fe'i gosodwyd mewn dwfr glan, parâodd yn iachus am ryw dymor, ond lliw-iwyd y dwfr gan yr hyn a ddeuai o wradd yr eginyn, yr hwn yn fuan a wywodd. Yna gosodwyd un arall yn yr un dwfr, yr hwn a wywodd yn uniongyrchiol. Gosodwyd gwraidd planigyn gwenith ynddo yn nesaf, a gwnaeth nid yn unig fyw a blaguro, ond suggodd i mewn y defnydd lliwaidd oedd wedi ei adael gan yr eginyn ffäen, a sychodd y dwfr yn hollo.

Trwy brofion o'r fath sicréir fod y naill gnwd nid yn unig yn sychu y tir o'i nodd neillduol ei hun, ond yn gadael hefyd yn y tir ddefnydd dinystriol i gnwd arall o'r un rhyw; pa ddefnydd a suggir i mewn gan gnwd o wahanol rywogaeth, ac ni wna rwystro ei dyfiant, os na wnaiff ei feithrin. Gan hyny dylai llafur, gwraidd pa un sydd yn ymledu ar hyd yr wyneb, gael ei ganlyn gan gnwd gwyrddlas, megys ffa, cloron, erfin, *mangles*, moron cochion, neu feillion, &c., gwreiddiau pa rai a dreiddiau yn ddwfn, ac a suggnant nodd o wahanol natur i'r hyn a wna llafur. Gellir chwynogli pob cnwd gwyrddlas syddo wedi cael ei osod yn rhychiau, ag ardal neu a

llaw; ac fel hyn mwynëir y buddioldeb o fynnar haf, tra y gwnelo eu bwyta gan yr anifeiliaid gynyrchu achles rhinweddol; felly trwy gyfryngiad cnydau gwyrddlas wedi eu trulio, parotöir y tir er cynyrchu y cnydau llafur mwyaf toreithiog.

Pe bai porthi anifeiliaid a glaswellt yn y tŷ yn yr haf, ac a chnydau gwyrddlas yn y gauaf yn dyfod i arferiad cyffredin, nid oes dim amheuaeth na fuddiolid yr amaethwr yn fawr, pa fantoli bynag fyddai ei dir. Arwydd sicr o'i bod yn gyfundraeth dda yw, y gellir ei harferyd gyda buddioldeb ar diroedd bychain; ond os ar diroedd mawrion, bydd y buddioldeb a ddeillia oddiwrth, o gwrs, yn fwy mewn cyfartalrwydd.

Ar dir bychan geill fod un rhan o bedair o hono o dan gloron, *mangles*, ffa, neu erfin; un rhan o bedair o dan haidd a cheirch; a chymaint a hyny o dan feillion, ffacbys, erfin gwyltton, neu ryw fath arall o hadau; a'r gweddil dan wenith, os bydd y tir yn addas iddo. Bydded i'r amaethwr bychan unwaith ddwyn ei dir i'r cylchyniad hwn, a gellir ei gadw wedin yn hawdd mewn trefn; a gwnaiff dalu ei ffordd yn dda iddo.

Cynigir y *cylchyniad pedair blwyddol* canlynol i sylw yr amaethwr bychan fyddo yn dal o ddeutu ugain cyfair o dir, ac a chanddo trwy fwyda ei anifeiliaid yn y tŷ, ddigon o achles wedi ei ddarparu:—Y flwyddyn gyntaf, gosoder pump erw, wedi eu hachlesu yn dda, o dan gnydau gwyrddion, sef cloron, erfin, bresych, ffa, neu *fangles*, yn ol natur ac amgylchiadau y tir; a dilyner yr un llwybr yr ail, y drydedd, ar bedwaredd flwyddyn, hyd nes myned dros y tyddyn i gyd. Ar ol pob achlesiad dylai y cylchyniad canlynol gymeryd lle:—1. Cnydau gwyrddlas, megys uchod; 2. Gwenith, ceirch, neu haidd, gyda hadau meillion; 3. Y meillion i'w tori i'r anifeiliaid, a chymaint a fyddo dros ben i *gael ei gadw yn wair*; 4. Ceirch, gwenith, neu haidd. *Y pumed flwyddyn* gellir dechreu yr un cylchyniad drachefn, gan osod pump cyfair, wedi ei achlesu yn dda,

dan gnydau gwyrddlas, ac ereill i ganlyn megys o'r blaen. Fel hyn caiff yr amaethwr bedwar cnwd oddiwrth un achlesiad, a bydd haner y tir ganddo bob amser o dan lafur, ei chwarter dan hadau, a'r gweddill dan gloron, erfin, &c.

I wneuthur y cylchyniad uchod yn fwy symw, mae yr holl dir achlesedig yn cael ei dybied fod meillion yn cael ei hau ynddo gyda'r cnwd cyntaf o lafur; ond geill yr amaethwr hau yr haner a meillion, ar gweddill a ffacrys, rhygwellt Italaidd, neu fresych, os myn gael amrywiaeth o ymborth i'w anifeiliaid, yr hyn yn gyffredin sydd ddymunol—ond gofalu na byddo dau gnwd o lafur yn cael eu gosod nesaf i'w gilydd ar yr un tir. Gellir sylwi hefyd y gwnaiff y dom a gesglir trwy fwydo yr anifeiliaid yn y tŷ, alluogi yr amaethwr i achlesu y soflydd, ac yna i drawsblanu ynddynt erfin gwyltton, y rhai a wnant dalu yn dda, ac a fyddant oddiar y tir mewn pryd i osod cloron ac erfin, pa rai sydd i flaenor i ail gnwd o lafur.

Nid yw y cylchyniad hwn yn cael ei gymhell fel y goreu bob amser, oblegid y mae amrywiaeth tiroedd ac amgyichiadau mor fawr fel na wnaiff unrhyw gylchyniad unigol daro pob man; ond y mae yr egwyddor ar ba un y mae wedi ei sylfaeni, yn un a ellir yn gyffredin ei mabwysiadu, ac y mae mor addas i dyddyn bychan o bump cyfair, ag ydyw i ddeg a deugain, neu bum cant.

Pan fyddo gwenith yn cael ei godi, y ffordd gyffredin o'i osod i'w yn union ar ol erfin, meillion, neu ryw gnwd gwyrddlas arall, gan wasgar ychydig o galch ar hyd wyneb y tir wrth ei hau. Ni ddylai yr amaethwr na hauodd feillion gyda'i wenith, mewn un modd osod ceirch yn y tir yr ail flwyddyn, ond yn hytrach cnwd o ffacrys neu ffa, pa rai a adawant y tir mewn ansawdd addas i geirch neu haidd; ac yna gosoder ynddo gloron, erfin, *mangles*, neu gnwd gwyrddlas arall, a deckreu *cylchyniad* newydd drachefn. Fel hyn gwnaiff dau achlesiad roi:—1. Erfin, cloron, neu fangles; 2.

Gwenith ; 3. Ffacbys neu ffa ; 4. Ceirch neu haidd ; hyny yw, *pedwar* cnwd oddiwrth *ddeau* achlesiad. Ond gwnaiff y cylchyniad a grybwyllwyd o'r blaen roi *pedwar* cnwd oddiwrth *un* achlesiad, yr hyn sydd yn well, os bydd y tir yn ddigon eryfi'w ddwyn. Gwnaiff hefyd gadw pedwaran y tir bob amser dan feillion a ffacbys, trwy yr hyn y chwanegir ymborth anifeiliaid, a hefyd tail ystablau er ei ddefnyddio yn lle calch ; oblegid dylid cofio bob amser na ellir yn ddiogel roi calch i'r un tir y naill flwyddyn ar ol y llall.

Gelwir y cylchyniad pedair blwyddol yn gynllun Norfolk, a thrwy fabwysiadu pa un, i raddau mawr beth bynag, mae y wlad hono mor rhagorol yn ei hwsmoniaeth. **Geill** cylchyniadau ereill gael eu harferyd yn unig trwy estyn yr amser y byddo y tir a hauwyd a hadau glaswellt i gael aros yn dir pori.

Pan fyddo *cylchyniad pum' mlwyddol* yn cael ei fwriadu, gadewer dwy flynedd dan laswellt, fel hyn :— 1. Brynar, neu gnwd *gwyrdlas* wedi ei achlesu ; 2. Llafur ; 3. Glaswellt hadau ; 4. Porfa ; 5. Cnwd o lafur, yn gyffredin ceirch neu haidd. Mae y cylchyniad hwn yn well ar les y tir na'r un pedair blwyddol, a chan ei fod yn gofyn llai o achles, y mae yn fwy addas ar gyfer tiroedd drwg ; ond ni wnaiff gynyrchu cnydau mor drymion a'r un pedair blwyddol ; a chan hyny lle byddo cyflawnder o sand, gwymon, calch, marl, sialc, neu unrhyw beth o'r fath yn gyflëus, byddai yn briodol mabwysiadu yn hytrach yr un pedair blwyddol.

Mewn amgylchiadau ereill bydd y cylchyniad pum' mlwyddol yn debyg o ateb yn well ; ac yn y cylchyniad hwn, pa le bynag y mae y tir yn taro cnydau *gwyrdigion*, dylai y cnwd cyntaf o'r cylchyniad fod felly, ond lle na byddo hyn yn taro y tir, neu pan oddiwrth gam driniaeth flaenorol, neu ryw achos arall, y byddo y tir yn gofyn cael ei adael yn fyrnar dros yr haf, byddai hyny yn well y flwyddyn gyntaf na chnwd *gwyrdlas*.

Mae gadael y tir i aros dwy flynedd dan borfa yn

gwneuthur y cylch pum' mlwyddol yn addas iawn i diroedd drwg; ond y mae, er hyny, yn angenrheidiol yn fynych, pan fyddo y tir yn ddrwg iawn, neu wedi ei weithio allan trwy or-gnydio, ei adael i orphwys chwaneg yn y cyfryw amgylchiadau, dylai gael aros dan laswellt bedair blynedd yn lle dwy.

Lle na oddefa y tir fynych gylchyniad o feillion, mae yr un canlynol wedi ei gael yn ateb yn dda ar diroedd cleiog trymion:—1. Efrau gauaf neu gynarol, i'w pori gan ddefaid, ac i'w canlyn gan faip ac erfin gwyltton, pa rai hefyd sydd i gael eu pori gan ddefaid; 2. Gwenith; 3. Meillion ar y naill haner, a rhygwellt yn gymysgedig a *treffoil* ar yr haner arall, i gael eu pori gan ddefaid, a'u canlyn gan efrau gwanwyn; 4. Gwenith; ac ar y bumed flwyddyn, ffa gauaf. Yn y cylchyniad nesaf cymer meillion le *treffoil* a rhygwellt, ac felly yn ol ac yn mlaen, fel na ddaw cnwd o feillion i'r un tir ond unwaith pob deg mlynedd, yr hyn fydd weithiau yn fanteisiol. Gellir gwneud mwy o gyfnewidiad eto trwy osod cloron, *mangles*, moron cochion, neu fresych, yn achlysurol yn lle erfin; ond dylid sylwi yn ofalus ar ansawdd y tir, a'i achlesu pan fyddo angen. Os bydd sialc yn gyflëus, gellir bob amser gyda buddioldeb ei roddi i dir cleiog gwydn, a hyny bron i unrhyw fesurau.

Mae y *cylchyniad pedair a phum' mlwyddol* uchod yn taro *rhanau* helaeth o Brydain Fawr a'r Iwerddon; ond gwnaiff clai brasach, a marldir ysgafnach y darnau goreu, ganiatâu cylchyniad helaethach a mwy amrywiol. Mae dewisiad y cnwd yn aml i ymddibynu ar yr amgylchiadau lleawl, a byddai yn hawdd eangu y cylchyniad fel ag i gynwys unrhyw nifer neu amrywiaeth o gnydau chwanegol.

Tybier fod y tir yn glai cryf, ac heb fod mewn ansawdd mor ddrwg fel ag i ofyn brynariad haf. Yna gellid cymeryd y dull canlynol:—1. Cnwd brynar wedi ei achlesu; 2. Gwenith; 3. Glaswellt hadau, yn

gyffredin er eu cadw yn wair, neu er eu bwyta yn ir; 4. Ceirch; 5. Ffa wedi eu hachlesu; 6. Haidd neu wenith. Mae hwn yn gylchyniad rhagorol os bydd y tir yn ddigon cryf i'w ddwyn heb gael gorwysfa. Yn ol y cynllun hwn gwelir fod dwy ran o dair o'r tir o dan gnydau dyhysbyddol,* ar gweddill o dan gnydau adferol,† ac yn fynnar haf.

Gellir cyfnewid ychydig ar y cylchyniad hwn heb ymadael oddiwrth ei wir egwyddor; hyny yw,—1. Cnwd brynar wedi achlesu; 2. Gwenith; 3. Ffa; 4. Haidd neu wenith; 5. Had-laswellt; 6. Ceirch. Gellir gwneud y cylchyniad hwn yn well ar lês y tir trwyadael iddo aros dwy flynedd dan laswellt, yna daw—1. Cnwd brynar wedi ei achlesu; 2. Gwenith; 3. Had-laswellt; 4. Glaswellt; 5. Ceirch; 6. Ffa; 7. Haidd neu wenith. Yma ceir y drydedd ran o saith o dan gnydan adferol, a'r bedwaredd ran o saith o dan gnydau dyhysbyddol.

Pan byddo y tir yn ysgafn a briwsionllyd, neu hyd y nod yn gleiog ac yn wydn, os na bydd wedi tyfu yn wylt iawn, geill brynar haf bob amser gael ei hebgor. Cnydau brynar wedi eu ffaethu yn briodol, gyda chylchyniad rheolaidd o gnydau ereill, wnaiff gadw y chwyn i lawr, ac a ragflaená yr angenheidrwydd am fynnar haf.

Cynygir y cylchyniad canlynol i'w arferyd ar diroedd marlaidd a sandog ysgafn:—1. Cnwd gwyrddlas wedi eu rychio, (megys cloron, erfin, *mangles*, &c.,) a'i achlesu; 2. Gwenith neu haidd; 3. Had-laswellt; 4. Ceirch; 2. Pys neu ffa wedi eu hachlesu; 6. Haidd neu wenith.

Yn y cynllun hwn, dwy ran o dair yn gnydau dyhysbyddol, ac un ran o dair yn adferol; ond y mae y cylchyniad yn gofyn tir da iawn. Gellid, er hyny, ei wneud yn llai niweidiol i'r tir pe'i gadewid i aros dwy flynedd dan laswellt, yna y rhedai y cwrs canlynol:—1. Cnwd gwyrddlas wedi ei achlesu; 2. Gwenith neu

* *Exhausting crops*, llafur a ffa. † *Restorative crops*, had laswellt.

haidd ; 3. Had-laswellt, er eu cadw yn wair neu er eu bwyta yn fr ; 4. Glaswellt i'w bori ; 5. Ceirch ; 6. Pys neu ffa wedi eu hachlesu ; 7. Haidd neu wenith.

Wele yma dair rhan o saith yn adferol, a phedair o saith yn ddyhysbyddol ; yn y golygiadau hyn ymddengys fod y cylchyniad hwn yn waeth na'r un pedair blwyddol ; ond y mae yn hyn yn well nag ef, sef fod y cnydau yn fwy amrywiol ; a phe cymeryd gwenith i mewn i'r cylchyniad, byddai yn ol y rheol, y dylai cnwd o'r un rhywogaeth fod mor belled oddiwrth eu gilydd o ran amser ag y byddo modd.

Mae *cylchyniad chwe' blwyddol* canlynol wedi ei gael yn ateb yn rhagorol yn yr Iwerddon :—1. Erfin, *mangles*, neu gloron, wedi eu hachlesu ; 2. Gwenith neu geirch ; 3. Llin ; 4. Meillion ; 5. Glaswellt ; 6. Ceirch. Rhydd hwn chwech cnwd am un achlesiad ; ac y mae meillion bob amser yn taro ar ol llin, yr hyn sydd o grynn bwys i'r amaethwr.

Ond os na byddir yn ewyllsio cael cnwd o lin, gellir mabwysiadu y cylchyniad pum' mlwyddol a ganlyn :—1. Erfin, *mangles*, neu gloron, wedi eu hachlesu ; 2. Ffa ; 3. Haidd ; 4. Meillion ; 5. Ceirch neu wenith.

Gwnaiff yr amrywiol gylchyniadau a roddwyd uchod wasanaethu er dangos pa fodd y mae hwsmoniaeth Prydeinig i gael ei dwyn yn mlaen. Mae y cylchyniadau a enwyd oll wedi eu profi, ac yn hawdd eu harferyd ; a geill pob un o honyn ffurfio sylfaen i gylchyniadau ereill, a gymerai, os byddid yn ewyllsio, i mewn gnydau gwahanol i'r rhai ddarfu gael eu henwi yma.

CNYDAU O LAFUR.

Y cnydau llafur a godir yn benaf yn y wlad hon ydynt *haidd*, *gwenith*, *ceirch*, a *rhyg* ; ond cyn yr elom yn mlaen er rhoddi cyfarwyddiadau neillduol er amaethu pob un o honyn, cymerwn sylw byr o ychydig o'r anffodion i ba rai y mae y cnydau hyn, yn enwedig gwenith.

yn ddarostyngedig iddynt yn ngwahanol dymorau eu tyfiant, yn gyntaf gan bryfaid, ac yna gan adar.

Pryf y gwenith, a'r prif Hesiaidd neu Americanaidd, sydd ill dau yn niweidiol iawn i'r gwenith. Ymddengys y prysaid yma yn gynar yn yr haf, gan bentru eu hwyau ar benau y twys ieuinc. A'r wyau hyn, yn mhen wythnos neu ddeg diwrnod, a gynyrchant lindys, pa rai a fwytânt y grawn tyner, gan beri i'r pen ymgrynöi ac ymgrychu. Yna syrthiant i'r llawr ac a ymlechant yn y ddaear.

Gwna gwifr-bryf (*wire-worm*), hefyd, ddifrod mawr ar gnydau gwenith; ac yr ydys yn cyfrif fod cymaint a 60,000 o erwau o wenith yn cael ei ddinystrio yn Lloegr gan y prif yma yn flynyddol.

Mae malwod yn niweidiol iawn i wenith ieuanc, gan fwyta trwy y gorsen, a dinystrio cynydd y planigyn. Yn y gwanwyn mae malwod liosocaf; a gwnaiff cymwysiad o halen, halen y graig, calch brwd, a dwfr oddiar galch, yn gyffredin eu rhagflaenu rhag gwneuthur niwed. Gwnaiff dyferyn o ddwfr oddiar galch ladd malwoden.

Meddyllir yn gyffredin gan lawer fod brain, ydfrain, ac adar ereill yn difa ac yn niweidio cnydau llafur, ond y mae hyn i raddau mawr yn gamsynied. Mae adar y maesydd yn gyffredin yn ymborthi ar abwydod a phryfed, ac y mae cigfrain yn neillduol yn cyson ddifa malwod, ac yn glanâu y tir o'r llindys, a phryfed ereill sydd yn niweidiol i'r enwd.

Mae y ddylluan yn llygota yn ddibaid yn y meusydd ac oddeutu y tŷ, a pha le bynag y byddo yn gwneud ei thrigfan dylai gael ei hamddiffyn a'i hymgeleddu.

Mae yr ydfrain yn ddefnyddiol iawn i'r amaethwr, oblegid y maent yn ymborthi ran fawr o'r flwyddyn 'ar bryfedach a malwod, y rhai a ymguddiant yn y ddaear, ac a ddifant wreiddiau y planigion. Mae yr ydfrain a'u pigau cryfion yn cloddio y rhain i fynu ac yn eu bwyta; ac felly wrth ymwneud am luniaeth iddynt eu bunain, gwnant hefyd gymwynas fawr a'r amaethwr.

Mae brain, hefyd, yn ymborthi ar bryfed fel yr ydfrain, ac felly yn ddefnyddiol megys hwythau. Gwiliedydd effro yw y fran, a gwnaiff gadw pob adar ereill draw; ac os gwnaiff yn achlysurol bigo tyllau yn yr erfin, gwna hyny mewn ymchwiliad am y pryfed, pa rai, oni bai eu difa ganddi, a wnai fwy o niwed na hi.

Mae y bioden, y gogfran, ac ysgrech y coed, hefyd yn ymborthi ar bryfed, ac felly yn ddefnyddiol i'r amaethwr.

Yn mlith yr adar bychain, gwna'r pinc sicrâu ei hawl o gyfran o'r hadau erfin; ond gwna hefyd ddifa hadau yagall a berw'r fam, ac fe'i gwelir yn fynych a llindys yn ei gilfin. Ac yn wir mae agos yr holl adar a ym-welant a ni yn yr haf, yn dyfod mewn ymchwiliad am bryfedach, ar ba rai yr ymborthant; a pha rai, oni bai yr adar hyn, a ddeuent yn annyodddefol liosog. Ond nid yw hyn, pa fodd bynag, i'w gymwys o at aderyn y tô, yr hwn sydd leidr digywilydd, ac yn wastad yn ysglyfio yr amaethwr, ac ni esgeulusa un cyfleusdra er ei ddystrywio.

Gwna ffwlbert, carlwm, a'i wenci, ddystrywio llygod, ac y maent yn geidwaid da i'r ydlan, er ei bod yn beryglus i'r creaduriaid plyfog, pa rai a ddylid gadw allan o'u cyraedd.

Gwnawn bellach ddesgrifio y dull penodol y dylid trin y tir ar gyfer pob math o lafur, ond yn unig gosod i lawr yn gyntaf, fod y rheol a grybwyllywd o'r blaen yn taro pob man, sef, na ddylid byth gosod dau gnwd o lafur ar yr un tir yn nesaf i'w gilydd. Mae hyn, cofier, yn hanfodol i bob hwsmoniaeth dda, a rhaid i bob amaethwr, yr hwn a ewyllsio wneud y goreu o'i dir, i lynn wrth y rheol hon yn ddieithriad.

GWENITH.

Gwenith yw y mwyaf gwerthfawr o bob grawn, ac y mae ei amrywiaethau yn liosog iawn. Yn gyffredin, y mae gwenith gwyn teg yn well nag un llwyd a choch, ac yn cyraedd uwch pris ar y farchnad; ond y mae

gwenith llwyd a choch yn fwyllyd addas i diroedd gwlyb a glydiog, oblegid eu bod yn galetach grawn ac yn addfedu yn gynarach. Mewn ffaith nid yw gwenith gwyn yn awr ond anaml iawn yn cael ei godi, oddieithr ar diroedd da a chyfaddas.

Y tiroedd cleiog brasaf, a marlaidd cryf, yw y goreu er tyfiant gwenith; ac os c'ant eu hamaethu a'u hachlesu yn briodol, gwnaiff pob math o'r rhai hyn gynyrchu cnydau da. Dylai tir gwenith fod yn cynwys cyfran helaeth o glai, ac ychydig o sand; er gellir gwneud tiroedd ysgafn i gynyrchu cnwd da o wenith, eto gwna tiroedd cleiog cryf yn gyffredin roi trymach grawn. Mae tiroedd sandog yn ddifygiol mewn grym, ac ni allant yn gyffredin roddi maeth digonol i wreiddiau gwenith, pa rai ni threiddia yn ddwfn; eto y mae, er hynny, rai tiroedd ysgafn yn cynyrchu gwenith rhagorol.

Y mae y tymor i hau gwenith i gael ei reoleiddio gan sefyllfa, ac ansawdd yr hin. Gellir ei hau o ddechreu Awst hyd ganol Tachwedd, ond ar gleien wydn mae yn briodol hau mor gynar ag y byddo yn bosibl. Yn ol barn llawer o amaethwyr profiadol, yr amser goreu i hau gwenith yw o ddechreu Medi i ganol Hydref; ond rhaid i hyn, fel y dywedwyd o'r blaen, i ymddibynu llawer ar y tir a'r tywydd. Mewn marl-dir sych grafelog, wedi ei barotöi a'i achlesu yn dda, daw gwenith da wedi ei hau yn Tachwedd; ac ar ol y mis hwn ni ddylid anturio hau gwenith hyd oni ddelo y gwanwyn.

Wedi priodol aredig y tir ar ol erfin, gellir gosod gwenith gwanwyn unrhyw amser rhwng y cyntaf o Chwefror a chanol Mawrth; ac y mae yn arferiad, er rhoi yr had yn y tir mor gynted ag y gellir ei aredig a'i hau bob yn ychydig, fel y byddis yn cael yr erfin oddi arno; ond yn gyffredin yn unig ar dir o waelod da, ac mewn triniaeth dda, y gellir yn llwyddiannus godi gwenith gwanwyn. Mewn amgylchiadau ffafriol, er hynny, gwnaiff tir erfin gynyrchu cynifer o lestreidiau (*bushels*) o wenith ag o haidd; a chan fod cnwd o wen-

ith yn gyffredin lawer mwy o werth na chnwdd o haidd, ni ddylai codi gwenith gwanwyn gael ei esgeuluso yn hollol gan yr amgathwr. Dylid gofalu fod yr had, podd bynag, bob amser yn wenith gwanwyn o'r iawn ryw, ac wedi ei gymeryd o'r hyn ag fyddo yn wybodus ei fod wedi cael ei hau yn ngwanwyn y flwyddyn o'r blaen.

Mewn tiroedd marlaidd bras, gellir hau gwenith gauaf ar ol unrhyw gnwd gwyrddlas, pa un bynag ai wedi ei fwyta oddiar y tir neu beidio. Os bydd y tir wedi ei lwytho a chwyn, byddai yn dda hau ynddo ffacbyss gauaf yn gynar ac yn dew. Os deuant yn gnwd trwchus, gwnant fogi y chwyn a glanâu y tir erbyn gosod gwenith ynddo. Gellid tori y ffacbyss, neu eu pori gan ddefaid. Trwy y diweddaf, arbedir aechles a thrafferth, a thrwy y naill neu y llall gwneir hebgor brynar haf. Ar diroedd ysgafn da, gellir bob amser gael cnwd da o wenith ar ol meillion; a hefyd ar ol erfin, ffacbyss, neu erfin gwyltton, os cant eu pori i ffwrdd, neu eu buarthu a defaid; a bydd un arddiad yn ddigon ar ol pob un o'r cnydau hyn.

Heuir gwenith yn gyffredin a llaw, ond y mae trulio yn cael ei arferyd yn aml ar diroedd ysgafn, yn neillduol os bydd y tir yn o lawn o chwyn, gan y gwnaiff dull felly oddef chwynogli a chwynu, yr hyn sydd o les mawr i'r cnwd. Dull arall o hau a elwir eisenu. Gwasgerir yr had a llaw ar ol yr aradr, a chan syrthio y rhan fwyaf o hono i'r rhychiau rhwng y cwysau, ac wedi hyn y gael ei lyfnu ar draws, gwnaiff ymddangos fel pe bai wedi ei drulio. Mae'r ddau ddull ddiweddaf hyn o hau yn fwy manteisiol er chwynu na'r dull cyffredin. Gwnant hefyd ganiatâu cylchyniad rheolaidd o awyr rhwng y tywysenau, yr hyn sydd o bwys mawr pan y mae y gwenith yn addfedu.

Y dull cyffredin o hau gyda llaw-dafliad ar dir gwydn a glydiog, yw yn rynau 15 troedfedd o led, ac wedi eu codi ychydig yn y canol, fel y rhedo y dŵr.

rhychiau. Os bydd y tir yn ysgafn ac o waelod rhydd, bydd grynaau o 18 troedfedd yn well. Cuddir yr had trwy dynu yr oged ddwy waith yr un ffordd ar hyd y grwn, a dwy waith yr un ffordd ar ei draws, ac yna ei orphen trwy ei thynu un waith neu ddwy ar ei hyd drachefn, fel y byddo natur y tir. Gwnaiff ffurfiad y grynaau yn gefn uchel alluogi dwfr gwallaw i redeg yn rhwydd i'r rhychiau, rhai na fyddo wedi cael eu hagoryd ond yn unig ar aradr. Os bydd dwfr yn aros mewn rhyw ran o'r cae, dylai ychydig o ddyfr ffosydd gael eu hagoryd a phal er ei arwain allan.

Gellir trulio tir yn hawdd os bydd wedi ei lyfnu yn dda yn gyntaf. Mae y rhychiau yn gyffredin o 12 i 15 modfedd oddiwrth eu gilydd, wedi eu hagor gan had-aradr—un tro iddi am bob rhych. Os na ellir cael had-aradr, ond tynu ymaith y bridd-adenn, gwnaiff aradr gyffredin y tro yn agos cystal a bithau. Yna gellir hau yr had dros y rhychiau, megys mewn eisenu; a thrwy dynu yr oged yn ysgafn drosto yn ol ac yn mlaen, treigla yr had i waelod y rhychiau ac a guddir yno.

Dull arall yw dyhidlo yr had o'r llaw ar hyd y rhych ar ol yr aradr, trwy yr hyn yr arbedir y naill haner o'r had, ac ymddengys y cnwd mor gyfrodedd a phe buasai wedi ei drulio. Mae hyn yn llai dyhir na phlanu, ond cymer fwy o had.

Geill planu gael ei arferyd yn achlysurol gyda man-tais ar dir bychan, ond y mae yn ddull rhy drafferthus ar diroedd mawrion; er hyny y mae yn cael ei arferyd weithiau yn Suffolk. Mae yn cael ei gyflawni gan ddyn a phlan-bren yn tyllu y tir o'i flaen o ddeutu modfedd o ddyfnder, a thri neu chwaneg o blant yn dyhidlo yr had ar ei ol, ac yn tynu y pridd drosto a'u bysedd; ar ol hyny tynir drain-oged dros y tir, ac yna ei rolio. Mae planu yn arbed had, ac y mae y grawn yn fwy cyson yn mhob man nag ydyw ar ol y dull cyffredin; a gwnaiff y tro ar diroedd bychain, a lle byddo digon o ddwylaw ac am bris isel.

Pan arferir y dull cyffredin o hau, y mae yn gofyn bod yn ofalus gyda hyfnu a rholio yn y canlyniad. Y mae hyn yn anhebgorol angenrheidiol ar diroedd cleiog cryfion, er eu rhyddâu a'u chwalu. Dylai gwenith gael tuyu yr oged drosto ya y gwanwyn, pan o ddeutu pedair neu bum modfedd o uchder; ac y mae yn rhaid bod yn ofalus yn nghylch hys, oblegid os bydd yr egin wedi tyfu yn rhy uchel, gwna hyn attal eu cynydd.

Ni ddylai rholio yn y gwanwyn byth gael ei esgeuluso. Mae tiroedd ysagafn yn fynych yn cael eu chwalu gymaint gan newogydd y gauaf fel y mae y gwreiddiau yn colli eu gafaol a marw. Os bydd y tir yn arw ac yn dywarechog, gwnaiff y rhobren fwy o les na'r oged mewn chwalu y twmpathau cyaglyd, ac felly gynyddu meithriniad yr egin. Nid yw chwynogli a chwynu byth yn cael eu hesgeuluso gan amaethwyr gofalus.

Gwneir weithiau anfon defaid i'r gwenith yn y gwanwyn pan fyddo yn tyfu yn fras iawn; ond y mae yr arferiad yn agored i wrthwynebiad cryf, oblegid fod y defaid yn gyffredin yn tori ymaith y blagur tyner sydd yn nghalon y planigyn, yr hyn a niweidiai ei gyn ydd rhag llaw.

Mae yr hyn sydd ofynol o had i bob erw yn ymddidynu llawer ar natur y tir, a'r dull o'i amaethu. Mae tir drwg yn gofyn mwy o had na thir da. Mae trulio yn arbed had, mae planu yn arbed mwy. Mae y mesur gan hynny yn amrywio o ddau i dri llestraid, ychydig yn llai, neu ychydig yn fwy, yn ol y dull y caffo ei hau. Pan heuir yn y gwanwyn dylid rhoi chwaneg, oblegid y mae gan y gwenith lai o amser i dyfu ac i ledu ei wraidd.

Mae gwenith yn ddarostyngedig i lawero glefydau; ond duon, mallder, a brychni, sydd i'r amaethwr eu hofni fwyaf. Duon sydd fath o dadarch a flagura ar y dywysen; ond am ei ddechreuaid, a'r modd i'w wellâu, mae amryw dybiau, yn holol annhebyg, ac o ganlyniad yn amhëus.

Yn mhliith y meddyginaethau er rhagflaenu neu

wellâu clefydau gwenith, cynygir y rhai canlynol :—
 1. Hau mewn amser priodol, yn ol natur y tir. 2. Codi amrywiaeth cynar o had. 3. Cyson newid yr had. 4. Rholio tiroedd ysgafn yn dda wedi eu hau. 5. Di-wreiddio pob chwyn a llysiau sydd yn ymgleddu rhwd. Mae hyn oll yn ddiameu yn briodol ac yn angenrheidiol i sylwi arnynt er amaethu gwenith; ac yn mhellach, y mae yn sicr fod buddioldeb wedi ei brofi oddiwrth hau pedwar llestraid o halen cyffredin gyda'r had i bob erw o dir, a chymaint a hyny drachefn yn y gwanwyn, pan fyddo y gwenith yn dechreu casglu.

Dylai gwenith gael ei dori pan fyddo y gwellt yn edrych yn gymysg-liw o felyn a glas, a chyn iddo gyflawn addfedu; canys yna y mae y grawn yn debyg o golli o'r dywysen, a'r dywysen ei hun i gwympo ymaith, yr hyn fydd yn golled. Yr amser goreu i dori pob llafur, yw pan na ellir gwasgu dim nodd o'r gwellt yn union islaw y dywysen; bydd y grawn y pryd hwnnw a'i blisgyn yn lan ac yn deg mewn cymariaeth, a bydd yr yd a'r gwellt yn fwy o werth na phe buasent yn cael cyflawn addfedu. Pan yn or-addfed, mae y grawn yn ymddangos o liw tywyll, yr hyn sydd lawer iawn yn ei erbyn ar y farchnad.

Torir gwenith yn gyffredin a chrymanau, ac fe'i rhwymir yn ysgubau, y rhai a osodir i fynu yn ystacanau, ac a adewir i sychu. Pa leiaf yr ysgubau, cyntaf y sychant; a dylai yr ystacanau gael eu gwneud fel ag i ollwng y gwynt trwyddynt yn rhwydd. Pan fyddo cymalau y gwellt yn holol sych a rhydd oddiwrth nodd, gellir cywain y cnwd yn ddiogel i'r ydlan; ac ni ddylai cafod ysgafn o wlaw ohirio hyn, gan fod y gwellt yn sych ac o gyfansoddiad gwydn agored, ni wnaiff ychydig o wlaw beri iddo dwymo, na chwaith niweidio yr yd.

Mae haidd yn galetach yn ei dyfiant na gwenith.
Mae chwech o wahanol fathau o'r grawn hwn yn cael eu

gwahaniaethu trwy nifer y rhestrau yn y dywysen. Mae'r un dwy restr yn cael ei ranu i ddau fath : cynar, a ddiweddar. Y cynar, neu y buan-dwf, yw yr un a ddefnyddir fynychaf, ac a ganiatâ wahaniaeth mawr yn amser eu heuad ; heuir ef weithiau mor ddiweddar a dechreu Mehefin ; ond pan heuir ef yn gynar mae y gwelt bob amser yn gryfach, a'r grawn yn drymach.

Un col-fawr neu a barf garw yw y grawn caletaf a chynaraf, ac oblegid hyn heuir llawer o hono yn mharthau oerion y gogledd, gan fod mwy o sicrwydd y gwna addfedu yno nag un math arall. Fe'i heuir yn gyffredin yn y gwanwyn, ac er ei fod yn cael ei godi fynychaf ar dir gwael, eto y mae yn gwbl mor addas i dir da. Mae ei gynyrch yn mharthau geirwon yr Is-diroedd weithiau yn dyfod i ddeg crynog am bob erw Saesnig.

Ar farldir bras, glân, tyner, a chymedrol o afaelgar, y daw haidd oreu; ac ar dir cleiog wedi ei dymeru a phridd sandog, neu un yn cynwys rhyw gyfran o sialc yn gymysagedig a sand, mae hefyd wedi ei gael yn dyfod yn dda. Ar diroedd gwlyb yn anaml y codir nemawr o hono ; a dylai pob math o dir ar ba un ei cynyrchir gael eiffaethu a'i chwalu yn drwadl. Mae haidd yn y cylchyniad yn canlyn erfin yn gyffredin ; ond ceir ei fod yn dyfod yn dda ar ol cloron neu unrhyw gnwd gwyrrdas.

Os bydd yr erfin wedi eu bwyta oddiar y tir, neu wedi cael eu gosod ar ol cloron, dylai y tir gael ei wneuthur yn rynau cefn-uchel, fel y byddo mor sych ag y byddo modd. Mae cymwysiad o gydgymysgedd cynwysedig o galch, marl, neu sand a phridd, pridd a thom ystablau, neu achles gwlyb, yn llesiol iawn i gnwd o haidd. Os na bydd yr oged yn ddigon er chwalu y tir yn ddigonol, defnydder y rhol-bren er ei gyflawni. Pan fyddo erfin wedi cael eu bwyta ar y tir, bydd wedi ei ddamsang a'i galedu yn fawr, a gofyna ddeu arddiad,

ac ar ol hynty ei lyfnu a'i rolio yn dda. Ni ellir ffaethu gormod ar dir haidd.

Dylai haidd gael ei hau mor fuan ag y gellir ar ol aredig. Gwna hyn sicrâu tyfiant buan. Yr amser i hau haidd, yw o ddechreu Ebrill i ganol Mai; ond y mae wedi cael, cyn hyn, ei hau fis yn ddiweddarach mewn rhai manau, a hynty gyda llwyddiant. Mai rhai yn arfer ei drulio yn rhychiau naw modfedd oddiwrth eu gilydd; mae y dull hwn yn gofyn llawer llai o had; ond yr hen ddull a arferir yn fwyaf cyffredin.

Ymddibyna y mesur gofynol o had i raddau mawr ar natur y tir, ond ystyri'r yn gyffredin fod pedwar llestraid yr erw yn ddigon. Nid yw heuad teneu yn dda, os bydd yr hîn yn sych; canya yna rhwystrir y tyfiant, gan y bydd yr egin yn rhy analluog i estyn eu gwraidd er llanw y gwagle. Ar y llaw arall, os heuir yn rhy dew, bydd y cnwd yn wan, a'r grawn yn eiddil. Mewn haidd, yn gystal a phob llafur, dylid gofalu ar fod yr had o'r grawn mwyaf cyflawn; a dylai, os bydd yn bosibl, fod yn gynyrch tir o wahanol natur i'r hwn y bwriedir ei hau ynddo; oblegid mae newid had yn mhob math o lafur bob amser yn fuddiol.

Heuir meillion a rhyg-wellt yn gyffredin gyda haidd; cuddir yr hadau gan dyniad diweddaf yr oged dros y tir; arferir weithiau oged ysgafn i'r perwyl. Arfera rhai amaethwyr rolio y tir yn union ar ol hau, dewisa ereill i'r egin ddyfod uwchlaw y tir yn gyntaf, gan fod y talpiau bychain felly yn gwasanaethu er cysgodi yr egin tyner, yr hyn sydd yn llesiol ar nosweithiau rhewlyd.

Gellir hau yr hadau oanlynol gyda haidd, sef—Er cael eu pori yn y tŷ, 2 lestraid o ryg-wellt Italaidd, yn gymysgedig a 12 pwys o feillion cochion neu wynion, wedi eu cymysgu a'u gilydd; os er bod yn borfa arosol, 2 lestraid o ryg-wellt blwyddol, $\frac{1}{2}$ llestraid o ddail troedy-ceiliog, $\frac{1}{2}$ llestraid o ddail cynffon-y-cadnaw, a 4 pwys o feillion gwynion,—geill ychydig o drefoiil ac eis-las-wellt fod hefyd yn ddefnyddiol.

Mae haidd yn addfed pan gilio y lliw eochaidd sydd ar dywysean, neu pan fyddo y dywysean yn plygu ac yn taro yn erbyn y paladr, a phan gollo y gwell tei wyrddlesni. Mae mwy o ofal yn ofynol wrth gyneuafu haidd nag un grawn arall, oblegid tynerwch ei wellt, a'i duedd i egino. Mae yn fwy darostyngedig i gael ei niweidio gan wlybaniaeth nag un math o yd; gan hynny, diogelach fyddai, mewn hinsawdd wlyb, i'w rwymo yn union pan dorir ef, a'i ystacano, ac nid ei adail i aros dim ar y llawr. Dylai gael aros ddigon hir ar y cae er caledu y grawn, ac er sychu y gwelt; oblegid os twyma ond ychydig, cyll ei liw, ac ni bydd cystal i'r bragwr, melinydd, na'r hauwr.

Mae cynyrch haidd yn amrywio yn fawr yn ol natur y tir a'r tywydd, ond y mae bob amser yn dda ar dy-morau gwresog. Ar dir, ac ar flynyddoedd ffafriol, ystyrrir fod o 30 i 40 llestraid yr erw yn gnwd gweddol dda, ond bydd weithiau lawer yn llai. Haidd yn fwyaf neillduol a ddefnyddir i'w fragu; mae yn cael ei wneuthur hefyd yn haidd crochan, neu yn haidd wedi ei bilio, ac yn flawd haidd; ac yn yr ystyrion diweddaf mae yn cael ei ddefnyddio yn ymborth yn nghogledd Lloegr ac yn Scotland. Defnyddir y gwelt fel *gogawr*, a sarn i wartheg a cheffylau.

CEIRCH.

Ceirch sydd rawn caled, ac yn taro hinsoddau sydd yn rhy aer i wenith na haidd. Mae yn gyffredin yn dyfod yn fwy cynyrchiol mewn lleoedd uchel nag mewn lleoedd isel; ac y mae ei amaethiad wedi bod yn fodion i ddiwyllio anialdir Iwerddon, Scotland, a pharthau gogleddol Lloegr. A'i gymeryd mewn cysylltiad a hadau, ac a chodi anifeiliaid, mae y buddioldeb sydd yn deilliaw i'r wlad o amaethu ceirch o fawr bwys.

Mae amrywiaethau ceirch yn lliosog, pa rai sydd yn anhawdd eu desgrifio, oblegid fod ei ymddangosiad yn cyfnewid cymaint, os bydd yn hir yn cael ei gynyrehu

ar yr un tir. Gellir, pa fodd bynag, ei dosparthu yn gyffredin i ddau fath,—cynar a diweddar. Mae y cynar yn taro tiroedd oerion noeth, lle na ellir hau nes y byddo yn ddiweddar. Mae y llall yn gofyn mwy o amser i addfedu, a dylai, o ganlyniad, gael ei hau mewn tiroedd gwresocach, ac yn gynarach yn y gwanwyn.

O'r cynar, y rhai canlynol a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin:—Yr Angus, y Dun, y Potato, yr Hopetown,* a'r ceirch Du. Mae'r Angus cynar yn cynyrchu grawn da, ond y mae yn ddiffygol mewn gwelt; a'r un peth ellir ddyweud am y Potato. Mae ceirch Du yn taro lleoedd oerion a noeth yn dda, ac y mae hefyd yn addas iawn i dir newydd ei arloesi. Mae yn fath o geirch caled a chynyrchiol, ac y mae yn flin na bai ei amaethiad yn cael mwy o sylw cyffredinol. Mae y Dun mor doreithiog ag unrhyw fath, ac o herwydd teneudra ei blisgyn gwnaiff roddi llawer o flawd; ond mae ei wellt yn arw ac yn afrywiog. Mae yr Hopetown yn rywogaeth werthfawr, ac yn addas iawn i leoedd uchel yn gystal, ac er amaethiad cyffredinol. Mae y ceirch Tartaraidd yn taro tiroedd geirwon gwael yn rhagorol, ac yn well i'r pwrrpas hwn na'r Potato. Mae yn addas iawn i leoedd noethion, gan ei fod yn llai tueddol na'r rhywogaethau ereill i golli y grawn wrth gael ei ysgwyd gan y gwynt.

Pan fyddo tir yn cael ei amaethu ar y cyntaf, neu pan fydd tir pori yn cael ei aredig, ceirch yn gyffredin a heuir y pryd hwnnw. Geill hefyd ganlyn meillion, ac y mae weithiau yn cael ei hau gyda meillion a had-laswellt. Mae yn aml yn canlyn cloron a chnydau gwyrddion, yn mha amgylchiad dylai y tir gael ei godi yn rynau yn y gauaf; a phan fyddo yr had yn cael ei hau, dylai gael ei lyfnu yn dda, ac yna ei rolio ar draws y grynnau.

* Enwau trefydd neu leoedd yn Scotland, gan mwyaf o'r lle tybygir iddynt ddyfod ar y cyntaf.

Ymddibyna y mesur gofynol o had ar natur y tir, ac ar y rhywogaeth a heuir. Ar dir drwg, dylai y fath na wnelo gasglu llawer, megys yr Hopetown, gael ei hau yn dew. Mae'r hyn fyddo yn anghenrheidiol o had yn gwahaniaethu o 4 i 5 llestraid yr erw, a'r dull cyffredin o hau a fabwysiedir. Mae newid had bob amser yn ddymunol gyda cheirch, fel pob grawn arall.

Yr amser arferol o hau ceirch yw o ganol Chwefror hyd ganol Mai. Gwell yw heuad cynar, gan fod y grawn hwnw yn gyffredin yn rhagorach; ond henad diweddar yn fynych a gynyrcha fwy o wellt. Dylid gofalu hau pan fyddo y tir yn sych, ac y mae yr amser penodol i hau rhwng y ddau gyfnod a enwyd i gael ei reoleiddio gan y tywydd, yr hinsawdd, ac amgylchiadau ereifl, pa rai yn unig yr amaethwr ei hun all farnu oreu.

Mae mwy o geirch yn cael ei godi yn yr Iwerddon, Cymru, a Scotland, nag sydd yn Lloegr; a thelir mwy o sylwiddo yn yr Iwerddon a Chymru nag yn Scotland; a'r manau gwaelaf yn gyffredin a osodir iddo. Mae y cynyrch yn amrywio yn ol y tir a'r hinsawdd. Y cyflawnder mwyaf, a bod y tir a'r hinsawdd yn ffafriol, yw o ddeutu 50 llestraid, a'r lleiaf, 20 llestraid yr erw; ar mesurau cyffredin yw yn nghylch pedwar crynog. Cyfrifir fod gwellt ceirch yn well gogawr nag un gwellt arall, oblegid ei fod yn fwy maethlon.

Anfynych y niweidir cnwd o geirch yn fawr iawn oddieithr fod y tymor yn rhyfeddol o wlyb neu wyntog; ond y mae y rhywogaethau cynar yn ddarostyngedig i golli llawer o'r grawn wrth eu trafod, gan hyny dylid eu tori cyn y byddont yn eitha addfed. Ond dylid bod yn ofalus wrth wneud hyn, oblegid byddai ei dori yn rhy las yn golled. Mae ceirch yn gwneud i fynu ran fawr o ymborth trigolion yr Iwerddon, ac hefyd y cyffredin yn Scotland, parthau gogleddol Lloegr, a rhan fwyaf o Gymru; a gwnaiff yr us wedi ei gymysgu a'i ledferwi gydag erfin neu gloron fwyd rhagorol i wartheg.

a moch. Mae y gwellt yn dyner ac ystwyth, ac fe'i defnyddir at lawer o bethau heblaw at wneud achles.

RHYG.

Ni chodir nemawr o ryg yn rhan ddeheuol Lloegr, er y gwnaiff gynyrchu cnydau da ar dir cyffredin. Daw yn rhagorol ar diroedd sandog teneu, ac ar forfeydd a gwaundir diwylliedig; ac felly geill ei amaethiad fod yn aml yn ddymunol. Mae yn angenrheidiol pa foddy bynag fod i'r tir gael ei drin yn dda, a'i gadw mewn iawn amaethiad, ac yn rhydd oddiwrth chwyn.

Yn yr Almaen defnyddir rhyg yn gyffredin er porthi cyffylau, gan ei roddi iddynt wedi ei dori fel peiswyn. Ac yn Holland dystyllir llawer o hono. Cynyrcha gyflawnder o wellt, yr hwn sydd yn ddefnydd rhagorol er to'i.

Mae dau fath o ryg, y gauaf a'r gwanwyn rywogaethau. Gwna y diweddaf ddyfod yn dda ar ol cleron, a chodir llawer o hono ar y Cyfandir; ond y cyntaf a gynyrchir yn benaf yn yr Ynysoedd Prydeinig.

Mae rhyg yn ddefnyddiol er ei hau gydag efrau a ffacrys gauaf; gan y gwna y rhyg weithredu er noddi y ffacrys, a gwnant yn nghyd fodion rhagorol er eu pori yn y gwanwyn. Y mesur cyffredin a heuir fel hyn yw llestraid i bob erw. Fe'i gosodir weithiau mewn sofi ar ol arddiad a llyfniad, er troi defaid ac wyn iddo yn Chwefror a Mawrth; ac y mae yr arferiad hwn yn gyffredin yn ateb yn dda ar diroedd ysgafn, grafelog, neu sandog.

Mae rhyg yn cael ei ddefnyddio yn helaeth er gwneud bara dros holl gyfandir Ewrop, ac mewn rhai manau yn Nghymru, Lloegr, a Scotland. Mae hefyd yn aml yn cael ei ddefnyddio i'r un perwyl yn gymysgedig a chan, ac y mae yn cael ei ystyried yn iachus. Defnyddir llawer o ryg gan ddystyllwyr, ac fe'i crasir, ac fe'i defnyddir yn lle coffi yn y rhanau gweithfaol o Loegr.

FFA.

Cnwd dybysbyddedig yw ffa, fel pob grawn arall a amaethir er mwyn eu had; ond yn llai felly, mae yn wir, nag un math o lafur, oblegid natur eu tyfiant, ac eu bod bob amser yn cael eu gosod yn rhychiau, yr hyn a ganiatâ chwynogli a llaw ac ag aradr; rhaid eu hystyried yn gnwd glanaol, ac felly, gan hyny, yn addas er parotöi y tir i wenith neu haidd. Mewn tiroedd cleiog cryf, ac mewn marl-dir trymaidd, neu dywod-glai dwfn, y gwnant gynhyddu oreu; ond nid yw tiroedd sandog yn gyffredin yn eu taro. Mewn hinsoddau gwlyb, oer, a noeth, ni wnant ond anaml addfedu.

Yn Scotland, amaethir ffa gyda'r gofal mwyaf, ac y maent yn ateb yn gyfartal i hyny. Nid peth anghyffredin fyddai gweled ugain erw o ffa yn yr un cae, a rhai hyny heb un chwynyn yn cael ei oddef i wneuthur ei ymddangosiad yn eu mysg; gan fod y rhychiau mor llydain fel y gall chwynogol ceffyl neu aradr fyned rhynghddynt. Felly mae y chwyn yn cael eu holloeddinystrio, fel y mae y cae ar ol cnwd o ffa mor laned ac y buasai ar ol brynar haf. Fel hyn gwnaiff cnwd o ffa, er parotöi tir gwenith, y tro yn rhagorol yn lle brynar haf.

Er mae yn rhychiau yr heuir hwynt yn fynychaf, eto gellid eu planu gyda buddioldeb, yn neillduol ar diroedd bychain; ond yn mhob amgylchiad dylai y tir gael ei arddu yn ddwfn yn yr hydref, neu yn gynar yn y gauaf. Mae dau arddiad yn y gwanwyn bob amser yn llesiol, a bydded i'r arddiad hydrefol fod yr un ffordd a'r un o'r blaen; gan y sych y tir yn gynt felly, na phe buasai yn cael ei aredig ar draws y grynnau. Gwedi cael ei aredig yn yr hydref, gwnaiff rhewogydd y gauaf chwalu y tir; ac yn gynar yn Chwefror, os bydd wedi sychu digon dylai gael ei aredig ar draws, a'i falurio mor dda ag y gellir trwy lyfniad trwm.

Os gellir, na fydded i'r achles gael ei gywain i'r tir hyd nes y byddo ei eisiau, yna gwasgarer ef, ac ardder arno yn union. Torer y gwys o ddeutu chwech modfedd o led; ac yn mhob trydydd cwys bydded i wragedd a phlant osod y ffa i lawr yn o bedwar i chwech modfedd oddiwrth eu gilydd, ac felly eler yn mlaen hyd oni orphener. Yna defnyddier yr oged.

Mae gwraidd ffa yn treiddio yn isel, gan hyny mae arddiad dwfn yn angenrheidiol er rhoi chwareu teg iddynt. Gyda thriniaeth briodol, ac ar diroedd eryfion, gelir gosod ffa bob yn ail a gwenith am anryw flynyddoedd. Yn ynys Thanet, haidd, ffa, a gwenith yw y eylchyniad cyffredin.

Mae ffa yn ddyhir yn addfedu, a dylent gan hyny gael eu gosod mor gynar ag y byddo y tywydd yn caniatâu; os yn ddiweddarach na diwedd Mawrth, bydd eu haddfediad yn ansier. Ac yn wir rhaid ystyried ffa yn gyffredinol yn gnwd ansier, oblegid eu bod mor hwyr-frydig yn addfedu oddieithr mewn amgylchiadau, tir, a hinsawdd ffafriol.

Mae y pellder sydd i fod rhwng y rhychiau i gael ei recoleiddio gan natur y tir. Ar dir cleiog cryf, ystyri nad yw o 24 i 30 modfedd yn ormod er cael lle i chwynnogl ceffyl neu aradr i fyned yn rhwydd rhygddynt, canys ni chaiff chwynnogl llaw, ar dywydd sych, ond ychydig o effaith ar y fath diroedd. Ar diroedd teneuach a mwy chwaledig, gall y pellder rhygddynt fod ryw faint yn llai; a bydd 18 neu 20 modfedd yn ddigon o le i chwynnogl llaw.

Pan fyddo y ffa wedi dyfod ychydig i fyny, gosoder chwynnogl ceffyl ar waith rhwng y rhychiau, a chwynnogl llaw ar ol hyny er cael ymaith y chwyn i gyd oll; a thyner i ffwrdd a llaw unrhyw chwyn ag y fyddo yn tyfu rhwng y planigion. Rhaid i hyn gael ei wneud mor fynych ag y byddo angen, ac na oddefer un chwynnyn yn un man ar y cae heb ei dynu ymaith.

PYS.

Mae dau ryw o bys maesydd, sef y cynar a'r diweddar. Gellid gosod y cynar unrhyw amser hyd ddiweddar Mai ; ond dylai y diweddar gael ei hau yn Chwefror neu Mawrth, fel y caffont well cynig er addfedu. Nid yw pys cynar braidd byth yn tyfu yn dalach nag o dair i bedair troedfedd; ac mewn tir da a hin ffafriol, gwnant gynyrchu cnwd o rawn ragorol. Mae y diweddar yn fwy eu maintoli, ac y mae grwysg o bedair i chwech troedfedd o hyd ; gwnant well gogawr, ond nid ynt mor sicr o ddyfod i addfedrwydd a phys cynar.

Mae pys agos yr un natur a ffa, gyda golwg ar y maeth sydd ynddynt ; ond gwnant dyfu ar dir ysgafnach a thlotach : mae ffaethiad y tir i'r ddau yr un fath.

Ni ddylid byth hau pys trwy eu tafu a llaw. Dylent bob amser gael eu trulio ; gan y byddai hyny yn well i'r cnwd, ac y gwnelai ganiatâu chwynnogl ceffyl a llaw i fyned rhygddyd er eu cadw yn rhydd oddiwrth chwyn ; ac yn unig pan wneir hyn y gwna y pys dalu eu ffordd megys ag y dylent. Pan heuir hwynt fel hyn, bydd pedwar llestraid o had yn ddigon yn gyffredin i erw.

Y tir goreu i bys yw marl-bridd sandog, heb fod yn rhy wlyb nac yn rhy sych. Mae cymysgedd o bridd calchaidd yn ffafriol iawn i dyfiant pys, a gwna sialc, marl, tywod y mor, neu galch, hefyd hwylusu eu tyfiant yn well nag unrhyw achles arall. Ceir fod pys llwydion neu bys maesydd yn hoffi tiroedd cryfion yn well na'r un arall, a'r rhai gwynion, neu bys gerddi, yn dyfod yn well ar diroedd ysgafn sych.

Gwna gwrysg pys wedi eu tori yn beiswyn ogawr da i geffylau. Gwnaiff ymborth rhagorol, ac y mae defaid yn hoff iawn o hono. Pan felir pys yn flawd, a'u cymysgu a llaeth dihufen, gwnant foddion rhagorol er pesgi llo'i ; ac fe'u defnyddir hefyd er tewâu moch.

Mae yn debyg fod amaethiad pys maesydd yn myned yn llai er pan ddaeth yr arferiad o godi erfin a chnydau gwyrdion ereill ; ac oddieithr gerllaw trefydd mawrion, mae i raddau mawr wedi rhoddi lle i ffa.

CYNAUFA.

Er arbed coliant y grawn trwy ysgwydiad, dylid tori y llafur cyn y byddo yn rhy addfed ; yn mhellach, os na thorir ef hyd oni fyddo felly, bydd siamplau o hono yn ymddangos yn dywyll eu lliw, tra ar y llaw arall, y bydd grawn wedi ei dori yn rhy fuan, yn myned yn groen-grychiog wrth sychu. Yn y ddau amgylchiad bydd yn ddiffygol o'r lliw canaidd hwnnw, yr hwn sydd o bwys yn mhob grawn ; ac ni wna chwaith roi cymaint o flawd ag a wnelai pe cawsai ei dori mewn amser priodol, pan nid yn rhy las nac yn rhy addfed.

Pan y mae llafur yn addfed, ymfelyna y gwellt o'r gwraidd hyd y pen tywys, pa rai a ddechreuant blygu yn araf tua'r llawr—gellir ei dori y pryd hwn. Os bydd y wellten ychydig yn las islaw y dywysen, nid yw o ddim pwys, os bydd yn felyn oddi yno i'r gwaelod, yr hyn a ddengys nad oes dim eisiau chwaneg o faeth o'r ddaear.

Nid yw pob math o rawn, pan ei torer yn rhy fuan, yn croen-gyrchu i'r un graddau. Gwenith a groen-grycha fwyaf. Haidd a ddyoddefa nesaf at wenith ; a cheirch y lleiaf o'r oll, gan ei fod yn cael ei orchuddio a chryfach plisgyn, ac hefyd yn meddiannu y gallu o o lenwi a chaledu yn yr ystacanau. Mae haidd yn gofyn bod yn eitha addfed. Pan mae yn cael ei fedi a rhyw ychydig o lesni ar y pentywys, gwnaiff wisgo lliw gwynaidd gwan, yn lle y lliw melyn auraidd a ddylai fod arno.

Mae llawer o lafur yn cael ei golli bob blwyddyn oblegid goddef iddo snyder yn rhy addfed cyn ei dori. *Yna mae y golled a gymer le wrth ei fedi, ei rwymo, a'i*

ystacano, ac yn ei gywain i'r ydlan ; a thrachefn wrth symud yr ysgubau oddi yno i'r ysgubor, yn fawr iawn. Gellid arbed y golled hon i raddau mawr ; ac ni a gynygiwn yr arferiad canlynol, yr hon sydd wedi cael ei phrofi, a'i chael yn ateb yn gyffredinol.

Bydded i'r llafur gael ei fedi cyn yr elo yn rhy addfed ; gadawer ef ar lawr am ddau, tri, neu bedwar diwrnod, fel y byddo y tywydd yn rhoi ; piger pob chwyn, meillion, glaswellt, &c., cyn ei rwymo ; wrth ei rwymo gwneler ysgubau bychain ; ystacaner a phenguwcher ef ; gadawer ef felly am wyth, deg, neu ddeuddeg diwrnod, os bydd y tywydd yn caniatâu ; ac yna cywainer ef i'r ydlan. Wrth wneuthur y beraon yn yr ydlan, os bydd y tywydd yn wlyb, neu y llafur ychydig yn llaith, gwneler simneiau trwyddynt er eu gwyntyllio, ac er eu cadw rhag twymo ; a thoer hwynt mor gynted ag y byddo yn bosibl.

Mae haidd a cheirch yn gofyn eu gadael am ryw amser ar hyd y cae wedi eu tori cyn y byddant yn barod i'w cogwrno, oblegid eu bod yn gyffredin, i raddau mwy neu lai, yn gymysgedig a glaswellt a meillion ; ac oni bydd y rhai hyn yn sych, bydd perygl iddynt dwymo yn y cogwrn a niweidio y grawn. Rhaid i'r meillion fod yn eitha sych cyn cogwrno y llafur, a dylai yr amaethwr dalu sylw neillduol i hyn. Dylid cymeryd gofal neillduol hefyd i wneuthur y cogyrnau yn briodol, a'r ysgubau yn gogwyddo yn rheolaidd allan a thu ag i lawr trwyddynt oll. Pan wneir y cogyrnau fel hyn, yn nghyd a'u toi yn ofalus, byddant yn ddiogel rhag gwlaw, ac hefyd rhag cael eu niweidio gan wyntoedd ystormus.

Torir haidd a cheirch yn gyffredin a phladur, ond medir gwenith a chryman. Gwnaiff y bladur dori yn iselach na'r cryman, a bydd llai o goliant ar y grawn ar ei hol os bydd yn oraddfed ; ond ni ellir defnyddio y bladur os bydd y llafur wedi myned i lawr, neu wedi dyrusu. Gwnaiff pladurwr da, gyda chynorthwya,

dori, rhwymo, ac ystacano erw a haner mewn diwrnod gwaith o ddeg awr, yr hyn sydd gymaint arall ag ellir wneud a chryman. Dylid tori y llafur mor isel ag y gellir, trwy yr hyn yr achubir llawer o wellt ac o achles. Mae llawer math o offer wedi eu cynyg er hwyltsu y gwaith o fedi; ond pladuriau Hainault a chadeiriau arnynt yn ddiameuol yw y goreu. Gellir defnyddio y rhain bob amser at haidd a cheirch ar dir gwastod fyddo wedi ei iawn amaethu, os bydd y llafur yn sefyll ar ei draed; ac onide, gwell fyddai defnyddio y cryman ato.

DYRNU A NITHIO.

Ceirch a haidd a ddyrnir gan mwyaf a ffust, gan fod eisiau y gwellt ar yr anifeiliaid, y rhai a borthir ag ef o bryd i bryd gan y dyrnwr fel y byddo yn myned yn mlaen a'i waith; ond at wenith, y felin ddyrnu a ddylai bob amser gael ei ddefnyddio, gan ei bod yn rhatach, ac yn well na'r ffust yn mhob golylgiad.

Gellir gweithio y felin ddyrnu trwy agerdd, dwfr, neu geffylau. Pan fydd yn cael ei rhoi ar gerdded gan agerdd neu ddyrnu, mae un neu ddau o beiriannau nithio, yn ol y grym fyddo yn cael ei arferyd, yn gyffredin yn gysylltiedig a'r felin, yr hyn a arbed lawer o amser a thraul mewn parotöi yr yd. Gwnaiff peiriant grymus ddyrnu a nithio o 200 i 300 llestraid yn y dydd; ac a chyfrif pob traul, ni fydd y gost o barotöi yr yd fel hyn i'r farchnad ddiwm uwchlaw ceiniog y llestraid; tra y byddai ei ddyrnu a ffust yn gymaint ddwy waith, hebawd y difrod a wneir ar y grawn, yr hyn a wnai chwanegu yn fawr at y gost.

Yr hyn y dylid bod yn ofalus am dano wrth ddefnyddio y felin ddyrnu, yw ei chadw mewn cyson ysgogiad, a chadw digon ynddi. Mae un dyn i fod yn rhoi yr ysgubau yn y felin, ac un neu ddau fachgenyn yn eu dwyn yno, a bachgenyn neu fenyw yn eu dattod a'u rhoi iddo. *Dylai un neu ddau yn chwaneg gael eu rhoi ar*

waith i gasglu y gwellt sydd wedi eu ddyrnu, a'i gludo i'r gwellt-lan.

Mae peiriannau dyrnu dygadwy yn cael eu gosod allan yn aml ar hur, ac weithiau mae dau neu dri o gymdogion yn ymuno mewn cadw peiriant er eu gwasanaeth cyffredin; yr hyn sydd arferiad teilwng o gael ei efelychu pa le bynag y byddo y tiroedd mor lleied fel ag na byddo peiriant i bob un yn angenrheidiol.

Mae peiriannau nithio neu wyntyllydion yn ofynol ar bob tyddyn, pa un bynag a'i bychan a'i mawr, a gellir eu defnyddio naill mewn cysylltiad a'r felin ddyrnu, neu ynte ar wahan, yn ol yr amgylchiadau. Dewisa rhai y llaw-wyntell, yr hon a dybir ei bod yn gweithio yn fwy gwastad na phan ei hysgogir gan y peiriant, ac yn glanâu y llafur yn lanach; ond gellir defnyddio yr un a ewyllsir.

Wrth fyned yn mlaen a nithio, mae yr us, manion gwellt, hadau chwyn, a gwehilion ereill yn cael eu neillduo oddiwrth yr ŷd, godrefon yr hwn a dynir yn y canlyniad; ac yn ddiweddaf, a burir trwy ridyllau a gograu yn yr ystorgell lân, gan gadw y godrefon ar y neilldu er defnydd cyffredin, ac i'r anifeiliaid a'r creaduriaid plyfog. Mae o bwys mawr i'r amaethwr gael ei lafur wedi ei lanâu a'i buro yn drwadl, gan fod ei werth ar y farchnad yn ymddibynu i radd nid bychan ar y dull y byddo hyn wedi ei wneud; ac ni ddyllai yr ŷd gael ei ddyrnu hyd oni fyddo yn cael ei ddwyn i'r farchnad, oblegid gwnaiff groen-grychu ac ysgafnâu wrth ei gadw.

GWAIR-GYNAUAFU.

Mae y rheolau canlynol er dwyn yn mlaen yr ortichwyliaeth bwysig hon sydd wedi bod mewn arferiad am gryn dymor, a'u cael yn gyffredin yn fuddiol, o herwydd paham fe'u cynygir yma er cael eu mabwysiadu.

Torer y glaswellt pan ddelo i'w gyflawn dwf, a chyn y byddo ei hadau wedi addfedu. Os torir pan yn tyfu

bydd y nodd anaddfed yn debyg o dwymo yn anghyffredin a pheri ymweithiad, ac felly ymddfifadu y cnwd o lawer o'i sylwedd a'i faethlonrwydd.

Na wneler byth wasgar y gwair o'i ysdod ar y dydd y lladder ef; ond ar yr ail dydd gwasgarer yr oll a laddwyd y dydd o'r blaen, gan ei droi ddwy waith. Trwy ei ysgwyd allan y dydd y torwyd ef fe'i lleiér yn fawr gan wres yr haul; ond trwy ei adael yn yr ysdod, "*llwnc ei nodd ei hun*," ac ni wnaiff leiâu ond ychydig.

Na adawer byth o hono ar y llawr i aros dros y nos; ond casgler yn y prydawn yn fydlau bychain. Trwy wneuthur felly, fe gyfyd y gwlith lawer yn gynt boreu dranoeth, ac un ysgwydiad ar y mydylau hyn ar hyd dir gweddol sych, fydd yn well na'i droi dair gwaith, pe buasai wedi ei adael ar led y prydawn o'r blaen.

Gwedi eu hysgwyd fel hyn, troer y gwair ddwy waith y diwrnod hwnw, a chasgler ef yn danfeydd yn y prydawn, ac yna gwneler ef yn fydlau yn cynwys oddeutu can' pwys bob un. Gadawer ef i aros felly dranoeth er "*llyncu ei nodd*," fel y dywedwyd; canys wrth ei roi yn rhy agored i'r haul, mae yn lleiâu mewn swmp a rhinwedd.

Yn nesaf, dyger o ddeutu wyth o'r mydylau hyn at eu gilydd, ac os bydd y diwrnod yn ffafriol, ysgydwer hwynt allan, gan gymeryd gofal na ledaner gormod arnynt, canys felly byddent yn rhy agored i'r haul, a chollai y gwair yn ei liw. Troer ef ddwy waith yn ofalus, ac yn yr hwyr casgler pob tanfa i un mwdwl mawr, fel y byddont yn ddiogel rhag glaw os digwydd iddi fwrw, ond gofaler na sarner dim o'r gwair.

Yna gadawer y mydylau yn llonydd heb gyffwrdd a hwynt mwy; ond yn unig crynoer hwynt dranoeth gan eu gwneuthur mor lleied yn y gwaelod ag y byddo modd, fel y derbyniant gylchrediad rhydd o awyr oddi *tanynt*, ac o gwmpas iddynt, ac yna rhacaner hwynt yn *ofalus er eu diogelu rhag gwlawogydd*; a chanlyner y

dull hwn hyd oni byddo yr oll o'r gwair wedi ei gasglu.

Tybir fod y goruchwyliaethau hyn yn cael eu dwyn yn mlaen ar dywydd ffafriol; ond pan fyddo y tywydd yn ddrwg neu yn gyfattal, troer y mydylau bach yn aml, a dybler hwynt yn barâus, heb ysgwyd dim arnynt hyd oni chaffer hwynt yn addas i'w rhoi yn fydylau mawrion; ac yna, os bydd y diwrnod yn debyg o fod yn dda, ysgwyder hwynt yn drwadl, a mydyler hwynt yr un diwrnod.

Gwedi i'r oll wair gael ei godi fel hyn, na adawer ef yn hwy yn ei fydylau, ond cywainer ef yn uniongyrchol, gan ddechreu ar y cyntaf; ac os bydd rhyw gymaint o hono yn wair tir newydd, cymysger ef a chynyrch hen dir, gan daenu ychydig o halen rhwng pob haen.

Yn ol y drefn uchod, os bydd yr hin yn ffafriol, ni fyddir ond tri diwrnod yn cynauafu y gwair, hyd oni byddo yn barod i'w roi yn fydylau mawrion. Fe allai, y gwnaiff gwair wedi ei gynauafu fel hyn dwymo rhyw ychydig yn y das; ond bydd hyn yn ddaioni yn hytrach na dim arall.

Bydd pygleni yn fuddiol iawn wrth gywain y gwair er diogelu y das, yn neillduol ar dywydd gwlyb, ac ni ddylai un amaethwr fod hebddynt. Gallant ymddangos yn ddrud ar y cyntaf, ond bydd y golled a allai un diwrnod gwlyb wneud ar ansawdd y gwair, yn ol pob tebygolrwydd, yn fwy nag y gostai y pygleni, wrth ddefnyddio pa rai geill yr amaethwr gadw y das yn agored hyd nes y byddo yr oll wair wedi ei gywain, a hynny heb un perygl nac anghyfleusdra.

CNYDAU GWYRDDLAS.

Gellir dyweud fod cnydau gwyrddlas yn cynwys yr oll o'r llyisiau amaethyddol nad ydynt yn dyfod o dan yr enwau llafur, pys, a ffa; ac ar iawn drefniad ac amaethiad y rhai hyn, y mae y gwelliant sydd wedi

cymeryd lle mewn hwsmoniaeth yn ddiweddar wedi ei sylfaeni.

Ni ellir dwyn yn mlaen gylchyniad rheolaidd oddieithr amaethu cnydau gwyrddlas ; ac heb hyn, o angen-rheidrwydd, hespair y tir o'r maethlonrwydd gofynol sydd yn eisiau er cynyrchu y gwahanol fathau o lafur ; ac yna bydd rhaid, megys gynt, ei adael i orphwys am dymor hir er adnewyddu ei werth. Gwnai gosod cnydau gwyrddlas bob yn ail a llafur, hebgor brynariad neu y gorffwysiad hwn, ac o ganlyniad ragflaenu y gwas-traff a'r golled a achlysurid i'r amaethwr trwy hyny.

Heb gnydau gwyrddion, hefyd byddai yn amhosibl darparu digon ar gyfer cynal y nifer hyny o anifeiliaid a fyddai yn ofynol er diwallu yr amaethwr ag achles, er cadw ei dir mewn calon dda ac mewn ansawdd o ffrwythlonrwydd abl i dalu am y drafferth a gymerir wrtho. Oddieithr achlesu yn briodol bydd y cnydau yn ddiffygol—heb nifer digonol o anifeiliaid, bydd pringder o achles—ac heb gnydau gwyrddlas, ni all yr amaethwr gadw y nifer digonol o anifeiliaid ; fel, mewn gwirionedd, gellir dyweud fod ein holl gyfundraeth bresenol o amaethu yn hanfodol ymddibynu ar iawn amaethiad cnydau gwyrddlas.

Yr un fath y mae ar y Cyfandir, yn neillduol yn Flanders, lle mae y sylw mwyaf yn cael ei dalu i amaethiad cnydau gwyrddlas, yn iawn drefniad a defnyddiad synwyr-gall o ba rai, mewn cor-fwyda eu hanifeiliaid, mae y Fflemaid wedi cyraedd enwogrwydd mawr ; a thrwy hyn gyda moddion gwael mewn golygiadau ereill fe'u galluogir i sefyll i fynu yn wyneb yr amaethwyr goreu yn nghyflawnder cynyrch eu tir, ac yn nghadw i fynu ei ffrwythlonrwydd am lawer o flynyddoedd.

Y cnydau gwyrddlas a amaethir yn gyffredin ydynt, erfin, *mangles*, bresych, moron cochion a gwynion, cloron, meillion cochion, buch-laswellt Americanaidd, *rhygwellt Italaidd*, erfrau, erfin gwylltion, a lucerne ; ac

yn bresenol ni wnawn sylw byr ar bob un o'r rhai hyn.

ERFIN.

Daeth yr erfin drosoedd gyntaf o Germany oddeutu y flwyddyn 1730, gan Arglwydd Townsend, yr hwn trwy hynny a lesaodd amaethyddiaeth Prydeinig yn fawr iawn. Lle y codwyd y cnwd cyntaf o honynyt yn y wlad hon oedd ar gae yn sir Norfolk; ac y maent yn cael eu defnyddio yn fwy helaeth yn y sir hono eto nag un parth arall o Loegr.

Cyn i'r erfin ddyfod mewn arferiad, yr oedd yn an-hawdd trin tiroedd ysgafn gydag un buddioldeb, gan eu bod yn hespâu yn fuan iawn wrth osod llafur ynddynt o hyd; a megys nad oedd unrhyw gylchyniad rheolaidd o gnydau gwyrddlas eto yn adnabyddus, pan hespâid y tir felly byddai yn rhaid naill ai ei adael yn fynnar haf, neu ynte i orphwys yn dir pori. Mae daear Norfolk yn naturiol yn ysgafn iawn, ac ni chynyrchai ond ychydig yn ol yr hen driniaeth; ond y mae amaethiad erfin mewn cylchyniad rheolaidd wedi ei gwneud yn awr yn ffrwythlon rhyfeddol.

Mae erfin yn hoffi tir rhydd, yn mha un y codir hwynt yn y perffeithrwydd mwyaf, a hyny gyda'r perygl lleiaf. Nid oes, er hyny, unrhyw dir na ellir codi erfin arno, os bydd wedi ei ffaethu yn dda; a gwnaiff rhosdir gwylt, wedi ei achlesu a sand, calch, marl, neu lludw yr wyneb wedi ei losgi, gynyrchu cnydau da. Nid oes blanigyn a ffyna mewn tiroedd oerion a gwlybion yn well na'r erfinen, nag un chwaith a wna ffrwythloni y tir yn fwy. Trwy gael eu hachlesu ag esgyrn mae cnydau da o erfin wedi cael eu codi ar rai o fryniau uchel Scotland yn yr uchder o 700 i 800 uchlaw y mor.

Mae amrywiol fathau o erfin, ond gellir cynwys yr oll o honynyt o dan yr enwau Gwynion, Melynion, a Swedaidd.

Y pel-erfin, neu erfin gwynion Norfolk, yw y rhai a

godir yn gyffredin, gan eu bod yn taro tiroedd ysgafn, ar ba rai fynychaf y porthir defaid, ac yn cynyrchu y fath gnydau toreithiog, ac yn dyfod i'w defnyddio yn gynar. Tyfant i faint mawr, ac y maent yn felus iawn; ond yn bur dyner, a dylent gael eu bwyta cyn Nadolig, tra y maent yn suddlawn a'u dail yn leision, oblegid anaml y byddant yn werth nemawr ar ol y rhew. Mae y gareg-erfinen hefyd yn wen, a deil y tywydd yn well na'r bel-erfinen; a chan ei bod yn llawn mor felus, yn well ei gran, ac yn galetach rhyw, fe'i codir yn gyffredin er parâd porthiant; ond nid yw yn tyfu i gymaint maintioli ag erfin Norfolk.

Mae erfin melynion Aberdeen yn fath o rywogaeth rhwng y Norfolk a'r Swedaidd, yn galetach na'r blaenaf, ac yn hwy yn tyfu; o herwydd paham fe'u heuir yn gynt, ac arosant yn hwy yn y tir, yr hyn a'u dwg i'w defnyddio ar ol y rhai cynar. Cynyrchant gnydau mawrion, ac y maent yn llawn mor faethlon ag unrhyw fath.

Yr erfin Swedaidd yw y rhyw caletaf ag sydd yn adnabyddus; ni wnaiff y tywydd, pa mor llym bynag, nemawr o'i ol arnynt. Cadwant yn suddlawn ac iraidd hyd yn ddiweddar yn y gwanwyn, ac oblegid hynny maent yn hynod o ddefnyddiol yn yr amser prin hwnw, pan byddo y rywogaethau ereill wedi darfod, a'r ddaear heb dyfu digon er diwallu yr anifeiliaid. Nid yw yr erfin Swedaidd yn cynyrchu y fath gyflawnder o gnwd a'r gwynion a'r melynion; ond y maent gymaint yn fwy rhinweddol fel y gwna llai o honynyt y tro. Gwnaiff anifeiliaid fyddo yn cael eu porthi ag erfin Swedaidd wellâu yn eu gwedd, tra na wnaent, wrth fyw yn unig ar erfin gwynion, ond dal yr un fath.

Mae amrywiaethau ereill megys cangenau yn deilliaw o'r tri math a enwyd, ac yn gwahaniaethu rhyw ychydig yn eu hansoddau; ond nid yw yn angenrheidiol manylu arnynt yma, gan mae profiad yw peth goreu **er dangos eu cyfaddasrwydd i wahanol fanau.**

Mae erfin bob amser yn cael eu hystyried fel cnwd brynar, ac yn cael eu lleoli yn y cylchyniad lle mae un cwrs yn dybenu, a'r llall yn dechreu. Dylai y tir fyddo yn cael ei fwriadu at erfin gael ei aredig yn ddwfn yn gynar yn yr hydref, ar ol i'r llafur gael ei gywain. Gwna rhai amaethwyr ei aredig dair gwaith; y cyntaf yr un ffordd a'r grynnau o'r blaen, yr ail ar draws, a'r trydydd fel y bwriedir iddynt fod. Mae hyn i ymddibynu ar natur y tir. Mae tir cleiog trymaidd yn gofyn mwy o driniaeth nag un mwy ysgafn. Defnyddir yr oged, hefyd, a'r rhol-bren er chwalu y tir, a'r diweddaf yn enwedig, gan ofalu ar ei bod yn ddigon trwm er briwio y cnapiau; a dylid yn ddiesgeulus bigo pob gwreiddiau i fynu.

Nid oes un cnwd ag sydd yn cael ei godi yn taro pob math o achles yn gystal ag erfin. Mae lludw, marl, sialc, sand, calch, maip-ffylor, esgyrn briwedig, esgyrn-maledig, olew-deisen, gwymon, ac yn wir pob math o achles, oll yn rhinweddol i gynyichu cnwd da o erfin; ond nid oes dim a brysura eu tyfiant yn gymaint ag achles gwlyb, wedi ei daflu rhwng y rhychiau yn mrig yr hwyr, gan ofalu ei fod yn cael ei wasgaru yn gyson. Mae gan yr amaethwyr Scotaidd arwired, mae "yr erfinen yw mam y domen, ac mae y domen yw mam pob peth arall." Mae hyn yn wir llythyrenol, canys os yw amaethiad cnydau gwyrdion yn sylfaen hwsmoniaeth, fel yn ddiameuol y mae, rhaid cyfrif erfin y blaenaf yn y gyfundraeth.

Mae yr amser i hau yr amrywiol fathau ryw beth yn wahanol; y Swedaidd ddylai eu hau gyntaf, ac yna y melynion, y ddau hyn yn Mai; ond ni fydd eisiau hau y pel-erfin nes y byddo yn fis Mehefin. Os bydd ar ol canol Gorphenaf, ni ellir braidd ddisgwyl am gnwd da, er eu bod weithiau wedi dyfod yn weddol er eu hau yn Awst; ond nid yw hyn i orphwys arno. Ni ddylid bod yn brin ar yr had; ystyrrir fod tri phwys yn ddigon i erw o dir mewn rhychiau, neu chwech phwys o'u taennu

a llaw. Mae ansawdd yr had o bwys mawr, ac yn beth y dylid bod ofalus yn ei gylch, canys y mae hadau drwg, neu heb fod o'r iawn ryw, yn fynych yn cael eu gwerthu i'r amaethwr, yr hwn gan hyny a ddylai fasgnachu a had-werthwr cyfrifol; neu ynte godi hadau ei hun, gan ddethol i'r pwrrpas y gwreiddiau goreu.

Er trul-hau mewn rhychiau gydag achles o'r beili, eler yn mlaen fel y canlyn:—Wedi parotöi y tir, dechreuer agoryd y rhychiau a'r aradr, gan eu gwneud o 20 i 24 modfedd y naill oddiwrth y llall, yn ol grym y tir. Yna gwasgarer yr achles yn gyson ar hyd-ddynt, a chuddier ef a'r aradr, gan ofalu ar ei fod yn nghanol y rhych wedi ei chau. Dylai fod o ddeutu tair modfedd o ddaear dros yr achles yn gyfroedd.

Gwedi gwneuthur felly, hauer yr had ag erfin beiriant; neu os na ellir cael hwn, ac os na bydd mesuriad y tir sydd i'w hau ond ychydig, gellir agor lle a chwynnogl neu a phren i'r pwrrpas ar hyd gefn y grynnau, o fodfedd i fodfedd a haner o ddyfnder, a gellir eu hau trwy osod cwilsen trwy gorcyn potel er gollwng yr had i lawr trwyddi, yr hyn a wneir felly yn bur gyson, ac yn bur rhwydd. Y ffordd oreu i guddio yr had yw trwy dynu rholbren ysgafn drostynt; neu ynte a chefn rhaw, wedi gosod ychydig o bwysau arni.

Gwnaiff yr egin yn gyffredin wneud eu ymddangosiad yn mhen wythnos neu naw diwrnod, yn ol ansawdd y tir a natur y tywydd. Pan fyddo yr ail restr, neu y dail geirwon o ddeutu ddwy fodfedd o uchder, dylai chwynnogl llaw neu chwynnogl ceffyl gael ei thynu trwy y rhychiau er diwreiddio y chwyn. Yn mhen ychydig wedin gellir defnyddio chwynnogl llaw er teneuo y planigion, gan adael o wyth i ddeg modfedd rhwng pob un. Yna o fewn pythefnos neu dair wythnos wedi i hyn gael eu wneud, bydded i'r chwynnoglwr fyned drachefn trwy yr erfin, er ei chwynu yn lân a gosod y pridd i fynu o ddeutu y gwraidd, ac ar y pryd dynu am-bell un ymaith a ddarfu hwyrrach ddianc ei sylw y tro o'r

blaen; canys os byddant yn rhy dew neu ddwy yn ymyl eu gilydd, tyfant i fynu yn dalion ac yn ddiwerth. Ar ol hyn gellir eu cyffro, neu eu trul-lyfnu, er rhyddâu y pridd a lladd y chwyn. Gwedi i'r erfin ddyfod o faintoli cyffredin, gwneir weithiau dynu aradr ddwbl-adeiniog trwy y rhychiau er eu priddo. Gwna hyn gadw y pridd yn sych, a chynorthwyo cynydd yr erfin, yr hyn a hwylusir gymaint yn y canlyniad, fel na byddant yn hir cyn llenwi y lle gwag rhygddyd, ac o hyny allan rwystro tyfiant y chwyn.

Ar diroedd sychion beision deheudir Lloegr nid yw erfin truliau uchel bob amser yn ateb, yn neillduol ar dywydd sych, gan nad yw y ddaear wedi ei thrulio felly yn cynwys digon o leithder er meithrin y planigion. Yn y cyfryw amgylchiadau gwell fyddai truliad gwastad a heuad a llaw. Os truliad felly y fydd, gadawer ugain modfedd rhwng y rhychiau; yna gellir eu chwynoglu a llaw neu a cheffyl, ac fel hyn diogelir holl fanteision truliad uchel. Os byddant yn cael eu hau a llaw, rhaid iddynt gael eu chwynogli a llaw, yr hyn fydd yn dreulfawr, ac yn gofyn cael ei wneud bedair neu bum gwaith, er dinystrio y chwyn, ac er hwylusu tyfiant yr erfin.

Mae esgyrn yn cyfansoddi achles ffrwythlon iawn, yn enwedig i erfin. Esgyrn mal wedi eu trulio i mewn gyda'r had wnaiff sicrâu egin cynar, yr hyn sydd yn hanfodol i gynyrrchiad cnwd da; ac yn mha ddull bynag y caffo esgyrn eu rhoi i'r tir, y maent yn rhinweddol iawn. Rhaid i'r amaethwr er hyny ymddibynu yn benaf ar gynyrrch ei dir er ei ddiwallu ag achles ar gyfer ei gnydau, gan arfer esgyrn yn unig fel cynorthwy achlysuol; a gellir defnyddio tail y beili ag achles esgyrn gyda'u gilydd er amaethu erfin yn y dull canlynol gyda buddioldeb.

Dechreuer parotöi tir erfin yn union ar ol y cynauaf, a ffaether ef i'r graddau eithaf ag y mae yn bosibl cyn y gauaf. Dylai gael trwch da o dail y beili cyn ei aroding,

ac nid yw yn angenrheidiol ei fod wedi cyflawn bydru, gan y caiff ei drwadl ddadgyfansoddi a'i gydgorffori a'r pridd cyn ei arddu drachefn yn y gwanwyn. Rhaid ei aredig drachefn ddechreu yr haf, yn nghyd a'i lyfnu yn fynych er dinystrio y chwyn, ac yna bydd y tir yn yr an-sawdd oreu er maethu y cnwd. Gellir eu hau yn rhychiau o gylch dwy droedfedd rhyngddynt, ag erfin beiriant yr hwn a drulia yr hadau a'r esgyrn mân gyda'u gilydd; pa rai a roddir yn y trwch o bumtheg llestraid yr erw. Mae yr erfin i gael eu teneuo, a'r tir i gael ei chwynogli, a phob chwyn i gael eu diwreiddio yn ofalus yn ol y cyfarwyddyd o'r blaen.

Mae y dull hwn o fyned yn mlaen yn cynyrchu cnydau da, yn enwedig o'r Swedaidd, mewn manau lle byddo'r trulio uchel wedi methu; oblegid felly mae yr achles weithiau ar dywydd sych yn crasu ac yn diffrwytho, a'r hadau yn nychu o eisiau lleithder; ond ni ellir gosod un o'r pethau hyn yn erbyn y dull diweddas, yr hwn a ellir yn ddiogel ei arferyd lle bynag y byddo yr amgylchiadau yn ffafriol iddo.

Mewn amaethu erfin, mae pedwar peth ag y dylid bod yn ofalus yn eu cylch:—1. Cael y tir wedi eiffaethu yn dda. Hyn a gyflawnir trwy ei aredig cyn dechreu o'r rheu. 2. Hwylusu yr egin yn mlaen i'r dail garw er eu diogelu rhag ymosodiad y pryfed. Y modd goreu i wneud hyn yw trwy drulio yr hadau gydag esgyrn mân, 'meip-ffylor, neu ynte ryw achles ffrwythlawn a chymellyddol arall. 3. Cadw y tir yn lan o'r dechreu i'r diwedd. 4. Ei gadw yn wastad yn rhydd ac agored o amgylch yr erfin. Pa amlaf y cyffröir y tir, goreu yn y byd; a gellir bod yn sicr fod pob cnwd wedi ei drulio yn gwellâu trwy i'r pridd gael ei droi i fynu yn aml, ond gofalu na byddo y gwraidd yn cael eu hysigo.

Y cynyrch cyffredin yw, a chyfrif y dail, o 25 i 30 tunell yr erw, ac o 20 i 25 tunell wedi i'r dail gael eu tori. Ond pa un a gyraeddir hyn yn gyffredin sydd *amhéus*, er fod yn ddiameuol fwy na hyn wedi cael ei

gynyrchu lle yr oedd yr amaethiad yn cael y sylw priodol ; ond byddai, fe allai, yn fwy sicr i gyfrif y cynyrch cyffredin o 15 i 20 tunell yr erw o'r rhai gwynion a mwyaf, ac o 10 i 15 tunell o'r rhai Swedaidd.

Mae yr erfin yn ddarostyngedig i amryw glefydau, yn mhlith pa rai y prifed yw y mwyaf dinystriol. Mae llawer o gynygiadau wedi eu gwneud er rhwystro y clefyd hwn, er hyny nid oes hyd yma un feddyginaeth wedi ei gael rhagddo ; ond y mae hyddugl wedi ei gymysgu a chalch brwd a'i daenu ar hyd y rhychiau a thros yr egin ar ymddangosiad y prifed, yn cael ei ystyried yn dda er attal y clefyd, tra y gwnaiff hefyd yn sicr gynyddu tyfiant yr egin. Gellir rhoddi y cymysgedd hwn i'r tir yn o chwech i saith llestraid yr erw.

Mae erfin yn gyffredin yn cael eu gadael i aros yn y tir, a'u cymeryd i fynu fel y byddo eu heisiau. Gellai fod yn fuddiol er hyny i gymeryd rhan o'r cnwd i fynu tua diwedd Tachwedd, a'u gosod o'r neilidu er eu defnyddio yn amser y rhew a'r eira ; i'r perwyl hwn dylai y dail a'r gwraidd gael eu tori ymaith o ddeutu modfedd oddiwrth y corff, gan fod yn ofalus i beidio niweidio yr erfin. Yna gellir rhoi y dail i wartheg neu anifeiliaid ieueinc, a gosoder yr erfin i fynu yn rhyw le yn erbyn y wal, a gorchuddier hwynt a gwellt.

Gellai yr amaethwr hebgor prynu hadau trwy drawsblanu yn Tachwedd yr erfin goreu, wedi tori eu dail ymaith. Bydd yr hadau yn addfed tua Gorphenaf canlynol ; ond rhaid eu planu ar neilidu cddiwrth erfin ereill, ac oddiwrth blanigion bresych, ac onide bydd yr hadau yn debyg o gael eu gymysgu a'u hanafu.

MANGELS.

Mangels sydd rywogaeth o beatws mawrion, heb fod yn ddarostyngedig i gael eu niweidio gan glefyd na phryfed ; a tharawant y wlad hon yn dda, a gellir eu hamaethu gyda buddioldeb. Mewn tir marlaidd rhydd a dwfn y ffynant oreu ; ac y maent yn gofyn llawer o

dail. Ni fydd blas anhyfryd ar y llaeth nag ar ymenyn oddiwrthynt, ac y mae moch a gwartheg yn cael eu porthi a'u dail a'u gwreiddiau.

Yr amser i'w hau ydyw o'r ugeinfed hyd ddiwedd Ebrill; a pha fodd i fyned yn mlaen sydd fel y canlyn:—Parotöer y tir megys at hau erfin, gan wneuthur y rhychiau o 24 i 30 modfedd oddiwrth eu gilydd, yn ol natur y tir, a goreu pa ddyfnaf; llanwer hwynt a thail mân, a chuddier ef a phedair neu bump modfedd o ddaear; rholier y tir ar ei hyd; yna gwneler tyllau a phlan-bren ar hyd yr wyneb llyfn a gwastadl o ddeutu un neu un modfedd a haner o ddyfnader; a gollynger dau i bob twll gan eu gorcheddio a llaw fel y byddis yn myned yn mlaen.

Pan dysfant i fynu oddeutu dwy fodfedd o uchder, tyner ymaith y planigyn neu y planigion gormodol o bob twll, gan adael, o gwrs, y planigyn cryfaf a iachaf ar ol. Cadwer hwynt yn lan o chwyn, ond na phridd-er hwynt. Os bydd rhai o honynyt yn ymddangos yn myned i hadu, tyner hwynt ymaith, ac yn ol cyffro ychydig ar y tir, traws blaner ereill yn eu lle, wedi eu cymered o wely bychan o hadau, yr hwn a ddylai gael ei barotöi wrth hau y prif gnwd. Yn mis Medi torer ymaith y dail, a rhodder hwynt i wartheg, defaid, a moch. Nid ydynt chwaith yn ddrwg yn lle bresych a bigoglys.

Gellir cyfrif 30,090 ar bob erw, a thybier fod pob un o honynyt yn dri phwys bob un, yna bydd 90,000 o bwysau, neu yn nghylch 40 tunell ar bob erw o ymborth sylweddol amaethlon i'r gwartheg, defaid, a moch. Mae hyn yn gynyrch mawr, ond yr ydys wedi cael mwy lawer gwaith.

Gwnaiff 40 tunell o *fangels* gadw 12 buwch am bedwar mis, a rhoddi 60 pwys y dydd i bob buwch; a bydd yr achles a geir oddiwrth y gwartheg, a mwy o hono, ac yn fwy rhinweddol na'r hyn a geir oddiwrth *yr un nifer a fyddo yn cael eu porthi a gwellt â gwair.*

Glanâer y gwraidd, a thorer ymaith y manion, a darnier pob un o honynt yn ddwy neu yn dair, a phal neu a bilwg, wrth eu rhoi i'r anifeiliaid; a thafler ychydig o halen arnynt yn achlysurol wrth eu defnyddio. Mae halen mewn cymedroldeb yn dda i anifeiliaid gyda phob math o fwyd.

Gwnaiff *mangles* dyfu yn mhob math o dir, ond mewn marldir briwsionllyd, ac o waelod sych, y gwnant dyfu i'r perffeithrwydd mwyaf. Nid ydynt yn myned yn ddwfn iawn, ond mae y gwraidd yn chwyddo ar yr wyneb yn debyg i erfin; ac y mae cyffroi a rhyddau y pridd bob amser yn hwylusu y tyfiant, ac yn cadw y mân-wreiddiach gerllaw yr wyneb. Eu dyfrâu yn yr haf ag achles gwlyb a wna eu cynyddu; ac y mae yn cael ei wneud yn ofalus gan amaethwyr *mangles* ar y Cysandir.

Mae *mangles* yn cael eu hystyried fel cnwd brynar, ac megys erfin, cymerant eu cylchyniad yn mhlith cnydau gwyrddlas wedi eu bachlesu; ond y maent yn gofyn llawer o dail, gan hyny gellir eu hystyried yn gnwd hespaol. Beth bynag, os bydd y tir wedi ei amaethu a'i achlesu fel y dylai, bydd ar ol *mangles* mewn ansawdd dda er dwyn cnwd o lafur, megys ar ol cloron, bresych, neu erfin, tra y bydd mwy o elw oddiwrthynt nag oddiwrth un o'r rhai hyn.

Mae tri o rywogaethau o *fangles*, y cochion, y melynion, a'r pelenaidd. Y diweddaf sydd yn cael eu hystyried fwyaf cynyrchiol, ac y maent hefyd yn gyfartal i rhai ereill ar bob golygiad. Dylai y *mangles* yn sicr gael eu cynwys yn y cylchyniad, o herwydd eu rhinweddau eu hunain, yn gystal ac er rhagflaenu gosodiad erfin yn rhy fynych, megys y mae yn awr yn y pedwar cylchyniad a arferir. Mae *mangles* yn gwellâu pob anifail, ac y maent oll yn hoff iawn o honynt; ac y maent yn llai tebyg o effeithio ar flas y llaeth na phan y byddo gwartheg yn bwyta erfin neu fresych.

BRESYCH.

Mae bresych yn ymborth rhagorol i anifeiliaid trwy y flwyddyn, gan y gellir codi y naill gnwd yn rheolaidd erbyn y byddo y llall yn darfod; ac ni wnaiff y York cynar na'r Siwgr-dorth rywogaeth, pan yn ieueinc, roi dim blas anhyfryd ar y llaeth na'r ymenyn.

Mae amrywiaethau lawer o fresych adnabyddus wrth wahanol enwau. Y rhai mwyaf eu maintioli a amaethir yn gyffredin yn Lloegr a Scotland, megys, y *Drumhead a'r Oxhead*, &c. Ar dir dwfn cryf y ffyna bresych oreu. Gwnant hefyd dyfod yn weddol ar waundir, ac y mae cnydau da yn cael eu cynyrchu weithiau ar diroedd corsog gwylt. Pa fath bynag fyddo y tir mae ychydig yn lew o dail y beili neu gydgymysgedd da yn angenrheidiol; a phan y byddant yn dechreu crynöi, bydd taflu achles gwlyb rhwng y rhychiau, os gellir ei gael, yn beth ffrwythlon iawn er cynyddu tyfiant y bresych.

Dylai tir bresych gael ei aredig a'i lyfnu amryw weithiau, neu ynte beth sydd yn well, ei rigoli yn ddwfn i'r gwaelod. Os bydd yn cael ei fwriadu er eu planu ynddo yn y gwanwyn, bydded i'r tir gael ei godi yn rynau uchel er cael ei chwalu gan rewogydd y gauaf. Dylai gael o 20 i 30 tunell yr erw o dail wedi pydru yn dda. Gellir ei gymysgu a'r tir wrth ei aredig, neu ynte ei roi yn y rhychiau, a'i guddio a'r aradr, yr un fath ag wrth ddodi erfin; yr hyn yw y dull goreu yn gyffredin, gan ofalu gosod y bresych ynddo yn union, oblegid y maent yn hoffi tir newydd ei drafod. Dylai y tir gael ei lanâu o bob gwreiddiau chwyn cyn gosod y bresych ynddo.

Er codi cnwd cynar o fresych yn y gwanwyn, parot-öer perc o dir yn mis Awst, ac achleser ef yn dda a thail mân, a hauer ei haner a York cynar, a'r haner arall a'r Siwgr-dorth, mewn rhychiau bychain yn dair modfedd oddiwrth eu gilydd, ac wedi eu hau yn denau. *Pan eginont, chwynogler rhwng y rhychiau*, ac felly

drachefn yn mhen ychydig ddyddiau; oblegid pa amlaf y cyffrōer y pridd, goreu yn y byd; a dylent gael eu teneuo os yn amlach nag un am bob dwy fodfedd. Pan ddelont yn mlaen i chwech dalen, parotöer ac achleser a ffaether i'r eithaf berc neu ddau arall o dir, a phlaner y bresych ynddo yn rhychiau wyth modfedd o led, ac o fewn tair modfedd i'w gilydd; chwynogler rhynghddynt yn aml, a gwnant dyfu yn sythion ac yn gryfion.

Ac yn gynar yn Tachwedd parotöer y tir i'r enwd cyflawn, gosoder yr achles mewn rhychiau dwy droed-fedd o led, a chauer arno; yna planer y bresych yn y grynnau hyn yn 15 modfedd oddiwrth eu gilydd, ac sellyg gadawer hwynt dros y gauaf. Gwylier ar y malwod; ac os metha rhai o'r planigion, cyflenwer y diffyg o'r gwely bresych. Os bydd y tir yn caledu yn y gauaf, rhyddâer ef, yn neillduol oddeutu y planigion. Yn Mawrth rhyddâer ef yn ddwfn, ac mor gynted ag y byddo y planigion yn dechreu ymuniawni, paler y tir, a glanâer ef yn lan, gan fyned mor agos ag y gellir i'r planigion heb eu diwreiddio. Ceibier y tir drachefn yn Ebrill a Mai (ac yn wir ni ellir gwneud hyn yn rhy aml), a dyfether yr holl chwyn; ac o ddeutu y cyntaf o Mchefin bydd genych fresych parod.

Crynoa y York cynar yn fuan, a gwnant ddiwallu gwartheg a defaid ag ymborth hyd mis Medi. Yn Mawrth ac Ebrill hauer chwaneg o York, gan fyned yn mlaen megys y cyfarwyddwyd yn barod. Parotöer ac achleser y tir, ac fel y byddoch yn tori bresych planer ereill i ddyfod yn eu lle. Dylai y planiad diweddaf o blanigion cryfion gymeryd lle tua chanol Awst, a gwna y rhai hyn wasanaethu trwy y gauaf. Ceibier yn aml rhynghddynt, ond na phridder hwynt, fel yr ydys yn gwneud yn rhy gyffredin. Mae rhyddâu y tir o'u cwmpas yn liesiol er dinystrio y chwyn, ac er galluogi y planigion i dderbyn maeth o'r pridd yn rhwyddach.

Pan blenir bresych gauaf yn yr hydref, gellir gosod rhester o York cynar ac o'r Siwgr-dorth bob yw all.

Daw y York cynar i'w tori yn gyntaf, ac yna, o gwrs, bydd yr ail rych o'r cnwd yn cael eu defnyddio, yr hyn sydd i gael eu hadgyflenwi a phlanigion haf. Ac fel y byddo y Siwgr-dorth wedin yn cael eu tori, gellir gosod erfin Swedaidd yn eu lle, ond i'r tir gael ei barotöi a'i achlesu yn gyntaf.

Ymdrecher planu ar dywydd gwallawog. Mae y pell-der sydd i fod rhwng y rhychiau bresych a'u gilydd wrth eu planu i ymddibynu i raddau mawr ar natur y tir, ac ar faintoli yr amrywiaethau a blenir; ond dylai fod bob amser y fath ag y gellid ceibio a chadw y tir yn lan rhygddynt. Pan blenir y rhywogaeth fwyaf, megys y *Drumhead*, &c., mae yn ofynol dwy droedfedd rhwng pob rhestr, a 18 modfedd rhwng pob planigyn; tra i'r York, a'r rhywogaethau lleiaf, bydd 18 modfedd yn ddigon rhwng pob rhestr, a throedfedd neu 15 modfedd rhwng pob planigyn.

Nid ydys byth yn bwyta y bresych ar y tir, ond eu cywain ymaith a'u rhoi i'r anifeiliaid o'r newydd bob dydd. Maent yn cael eu hoffi yn fawr gan bob anifail portiannus, ac maent nid yn unig yn gyflëus iawn yn lle erfin, ond hefyd yn amrywiaeth rhagorol er cyfnewid ymborth. Mae bresych yn rhinweddol iawn gyda gwair, naill a'i er pesgi neu er godro. Mae moch yn eu hoffi yn well nag erfin; ac y maent yn fuddiol iawn er magu lloii.

Fe ganmolir bresych wedi eu berwi er bwyda gwartheg blithion. Maent felly yn ffrwythlon iawn i wartheg, a gwnant roi cyflawnder o laeth rhagorol. Gwnaiff bresych ymborth da i foch, trwy eu cymysgu a llaeth enwyn neu gawl, a'u gadael am ychydig ddiwrnodau i suro ac ymweithio. Mae y moch yn hoffi y moddion hyn yn fawr iawn, ac y mae yn neillduol rinweddol iddynt.

Er cadw had bresych, dewiser ychydig o'r rhai goreu, a phlaner hwynt ar wahan oddiwrth ereill; oblegid *mae y gwenyn yn dwyn sylwedd llysieuol o blanigyn i*

blanigyn, pan yn eu blodeu; a gwnaiff hyn anafu yr hadau oddieithr bod yn ofalus i'w ragflaenu trwy osod y bresych hadau yn ddigon pell oddiwrth yr oll ereill.

MORON.

Mae moron yn gofyn tir dwfn rhydd. Mae cnydau da yn cael eu codi yn aml ar fawndir; ond tir goreu iddynt yw marldir sandog. Trwy ba offerynau bynag y bydd y tir yn cael ei barotöi—pal neu aradr—mae yn rhaid ei ddwfn a'i drwadl ryddâu yn o 12 i 18 modfedd o ddyfnder, a'i wneud yn berffaith rydd a chwal, a'i ofalus lanâu oddiwrth bob gwreiddiau. Ceir enwd da ar dir drwg wedi ei gloddio i fyny yn 20 modfedd o ddyfnder. Maent yn dyfod yn dda ar ol cloron neu erfin, a'r lle hwn a osodir iddynt yn aml yn nghylchyniad cnydau.

Gwedi arddu y tir yn y dull cyffredin, mae ei aredig yn ddwfn drachefn sawl gwaith yn angenrheidiol; canys oni bydd y tir wedi ei ryddâu a'i chwalu yn ddwfn, tyf y gwraidd yn fforchog, ac ymledant yma a thraw mewn ymchwil am y maethlonrwydd na allant ei gael i lawr. Gellir gwneud yr hyn a ofynir trwy offerynoliaeth rhigol-aradr, i flaenori yr un gyffredin, neu ynte yr un gyffredin yn unig, gyda gwêdd gref o anifeiliaid. Mae tri arddiad yn ddigon yn gyffredin lle byddo y tir wedi bod yn cael ei amaethu o'r blaen; ond bydd rhagor weithiau yn angenrheidiol. Dylai yr arddiad cyntaf, yn 12 modfedd o dyfnder, gael ei wneud tua dechreu Hydref; a thua chanol Chwefror dylai gael ei aredig yr ail waith tua'r un dyfader drachefn; a'r trydydd arddiad yn Mawrth, er gosod yr hadau i mewn, a geill hwn fod yn fasach nag un o'r ddau o'r blaen. Mae amaethwyr Norfolk a Suffolk yn ei achlesu gyda'r arddiad hwn.

Gellir gosod moron trwy eu trulio, a gosod yr hadau ar hyd gefn y grwn, megys gosod erfin, neu yn rhychiau gwastad heb eu codi, neu ynte eu taflu a llaw fel hadau ereill yn gyffredin. Pan heuir hwynt mewn grynnau

gwastad neu uchel, goddefant eu chwynogli a'u glanâu, a gwnant i fynu gnwd brynar, megys erfin; ond y mae llaw-daeniad yn cael ei arferyd yn aml yn Suffolk, lle mae cnydau toreithiog yn cael eu codi. A'r un dull a arferir yn yr Iseldiroedd, lle mae moron mewn bri mawr, ac yn cael eu hamaethu yn helaeth.

Pan heuir hwynt yn rhesi, gwneir y rhychiau yn feision, o droedfedd i 15 modfedd o led, ac yna gosodir yr hadau ynddynt. Gellir gwneud hyn a pheiriant neu a llaw, gan gymysgu yr hadau ag ychydig sand sych, a'u rhwbio hwynt a llaw er eu gwahanu oddiwrth eu gilydd. Yna wedi ei hau felly, cuddier hwynt trwy lyfniad ysgafn.

Yr amser cyffredin yw o ganol i ddiwedd Mawrth, ond ni ddylai ar un cyfrif fod yn ddiweddarach na dechreu Ebrill. Mae dau neu dri phwys o had, a'u trulio yn gyffredin, yn ddigon i bob erw; a phump neu chwech pwys a'u llaw-dafflu. Dywedir mae y moron gwynion, neu Belgiaidd, yw y rhai mwyaf cynyrchiol, ac mewn rhai amgylchiadau, gymaint a 30 tunell yr erw; ac y maent cystal a'r rhai cochion i'r anifeiliaid ar bob golwg.

Dylai moron gael eu cymeryd i fynu a fforch dair pig, megys cloron, oddeutu Tachwedd, ar dywydd sych; a dylai y dail gael eu tori ymaith wrth y gwraidd, a'u rhoi i'r moch neu i'r ceffylau. Yna gellir gosod y gwraidd yn grygiau hirgul bob yn ail fon a blaen, a'u gorchuddio a gwellt. Os cymerir hwynt i fyny ar dywydd sych, gwnant gadw yn dda yn y crygiau hyn heb unrhyw draffirth, ond eu cadw rhag y rhew. Gellir rhoi moron i bob math o anifail; ac y maent yn fwyd blasus a maethlon yn oer, neu wedi eu hanweddu neu eu berwi.

Pan eu rhoir i wartheg, y maent yn dda iawn er rhoi lliw a blas ar yr ymenyn; a phryd bynag y byddo hyn mewn golwg, nid oes unrhyw beth yn well er ateb y dyben. Gellir eu rhoddi i geffylau gyda gwellt neu wair, wedi ei dori; a'u rhoi felly iddynt, maent yn dda

iawn gyferbyn a gwaith caled, ac a estynant eu gwynt i raddau mawr. Gwneir defnydd mawr o honyn t yn mhob sefydliad meddygawl er gwellâu anifeiliaid ; a chanmolir hwynt yn fawr i'r ystabl gan y rhai sydd yn gwybod oreu pa fod i drin cefylau.

PANAS.

Mae panas mor debyg i'r moron o ran eu hamaeth-yddiaeth a'u defnydd, fel wrth ddisgrifio pa fod i drin y naill, nid oes nemawr yn chwaneg i ddyweud am y llall.—(Gweler yr erthygl ddiweddaf.)

Mae y panas, fel y moron, yn gofyn tir ysgafn bras, ac wedi ei aredig neu eu gloddio yn ddwfn, a'i achlesu yn dda. Yr amser i'w hau sydd yn Chwefror neu Mawrth. Mae mesur yr had a dull y driniaeth yn gyffelyb i'r moron, a'u defnydd hefyd yn debyg iawn. Er hyny, dywedir fod panas yn well na moron er tewâu anifeiliaid, gan y rhydd gig o'r mwyaf blasus ; ac y mae llawer yn cael eu defnyddio i'r perwyl hwn yn Ffrainc, yn Jersey, ac yn yr Almaen.

Gwnaiff panas sefyll y rhew yn well na moron ; ac os bydd y tir yn sych, gellir eu gadael yn y ddaear dros y gauaf ; ond gwell fyddai cymeryd cyfran o honyn t i fynu pan ddechreuo y dail i wywo, au gosod o'r nailldu er eu defnyddio. Gellir cymeryd y rhan arall i fynu yn Chwefror, a'u gosod mewn sand sych. Gwnant gadw hyd Ebrill neu Mai.

CLORON.

Y cloron sydd yn wreiddiol o Ddeheudir America, o ba le y dygwyd hwynt drosodd gan yr Yspaeniaid, tua diwedd yr unfed ganrif ar bumtheg : ond yr oeddynt yn anwybodus yn yr Ynysoedd Prydeinig hyd oni ddaeth Syr Walter Raleigh a hwynt drosodd o Virginia, yn 1584 ; ac oddiwrth yr ychydig a godwyd yn ei ardd ef yn Youghal, y dywedir mae yr holl gloron sydd yn awr yn cael eu hamaethu yn Mrydain Fawr wedi dyfod.

Ni ellir gosod cloron yn rhy gynar, os bydd y perygl o'r rhew wedi myned heibio; a gwnant ddyfod yn mron yn mhob math o dir, ond iddynt gael eu hamaethu yn briodol; ond ni ddylid eu gosod yn rhy agos i'w gilydd; ac y mae llawer yn ymddibynu ar iddynt gael eu cadw yn lan, ac ar fod y tir yn cael ei ryddâu trwy fynych chwynogliad. Na ddisgwylir cnwd mawr os na bydd cyflawn ddeng modfedd rhyngddynt a'u gilydd, yn nghyda chyflawnder o ddaear rydd i'r gwraidd i weithredu ynddi.

Mae yn angenrheidiol newid yr had yn aml, ac yr ydys wedi sylwi mae cloron tir oer gwlyb a etyb oreu fel had i diroedd ysgafn a gwell. A byddai yr un rheol yn dda gyda golwg ar lafur, a chynyrch o bob math. Dylai yr had gael ei newid o hwyaf bob dwy flynedd. Ac os yw y tir yn ysgafn, ceisier yn had yr hyn a gyfodwyd ar y tir cryfaf, ac i'r gwrthwyneb os yw y tir yn drwm.

Gellir codi cloron ar yr un tir am amryw flynyddoedd; ond bob amser ar dir newydd y maent yn fwyaf cynyrchiol. Yn Lloegr ac yn Scotland, gosodir yn gyffredin gnwd o geirch o'u blaen, tra yn yr Iwerddon maent fynychaf yn cael eu gosod ar hen dir, yr hwn a elwir "gwelyau swrthlyd,"—trefn sydd yn cael ei chondemnio gan yr amaethwyr goreu, oddieithr ar diroedd gwlyb, corslyd, a rhosaidd. Mae cloron yn gofyn trwch o achles er cynyrchu cnwd da; ac ni ddychwelant ond ychydig i'r tir.

Er cael had, torer ymaith benau y rhai mwyaf lluniaidd, trwy hyny codir y rhywogaeth oreu a chynaraf, ac y mae y pen a'r gwreiddyn yn well i'w fwyta. Ni ddylai fod y cetyn yn llai na'r bedwaredd ran. i gloronen o faintoli cyffredin; ac na ddewiser yn had gloron fyddo yn rhy fychain i'w bwyta, megys y gwneir weithiau. Na fydded i'r had gael eu tori hyd nes y byddo eu heisiau; a phan eu torer, rhidyller ychydig o galch brwd neu ludw drostynt, yr hyn a etyl i'r nodd redeg

allan, ac a gryfâ eu tyfiant. Wrth eu planu, gosoder y llygad i fynu. Mewn tir gwlyb corsog, pa fodd bynag, cloron cyfain yw y goreu yn had, a dylid pigo y rhai bychain i'r perwyl hwn; ond nid rhai lleiaf chwaith.

Mae amser gosod cloron yn ymddibynu ar y tywydd, ac ar sefyllfa y tir; os bydd y ddau yn ffafriol, gellir eu gosod o ddechreu Ebrill i ganol Mai; ond nid yw y rhai a osodir yn ddiweddar byth yn dyfod cystal. Gwnaiff tir wedi ei galchu yn ddiweddar, gyda chwanegiad o ychydig o dail, gynyrchu cnwd toreithiog; a lle mae y tail neu y cydgymysgedd yn brin, y peth goreu fyddai aredig arno a'i gymysgu felly yn drwadl a'r tir, a gosod y cloron ynddo wedin.

Mae amaethiad cloron yn yr Iwerddon, gan mwyaf, yn cael ei ddwyn yn mlaen a'r bal; ac yn Lloegr a Scotland a'r aradr. Pa fodd bynag y gosodir hwynt, y mae o'r pwys mwyaf fod y tir yn lan oddiwrth bob chwyn a gwreiddiau niweidiol, pa rai na ellir, megys gydag erfin, yn hawdd eu tynu ymaith wedin heb niweidio y planigion.

Mewn parotöi y tir at osod cloron yn rhychiau, dylai yr arddiad a'r rhychiad cyntaf, mor ddwfn ag y byddo modd, gael ei wneud yn yr hydref, a'r tir i gael ei adael felly heb gyffwrdd ag ef hyd y gwanwyn dyfodol. Yna dylai arddiad a llyfniad arall ar draws y rhychiau blaenaf gael ei wneud. Mae trwadl chwaliad y tir yn anhebgorol, oblegid mae cynydd y cnwd yn ymddibynu yn fawr ar hyn. Yna dylai y tir ei gael godi i fynu yn rynau o 24 i 30 modfedd o led, yn ol cyflawnder y cnwd a ddisgwylir o hono. Yna gwasgarer y tail yn gyson ar hyd waelod y rhychiau, yn gyffelyb ag y gwneir a'r gyfer gosod erfin, a gosoder yr had ar y tail yn y pellder o 8 i 10 modfedd, yna troer y pridd dros-tynt. Ystyrr hyn yn gyffredin y dull goreu o osod cloron.

Dull y gosoder y gwelyau swrthlyd, megys yr arferir ef yn yr Iwerddon, a gynwysir mewn gwneud gwelyau

ychydig o droedfeddau o led, ar ba rai y gosodir y cloron o ddeutu chwech modfedd oddiwrth eu gilydd; ag achles wedi ei wasgaru dros yr wyneb yn flaenorol, os tir wedi ei aredig fydd; neu ynte ar y glaswellt heb ddim achles. Yna gwneir rhychiau dwfn a llydain rhwng y gwelyau, o ba rai y ceir pridd i guddio yr had. Gwedi i'r egin ymddangos uwchlaw y tir, taffir haen o bridd drostynt drachefn, ac fel hyn parëir i'w priddo hyd nes y byddont yn blodeuo. Nid yw y dull hwn, pa bynag, yn cael ei arfer gan yr amaethwyr goreu. Caiff ei fabwysiadu yn unig gan amaethwyr bychain, a'r bythynwyr gwledig, y rhai sydd yn anwybodus o'r dull o rychio, trwy ba un y mae y tir yn cael y buddioldeb o fynnar haf.

Y modd y mae cloron yn cael eu hamaethu yn gyffredin yn Lloegr a Scotland yw, trwy daenu achles ar hyd y cae, ac aredig arno, ac yna planir y cloron yn mhob trydydd cwys yn y pellder o 24 i 30 modfedd oddiwrth eu gilydd. Mae y dull hwn fe allai cystal, os nid yn gyffredin yn well nag un dull sydd yn cael ei arferyd. Nid yw yr egin yn cyfarfod ag un rhwystr yn eu dyfodiad i fynu, gan nad yw yr had byth yn cael eu planu yn rhy ddwfn, ac nid yw tywydd sych yn effeithio ar yr achles ac ar y gwraidd, megys y mae yn digwydd weithiau mewn grynnau wedi eu codi i fynu. Mae y dull hwn yn aml yn cael ei arferyd heb blanu, trwy fod menywod yn canlyn yr aradr ac yn gosod yr had i lawr yn mhob trydydd rhych; ond yn y ffordd hon bydd yn angenrheidiol i'r cwysi fod yn feision, o bedair i pump modfedd, sef y dyfnder cyffredin y gosodir cloron.

Pan ddechreuo yr egin ymddangos, dylai y tir gael ei lyfnu, naill ai ar hyd neu ar draws; yna bydded i chwynnogl ceffyl neu law, neu aradr, i gael ei defnyddio yn fynych rhwng y rhychiau, a chwynnogl llaw yn unig rhwng y planigion, fel y byddo yr angen. Yn nesaf, *pridder y cloron* unwaith neu chwaneg, fel y bydd yr

eisieu, a gofaler eu **chwynu** yn lân; oblegid pan ymleda y gwraidd trwy y pridd mewn ymchwiliad am ymgeledd, bydd yn rhy anhawdd defnyddio un math o chwynnogl gyda diogelwch.

Dull arall o briddo cloron sydd fel y canlyn :—Mor gynted ag y byddo y gwrysg yn dair neu bedair modfedd uwchlaw y tir, tyner yr aradr mor agos ag y gellir i'r gwraidd, er rhyddâu y tir, yr hwn a droir oddiwrthynt i ganol y rhych. Ar ol hyn, mae chwynu yn myned yn mlaen gyda buandra a manylrwydd, naill ai a llaw, neu ynte a chwynnogl bychan gerddi; a dygir yr holl chwyn yn ofalus adref i'r tom-bwll. Yna fe'u priddir yn y dull cyffredin. Tagu yr egin yn union ar eu hymddangosiad allan a chlai neu bridd glydiog, yn lle rhyddâu y ddaear o gwmpas iddynt, er rhoi chware teg i'r mân wreiddiau i redeg eu ffordd yn mlaen, sydd yn ansynwyrol iawn. Wrth briddo cloron a rhawbal neu a chwynnogl, dylid bod yn ofalus i ryddâu y ddaear oddiamgylch iddynt yn mhob ffordd, a'i glanâu a'i chwalu yn dda; trwy yr hyn caiff fuddioldeb brynar tra yn dwyn cnwd toreithiog.

Y moddau uchod yw y rhai a fabwysiedir yn gyffredin mewn amaethu cloron; mae gan bob dull ei ddadl-euwr; ond megys y gall rhyw ddull neilidol ateb mewn un man, na wnaiff lwyddo cystal mewn man arall: profiad yw y peth goreu i arwain yr amaethwr ar lawer achlysur, er gwybod pa fodd i gynyrchu y cnwd mwyaf trwy y draul leiaf, a hyny heb i ffrwythlonrwydd y tir i gael ei anmharu.

Gwnaiff pob dull o amaethu a dueddo i ffrwythloni y tir, ei wneud yn well er cynyrchu cloron. Mae dyfnâu y tir, a'i ddyhysbyddu yn dda, o bwys neilidol i gloron, y rhai sydd yn hoffi tir sych dwfn, a marldir sandog; ac ni wnat byth ffynu mewn tir bas gwlyb a glydiog. Y modd i ddwyn dyfnâd y tir yn mlaen (wedi iddo gael ei drwadl ddyhysbyddu) yw trwy ddefnyddio dwfn-aradr; a gellir yn hawdd ei wneud mewn gerddi neu ar dir oedd

bychain, trwy eu palu yn ddwfn, megys y gwna amaeeth-wyr bychain Fflanders. Pa fodd bynag y dygir hyn yn mlaen, dylai y tir gael ei drwadl ryddâu o 14 i 18 modfedd o ddyfnder, ac yna daw mor firwythlon a gardd.

Mae prófion diweddar yn ymddangos yn cadarnâu y gellir chwanegu cynyrch cloron yn fawr trwy dori y blodau ymaith, ac felly ragflaenu iddynt hadu, trwy yr hyn yr ymddifadid y gwraidd o'i ffrwythlonrwydd anghenrheidiol. Y drafferth o dori ymaith y blodau fel y byddont yn agor nid yw nemawr o beth, a'r hyn a all plant ei wneud; a bydd yn debyg o dalu ei ffordd yn dda. Pa fodd bynag, gellir gwneud prawf arno, ac yna ei barâu neu ei adael heibio fel y byddir yn tybied yn oreu.

Mae y cloron, megys y rhan fwyaf o lysieu ereill, yn ddarostyngedig i glefydau, y gwaethaf o ba rai a elwir crychiad (*curl*). Yr achos o'r clefyd hwn nid yw erioed wedi ei gael allan i foddlonrwydd; ac y mae profiad yn dangos mae yr unig ffordd ddiogel i'w ragflaenu yw newid had yn aml.

Heblaw y crychiad, mae methiant arall wedi cymeryd lle yn y cnydau cloron yn y blynnyddoedd diweddar trwy yr holl Deyrnas Gyfunol. Mae y methiant hwn wedi bod yn fwy mewn rhai manau, ac ar rai tiroedd, na'r gilydd; ac mewn rhai lleoedd mae wedi caei ei gyfyngu i ranau o un cae yn unig. Mae yr achos o'r methiant wedi ei gyfrif i'r tymorau, i ddodiad diweddar, i dyniad cynar, i fod yr had wedi twymo, iddynt fod wedi eu niweidio gan oerfel, i fod y cloron wedi dirywio yn eu galluoedd llysieuol, &c.; ond nid yw yr oll ond dychymyg, ac y mae yn foddaol i wybod y gellid gwell a y clefyd, bron yn mhob amgylchiad, trwy fynych newid yr had, megys yn achos y crychiad. Yn y flwyddyn 1839, darfu i'r clefyd hwn ddiflanu bron yn holol; yr hyn, yn ol pob tebygolrwydd, sydd i'w gyfrif i'r arferiad o newid had yn flynyddol, yr hyn sydd yn awr bron yn gyffredinol yn mhob man.

Fe allai, nad oes un llysieuyn wedi bod mor gy-

nyrchiol am gynifer o' flynyddoedd ag yw y cloron; ac ar dymorau gwlyb, pan fyddo y llafur yn wael, y maent yn gyffredin yn fwyaf cyflawn. Mae y cloron yn ddiffygiol o'r glud (*gluten*) a feddianna y gwenith, a gellir cyfrif cyfartalrwydd eu hansoddau maethol oddeutu pedwar i un. Mae y cloron, er hyn, yn rhinweddol iawn, ac nid yw y blawd a wneir o honynt yn sylweddol wahaniaethu oddiwrth *arrow-root, tapioca, a sago*. Pan ei cymysger a chan gwenith, gwnaiff y bara yn ysgafnach ac yn fwy blasus, ac yn hawddach ei dreulio; yr hyn a'i gwna yn addas iawn i blant ac i ddynion a chylla gwan. Mae y cyffeithiad goreu yn cael ei wneud o flawd cloron; ac yn Ffrainc, mae llawer iawn o flawd yn cael ei dynu o gloron, ac yn gymysgedig a chan gwenith, fe'i gwneir yn deisenau, pasteifa, isgell, cawl, &c., ac y mae yn cael ei ddefnyddio yn helaeth gan y morwyr, milwyr, ac yn yr ystablai.

Y dull i wneud y blawd sydd yn rhwydd iawn, gellir ei wneud yn hawdd yn mhob tŷ. Bydded y cloron y rhai mwyaf blawdog a ellir gael, pilier hwynt mordeneu ag y byddo modd, a rhadeller hwynt a rhadell fras. Yna wedi rhadellu y bywyn fel hyn, golcher ef trwy wagr rhawn, cyhyd ag y parao i liwio y dwfr. Gwedi hyn y golcher trwy wagr manach, hyd nes y byddo yn berffaith wyn. Dylai gael ei sychu yn ofalus, naill ai yn yr awyr agored, neu yn y tŷ gyda gwres cymhedrol. Mae y swmp a geir fel hyn o flawd yn ymddibynu ar ansawdd y cloron. Pa fwyaf blawdog y byddont, goreu yn y byd. Mae cloron da weithiau yn cael eu cymysgu a chan gwenith, wedi eu berwi a'u pwnio yn ofalus yn gyntaf; ac felly gwnant wedi eu crasu ymborth rhadlawn a rhagorol.

Megys na wnaiff cloron, o'u gadael yn y ddaear, bydru ond yn anfynych; felly gellir ddysgu oddiwrth hyn i beidio eu gosod yn garfanau ar eu gilydd mewn ysguboriau, neu yn rhyw le arall, ond mewn beddau hir gul basaidd, a'u cuddio fel ag i gadw y rhew rhagddydnt.

MEILLION COCHION.

Mae meillion cochion yn llysiau gwerthfawr iawn, ac ni ddylai un amaethwr, na bychan na mawr, fod heb gnwd o honynt. Trwy iawn drefniad gwnant roi cynaliaeth feunyddiol er porthi anifeiliaid o ganol Mai hyd ddiwedd Hydref. Gwnant roi mwy o laeth, a chwanegu at ffrwythlonrwydd a maintioli y domen, o'u tori a'u defnyddio yn leision; ac os eu cadw yn wair, maent yn fwy rhinweddol na'r hyn a geir oddiwrth laswellt naturiol.

Wrth eu hau gyda haidd y daw meillion oreu, ond gwnant ateb hefyd gyda gwenith a cheirch; ac ni niweidir ond ychydig arnynt trwy eu pori gan ddefaid neu anifeiliaid ysgafn ereill yn y gauaf, ond gofalu na chaffont eu bwyta yn rhy lwyf fel ag i adael y gwraidd yn noeth ac yn agored i'r rhew i effeithio arnynt. Er eu cadw yn wair dylent gael eu tori yn eu blodau; ac yna ceir ail gnwd da wedin, yr hyn fydd yn agos o gy-maint gwerth a'r cyntaf, ac yn barod i'w dori yn yr hydref.

Mae cyfundraeth amaethyddol yr Iseldiroedd yn ymddibynu yn benaf ar gynyrchiad meillion cochion, y rhai a heur gyda phob math o lafur yn gystal a chyda llin. Ceir yn aml gnwd da y flwyddyn gyntaf; a dau, neu weithiau dri, yr ail flwyddyn; ac os cânt aros, rhoddant un y drydedd flwyddyn, a phorfa ragorol i'r anifeiliaid wedin, hyd oni ardder y tir at wenith, yr hyn yn gyffredin fydd y diweddu.

Gallai rhai hwyrach i feddwl fod tir Flanders yn naturiol fras, ac yn neildduol addas er cynyrchu meillion; ond nid felly y mae, canys ysgafn a thlawd yn gyffredin yw tiroedd y wlad hono, ac ni chynyrchant yn gyffredin yn eu sefyllfa naturiol nemawr chwaneg na gryg a rhedyn, a thrwy amaethiad trefnus mae eu ffrwythlonrwydd presenol wedi ei ddwyn oddiamgylch. *Rhoddir haen o wrtaith dros y meillion, yr hyn yn*

benaf a gynwysir o achles gwlyb a lludw, ac y mae yn llesiol iawn i dyfiant y cnwd.

Mae cnydau rhyfeddol o feillion yn cael eu codi yn y wlad hon, ar diroedd lle mae ceryg calch da yn cael eu cloddio. Daw cnwd rhagorol ar farldir bras, yr hwn sydd yn taro tyfiant eu gwreiddiau hir-ddwfn. Maent, mewn gwirionedd, yn taro bron bob amrywiaeth o dir; ac er eu bod yn caru tir a fyddo yn hytrach yn wydn, eto gwnant dyfu yn dda ar dir a gynyrcho gnwd o haidd; pa un sydd yn gyffredin o ansawdd ysgafn a sandog.

Mae meillion, gan mwyaf, yn cael eu codi gyda chnwd o lafur, er mwyn pa un mae y tir, o gwrs, wedi cael ei drin yn briodol. Os byddent yn cael eu dodi yr un pryd a'r llafur, gellir eu hau cyn tynu yr oged y tro diweddaf dros y tir; ond gwell fyddai rholio y tir ar ol tynu yr oged gyffredin drosto y tro diweddaf, ac yna hau y meillion, a'u llyfnu a had-oged fechan; ac wedi hyny, piger y ceryg a'r chwyn i fyny, a thyner oged ysgafn drostynt drachefn. Neu os na ellir hau y meillion yr un amser a'r llafur, gwneler fel y canlyn:— rholier y tir, a chuddier yr hadau trwy dynu oged ysgafn drostynt ddwywaith; ond gofaler ar fod i'r hadau i gael eu hau cyn y byddo y llafur yn dechreu ystolo.

Os bydd meillion yn cael ei osod gyda gwenith hydref, llyfner y gwenith yn gyntaf, a rholier ef, ac wedin hauer a llyfner yr hadau ag oged; ond dylent gael eu hau cyn y byddo y gwenith wedi tyfu yn rhy gryf. Ond y mae haidd, pa fodd bynag, yn fwy cy-mhwys i hau meillion gydag ef nag unrhyw rawn arall, gan ei fod yn cael ei hau yn y gwanwyn, ac yn yr amser goreu er dyfetha chwyn, ac yn gofyn llai o amser i dyfu ac addfedu nag unrhyw fath arall.

Pan osodir hwynt gyda cheirch ar diroedd cryfion, fe'u heuir yn gyffredin yn mis Mawrth; pan gyda gwenith fe'u llyfnir yn ysgafn cyn y byddo y cnwd ieuanc wedi myned yn mhell yn mlaen. Os gyda haidd,

y tymor cyffredin yw mis Ebrill neu ddechreu Mai. Oedir eu hau weithiau nes yn mhen pythefnos ar ol y ceirch neu'r haidd, neu hyd oni bydd yr egin yn dechreu gwreiddio. Os bydd y tywydd yn caniatâu, goreu pa gynaraf yn y gwanwyn y caffo meillion eu hau, fel y gallant ddal gwres a dianc rhag pryfed.

Er mae y gwanwyn yn ddiameuol yw yr amser goreu i hau meillion, eto mewn rhai amgylchiadau byddai yn fuddiol eu hau yn Awst, er sefyll y gauaf ar eu penau eu hunain; ond ni ddylid gwneud hyn oddieithr mewn rhyw amgylchiadau neilidduol. Byddai yn fuddiol iawn taenu ychydig o achles dros feillion yn union ar ol y toriad cyntaf; neu os ei hesgeulusir y pryd hwnnw, dylai gael ei wneud ar ol yr ail doriad.

Mae meillion cochion yn cael eu hamaethu er bwyda anifeiliaid yn y ty, neu er eu cadw yn wair, ac weithiau er eu troi i lawr yn achles. Maent yn llesiol iawn er tagu chwyn a ffrwythloni y tir. Er eu bwytta yn leision, gellir eu tori gyda'u gwaith bron yn dechreu blodeuo; ac fel y byddont yn cael eu tori, dylai y bonion gael haen o achles neu gydgymysgedd priodol. Dylent bob amser gael eu tori yn bur isel.

Os byddant yn cael eu trin yn iawn, dylent gynyrrchu tri thoriad yr ail flwyddyn; ond dylid eu haredig y drydedd flwyddyn ar ol iddynt gael eu tori unwaith. Os heuir hwynt yn Gorphenaf, neu yn gynar yn Awst, ar eu penau eu hunain, mewn tir da, gellir eu tori yn niwed Medi neu ddechreu Hydref yr un flwyddyn; ond os heuir hwynt gyda llafur yn y gwanwyn, yr hyn yw y dull cyffredin, ni cheir un toriad hyd mis Mai canlynol.

Pan eu bwriedir yn wair, dylent gael eu tori yn eu blodaau, i'r dyben o gadw y nodd a'r ffrwyth sydd ynddynt; ac onide, cwmp y dail ymaith, ac afradir y rhan oreu o honynnt. Mae pob glaswellt a dorer yn gynar yn fwy rhinweddol na'r rhai a adewir i addfedu eu hadau; ac nid ydynt yn hespâu cymaint ar y tir. Gwnaiff

gwair wedi hen addfedu gynal anifeiliaid, ond ni wnaiff ond gwair a dorer yn gynar eu tewâu.

Os bydd gwair meillion wedi ei niweidio gan wlybanieth, dylid cymysgu oddeutu phiolaid o halen a phob tunell o hono, wrth ei roi yn y das. Mae ei ffrwythlonrwydd yn ymddibynu llawer ar y dull y caffo ei gyneufa. Gellir ei dori yn wlyb, ond ni ddylai byth gael ei gyffro o'i ystod nes y ceir diwrnod sych, ac yna gwasgarer a throir ef yn fynych; a gwnele'r ef yn fyddylau bach; a'r rhai hyn drachefn yn fyddylau mwy, cyn ei gywain i'r das. Mae dynoethiad gormodol i'r haul a'r awyr yn dirinweddu ac yn niweidio gwair; pa lasaf ei liw, goreu ei ansawdd. Yn Lloegr, lle mae y gwair meillion goreu yn cael ei godi, mae bob amser yn twymo yn y das, yr hyn sydd yn chwanegu at ei felusder; ond rhaid fod hyn yn effaith nodd naturiol, ac nid yn effaith gwlaw a lleithder tywydd, yr hyn sydd bob amser yn niweidiol.

Dylai y prif gnwd yr ail flwyddyn gael yn wastad ei dori a'i fwyt a gartref—ni ddylai un glaswelltyn a ellir ei fwyt yn y stabl neu y beudy gael ei borï ar y cae. Byddai gwneud felly a phob cnwd yn well; ond byddai pori meillion cochion yn afradaeth digywilydd. Dylai y meillion gael eu cyfranu bob yn ychydig, a hyny yn mhen oriau ar ol eu tori, fel y byddo yr awyr sefydlog wedi myned ymaith o honynt cyn eu bwyta; ac onidê, bydd y gwartheg mewn perygl o chwyddo wrth eu bwyta mor wangcus.

Gellir aredig meillion er brasâu tir gyda buddioldeb, yn neillduol ar diroedd sandog, grafelog, a cherllaw y gareg galch. Fe allai yr ystyrir hyn yn arferiad afradus; ond fe ddywedir i ni gan y maes-drinwyr enwocaf, ei fod yn ddull rhadlawn a llwyddiannus o ddiwyllio tiroedd ysgafn dyhysbyddedig; ac y mae gwobrau wedi eu cael am dyfiant gwenith wedi ei hau mewn tir meillion, wedi i'r oll o'r ail gnwd y flwyddyn gyntaf i gael ei droi i lawr.

Mae o 14 pwys i 28 pwys o had yn angearheidiol i bob erw, yn ol ansawdd y tir; ond pan fyddo y tir wedi ei berffaith lanâu oddiwrth bob chwyn a gwreiddian, bydd 14 pwys yn gyffredin yn ddigon. Ond ar dir fydd wedi ei ffaethu a'i achlesu yn dda, lle na byddo un chwynyn yn cael caniatâd i ymddangos yn unig, y mae mor lleied a hyn o hadau i'w defnyddio. Ar diroedd fel hyn, caiff yr egin meillion le i ymledu yn ddirwystr, ac i feddiannu yr holl le iddynt eu hunain.

Gellir codi yr hadau oddiwrth yr ail gnwd; ac os bydd y toriad cyntaf yn Mai neu Mehefin, bydd yr ail yn addfed yn Medi; yr hwn yn gyffredin sydd yn fis ffafriol er casglu hadau.

Ni ddylai un dyn ryfygu galw ei hun yn amaethwr, oni fydd ganddo feillion i'w tori yn yr haf. Ni wnaiff erw o borfa dda yn gyffredin ond yn unig cadw un fuwch o Mai hyd Dachwedd; ond gwnaiff erw o feillion da gynal tair, ac mewn rhai amgylchiadau, bedair buwch am yr un tymor; trwy yr hyn y ceir hefyd ddiwalliant o achles rhinweddol. Yn wir, mae cadw gwartheg i bori ar unrhyw dir yn afradaeth mewn cymariaeth i'w bwyda yn y ty; ond eu cadw i feillion fyddai yn wastraff gwirfoddol.

Mae yr elw a ddeillia i'r amaethwr oddiwrth foch ystor yn byw yn unig ar feillion neu ffac-bys, yn ddisylw; ond y mae yn grym lawer, yn enwedig os gellir rhoi iddynt ychydig o enwlyn gyda hyny—gwnaiff hyd y nod golchion llestri llaeth, gyda meillion, ffac-bys, neu *lucerne*, gadw moch mewn gwedd dda.

Mae yn y blynyddoedd diweddfaf hyn achwynaiddau mynchy yn cael eu gwneud o fethiant a cholliant cnydau meillion, ac yr ydys wedi cael allan mewn llawer o fanau, mae pan eu gosodir yn rhy fynych yn yr un tir, megys yn y cylchyniad pedair blwyddol, y maent yn dirywio ac yn lleiâu yn eu cynyrch. Mae llawer o bethau wedi cael eu cyfrif yn achos o'r methiant hwn, a llawer o gynygion wedi eu gwneud er ei feddyginiadu

gyda llwyddiant mwy neu lai. Pa fodd bynag, y mae yn ymddangos fod meillion yn gofyn cyfnod hwy rhwng y naill gnwd a'r llall, nag sydd hyd yma yn cael ei roi yn y cylchyniad pedair blwyddol, cyn y byddo y tir yn abl i'w gynyrchu drachefn mewn cyflawnder. Mae yr holl ffeithiau adnabyddus yn tueddu i sicrâu hyn, ac i estyn y cylchyniad; yr hyn, yn ol pob tebygolrwydd, a fyddai hefyd yn fanteisiol i bob cnwd arall yn y rhestr.

Trwy estyn cyfnod y cylchyniad, caiff y tir fwy o amser i ymadnewyddu yn y rhinwedd neillduol hynny, yr hwn a ddarfu i'r meillion sugno o hono, ac sydd yn angenheidiol er eu tyfiant. Gyda golwg ar hyn, mae cnwd o bys neu efrau wedi cael ei osod weithiau yn lle meillion, i ganlyn haidd yn y cylchyniad pedair blwyddol; a meillion yn y cylchyniad nesaf, ar ol haidd neu wenith, yr hyn a wna yr amser rhwng y ddau gnwd feillion yn saith flynedd yn lle pedair; ac yr ydys wedi profi fod y cyfnewidiad hwn yn fuddiol. Ac yn wir, mae rhai yn dadleu y dylai fod wyth mlynedd o leiaf rhwng y naill gnwd ar llall, i'r dyben i sicrâu cynyrch toreithiog.

Mae cnwd da o feillion bob amser yn dyfod ar ol llin. Mae hyn yn brofiadol gan yr amaethwyr Belgiaidd, y rhai a weithredant bob amser yn ol y dull hwn. Pe gallem gael allan gyda sicrwydd, paham mae rhai llysiau yn tyfu yn wrol gyda neu ar ol rhyw fathau neillduol, tra gyda rhyw fathau ereill collant a methant yn holol, atebai hynny ddyben pwysfawr er gosod i fynu drefn sefydlog i reoleiddio cylchyniad cnydau, a hynny ar y sylfeini goreu a chadarnaf. Nis gall fod amheuaeth am un peth, pa fodd bynag, sef—fod trwadl-ddy-hysbyddiad a dwfn-arddiad, trwy yr hyn y dygir pridd newydd i'r wyneb, ac y parotöer gwely sych a chynes i'r hadau, yn gwellâu pob math o gnwd, ac yn ei add-fedu yn gynarach, ac yn ei wneud yn fwy sicr yn ei gynyrrchiad; ac y mae hyn fe allai yn fwy neillduol gyda meillion nag un rhywogaeth arall o lysiau.

YCH-LASWELLT AMERICANAIDD.

Mae yr ych-laswellt Americanaidd yn debyg iawn ar lawer golygiad i'r meillion cochion, gyda'r fantais o'i fod yn llysiewyn a barâ trwy y flwyddyn. Nid yw, pa fodd bynag, yn gyffredin yn rhoi cystal cnwd yr ail flwyddyn; ac oddieithr fel cyfnewidiaeth am hadau ereill, er bod yn dir pori, nid yw byth yn cael ei ystyried yn rhagori ar feillion cochion. Gellai fod, er hyny, yn dda yn achlysurol, pan fyddo y tir wedi blino dwyn meillion.

Os na ellir codi meillion nac ych-laswellt, fel y mae yn bod weithiau wrth ddechreu trafod tir fyddo wedi cael camdriniaeth, hauer cnwd o ffachbys, y rhai sydd bob amser yn ddefnyddiol.

RHYG-WELLT ITALAIADD.

Mae y rhyg-wellt Italaidd yn neillduol werthfawr o herwydd ei gynarwch, yn gystal a'i fawr gynyrrchioldeb. Fe'i bwyteir gydag awydd gan bob math o anifeiliaid; ac nid oes yn awr nemawr o diroedd, o unrhyw helaeth-rwydd, heb gyflawnder o hono.

Mae y rhyg-wellt Italaidd, er ei fod yn hynod am ei dyfiant cynarol, yn cadw ei alluoedd tyfol nes y byddo yn ddiweddar yn y flwyddyn, fel y ceir weithiau bedwar toriad o hono yn yr un tymor. Cafodd llain o'r glaswellt hwn unwaith, a'i hadau wedi addfedu, ei dori yn Tachwedd, ac ar 24ain o Ragfyr yr oedd wedi tyfu uwchlaw troedfedd o uwchder, er ei fod wedi cyfarfod a rheu llym; yr hyn a ddengys ei fod yn rhagori ar bob glaswellt arall mewn tyfiant gauaf.

Os caiff ei hau ar sofl wenith yn union ar ol darfod cywain, dyweder yn gynar yn Medi, bydd yn barod i'w dori yn Mai; a chynyrrcha bron cystal cnwd a phe buasai wedi ei hau yn y gwanwyn o'r blaen, os bydd y tir yn sych ac mewn ansawdd dda, a'r sofl wedi cael ei ffaethu yn briodol. Byddai achlesu ychydig arno ar y

pryd, yn fuddiol iawn er prysuro y tyfiant ac er chwanegu y cnwd.

Mae amheuaeth wedi bod gynt am barâd y rhygwellt Italaidd, ond y mae hyn wedi darfod yn awr; ac y mae y profion sicraf yn cyd-dystiolaethu ei fod wedi sefydlu ei gymeriad fel llysiewyn parâol. Mae yn gofyn cael tri llestraid o had ar gyfer pob erw; ond y mae yn angenrheidol fod y tir wedi ei ffaethau yn dda.

EFRAU, NEU FFACBYS.

Mae ffacbys, neu efrau, yn ddefnyddiau da er eu tori a bwyda anifeiliaid i mewn, oblegid y maent yn hoffach o honyn ag o feillion, nag unrhyw fwyd gwyrdlas arall; ond pan yn wlyb ac amhur, neu yn rhy leision a suddlawn, bydd yr anifeiliaid yn ddarostyngedig i golig llym, trwy fwyta yn rhy awyddus o'r ymborth blasus hwn. Er rhagflaenu hyn, dylent gael eu rhoi iddynt bob yn ychydig, a chyda gwelt a gwair bob yn ail.

Pan eu bwriedir er eu tori i'w bwyta yn leision, dylai pob erw gael oddeutu tri llestraid a haner o had, a byddai o gylch y chwechfed neu'r wythfed ran o geirch neu ryg yn gymysgedig ag ef yn beth buddiol iawn. Dylent gael eu hau bob yn ddarn, o ddiwedd Mawrth hyd ddiwedd Mai, fel y delent i'w tori y naill ar ol y llall yn rheolaidd i'r anifeiliaid. Gellir eu hau yn y dull cyffredin, neu mewn rhychiau, ond y diweddaf sydd oreu bob amser; ac wedi eu llyfnu, dylent gael eu rholio, fel ag y gellid yn rhwydd ddefnyddio y bladyr er eu tori.

Gwnaiff marldir cryf, glân, sych, ac mewn ansawdd dda, gynyrchu cnwd rhagorol o ffacbys heb ei achlesu, yr un modd y gwnaiff tiroedd drwg ac ysgafn, os byddant wedi eu parotöi yn briodol. Gellir cael cnwd da o ffacbys ar ol gwenith ar diroedd ffrwythlawn, a bydd y tiroedd hefyd yn well ar ol hyny. Ar diroedd ysgafn, byddai yn dda gosod ffacbys ar ol erfin neu ryw gnwd

achlesedig arall, ac yna i hau gwenith wedin, trwy yr hyn y gellid cael dau gnwd da; tra na byddai gosod gwenith ar ol erfin yn debyg bob amser o wneud y cnwd yn well nag yn sicrach, ac ni wnai y tir wedin ddwyn ffacbys heb ei achlesu.

Ar dir fyddo wedi ei fwriadu i faip neu erfin gwyltio'n, os bydd yn rhy wlyb i ffacbys gauaf, hauer ffacbys gwanwyn yn Chwefror neu Mawrth, pa mai yn gyffredin a ddeuant i'w tori mewn pryd er gosod y cnwd dyfodol. Pan fyddo ffacbys yn cael eu bwriadu er eu bwyta yn y ty yn leision, ni all y tir fod yn rhy fras a gafaelus; ond pan eu bwriedir er hadu, tir sych ysgafn i'w goreu iddynt.

Mae dau arddiad yn gyffredin yn angenhediol er gosod ffacbys gwanwyn—y cyntaf rhwng Mihangel a Nadolig, a'r ail yn union cyn eu hau; ond dylid bod yn ofalus i lanau y tir cyn eu hau, canys ni ellir ei wheuthur cystal wedin.

Heuir ffacbys gauaf yn gyffredin yn Medi a Hydref; a dylai yr heuad cyntaf gael ei wneud mor fuan ag y caniatau amgylchiadau. Dylent gael eu hau yn ddarnau, y naill ar ol y llall, o ganol Awst hyd ddiwedd Hydref, fel y byddo yr amgylchiadau yn gofyn, er diwalliant cyson a rheolaidd i'r anifeiliaid ieueinc. Mae rhywogaeth gynar o ffacbys gauaf, y rhai os heuir yn Awst neu ddechreuu Medi, a fyddant yn bared i'w tori tua'r 1af o Mai, pan fyddo yr ymborth yn fwyaf prin. Dywedir fod y fath yma yn cynyrchu enydau da, a'i fod yn werth sylwi arno. Mae 2½ lestraid o hadau ffacbys, ac 1 llestraid o ryg, yn ddigon i hau erw.

Os heuir ffacbys gwanwyn yn Ionawr, mewn lle cysgodol eynes, gwnant yn gyffredin ddyfod yn barod i'w tori yn gynar yn Mehefin, a gellid gosod erfin ar eu holau. Gellir gwneud heuadau wedin yn Chwefror, dechreuu a diwedd Mawrth, a dechreuu Ebrill. Bydd yr hyn a hauwyd yn nechreu Mawrth yn barod i'w tori tua chanol Gorphenaf; a't hyn a hauwyd yn niwedd

Mawrth yn barod i'w tori yn Awst. Mae mesur yr had yn ymddibynu ar yr amser yr heuir, ar natur y tir, ac ar ba un a ydys yn bwriadu i'r cynyrch gael ei fwyta yn las, neu ynto ei adael i hadu; gan fod mwy o had yn ofynol i'r cyntaf nag i'r diwedda. Mewn amgylchiadau cyffredin, pa fodd bynag, dywedir fod o 168 i 196 pwys, gydag o ddeutu 56 pwys o geirch neu ryg, i bob erw yn ddigon, er eu tori i'w bwyta yn leision; ac os eu bwriedir i hadu, bydd 168 pwys yn llawn ddigon.

Mae pob anifail ar y tir yn hoff o ffacbys, ac y maent yn rhinweddol iawn iddynt; a gwnaiff moch besgi arnynt. Maent yn addas iawn i wartheg blithion, gan y gwnant iddynt odro yn dda; ac y maent hefyd yn ymborth rhagorol i gefylau.

Bydd ffacbys gauaf, a'u hau yn Medi neu Hydref, yn fwyd da iawn i anifeiliaid, yn neillduol i ddefaid yn gynar yn y gwanwyn: a'r ffordd oreu yw eu tori, a'u dwyn i'r caeau neu y corlanau, lle byddo y defaid yn cael eu cadw. Gwna hyn eu cadw rhag cael eu dam-sang, a rhag i'r bonion gael eu sathru, yr hyn a wneid pe gadewid i'r defaid i'w bwyta ar y tir. Er eu cadw yn wair, edylai ffacbys gael eu tori yn ol i'r blodau syrthio ymaith, a chyn y gwnelo y codau nemawr o gynydd.

ERFIN GWYLLTION.

Gwnaiff erfin gwyltton dyfu ar fwy o amrywiaeth o dir na'r rhai cyffredin; maent yn gofyn llai o amaethiad a llai o achles, ac o ganlyniad, gellir eu codi ar dir na wnelo ddwyn maip i unrhyw fuddioldeb. Erfin gwyltton yn gyffredin a ffeddyddir er porthi defaid; ond y maent hefyd yn cael eu hamaethu er mwyn eu hadau. Maent mor galed fel hauer neu blaner hwynt y pryd a'r lle y myner, maent yn sicr o ymdrechu byw; ac er na all fod unrhyw fan neillduol yn ffafriol i'w hamaethu er hadu; eto fel cnwd gwyrddlas, er bod yn ymborth gauaf

neu wanwyn, mae erfin gwylltion bob amser yn werthfawr, gan eu bod yn ddiwalliant cyflawn a rhinweddol o ymborth mewn tymor pryd y mae maip a mangles yn gyffredin wedi darfod, a chyn y byddo ffacbys gauaf, meillion, neu ryg-wellt Italaidd yn barod i'w defnyddio.

Un fantais fawr sydd gydag erfin gwylltion yw, eu bod yn hawdd iawn i'w codi ar dir drwg, ar ba un gwnaiff enwd cynar yn fynych ragflaenu yr angenrheidrwydd o frynar haf; oblegid gellir bwyta erfin gwylltion ar y tir gan ddefaid yn mis Medi mewn pryd i osod cnwd o wenith ynddy. Maent hefyd yn ddefnyddiol iawn mewn amaethu rhosdir, a thiroedd gwylltion ereill. Trwy hau y fath diroedd ag erfin gwylltion, a'u bwyta ymaith gan defaid, gellir cynyrchu cymysgedd priodol o laswellt rhinweddol, a dwyn y tir felly i ansawdd o ffrwythlonrwydd parâus.

Mae erfin gwylltion yn fuddiol iawn i'r amaethwr, gan eu bod yn dyfod i'w defnyddio yn yr amser prinaf. Gwnant yn aml ddod yn barod i'w tori yn Hydref, pan fyddo y rheu wedi deifio y meillion o'u dail, a chyn y byddo y maip yn barod i'w defnyddio; a deuant i mewn drachefn yn y gwanwyn, pan fyddo y maip wedi darfod a chyn y delo y ffacbys yn barod i'w defnyddio.

Fel cnwd cyfryngedig (sef rhwng y naill gnwd a'r llall), gellir amaethu erfin gwylltion mewn amrywiol ffyrdd. Os bydd y cnwd o'u blaen eto ar y tir, gellir hau gwely o honyt yn Mehefin, ac yna eu trawsblanu wedi y delo y tir yn rhydd. Gwnant dyfu ar ol ffacbys; dylent gael eu planu yn rwn ar ol grwn fel y byddo y ffacbys yn cael eu tori, wedi achlesu y tir; ond yn gyffredin bydd y ffacbys wedi *cael eu cludo* ymaith cyn y byddo yr amser i hau erfin gwylltion. Yr un modd gallant ganlyn cnwd o lafur, ond aredig ac achlesu y sofl yn gyntaf. Yn Flanders, lle mae llawer iawn o amaethu arnynt, arddir y sofl ddwywaith, a gosodir y planigion yn sythion yn y rhych, mewn pellder priodol *oddíwrth eu gilydd*, ac yna troir y pridd arnynt a'r aradr.

Mae hwn yn ddull llwybrus, a cheir ei fod yn ateb yno yn dda.

Lle nad yw meillion yn cael eu hau, mae yn arferiad i osod cnwd o erfin gwyltton ar ol llin, gan fod y llin bob amser ymaith oddiar y tir yn ddigon cynar er hau erfin gwyltton, heb achos eu trawsblanu. Yn yr achos hwn, ar ol aredig y sofi lin, a'i llyfnu yn dda, gwasgerir yr achles ar hyd yr wyneb, a theffir haen deneu o bridd o'r rhychiau drosto, yna fe'i heuir yn ol o gwmpas 15 pwys o hadau yn mhob erw, gan eu cuddio a phridd o'r rhychiau. Yn y dull hwn cynyrrchir cnydau rhagorol o erfin gwyltton, y rhai a roddant bump neu chwech wythnos o borthiant yn y tymor gwaethaf o'r flwyddyn; a bydd y tir yn rhydd er gosod cnwd gwanwyn ynddo.

Gellir hefyd hau erfin gwyltton heb achles, mewn sofi ar ba un na ellid disgwl cael cnwd o faip; oblegid er na wnant hwyrach gynyrrchu rhyw gnwd mawr erbyn y gauaf, eto bydd yr achlesiad a wneir ar y tir gan y defaid wrth eu pori, a'r lles a ddeillia oddiwrth y gwreiddiau wrth gael eu haredig ynddo, o fuddioldeb mawr iddo.

Pan heuir hwynt yn unig er mwyn hadau, dylent fod yn mhellach oddiwrth eu gilydd na phan eu bwriedir er eu tori neu eu pori gan ddefaid. Ar y tir gwaethaf, dylent fod o wyth i ddeg modfedd oddiwrth eu gilydd; ond ar dir da, o ddeuddeg i bumtheg modfedd. Pan eu bwriedir er hadu, yr amser i'w hau yw o ddeutu canol Awst; ac er eu tori, canol Gorphenaf canlynol, os bydd yr hin yn ffafriol.

Dylai eu haddfediad gael bod yn ofalus iawn am dano, oblegid cyfnewidiant yn ddisymwth os bydd y tywydd yn wresog; ac fe allai y bydd yn rhaid eu tori bob yn ddarn, oblegid na addfedant gyda'u gilydd. Rhaid hefyd eu gwiliad rhag yr adar mor gynted ag y gwna y codau ddechreu llanw. Ni ddygent, ar un cyfrif, gael eu gollwng yn rhy addfed; ac os byddant wedi myned i lawr, gwell fydd eu tori hytrach cyn eu bod yn addfed na'u gadael i orwedd ar y ddaear. Dylent gael

eu tori gyda gofal mawr, ac yna eu gosod yn gogyrtau ar y cae, i sychu ac addfedu. Wrth eu casglu yn nighyd dylent gael eu cadw yn sylhion, ac na ysgydwer ond lleiaf ag ellir o honyn nes eu gosod ar y lleni dyrnau, ac yna eu curio allan a pholion hirion. Dylai digon o ddynion fod wedi eu hurio erbyn y diwrnod y byddant yn debyg o fod yn barod i'w dyrnu, yr hyn sydd yn gafya cael ei wneud gyda brys; gan y dylent gael eu dwya i'r lleni, eu dyrnu, a'u glanâu yn yr un diwrnod, rhag ofn iddi fyned yn wlaw. Os bydd yr hadau ychydig yn llaith pan eu dygir i'r ystordy, gwasgarer hwynyt yn deneu ar hyd y llawr, hyd nes y byddont yn eitha sych.

Nid oes un rhan o'r erfin gwyltton na ellir gwneud rhyw ddefnydd o honyn. Mae eu rhagoroldeb er eu tori a'u pori wedi cael ei sylwi arno yn barod. Arferir tynu llawer iawn o olew o'r hadau, o ba un y gwneir meip-deisenau, pa rai sydd yn rinweddol iawn fel achles. Yn Fflanders, yr achles a ddefnyddir yn gyffredin er codi erfin gwyltton, yw biswail, yn gymysgedig a meip-deisenau. Mae y codau, a'r hyn a dorir ymaith wrth ddyrnau, yn gystal a gwair i'r anifeiliaid; a gellir ddefnyddio gwrysg fel sarn, neu er eu gosod dan yr helmi, &c. Yn Holland llosgir y gwrysg yn lludw, yr hwn sydd yn achles rhinweddol iawn.

LUCERNE A SAINFOIN.

Mae *Lucerne* a *Sainfoin* yn llysiau buddiol iawn. Dylai y ddau gael eu hau mewn tir glân, yn rhychiaw o ddeuddeg i ddeunaw modfedd oddiwrth eu gilydd, fel y gellid ceibio rhyngddynt a'u cadw rhag chwyn. Mae'r ddau yn ddwfn-wreiddiog, ac yn gofyn tir e waelod rhydd a sych; un grafelog, sialcaidd, neu yn agos i'r gareg galch yw'r goreu. Gwnaiff y ddau barâu trwy y flywyddyn, ac felly oddeutu bumtheg o flynyddoedd ol-yn-ol, a daliant yn dda eu trawsblanau; ond os na chedwir y tir yn lân a rhydd, anafir y cnydau, a gwaethygant yn fuan iawn.

Gellir hau yr hadau mewn had-wely yn Ebrill, a'u trawsblanu yn Medi, neu ynts yn gynar yn y gwanwyn caulynol, fel y byddir yn tybied yn oreu. Mae sainfoin i gael ei drin yr un fath, ac yn taro yr un tir a lucerne: byddai gwaelod gwlyb yn ddinystri'r dda; ond tyfant yn dda ar dir ysgafn, os bydd yn sych a gwresog. Os dechreuir arnynt yn gynar, rhoddant bedwar toriad yn yr un flwyddyn; a gwnaiff erw gynal pedair buwch o ddechreu Ebrill hyd ddiwedd Tachwedd, a rhoi llawer o wair gyda hynny.

Mewn hinsawdd sych y tyf lucerne a sainfoin oreu; ac y maent yn gofyn bod yn ofalus i'w chwynu a'u cadw yn lân; gan hynny hwyrach y gallai y feillionen fod ar y cyfan yn rhagori arnynt fel llysietyn cyffredinol. Er hynny, mae lucerne yn cael ei amaethu yn helaeth mewn llawer man, oblegid ei barâd a'i gynyrchiad toreithiog; ac i'r amaethwyr bychain ymddengys ei fod yn ddy-munoł neillduol, pryd bynag y byddo y tir yn ei daro. Marldir dwfn rhydd, ac o waelod sych, yw y goreu; ac yn y cyfryw leoedd gellir yn ddiogel ei amaethu gyda buddioldeb.

Mae tiroedd sialcaidd yn ffafriol iawn i sainfoin; ac y mae llawer o hono yn cael ei godi yn Wilts, Hants, a Dorset, ac yn mharthau sialcaidd ereill deuheudir Lloegr, yn mha leoedd y mae yn cael ei gyfrif yn werthfawr iawn gan amaethwyr o bob gradd.

Dylai y tir at y cnydau hyn gael ei barotöi yn dda, trwy gloddiad neu ddwfn arddiad, yn nghyd a blaenorol frynariad, neu ynte gnwd brynar. Pan y mae ychydig sydd yn ofynol, gwell fyddai i'r tir gael ei balu yn ddwfn a'i achlesu yn dda ar yr un pryd. Mae ffiethiad dwfn yn anhebgorol i'r llysiau hyn, y rhai sydd yn cael eu meithrin trwy wreiddiau sydd yn treiddio ddwy neu dair troedfedd o ddyfnader mewn ymchwiliad am ymgeledd.

Os eu trawsblanu fyddant yn gael oddiwrth hadau wedi cael eu hau yn y gwanwyn blaenorol, gwnaiff

haner pwys o hadau y tro mewn gwely pedair neu bum troedfedd o led, a thriugain o hyd, roddi digon o blanigion i erw. Yr hyn a ddefnyddir yn gyffredin o had, pan heuir mewn trul, yw oddeutu 12 pwys yr erw. Diwedd Mawrth neu ddechreu Ebrill yw'r amser goreu i hau. Pan ei hoedir yn rhy hir, mae y planigion yn dueddol o gael eu dyfetha gan bryfed.

Y flwyddyn gyntaf ar ol hau neu drawsblanu, bydd yn gyffredin dri thoriad da; y cyntaf tua diwedd Mai neu ddechreu Mehefin, yr ail yn Gorphenaf neu Awst, ar trydydd yn Hydref; a thorer hwynt bob amser yn union yr ymddangoso y blodau. Yn yr ail flwyddyn dylai y toriad cyntaf gael ei ddechreu yn Mai, a thra-chefn yn mhen deugañ niwrnod, a hyny am bedwar toriad. Y drydedd flwyddyn, ac oddi yno yn mlaen, dylai y toriad cyntaf ddechreu tua chanol Ebrill, yn ol cynarwch neu ddiweddarwch y tymor; cymerer gofal i ddechreu tori yn gynar, gan ei fod i barâu am ddeugain niwrnod, rhag y bydd y toriadau olaf yn rhy ddiweddar. Fel hyn ceir bedwar neu bump toriad da yn yr un flwyddyn, cyfartal i unrhyw gnwd o ffacbys, a hyny heb afradaeth. Ar ol y toriad diweddaf, dylai y tir rhwng y rhychiau gael ei geibio a'i lanâu; a byddai ychydig o achles hefyd yn llesiol iawn pryd bynag y gellir ei hebgor.

Hwyrach nad oes un math o gnwd haf yn taro cottai yn well na lucerne, os byd ansawdd y tir yn cyfateb. Gwnaiff y bedwaran o erw gynal buwch o'r cyntaf o Fai hyd y cyntaf o Dachwedd; ac ni rydd flas anhyfryd ar na llaeth nac ymenyn. Gellir ei ystyried yn llysieuyn parâus, ac nid oes ond ychydig o drafferth yn ei gylch ar ol y flwyddyn gyntaf; a chydag ychydig o Swedes, a haner neu chwarter erw o fangles, er bod yn ymborth gauaf, gwnaiff ateb yn dda i amaethwr bychan; a gwnaiff yn fynych hebgor yr angenrheidrwydd am fresych a llysiau ereill,

GOSOD TIR AT EI BORI.

Y peth mwyaf pwysig mewn parotöi tir er cael ei bori yw, ei lanâu a'i frasâu yn dda; a'r dull cyffredin, a hwyrach y goreu er dwyn hyn oddiamgylch, yw yn gyntaf gosod cnwd o fangles, erfin, neu gloron, a'u glanâu a'u trafod trwy yr haf er diwreiddio pob chwyn. Yn y gwanwyn canlynol, gosoder ynddo naill ai haidd neu geirch, ac wedi llyfnu digon arnynt hauer yr hadau, a thyner oged ysgafn drostynt. Yna rholier, ac os bydd y tir yn naturiol wydn a glydiog, byddai yn dda tynu oged ysgafn drosto ar ol y rholer, yr hyn a attal yr wyneb rhag caledu a thorthi.

Os bydd y tir yn cael ei fwriadu i fod yn borfa barâus, byddai haner llestraid o ryg-wellt Italaidd, a llestraid o'r cyffredin, haner llestraid o ddail troed y ceilioig, tri phwys o feillion gwynion, ac un pwys o'r rhai cochion, a dau bwys o'r ych-laswellt, yn gymhwysedd rhagorol ac yn ddigon er hau erw; ond gellai ychydig o *trefoil* ac eis-laswellt fod hefyd yn fuddiol.

Os na fydd yn cael ei fwriadu i fod yn dir pori ond yn unig dros ddwy neu dair blynedd, mae y rhygwellt Italaidd yn rhagori ar bob math arall yn ddiamheul; a thrif llestraid o hwn, gyda dau bwys o feillion gwynion, a phum pwys o'r rhai cochion, yn ddigon er hau erw. Os bydd y tir yn grynn fras ac yn lân, gwnaiff rhyw faint yn llai o had y tro; ac os bydd yn ddrwg ac heb ei lanâu i'r graddau y dylai, bydd rhyw faint yn chwaneg yn angenheidol.

Y dull uchod yw y mwyaf cyffredin o barotöi tir pori; ond dewisa llawer hau yn yr hydref, ar ol brynar, neu gnwd brynar. Yn y cyfryw amgylchiad, byddai cnwd o erfin cynar wedi ei achlesu yn dda, a'i fwyta ymaith gan ddefaid yn barotoad rhagorol er gosod hadau, y rhai os yn bosibl a ddylent gael eu hau yn Medi. Yna byddant yn sicr o egino a thyfu yn dda.

a dyfod yn gnwd o laswellt cynar yn y gwanwyn dyfodol. Ond pa ddull bynag a arferir, dylai y tir gael ei lyfnu a'i ffaethu yn dda; ac ar ol i'r had gael ei han, dylai gael ei rolio i'r eithaf er cydio a gwastadâu yr wyneb.

Mae rhwogaeth yr had i ymddibynu i raddau mawr ar natur y tir; ond ni ellir bod yn rhy ofalus am fod yr hadnau yn sier o fod yn dda, glân, a phur. Rhyg-wellt parâol, ych-wellt, *trefoil*, a meillion gwynion, yw y detholiad penaf er bod yn borsa barâus; ond pan na hyddo yn cael ei fwriadu ond dros bedair blynedd, y prif lysieuyn yw y feillionen goch gyda chymysgiedd o ryg-wellt Italaidd a chyffredin.

I gae fyddo yn cael ei fwriadu i fod yn dir pori am bedair neu bum mlynedd, canmolir y cymhwysedd canlynol :—12 pwys o feillion cochion; 6 pwys o feillion gwynion; 4 pwys o *trefoil*; 2 bwys o eis-laswellt; 2 becaid o ryg-wellt; ac weithiau chwanegir ychydig o ych-laswellt ac o ddail troed y ceiliog. Méwn trefn i sierâu enwd da o laswellt hon-dew y flwyddyn dyfodol, dylai o 30 i 40 pwys o'r cymysgedd hwn gael ei han yn mhob erw.

LLIN.

Mae llin yn dyfod o dan y desgrifiad a roddasem o "Gnydau Gwyrddlas," ond nid ydyw bob amser yn cael ei gyfrif yn un o honynt. Geill, er hyny, bob amser wneud i fynu ran o gylchyniad, ac mae wedi bod yn cael ei amaethu felly yn Flanders mewn helaethrwydd am lawer o flynyddoedd, ac felly i raddau mawr yn yr Iwerddon. Nid oes un enwd yn gofyn cymaint o lafur, nac un yn talu yn well i'r amaethwr am y gofal a gymerir yn ei gylch; a phan yr ystyrir y symiau mawrion a delir yn flynyddol am ein llin tramor, tra y mae ein tiroedd ni yn taro gystal er dwyn llin, a'r eiddynt *hwy*, ymddengys fod helae thiad ei amaethiad yn beth o *bwys i'n censdl*,

Y tir goreu er dwyn llin **yw marldir rhydd**—heb fod yn gleiog na grafelog, **ae yn hawdd ei ffaethu**. Tir wedi ei frasau a llawer o achles a achosa iddo dyfu yn rhy rongc **ae i ddyfod yn gwrs allan o'r cribau**. Codir y llin goreu ar ol ceirch, mewn tir meillion neu borfa, **os caiff ei droi i lawr mewn calon dda**. Ceir weithiau gnwd da mewn soff wenith ar ol cloron; ond nid **yw byth yn beth dynunol i hau llin yn union ar ol cloron neu erfin**, pan fyddo y tir wedi cael cyflawnader o achles.

Mewn parotöi y tir dylid bod yn ofalus ar ei fod yn ddwfn, yn deg ac yn lân oddiwrth chwyn. Hyn a ellir ei wneud yn unig trwy ei aredig ddwy waith, cyn neu yn y gauaf, a'i lyfnu yn dda bob tro er dynoethi y chwyn i'r rheu, ac yna ei aredig a'i lyfnu yn y gwanwyn ychydig o wythnosau cyn ei hau, fel y gallo pob chwyn gael eu holol ddyfetha cyn gosod yr hadau yn y tir.

Os bydd y tir yn **wydn**, dylid defnyddio y rholet ar ol yr oged er dryllio y cnapiau, yna cyn hau tyner had-oged fechan drosto, neu ynte un fyddo a dannedd byrion ac agos at eu gilydd er llyfnu yr wyneb. Ar ol hau, bydd dau dro i had-oged yn ddigon er cuddio yr had, yna rholet hwynt. **Os** na bydd y tir yn sych naturiol, bydd rhaid tynu rhych i'r dwfr yma a thraw ar hyd-ddo. Mae amaethwyr Holland yn hau yn dew, trwy hyny caint lin teg, a'r gwrysg yn dwyn ond ychydig godau, daw yr hadau oll yn addfed ar unwaith; tra pan heuir yn deneu, mae'r llin yn arw, a'r brigau yn golofnog, a'r hadau a pheth yn addfed a pheth yn leision.

Ni ellir bod yn rhy fanwl gyda chwynu llin. Hyn **yw un prif achos o ragoroldeb llin Holland a Belgium**; nis goddefir yno i un chwynyn bach na mawr heb ei dynu ymaith, ac y mae y cnwd yn talu yn dda am yr holl drafferth a gymerir yn ei gylch. Pan dyfo y llin i oddeutu tair modfedd o uchder, dylent gael eu chwynu. Mae'r chwynnwyr yn ei sathru yn aml wrth eistedd i lawr i chwynu, ond dylent gymeryd gofal i beddïo.

yaigo, neu ei nydd-droi yn ol ac yn mlaen ; gwna hyny anafu y gwrysg ieuanc, y rhai a adfywiant ond yn anaml, tra wrth ei gwasgu yr un ffordd gwnant yn fuan godi i fynu drachefn.

Yr amser i'w dynu yw pan fyddo y gwrysg ychydig mwy na haner melynau, a'r dail yn colli. Pan ei tyner yn las, ymddengys y llin yn decach, ond bydd yn wanach, ac yn ysgafnach. Os bydd rhyw faint o'r cnwd wedi cwympo, dylai gael ei dynu a'i gadw ar wahan ; a dylid bod yn ofalus i bigo ac i gadw yr hir, y canolig, a'r byr, ar y neilldu. Mae hyn yn cael ei wneud gyda manylwch ar y Cyfandir, ac y mae hyn yn fodion i chwanegu ei werth i'r nyddwr, ac o ganlyniad i'r amaethwr. Ni ddylai llin byth gael ei dynu pan yn wlyb ; a dylai gael aros dau neu dri diwrnod yn dasgelli neu yn ysgybau bychain, cyn ei roi yn ngwlych ; a dylai yr ysgubau gael eu clymu yn llaes iawn.

Dylai gael ei wlychu a dwfr tyner. Y ffordd oreu yw llanw y pwll o afon neu ffrwd, yna attalier y dwfr, a gwlycher mor gynted ag y myner ; ond os na ellir cael ond dwfr ffynnon caled, llanwer y pwll wythnos cyn y gwlycher, fel y gallo yr haul a'r awyr ei dwymo a'i dyneru. Na adawer i ddim dwfr newydd ddyfod i mewn ond er diwallu y coliant, yr hyn a ddylid bod yn ofalus rhagddo. Yn Holland maent yn gosod y llin yn agos yn syth yn y dwfr, a'i ben i lawr ; yna gor-chuddiant ef a llaid, ac mewn rhai manau ag ystyllod, wedi eu gosod mewn *frame*, er cadw allan y goleu. Gall gwellt glân wneud y tro llawn gystal, ond ei wthio i lawr a thywyrch neu geryg ; a gwnaiff y gwellt achles rhagorol yn y canlyniad, wedi ei lenwi a dwfr llin.

Dylai pob amaethwr llin fod yn gwybod pryd y byddo wedi ei briodol ddyfrâu, gan fod hyn yn beth o bwys yn ei driniad. Ni ellir yn iawn roddi cyfarwyddiadau ar y pen hwn, gan fod yr amser yn amrywio yn ol natur y dwfr, sefyllfa y tywydd, ac addfedrwydd y llin pan dynwyd ef. Mae yr amser yn amrywio o chwech neu

saith, i ddeuddeg neu bedwar diwrnod ar ddeg; hwyrach mae yr amser priodol mewn achosion cyffredin fyddai rhwng y ddau eithafion hyn. Golcher y llin mewn dwfr glân wrth ei gymeryd allan o'r pwll, yr hyn a'i gwna i gyd yr un lliw.

Gellir sylwi yma fod pob barilaid o ddwfr o'r pwll llin yn gyfartal i lwyth o achles beili, er ei daenu ar hyd wyneb y tir. Dylai y dwfr hwn, gan hyny, gael ei gadw i'r tir yn ofalus, ac na olynger diferyn o hono i golli.

Mae pob amaethwr llin yn gwybod pa bryd y bydd yn barod i'w godi, yr hyn a ddylai gael ei wneud ar ddiwrnod sych, a pha sychaf, goreu yn y byd. Mae llawer o golled yn y felin pan na fyddo y llin yn eithaf sych. Os na bydd yn cael ei gymeryd i'r felin yn union, gwnaiff wellâu wrth osod y dasau bychain yn ysgafn ar ei gilydd, a cheryg neu ddrysni yn y gwaelod, fel y gallo yr awyr fyned danynt.

Mae melina a llaw-risglo yn orchwylion gofalus, y rhai sydd yn cael sylw manylaf gan amaethwyr llin ar y Cyfandir. Dylid cymeryd gofal mawr gyda rholio llin. Y mae i fyned trwy wahanol fathau o *rollers*, o amrywiol gafniadau o fawr hyd fychan, fel y gallo y paladr gael ei ddiyllio yn fân; yr hyn a'i gwna yn hawddach i'w risglo, ac yn llai darostyngedig i gael ei afradu; oblegid y cyrs hirion heb eu dryllio sydd yn rhwygo ymaith y llin. Dylid cymeryd yr un gofal hefyd gyda thori llin er ei law-risglo.

Mae arbed yr had hefyd o bwys mawr. Ar y Cyfandir, maent yn codi llin da a hadau da oddiwrth yr un cnwd. Eu dull cyffredin yw sychu y llin ar y cae, fel llafur, a'i helmi hyd y gwanwyn dyfodol. Os ei bwrriedir i'r felin-olew, dylai fod yr hadau yn agos addfed; a dywed y Dutch, y gellir gwneud hyn heb fod y llin ddim gwaeth. Pa un bynag a fyddo yr had yn addfed neu beidio, bydd yn afradaeth digywilydd ei adael i bydru, pan y gellir gwneud o hono ymborth mor rhwng-

weddol i anifeiliaid. Nid oes dim sydd yn well er rhoddi llaeth ac ymenyn, ac at besgi; ond dylai bob amser gael ei falu, a hyny gyda y codau, gan fod yr hadau eu hunain yn debyg o ryddâu gormod ar yr anifeiliaid.

MER-HELYG.

Pa gymaint o dir gwlyb anial a ellir gwneud elw o hono, pe'i plenid a mîr-helyg, y rhai sydd mor ddefnyddiol i'r amaethwr, ac yn fynych mor fuddiol i'w gwerthu! Clwydau, basgedi, a llawer o amrywiol bethau defnyddiol, a wneir oll o'r blaguryn bychan hwn; yr hwn, er ei fod mor dyner ac ystwyth, eto mae yn galed yn ei dyfiant; ac y mae yn anhawdd cyfrif beth yw'r achos na bai yn cael mwy o sylw ac amaethiad cyffredinol.

Dylai y toriadau gael eu cymeryd o gangenau cryf iachus, a'u planu yn Chwefror. Dylai y tir gael ei gadw yn lân, ac yn weddol o sych, am y ddwy flynedd gyntaf; ar ol hyny gwnant ddod yn mlaen eu hunain heb ond ychydig o ofal am danynt mwy; ond ni wna y fêr-helygen ffynu, ac nis dylai gael ei phlanu lle byddo dwfr llonydd yn aros am unrhyw yspaid o amser.

Os ei plenir mewn tir gwlyb masw, dylai gael 14 pwys o farl, clai, neu bridd yn gyntaf, i'r dyben o'i gydio, ac i'r mîr-helyg i dyfu yn well. Pan ei trinier yn iawn, mae cymaint a £14 yr erw yn aml i'w gael oddiwrth blanigfa o fêr-helyg, ac y maent yn gyffredin yn cael ei tori bob tair blynedd. Y mîr-helyg melynion yw y goreu at fasgedi; ond y fath gyffredin yw y caletaf, ac atebant yn dda braidd i bob pwrpas.

COR-FWYDO, NEU LAS-BORTHI.

Cor-fwydo, neu Las-borthi, yw bwyda anifeiliaid yn y ty a chnydau gwyrdlas. Trwy holl Switzerland a

Fflanders, cedwir rhan fawr o'r anifeiliaid yn wastad yn y tŷ, ac fe'u bwydir a glaswellt wedi ei dori, meillion, neu rhyw ymborth gwyrddlas arall; yr hyn sydd yn ddull buddiol iawn er casglu achles rhinweddol, yn gystal ac er porthi y gwartheg blithion, ac ereill o'r anifeiliaid.

Gwnaiff anifeiliaid ieueinc, gan eu bod yn gofyn ym-
arferiad, yn gyffredin dyfu yn well ac yn fwy bywiog wrth bori allan, na phan eu cyfyngir i dŷ neu fuarth; ond y mae gwartheg yn annyoddefus i wres, "pan fyddo'r haul yn poethi a'r cacwn yn brathu," ac y mae eu bwyda hwy yn y tŷ yn chwanegu eu llaeth, a thrwy hyn hefyd y cedwir ac y chwanegir yr achles.

Mae gwres a gorffwysdra yn anghenrheidiol er pesgi pob anifail, ac fe ddiogelir yr hanfodion hyn wrth las-borthi. Gwnaiff eidion fwyta llai o fwyd wrth ei fwyda yn y tŷ, ac fe wnaiff besgi lawer yn gynt na phe bai yn pori allan; mae y gwahaniaeth hwyrach oddeutu yr haner yn ffafn glas-borthi. Mae gwres ac oerfel—cyf-newidiadau yr hîn—yn effeithio ar anifeiliaid ar y meusyd, oddiwrth yr hyn y mae y rhai sydd i mewn yn cael eu diogelu; ac y mae ymgylfroad yn rhwystro tewychiad. Gellir cymhwys o hyn at ddefaid, moch, a chreaduriaid plyfiog; ac ni ddylai byth fod yn ddisylw gan yr amaethwyr synwyrol.

Mae ceffylau ac uchain gwaith yn cael eu buddioli yn fawr trwy las-borthi, gan fod hyn yn arbed y draft-erth iddynt o gasglu ymborth ar ol bod yn gweithio. Gwnant hefyd ddiwallu eu hunain yn gynt, ac o ganlyniad, cânt fwy o amser i orphwys; a gorweddu lawer yn well mewn ystabl neu luest, gyda digon o sarn danynt, nag y gwnant ar y cae, lle mae cynifer o bethau i'w haflonyddu.

Mae bustych, wrth eu bwyda yn y tŷ, yn dysfod yn yn fwy hywedd at waith, ac fe'u hachubir oddiwrth lawer damwain ac afreolaeth. Mae maintioli a chymedrusrwydd yr anifeiliaid a borthir ac a gysgodir fel hyn

yn dangos gwnaiff y rhai a gedwir felly, ragori ar y rhai a adewir yn agored i gyfnewidiadau y tywydd, ac amgylchiadau ereill cysylltiedg o bod allan, hyd y nod yn y lleoedd goreu. Gellir glas-borthi moch a meillion gyda buddioldeb; ac i'r perwyl hwn yn unig, dylai fod dernyn bychan o feillion wrth bob cottu.

Wrth gor-fwyda, dylai yr ymborth gael ei roi yn aml, ac yn ychydig ar y tro. Trwy drefnus amrywiaeth, a chyson ddiwalliad o ymborth, pesgir lawer yn well na thrwy fwydiad afreolaidd, pa mor dda bynag fyddo y bwyd, neu yn mha helaethrwydd bynag y rhodder ef. Mae rhoi gormod i greadur, cynddrwg a'i adael heb ddim; a gwnaiff effeithio yn debyg yr un fath. Ar yr ymddangosiad lleiaf o ddiffyg awydd at fwyd, dylai y dognau gael eu lleiâu.

Geill yr anifeiliaid gael rhyddid y clôs er cael awyr ac ymgylffroad; ond pan eu cyfyngir yn holol i'w corau, gofaler eu cadw yn sych ac yn lân. Gadael i wartheg neu anifeiliaid pasgedig i orwedd neu sefyll mewn lle gwlyb, neu aflan, fyddai yn niweidiol iawn — gwmai leiau llaeth y naill, ac attal tewychiad y llall, ac amharu iechyd y ddau. Ni ellir bod yn rhy ofalus yn y golygiadau hyn.

Pan gyfniewidier lluniaeth gwartheg yn ddisymwth o fwyd sych i ír, maent yn debyg o niweidio eu hunain, ar y cyntaf, trwy fwyta o'r ymborth gwyrdlas yn rhy awyddus; o herwydd paham dylid gofalu na chaffont ormod ar unwaith, ond rhodder iddynt ychydig yn aml.

Dylai meillion gael ei rhoi bob yn ychydig ar y cyntaf, oblegid os rhodder hwynt i ormodedd, neu yn wlyb, byddant yn debyg o achosi chwyddiant. Tybir fod hyn yn cyfodi oddiwrth wynt a genedlir gan ymweithiad y meillion yn nghylla yr anifail; ac oddieithir i gynorthwy buan gael ei estyn, dichon iddo achosi marwolaeth. Dylai meillion gael eu tori y dydd o'r blaen, cyn eu rhoddi i'r anifeiliaid, ac yna yn gyffredin ni wnant eu chwyddo; ond os digwydd i hyn gymeryd

lle, gwnaiff haner peint o ûl a llonaid wŷ o dar, neu bwys o halen yn gymysgedig a dwfr, roddi adferiad buan. Dylai gwelt gael ei roddi gyda meillion, fel gogawr, yr hyn a wnaiff attal rhyddni gormodol.

Mae y buddioldeb a ddeillia oddiwrth gor-fwydo yn fawr iawn. Gellir cadw yr un nifer o anifeiliaid ar gynyrch llai na haner y tir a fyddai yn ofynol pe byddent yn cael eu gollwng allan i bori; ac nid yw hyn ond ail beth mewn cymhariaeth i'r hyn a geir trwy y mawr chwanegiad o achles ffrwythlon. Gellir defnyddio y gwrtraith a gesglir trwy las-borthi yn y tŷ, ac ar y clos, i unrhyw bwrpas, yn ol ewyllys yr amaethwr; ond pe gadewid i'r anifeiliaid i bori ar y meusydd, collid neu afredid ef i raddau mawr.

Er sicrâu yr holl fanteision o gor-fwyda, pa foddy bynag, gyda golwg ar iechyd a chynydd yr anifeiliaid, a chasgliad gwrtraith, mae yn anhebgorol fod y luestai, y corau, a'r lleoedd o gwmpas, wedi eu trefnu yn briodol, fel ag i arbed trafferth, diogelu cynesrwydd a chysur yr anifeiliaid, a rhagflaenu yr afradaeth lleiaf o'r tail a'r biswail. Dylai y biswail gael ei gadw mewn pydewau, a dylai y beili gael ei ddyfnâu a'i gafnu, fel ag i gadw i mewn bob gwlybwr oddiwrth y tail, fel na choller dim o hono.

Nid yw yr arferiad o las-borthi da, naill ai wedi eu cylamu mewn corau neu luestai, neu ynte yn y buarth yn rhyddion, ddim yn beth mor gyffredin a cheffylau; ond gan ei bod yn ateb i fwyda ceffylau yn y stabl, ni all fod un rheswm paham na wnai borthi da yn y beudŷ ateb hefyd. Gellid defnyddio unrhyw gymaint o feillion a chnydau gwyrdlas ereill yn y dull hwn er elw mawr i'r amaethwr, yr hwn bob amser sydd ag eisiau mwy o achles arno nag a eill gael oddiwrth wellt yn unig; ac y mae yn amlwg y cesglir llawer mwy o achles trwy yr arferiad hwn nag mewn unrhyw ffordd gyffredin, a bydd hefyd yn llawer mwy rhinweddol. Yn mhellach, gwneir arbed haner y bwyd wrth las-borthi.

Pan fyddo anifeiliaid yn cael eu glas-borthi mewn lle agored, dylai fod lluestai wedi eu gosod i fynu yn rhwy fan cyflëus, er eu cysgodi rhag yr haul a'r gwallaw. Gellir gwneud hyn yn hawdd gydag ychydig draul, trwy yru polion yn y ddaear a llenwi rhyngddynt ag eithin, neu wrysg coed, o ba rai cangau o ffynydwydd yw y goreu. Gwnaiff lluestai wedi eu gwneud felly ateb y pwrpas am dymor; er pe'u gwneud a gwell ddefnyddiau byddent, o gwrs, yn fwy parâus a chy-flawn.

Er prawf o'r buddioldeb sydd yn deilliaw oddiwrth las-borthi, gellir gosod gerbron fel canlyniad i'r ymchwiliad manylaf, ddarfod i erw a haner o feillion cochion gadw chwech o wartheg blithion am 64 diwrnod, a phob buwch yn cael 168 pwys o feillion bob dydd, yn gwneud i fynu yn y cwbl $33\frac{1}{2}$ tunell oddiwrth erw a haner o dir yn ysdod hyny o amser; ac yr oedd gwerth yr achles a ddarfu i chiwech buwch felly ei gynyrchu yn fawr iawn. Mae achles, mewn gwirionedd, yn cyfansoddi un o brif adnoddau golud yr amaethwr; eto trwy ddiystyrwch rhy gyffredin, neu gamddefnyddiad o'r elfen bwysig hon o ffrwythlonrwydd, pa faint yw y golled ddirfawr mae nid yn unig yr amaethwr, ond hefyd yr holl wladwriaeth, yn gael bob blwyddyn!

Prif bwnc pob amaethwr synwyrol ddylai fod i wellâu ei amgylchiadau ei hun trwy wellâu ansawdd ei dir; ac megys nas gellir gwneud hyn heb achles, ac na cheir achles heb anifeiliaid, mae yn beth o'r pwys mwyaf pa fodd i'w cadw yn y modd mwyaf trefnus, ac i wneud mwyaf o honyn, a pha fodd y gellir cael mwyaf o achles oddiwrthynt.

Mae profiad yr amaethwyr goreu yn mhob gwlaid yn dysgu mae trwy godi cnydau gwyrdlas, megys meillion, rhyg-wellt, facbys gauaf a gwanwyn, erfin gwylt-ion, lucerne, maip, mangles, moron, a bresych, y gwnaiff y tir na wnelo braidd gadw un fuwch yn yr haf ar ei borfa dlawd, trwy osodiad rheolaidd o'r cnydau

uchod, gadw tair trwy yr holl flwyddyn, ond iddynt gael eu cadw a'u bwyda yn y tŷ; ac yn mhellach, y bydd yr achles a gynyrchir gan un o'r gwartheg hyn trwy ei bwyda felly, a chael digon o wellt dani, yr hwn a arbedir trwy ddefnyddio gwell ymborth, yn gyfartal i'r hyn a gynyrchir gan dair buwch trwy bori allan yn yr haf, a'u cadw wrth ychydig danynt yn y gauaf heb ddim ond gwellt a gwair i'w fwyt.

Gan hyny, os gellir cadw tair buwch fel hyn yn y tŷ trwy y flwyddyn oddiwrth gynyrch tir na wnelo braidd gadw un fuwch yn yr haf trwy ei bori, ac os rhydd un fuwch, trwy ei bwyda yn y tŷ, gymaint o achles a thair trwy bori allan, ymddengys y gallai unrhyw ddyn, yr hwn nad yw yn awr yn abl i gadw ond un fuwch, fod, trwy fabwysiadu y dull hwn, yn abl i gadw tair, a phob un i gynyrechu cymaint o achles a thair yn y llwybr cyffredin; y cai gymaint naw gwaith o achles fel hyn ag y cai yn yr hen ddull.

Mae 60 pwys y dydd o fangles neu erfin yn ddigon i un fuwch. Dylent gael eu golchi yn lân, a'u tori yn dafellau mawrion cyn eu rhoddi o flaen y da; pe'u tored yn dameidiau bychain, crynion, neu ysgwar, byddai mwy o berygl o dagu na phan eu torir yn dafellau mawrion. Byddai ysgwyd ychydig o halen dros y gwreiddau ar ol eu tori yn fuddiol iawn, gan gymeryd gofal, er hyny, i beidio rhoi gormod. Ac yn wir, byddai darn o graig-halen i'r anifeiliaid iddei llyfu, bob amser yn fuddiol er gwellâu eu hiechyd a'u gwedd.

Mewn bwyda y gwartheg, dechreuer am chwech o'r gloch yn y boreu gydag erfin, ffacbys, meillion, neu ymborth gwyrddlas arall, yn ol y tymor; ac yna rhodder iddynt ddogn drachefn pob dwy awr hyd y nos, gydag ychydig o wair rhwng bob un; hyny yw, chwech pryd o ymborth gwyrddlas, a phump o wair, bob dydd, yn nghyd a gwair dros y nos. Bydd llau bwys o wair yn ddigon ar y tro, a phedwar dros y nos; yr hyn a wna 14 pwys yn y 24 awr. Dylai y gwartheg gael dwfr ddwy

waith yn y dydd. Ni chrybwylkir dim yma am lucerne, mangles, maip, bresych, neu ryg-wellt, y rhai oll a ddefnyddir er cor-fwyda; ond y maent oll yn cael sylw arnynt bob un dan ei ben neillduol.

Mewn glas-borthi, dylai'r anifeiliaid bob amser gael cyflawnder o ddwfr da, a dyn gofalus i edrych ar eu holau, ac i'w diwallu ag ymborth yn rheolaidd. Mae ffacbys, neu erfin gwyltton, wedi eu hau ar wahanol amserau, er eu tori y naill ar ol y llall, pan fyddo meillion yn darfod neu yn myned yn rhy addfed, yn ddefnyddiol iawn, gan y gwnai gwartheg blithion, oni bai hyn, gilio yn eu llaeth. Yn Holland, mae y gwartheg sydd yn cael eu bwyda i mewn yn cael eu dyfrâu a dwfr wedi ei gymysgu ag olew-deisenau, blawd rhyg, neu flawd ceirch; a rhoddir iddynt hefyd ryw gymaint o halen, yr hyn sydd yn llesiol i'w hiechyd, ac yn chwanegu ac yn gwellâu eu llaeth.

Mae yr oll o'r gwelt a gynyrchir ar y tir yn perthyn yn gyflawn i'r anifeiliaid; ac fe'i defnyddir yn sarn danynt pan fyddo erfin a chnydau gwyrddlas ereill yn cael eu darparu er bod yn ymborth. A'r gwelt chwanegol a godir ar y tir trwy chwanegiad yr achles a geir fel hyn oddiwrth yr anifeiliaid, a gediw yn mlaen ar gyfer cynydd eu nifer er eu diwallu â digon danynt.

Mae rhai pobl ddeallus wedi cyfrif fod haner erw o dir yn ddigon i gadw buwch trwy y flwyddyn; ac y mae y diweddar Mr. Cobbett wedi dyweud fod chwarter erw yn ddigon; ond fe allai na ellir ymhwys yn holol ar un o'r dywediadau hyn. Ond beth bynag, y mae yn sicr y gellir arferyd cor-fwydo gydag elw mawr i'r amaethwr, ac yn fwy neillduol i'r amaethwr bychan; a pha mor gamweddus gan hyny yw gadael dwy neu dair erw o dir i gael ei afradu mewn porfâu un creadur yn yr haf, a'i gadael i ddihoni trwy y gauaf ar wair neu wellt! Mewn gwirionedd, gwnaiff yr amaethwr *fwy o elw oddiwrth ei wartheg o'u bwyda yn y tŷ ar ymborth fr, a thalu ardreh gyffredin am ei dir, nag a*

wnaiff oddiwrthynt o'u cadw yn y dull cyffredin ar borfa, gwair, a gwellt, a chael ei dir am ddim.

Dylai gwartheg, pan gedwir hwynt yn y tŷ, gael eu ysgraffellu a'u glanâu yn ofalus, yr hyn sydd yn hanfodol er iechyd yr anifeiliaid, a gwnaiff chwanegu eu llaeth yn fawr. Ni ellir cymeryd gormod o drafferth gyda golwg ar hyn. Mewn gair, dylai pob eidion fyddo yn cael ei gor-fwyda gael ei drwsio a'i ysgraffellu mor ofalus ag unrhyw geffyl. Ni ellir trafod a chanmol gormod ar y gwartheg blithion; ac yn wir, gellir dyweud yr un peth am bob creadur.

Na ollynger ūs y llafur i golli. Os bydd y gwartheg yn cael eu cadw ar fwyd sych am dymor, mae y cymnewidiad oddiwrth laswellt, neu gnydau gwyrdlas, yn debyg o effeithio arnynt; aiff y tail yn sych, saif eu blew i fynu, ac oddiwrth sefyllfa rwymol y coluddion, daw yn mlaen glefydau, y rhai weithiau a ddybenant yn marwolaeth yr anifail. Yn awr, ūs yw y feddyginaeth oreu yn y cyfryw amgylchiadau, os caiff ei ferwi yn dda, a'i gymysgu a chloron wedi eu pwnio, a rhyw hadau neu fran er ei wneud yn flasus. Gwnaiff llestraid o'r cymysgedd hwn, nos a boreu, agor y coluddion, a gwneud i'r croen edrych yn llyfn ac iachus, a hefyd chwanegu y llaeth. Pan na ellir cael ūs llafur, gwnaiff gwair neu wellt wedi ei dori y tro. Ni ddylai y cymysgedd fod yn rhy sych, ond yn hawdd ei droi oddiamgylch a llaw. Gellir rhoi mwya o gloron gyda buddioldeb yn y dull hwn nag un dull arall; ond rhaid iddynt gael eu berwi ar wahan, canys mae dwfr cloron yn niweidiol i anifeiliaid. Gwell-eid y cymysgedd trwy roi ychydig o erfin Swedaidd ar ei ben, y rhai a ellid ferwi gyda'r ūs.

Gwnaiff gwrysg ffa, ac unrhyw fath o wair neu wellt y tro, er eu tori i geffylau, gwartheg, ac anifeiliaid hespion. O'i roi fel hyn, mae yn arbed y bwyd yn fawr iawn, ac y mae yn dda er iechyd yr anifeiliaid. Gydag offeryn i'r perwyl, ni bydd eu tori nemawr o orchwyl.

Hwyrach, y tybia rhai y gwnaiff gwartheg roi fwy o laeth pan yn pori allan na phan yn cael eu bwyda yn y tŷ. Ond y mae hyn yn gyfeiliornad holol, oblegid pa leiaf o drafferth a fyddo ar y fuwch mewn cael ei hym-borth, mwyaf yn y byd a rydd o laeth ; ac y mae yr arferiad oadael gwartheg allan ar nosweithiau oerion, neu yn agored yn yr haf i'r gwres a'r pryfed ar hyd y dydd, yn sicr o fod yn niweidiol. Ar dywydd teg, os bydd rhaid, gellir hwyrach eu gollwng allan heb ddim niwaid ; ond pryd bynag y byddo amgylchiadau yn caniatâu, bydded i'r gogawr neu'r glaswellt gael ei ddwyn adref a'i roi i'r gwartheg yn y tŷ, ganadael yr anifeiliaid ieueinc i borï allan.

Cyfrifer fod achles un fuwch yn gorwedd, ac yn cael ei bwyda yn y tŷ, yn ddigon i wyneb drwsio erw o dir ; tra y mae tom anifeiliaid, a'i adaель ar hyd y borfa, yn niweidiol, oblegid etyl y tyfiant am dymor, ac yna cyfyd dwmpathau o laswellt garw, yr hwn ni fwyty yr anifeiliaid. Mae y rhan fwyaf o'r tom a deilir ar y maesydd yn myned ymaith mewn mygdarhiad, ac yn cael ei gwbl golli ; ac y mae pryaïd a chylion yn magu ynddo a thano tra y byddo heb sychu i fynu ; ond pe'i cesglid at ei gilydd, a'i wasgaru mewn tymor priodol, gwnai gynyddu y tyfiant a ffrwythloni y tir.

Yn Switzerland, mewn lleoedd mor uchel fel nad yw y llafur yn addfedu, mae gan yr amaethwyr, y rhai a ymddibynant yn benaf ar gynrych eu gwartheg, yr anifeiliaid goreu ; gan eu bod yn ofalus yn nghylch croesi y rhywogaethau, a'u trwsio a'u bwyda yn gyson yn y tai. Tiroedd na byddent yn y wlad hon, oblegid eu bod mor llethrog, ond porfa defaid neu eifr, sydd yno yn cael eu dyfrâu, neu eu hwyneb drwsio, a'u cynrych yn dal i'w cyson dori er bwyda yr anifeiliaid i mewn, y rhai a ddiwellir bob dydd a glaswellt fr ; a'r oll o'r achles a geir fel hyn er wyneb drwsio y tiroedd yn y gwanwyn, a'u ceidw mewn cyflawn ffrwythlonrwydd. Mae'r un dull yn cael ei arferyd yn ngwledydd isel

Belgium a Holland ; ac y mae y rhai hyn yn siamplau eithaf teilwng o gael eu hefelychu gan amaethwyr Prydain.

CHWYNU.

Pla yr amaethwr yw chwyn, gan fod pob tir, i raddau mwy neu lai, yn cael ei ddifwyo a hwynt. Maent o dri math : blwyddol, dwyflwyddol, a pharaol. Ni fydd y cyntaf syw ond un flwyddyn, ac fe'u dyfethir yn hawdd trwy frynaru a chwynogli yn yr haf ; ond dylid gofalu, er hyny, na fyddo hyn yn cael ei esgeuluso cyhyd fel ag i roddi amser iddynt i hadu, neu i flodeuo, yr hyn a ddiffrwytha y tir. Dylid tori y rhai dwy flwyddol ymaith o hyd fel y byddant yn tyfu, a chan gael fel hyn eu rhwystro i hadu, ceir yn fuan wared o honyn. Ond mae y rhai paraol yn fwy anhawdd eu dyfetha, oblegid nid yw eu tori hwynt ymaith yn unig, fel y byddant yn ymddangos uwchlaw y tir, yn ddigon. Nid oes dim, mewn gair, ond mynchy aredig a phigo ymaith y gwreiddiau a llaw, yn nghyd a braenariad, neu ynte gwrs o gnydau brynar, a wna gwbl lanâu tir o'r fath yma.

Ysgall sydd ddwyflwyddol, a gellir eu dystrywio trwy eu tori wrth y ddaear dair neu bedair gwaith bob tymor ; neu gellir eu tynu ymaith a llaw neu efail chwynu, gyda pha offeryn geill bachgenyn dynu crygyn mawr mewn diwrnod. Gwell fyddai i ychydig o'r llafur gael ei ddystrywio trwy anfon plant iddo i dori neu dynu yr ysgall, na'u gadael i dyfu ac i hadu.

Rhedyn a ddystrywir trwy eu cyson dori, yn neillduol os caiff ei wneud yn gynar yn y tymor, cyn y lleda eu dail ; ond os oes rhyw ddarn diffrywth briwedig ar y tir, gellir gadael i'r rhedyn dyfu arno er eu rhoi dan yr anifeiliaid. Gwnant y tro fel hyn yn lle gwellt, a phan eu defnyddir felly, gwnant hefyd achles ffrywthlon a pharâus.

Tafol. Dylid diwreiddio y rhai hyn a phal hir-gul fforchog. Gyda defnyddio yr offeryn hyn am awr neu ddwy bob dydd yn Gorphenaf ac Awst, cyn yr elont i hadau, gellir mewn dau neu dri thymor ddystrywio pob tafolyn oddiar y tir.

Brat-chwyn sydd ddwyflwyddol, ac sydd raid eu ddystrywio trwy eu tori cyn y blodeuont, gan y gwnaiff un pen, os gadewir i hadau, hau cae cyfar. Mae yr hen arwiredd, fod—

“Un flwydd o hadu
‘N gwneud naw mlwydd o chwynu,’”

yn cael ei wirio yn hyn, megys y mae fynychaf gyda phob chwyn ereill.

Glaswellt-glwm, neu *Gwialenig*, neu *Cwnsallt*. Ni ellir cael gwared o'r rhai hyn ond trwy eu pigo a llaw; ac hyd yn nod gyda'r llyfniad diweddaf ar ol hau, neu wedi i'r rhychiau cloron neu erfin gael eu gwneud, dylai gwragedd a phlant gael eu hurio er myned a'u basgedi dros y tir, os bydd wedi ei ddifwyno a'r chwyn yma, er pigo i fynu bob darn o'r gwreiddiau a ddigwyddo fod ar ol, canys gwnaiff y gronyn lleiaf o honynyt dyfu.

Barog. Er nad yw hwn ond chwynyn blynnyddol, eto y mae y mwyaf niweidiol a all fod. Dystrywia y meillion ieueinc trwy eu tagu bron gyda eu toriad allan. Trwy galchu, a thrwy adael y tir yn llonydd i'w borï am ddwy neu dair blynedd mae cael gwared o hono, neu trwy ymosod ar chwynogli a phigo y gwreiddiau a llaw. Sylwir yn gyffredin mae mewn tir fyddo yn cael ei bilio yn ormodol y mae hwn yn tyfu.

Berw'r-fam, neu *Fustard gwylt*, sydd yn niweidiol iawn i dir llafur, ac a welir yn mhob man yn lledu ei flodau melynion disglaир yn gynar yn yr haf. Nid oes modd ei ddyfetha ond trwy ei dynu a llaw; a phan y *byddo'r llafur tua throedfedd*, dylid anfon gwragedd a *phlant i'r cae i bigo i fynu bob gwreiddyn o hono*; gan

gymeryd gofal i ddamsang ond lleiaf ag a allant ar y llafur; a dylai gael ei fynychu mor aml ag y byddo y chwyn yn ymddangos. Trwy barâu fel hyn, gwnewch o'r diwedd orchfygu y gelyn, a sicrâu cnwd glân o lafur.

Dail troed-y-fran, a *Suran yr yd*. Yr un rheol sydd tuag at ddyfetha y chwyn yma ag a grybwyllyd uchod er cael gwared o'r glaswellt-glwm,— llaw-chwynu yw yr unig feddyginaeth; a dylai y gronyn lleiaf gael ei bigo i fynu; oblegid gwnaiff mewn un flwyddyn dyfu yn blanigyn cryf, a thagu y cnwd, a gwneud chwynu y flwyddyn ganlynol yn ddwbl anhawddach.

Nid yn unig dylai y chwyn yma gael sylwi arnynt mewn tir llafur, ond hefyd mewn tir pori; a dylai y cloddiau gael eu glanâu yn ofalus oddiwrthynt; oblegid mae pob awel yn dwyn yr hadau yma a thraw ar hyd y maesydd, a bydd yr holl drafferth yn ofer, oni thorir i lawr bob ysgellyn, tafolyn, &c., cyn y byddont yn dechreu hadu. Ni ddylai yr un chwynyn gael ei oddef ar un rhan o'r tir i ladrata ffrwythlonrwydd y pridd; ac yna cai ei holl rym ei arferyd er meithrin y cnydau.

Trwy chwynu yn ofalus gwneir nid yn unig hwylusu tyfiant y cnydau, ond hefyd ddarparu achles erbyn y tymor dyfodol. Dylai yr holl chwyn gael eu casglu yn grygyn, ac mor fuan ac y dechreuant blaguro, troer hwynt drosodd, gan roi yr wyneb tu faes yn y gwaelod; a pharâer i wneud felly hyd oni phydron, a thrwadl ddadgysgyltu yn bridd teg, yr hwn sydd cystal a'r tail goreu. Dylai eich plant a'ch gwasanaethddynion gael eu dysgu i beidio myned heibio i chwynyn, pa un bynag ai yn y cae neu ar yr heol, heb ei dynu a'i ddwyn i'r crygyn.

CLODDIAU.

Dylai pob cae fod wedi ei amgylchu a chlawdd, yr hyn sydd yn angenrheidiol er ei ddiogelu, pa un bynag

ai tir pori neu lafur a fyddo. Mae cloddiau hefyd yn dda er cysgodi y tir mewn tywydd garw, ac er cynyddu tyfiant, canys ni ffyna unrhyw gnydau cystal mewn tir agored, ag mewn tir cauedig a chysgodol.

Mae cloddiau yn cael eu gwneud mewn gwahanol ffyrdd,—palisau, muriau ceryg, cloddiau pridd & dyfrffos bob ochr, a perthi drain neu goettrych, ydynt oll yn cael eu defnyddio yn ngwahanol ranau o'r wlad. Mae perthi drain yn fwy cysgodol nag un math arall, i gnydau ac anifeiliaid, a gwant wellâu golwg y wlad i raddau mawr, yn neillduol os bydd gwrychoedd wedi eu gosod bob yn ail a hwynt, yr hyn sydd yn gyffredin yn Lloegr.

Nid oes un arwydd mwy sicr o ddiwydrwydd a threfnusrwydd ar dir, na gweled y cloddiau mewn cyweiriad da, a'r bylchau wedi eu caued i fynu yn ddestlus; tra nad yw haner cyweirio neu gaued i fynu a men, neu aradr, neu oged, neu unrhyw ddull cyffelyb, ond arwydd sicr o fochyndra ac anhhrefn.

Cyn gosod y drain neu y coettrych, dylai y tir gael ei gloddio, a'r tywyrch eu troi a'u hwyneb i lawr, gan bigo yn ofalus bob gwreiddiau chwyn allan o hono; a dylai gael ei gadw wedin yn lân oddiwrth chwyn, ac onidê ni wna y planigion dyfu a thewâu yn y gwaelod. Yr amser i'w planu yw naill ai yn gynar yn y gwanwyn, neu yn ddiweddar yn yr hydref, nid yw o gymaint pwys pa un, a gall yr amaethwr ddewis ei amser ei hun yn ol fel y byddo goruchwylion ereill yn galw. Dylent gael eu gosod bedair modfedd oddiwrth eu gilydd; a'r dull cyffredin o ffurfio y perthi yw flos a chlawdd, gan godi y pridd o'r blaenaf i wneud yr olaf. Nid yw gwreiddiau drain yn dueddol i fyned yn ddwfn, ond yn hytrach ymledu yn agos i'r wyneb, gan hyny ni ddylent gael eu gosod dan lawer o ddaear, onidê ni wnant ond cranco yn lle tyfu. Os mewn tir llafur y byddant yn cael eu gosod ni bydd achos eu hamgau, ond os mewn tir pori, rhaid rhoi cledrau a pholion, neu ryw beth o'r

cyffelyb o'u cwmpas, er cadw y planigion ieueinc rhag cael eu bwyta gan yr anifeiliaid, yr hyn fydd yn sicr o gymeryd lle, os na wneir felly.

Mae yn amlwg na ellir llafurio na phori y tir sydd yn myned dan gloddiau, a dylai yr amaethwr, gan hyny, fod yn ofalus i wneud ei gloddiau fel na chymerant i mewn ond lleiaf byth ag a ellir o'r tir. Pa fwyaf fyddo y caeau, lleiaf o gwrs wneir afradu ar y tir dan gloddiau, a gwnaiff cloddiau union gadw llai o dir na rhai ceimion. A gwneir hefyd arbed llawer o waith ac amser mewn aredig, a bydd yr arddiad yn well os bydd y cloddiau yn union, ac os bydd cryn hyd yn y cwysau, bydd llai o waith troi yn ol ac yn mlaen.

Dylai maintioli y caeau i ryw raddau gael ei reoleiddio gan faintioli y tir, ond dylent fod mor helaeth ac y gallant yn gyflêus fod, ac o ffurf ysgwar, neu hirgul, a'r cloddiau yn rhedeg yn union. Lle byddo y caeau yn fychain, a'r cloddiau yn geimion ac afreolaidd, gwnaei ei symud yn y naill amgylchiad, a'u hunioni yn y llall, dalu ei ffordd yn dda yn y tir a ennillid. Gellir sylwi yn mhellach, fod pridd hen gloddiau yn ffrwythlon iawn, a gwnaiff foddion rhagorol er wyneb drwsio tir pori.

Oddieithr mewn lleoedd oerion a diffrywyd, cloddiau drain y spyddaid a choettrych yw y goreu; ond bod yn ofalus wrth eu planu, a'u cadw yn lân oddiwrth chwyn, a hefyd eu trwsio fel y byddant yn tyfu i fynu. Mae draenen yn blanigyn caled, ac os caiff ei glanâu yn briodol pan yn ieuanc, a'i chyson ysgythru wedi tyfu i fynu, gwnaiff ffurfio perth rhagorol, ac y mae yn addas-ach i'r perwyl nag unrhyw blanigyn arall.

Ond mewn lleoedd noeth, pa fodd bynag, ac mewn rhosdir oer, neu ar dir uchel cyfansoddedig o ronynfaen chwaledig, ni dŷf gwrychoedd drain ond yn anaml. Yn y fath leoedd mae y ffawydden yn rhagori ar bob math arall, naill ai yn lle, neu er cynnorthwyo y ddraenen. Gwnaiff y ffawydden afaelu yn y tir, a pharâu i dyfu pan fyddo drain yn crebachu neu yn gwywo; ac

o'i hysgythru yn gyson a threfnus, gwnaiff ffurio perth daelus, yr hon ni wnai ond ychydig o anifeiliad gynyg tori trwyddi.

Fel clawdd-blanigyn, gwnaiff y ffawydden dyfu mewn unrhyw fath o hinsawdd a lle; a gwna gadwe i dail trwy y gauaf, er rhoi cysgod a chynesrwydd yn y tymor oerllyd hwnw, heblaw bod hefyd yn addurniadol iawn. Mae hyn yn cael ei brofi yn y perthi a wneir yn y blynnyddoedd diweddaf, yn y rhanau uchaf a noethaf o Scotland. Yr oedd y drain a blenid yn gwywo; gwnaawd prawf ar lawer o blanigion ereill yn eu lle, megys bedw, cyll, helyg, rhyswydd, &c.; ond yn y diwedd cafwyd nad oedd un mor addas i'r perwyl a'r ffawydden. Mewn perth a blanwyd 50 mlynedd yn ol, yn gyfansoddedig o ddwy ddraenen a ffawydden bob yn ail, ar rosdir tenâu mewn lle uchel, mae y drain i gyd wedi meirw, ac y mae clawdd yn awr yn gynwysedig yn hollol o ffawydd, yn gyfartal i unrhyw un mewn grym a harddwch.

Am bob ffos heb ei heisiau mae cymaint a hyny o dir yn myned i golli, o ganlyniad, dylid bod yn ofalus na byddo ond cyn lleied ag a ellir o honynt. Mae yn rhaid bod coliant y tir am bob clawdd diddefnydd yn fawr, erbyn cyfrif y ddaear sydd rhwng y clawdd a chefn y ffos, yn nghyd a'r hyn a gollir trwy y gwynni sydd ynddo,—yr oll o'r hyn a ellid arbed, pe llenwid y naill a phed unionid y llall.

Gwnaiff hau eithin ar hyd benau dyfr-gloddiau mawnog berthi da; a thyfent yn well pe cymysgid ychydig o bridd grafelog neu sandog a'r fawnen wrth eu hau. Mae gan yr eithin ymddangosiad garw iawn os cant eu hesgeuluso, ond gellid eu tori a'u cadw yn hardd drwsiedig; a chydag un gledren ar bolion dwy droedfedd o uchder, wedi ei osod rhygddynt ar ben y dyfr-glawdd, ffuriant berth ragorol; tra hefyd y *gwnaiff y cangenu tyner*, o'u tori ymaith a'u briwio, *foddion da* er bwyda ceffylau, da, neu ddefaid.

Os bydd ddigon o geryg i'w cael, gwnant gloddiau mwy parâus na dim arall, er nad yw cloddiau ceryg mor gysgodol i'r tir ag yw perthi drain neu ffawydd, ac nid ydynt chwaith mor brydferth eu hymddangosiad.

Gwrthwynebir gosod coed mawrion mewn cloddiau, gan eu bod yn niweidiol i'r cnydau, yn gystal ag i'r cloddiau eu hunain; ond maent yn gysgodol iawn rhag y gwynt; ac yn yr haf maent yn ddefnyddiol i'r da pan eu bliner gan yr haul a phryfaid. Byddai ychydig o goed yn nghornelau y caeau, ac yma a thraw ar hyd y perthi, yn hardd ac yn ddefnyddiol, ac y maent yn anhebgorol er cysgodi y tai, yr ardd, a'r berllan.

FFYRDD.

Mae ffyrdd da o'r pwys mwyaf i'r amaethwr. Heb ffyrdd yn gyfryngau tramwytaeth braidd y mae gwlad yn drigianol, ac y mae y draul o wneuthur ffyrdd da yn cael eu wneud i fynu yn aml yn yr arbediad a wneir ar amser, ac ar y treulio a'r dryllio mewn un flwyddyn.

Mewn gwneud ffyrdd ar leoedd uchel, dylid eu gwneuthur mor wastad ag y byddo modd, trwy amgylchynu y bryniau, yn hytrach na'u croesi. Mae y cyntaf yn aml yn agos cyn fyred a'r diweddaf, a phob amser yn llawer hawddach i'r anifeiliaid. Mae ffordd farwaidd wastad ddidor, er hyny, yn flinderus i anifeiliaid, gan fod yr un gewynau bob amser mewn gwaith; tra ar ffordd ag ychydig o fynu ac i lawr mae y gwanhol ewynau yn cael gorffwys a gweithredu bob yn ail.

Os bydd haen o bridd tyner lle y mae y ffordd i gael ei gwneud, dyger ef ymaith yn holol; ond os bydd yn ddwfn, megys tir mawnog neu gorsog, gwnaiff gyfansoddi gwaelod gwrthneidiol, a gellir ei adael, gan dori ffosydd dwfn bob ochr er ei gwbl sychu; yna gor-chuddier ef a haen o dywyrch, cyn rhoi y grafel, neu geryg wedi eu briwio arno, y rhai a ddylai gael eu rhoi

yn grym drwchus, gan droi pob careg o'r neiliddu a fyddo yn fwy nag wŷ.

Dylai pob ffôrdd gael ei gwneud ychydig yn uchel yn y canol, fel y gallo y dwfr redeg yn rhwydd i'r ochrau. Gwnaiff pumtheg troedfedd o led ganiatâu i ddwy fen fyned heibio eu gilydd, yr hyn fyddai yn ddigon i ddybenion amaethyddol, er y byddai yn angenrheidiol i ffyrdd mawr fod yn ddwbl y lled hynny. Os bydd y ffôrdd yn rhedeg ar lechwedd, torer dyfr-ffos agored yr ochr uchaf iddi, a bydder yn ofalus i'w chadw yn lân, er dwyn y dwfr ymaith. Llanwer i fynu bob pant a phwll mor gynted ag yr ymddangosant; a phan fyddo y ffôrdd yn myned dros dir corsog, agorwr y pwll i gyd oddiamgylch, hyd nes y ceir gafael yn y tywyrch cyfain ar y gwaelod; yna gosoder haen o dywyrch newyddion ar yr hen, a gorchuddier hwynt drachefn a cheryg neu a grafel. Oddieithr gosod tywyrch newyddion yn gyntaf, ni byddai gosod ceryg neu rafel o ddim lles, gan y gwnai y cwbl suddo i'r gors.

Mae sefyllfa y ffyrdd yn gwir deiliyngu sylw yr amaethwr, anifeiliaid yr hwn a gât ddyoddef oni chedwir hwynt mewn cyweiriad da; gan hynny, ni ddylai fod yn ol o wneuthur ei hun yr hyn fyddo yn angenrheidiol, ac o gymhell ereill i wneuthur yr un peth, er cadw y ffyrdd mewn ansawdd priodol. Mae y dull o wneuthur ffyrdd yn awr yn cael ei ddeall mor dda, fel nad yw yn angenrheidiol rhoi yr un math o gyfarwyddyd neiliduol yn nghylch hynny; digon yw dyweud, na ellir gwneuthur na chadw ffyrdd fel y dylid, oddieithr cael atynt ddefnyddiau caled parâus, megys ceryg wedi eu briwio, meinï, callestr, a grafel: ni ellir gwneud ffyrdd da a llaid a phridd.

PERLLANAU.

Mewn rhai manau mae y berllan yn gwneud i fynu ran bwysig o amaethyddiaeth, ar gyfrif yr osai a gyn-

yrcha at wasanaeth yr amaethwr a'i weithwyr, yn gystal ac er ei werthu. Y prif berllanau yn Lloegr a geir yn siroedd Caerangon, Caerloew, Mynwy, Henffordd, Dyfneint, a Gwlad yr Haf. Yn y ddwy sir flaenaf, mae gelleig-wydd hefyd yn cael eu planu mewn cyflawnder, er cynyrchu gelleig-wîn, tra yn y rhai ereill afalau yn benaf a amaethir er gwneud osai.

Mae perllan yn gofyn tir dwfn, ond ni ddylai fod yn wlyb neu yn llawn ffynnonau. Mae bryn, neu dir fyddo yn codi ychydig, yn well na thir isel gwastad; a dylai fod wedi ei gysgodi yn dda rhag gwyntoedd y gogledd a'r gogledd-orllewin, ac yn agored, os bydd yn bosibl, i'r deheu a'r deheu-ddwyrain. Dylai fod yn ddaear sych, canys lle byddo llawnder o nyddach a tharth, bydd y blodau yn fwy tueddol o gael ei niweidio gan rewog-ydd yn y gwanwyn, a'r coed o ddyfod yn fwswmog, ac o ddarfod yn fuan gan ormodedd gwlybaniaeth.

Dylai planigion afalau a gelleig gael eu planu yn gynar yn yr hydref, mor gynted ag y delo eu paladr yn ddigon caled, ac y dechreuo eu dail syrthio. Yna cydiant yn y ddaear cyn y delo y gauaf i mewn, a byddant yn barod i fwrw allan gangenau gyda mwy o fywiogrwydd yn y gwanwyn. Gellir eu planu oddeutu deg llath oddiwrth eu gilydd, ychydig yn fwy neu yn llai, yn ol ansawdd y tir a natur y pren. Mae yn ofynol eu dyfrâu y flwyddyn gyntaf, os bydd y gwanwyn a'r haf yn sych. Dylid bod yn ofalus am goed ieueinc tra byddont yn tyfu, a'u ysgythr fel y byddo yr angen, er attal eu cangenau rhag myned yn rhy dewion, a thyfu y naill am draws y llall. Os caiff hyn eu wneud yn briodol, ni bydd y coed yn gofyn am nemawr o driniaeth yn mhellach; ac y mae tori dim ar hen goed yn aml yn niweidiol.

Mae yn beth o bwys bod y berllan yn agored i wynt a haul, ac na fyddo y coed, pa un bynag ai coed afalau neu elleig, i gael eu planu yn rhy agos i'w gilydd. Dylent gael eu glanâu oddiwrth bob mwsswm ac uchel-

wydd; a dylai y tir gael ei gadw yn lân oddiwrth chwyn ac anialwch.

Mae'r gelleig yn gofyn ysgafnach tir nag afalau, a dylai hyn gael ei ystyried wrth neillduo y fan. Mae y gelleig o gryfach tyfiant, ac yn llai darostyngedig i gael eu dryllio a'u niweidio gan y stormydd, na choed afalau, a gallant gan hyny sefyll mewn lle mwy agored, neu gael eu planu fel gwregys i amgylchu y berllan er cysgodi y coed afalau.

OSAI.

Mae afalau o wahanol fathau yn addfedu ar wahanol amserau, ac yn gynarach neu yn ddiweddarach yn ol y tymor; ond yn gyffredin, daw y prif gnwd yn addfed tua chanol Tachwedd. Casglor hwynt fel y byddant yn cwympo, a dylai yr hyn fyddo yn aros ar y coed gael eu hysgyd a'u crynöi, a'u gosod yn grygiau, a phob math a'r eu penau eu hunain, a'u gadael felly ar eu gilydd hyd oni ddelont yn dyner ac yn barod i'r felin.

Mae y felin osai yn gyffredin yn gynwysedig o gafn careg cylchaidd, o ddeutu 18 troedfedd o dryfesur, ar yr hwn y mae rholer careg trwm yn cael ei droi, gan geffyl wedi ei harneisio wrth begwn yn myned trwy ei ganol. Gosodir yr afalau yn y cafn, ac wedi eu malu mor fân fel na byddo dim talpau i'w teimlo ynddynt wrth eu tynu trwy y dwylaw, gosodir hwynt o dan wasg, naill a'i mewn sachlen flew arw, neu rhwng haenau o gawn, yr ochr allan i ba rai a blyger i mewn yn ddwbl er atal y mwydion neu yr i fyned i golli. Fe'u gwesgir weithiau trwy ysgriw, ac weithiau a gwif, a rhaid ei barâu hyd nes y byddo yr holl nodd wedi ei gael o honyn.

Derbynir y sudd i dwba llydan, o ba un fe'i harllwysir i farilau wedi eu gosod mewn lle agored, ac a adewir yno i ymweithio; a phan ddelo yn loyw, trwy i'r defnydd

tew lleidiog i suddo i'r gwaedol, mae yn cael ei "ddiwallodi," neu ei dynu ymaith i farilau ereill, ond nid ei bynglorio i fynu.

Mewn gwneud osai, mae yn angenrheidiol bod yn ofalus wrth bigo yr afalau, oblegid bydd ei ansawdd yn ymddibynu i raddau mawr ar gael mathau priodol o afalau i'w malu gyda'u gilydd; a phrofiad yw yr cyfarwyddwr goreu at hyn. Pwnc arall sydd yn gofyn sylw manol arno yw yr ymweithiad. Os bydd yr ymweithiad yn rhy brin, bydd yr osai yn dew a diflas; os yn rhy chwyrn, gwnaiff ei wanâu; os yn ormodol, bydd yn sur, chwerw, a thenau. Yr olaf sydd yn digwydd yn fynychaf, a phryd bynag y sylwir fod yr ymweithiad yn ormodol, dylid yn uniongyrchol ei ollwng allan i faril arall, yr hyn yw yr unig feddyginaeth sicr; a bydd yn angenrheidiol fe allai gwneud hyn weithiau ddwy neu dair gwaith.

Gellir gosod yr osai mewn seler yn gynar yn Ionawr, ond nid yw yn gyffredin yn cael ei bynglorio hyd fis Mawrth; a gellir ei ddefnyddio yn mhen mis neu ddau wedin, er ei fod bob amser yn gwella wrth ei gadw. Mae llawer o osai yn cael ei yfed, yn neillduol yn amser y cynauaf, oblegid dyma ddiod gyffredin gweithwyr amaethyddol Gorllewin Lloegr; ac y mae hefyd yn cael ei helaeth ddefnyddio fel gloddest gan y dospeirth canol ac uchaf trwy yr holl wlad.

ANIFEILIAID.

Wedi disgrifio y gweithrediadau amaethyddol sydd yn gynwysedig ag iawn drefniad tir, gwnawn yn awr siarad am yr anifeiliaid byw sydd yn angenrheidiol i'w cadw arno; oblegid heb nifer digonol o anifeiliaid, ni all un amaethwr wneud y goreu o'i dir, na chael digon o achles er ei briodol amaethu. Gwnaiff detholiad a thriniad ei anifeiliaid, gan hyny, bob amser ddwyn sylw manylf yr amaethwr synwyrol.

Rhaid i'r anifeiliaid fyddo yn briodol i gael eu cadw ar y tir ymddibynu ar ei faintioli, ac ar natur a chyfar-talrwydd ei ranau arddadwy a phorfaol. Dylai nifer y cefylau fod yn ateb i'r gwaith sydd iddynt i'w gyflawni. Os rhy ychydig, ni bydd y gwaith yn cael ei wneud yn iawn nac yn ei amser priodol; os gormod, bydd hyny yn afradaeth, a gwnant fwyta i fynu elw y tir. I sefydlu y nifer gymwys, heb fod yn ormod nac yn rhy fach, sydd yn bwnc raid gael ei benderfynu gan yr amaethwr ei hun.

Bu yn hen arferiad i ranu tir yn gynifer o erydr, neu aradr-ddosparthiadau; hyny yw, cymaint o dir ag a ellid ei amaethu ag un aradr; a phan y byddai amrywiol o'r rhai hyn, byddid yn ei ystyried yn fuddiol i gadw un cefyl dros ben am bob dwy aradr, er newid a rhai ereill yn achlysurol. Nid ymddengys y gellir gwneud nemawr o welliant ar hyn; ac megys ag y mae pâr o geffylau yn awr yn gyffredin yn cael eu hystyried yn ddigon i un aradr, oddieithr hwyrach lle byddo tiroedd glydiog a thrymion iawn, gan hyny, dylid cadw pump o geffylau am bob dwy aradr. Bydd yr un dros ben yn ddefnyddiol iawn mewn llawer ffordd, a gwnaiff dalu yn dda am ei gadw, trwy sicrâu mwy o reolaidd-dra yn nygiad y gwaith yn mlaen.

Gyda golwg ar anifeiliaid, gwartheg, a defaid, y nifer briodol i gadw o bob un o honynt, raid, o gwrs, amrywio yn mhob amgylchiad; ac ni ellir gosod i lawr reol gyffredinol ar y pwnc. Mae yn eglur y dylid cadw y nifer fwyaf o anifeiliaid ag fyddo y tir yn abl i'w cynal yn briodol, er mwyn yr elw a ddeillia oddiwrthynt, os cânt iawn driniaeth, yn gystal ag er mwyn yr achles a gynyrchant: ond y mae yn beth mwy o bwys na byddo y tir i gael ei orlenwi ag anifeiliaid, yr hyn yn anochel-adwy a fyddai o niwaid mawr, ac yn golled neillduol; ac nid oes un peth yn galw am ystyriaeth fwy disrifol ar ran yr amaethwr na hyn.

DA•

Mae magu, dethol, a bwyda da, yn cyfansoddi cangen bwysig o ddyledswyddau yr amaethwr; a bydd ei lwyddiant yn ymddibynu i raddau mawr ar gywirdeb ei farn, a'i drefniad synwyrol yn y golygiad hwn.

Mae rhyw bethau yn hanfodol, heb y rhai ni wnaiff un creadur ateb am hir amser, beth bynag fyddo ei rin-weddau ymddangosiadol ereill. Y rhai hyn yw, dwyfron lydan a dofn, baril luniaidd gron, asgwrn cefn cryf union, lwynau llydain, a chwarteri hirion—yr hyn sydd oll yn angenrheidiol er eyflawniad trwadl ac iachus o'r amrywiol swyddogaethau a berthynant i gorff yr anifail. Yn mhellach, dylai fod y croen yn rhydd ac ystwyth, wedi ei orchuddio yn dda a blew sidanaidd er cynesrwydd, tra y byddai ei deiniad rhydd a thyner yn arwyddo fod cyflawnder o ddefnydd cellawg odditano er bod yn barod i gasglu brasder. Dylai y traed fod yn fyrion ac yn gryf. Dylai y llygad fod yn glir, cyflawn, a mwyn, gan arddangos cylchrediad iachus, a thymor addfwyn. Mae hyn q gryn bwys, oblegid gwnaiff creadur llonydd, ag na fyddo yn hawdd ei derfysgu, dewâu yn fuan, tra y byddo un arall a flonydd ac an-foddlon yn hir iawn yn tewychu.

Mae amrywiol rywogaethau o dda, ac y mae pob un yn gwahaniaethu rhyw ychydig oddiwrth y llall; ond y mae yr oll yn meddiannu rhagoriaethau y rhai a gam-molir yn fawr mewn rhai manau, a chan rai magwyr anifeiliaid. Y dull mwyaf cyffredin o wahaniaethu y rywogaethau yw, trwy eu dosparthu yn hir-gorn neu'r Leicestershire *kind*, y canol-gorn neu rywogaethau Dysneint a Henffordd, y byr-gorn neu dda Dutch, a'r da Polaidd, y rhai sydd holol foelion.

Yr *hir-gorn* sydd eidion mawr, a hytrach garw, ac nid o gymaint cyfrifiad yn awr ac y mae wedi bod. Y buwchod yn gyffredin ydynt rai drwg am laeth; ac y mae y rhyw yma yn rhoi ffordd yn raddol i'r byr-gorn,

y rhai sydd yn ateb yn dda er eu godro neu eu tewâu, ac y maent yn dyfod yn fwy**i* sylw bob dydd.

Yn mysg y *canol-gorn* rhaid i ni roi y blaen i dda Dyfneint a Henffordd. Mae pob un o'r rhai hyn yn rhywogaeth rhagorol, yn neillduol da Henffordd, y rhai, a'u cymeryd gyda'u gilydd, hwyrach nad oes dim o'u gwell i'r llaethdŷ neu'r gigfa. Maent ryw faint yn fwy ac yn galetach na da Dyfneint, ac yn gyffredin yn well am odro. Mae y Dyfneint, er hyny, yn rhywogaeth werthfawr iawn; yn grwn a lluniaidd o gorff, ac yn hawdd eu tewâu ar borfeydd da.

Y *byr-gorn* sydd rywogaeth fuddiol iawn, a gafwyd trwy gymysgu y Flemish a'r Holstein, ac y maent yn deilwng yn cael eu cyfrif yn dda rhagorol. Mae amrywiol fathau o'r byr-gorn, un o'r rhai a gymeradwyir fwyaf yw da Ayrshire. Mae gwartheg Ayrshire yn dda am dewychu, ac yn rhai llonydd iawn, ac yn dda iawn am odro; ond yn wir gellir dyweud hyn am agos yr oll o'r rhai byr-gorn.

Mae y rhywogaeth *Bolaidd* neu *Galloway* yn galed, ac yn taro porfawyr yn dda. Maent yn gyffredin yn dduon, a phenau byrion, cefnau llydain union, cyrph cylchaidd eang, lwynau llydain, a chwarteri dyfnion, a thraed byrion; ac nid oes un da a dewycha yn gynt, nac a rydd well cig.

Mewn chwanegiad at hyn eto, gellid sylwi mae rhai hynod am laeth rhinweddol yw da *Alderney* a *Jersey*; ond rhai tyner ydynt, ac y maent yn gofyn mwy o ofal na rhai caletach. Nid yw da *Kerry* neu *Iu'erddon* ond bychain, ond yn galed iawn, ac yn bur addas i amaethwr bychan, ac i lefydd noethion uchel. Pe cymysgid yr Ayrshire a'r rhai hyn, mae yn debyg y byddent yn well. Mae da Scotland a Chymru yn cael eu prynu bob blwyddyn yn lluoedd gan borfawyr Lloegr; ac y maent yn ateb yn dda iddynt er eu tewâu ar borfeydd breision y deheu.

Gorlenwi y tir ag anifeiliaid fyddai yn gamsynied

mawr yn yr amaethwr. Y canlyniadau fydd—anffrwythlondeb yn ei wartheg, y rhai braidd y dygant iddo lo bob dwy flynedd—prisoedd gwael am ei dda ieueinc—ei ddefaid yn marw o afiechyd—a'i geffylau bron yn rhy weinion i fyned trwy ei gwaith. Yr unig feddyginaeth i hyn yw, lleiau y nifer, trwy werthu ymaith y gwaelaf o honynnt. Dylai yr amaethwr bob amser ymadael a'r nifer gormodol fydd ganddo am bris cyffredin y tymor, beth bynag a fyddo; oblegid trwy gadw un neu ddau o anifeiliaid yn ormod o herwydd na chyrhaeddant o fewn i 5s. neu 10s. i'r hyn fyddo fe yn ystyried y dalant, mae gwerth pob anifail arall ar y tir yn cael ei leiâu; ac os parâ fel hyn am ychydig o flynyddoedd, bydd yr oll wedi eu handwyo, yn nghyd a'r amaethwr ei hun, fel y mae yn ddigon tebyg.

Mae cael pigion da o rai gwrrywaidder gwella y rhywogaeth yn bwnc o'r pwys mwyaf gyda golwg ar anifeiliaid. Oni thelir y sylw priodol i hyn, gwnaiff pob math o anifeiliaid waethygu hyd yn nod yn y lleoedd goreu. Mae cyson gymysgiad o waedoliaeth newydd a da yn anhebgorol angenrheidiol; a dylai yr amaethwr fod yn fanwl yn ei ddewisiad, a pheidio grwguaach am y draul o gael teirw da, oblegid caiff ei atdalu gyda llog. Fel hyn, ar dir, neu ar ryw nifer o diroedd bychain, ar ba rai y byddo cynifer a 50 o wartheg yn yr oll, o rywogaeth gyffredin, ni wnaiff y lloï oddiwrth darw gwael, mae yn debyg, ddim cyraedd £1 yr un, neu £50; tra oddiwrth darw da y byddent yn debyg o ddyfod i £2 yr un, neu £100. Yr un fath ydyw gyda golwg ar hyrddod, meirch, a baeddi; ac megys nas gall amaethwyr bychain yn gyffredin gadw teirw neu feirch da eu hunain, dylent edrych am y goreu yn y gymydogaeth, a thalu am eu gwasanaeth, yn hytrach na chael rhai gwael am ddim.

Rhodder y blaenoriaeth bob amser i darw o ragoriaeth adnabyddus, er y gallai fod yn llai ei faint, na dim cystal ei ymddangosiad a rhyw un arall o rywogaeth waelach; oblegid mae gwaedoliaeth dda yn sicr o ateb y pen draw.

Ni ddylai maintioli, er hyny, gael ei ddiystyru yn hollo; ac nid oes dim gwirionedd yn yr hyn a ddywedir weithiau mae da bychain yn unig sydd yn taro bryniau llethrog, oblegid y mae y gwartheg trymaf a mwyaf lluniaidd yn Ewrop yn cael eu magu a'u pesgi ar fynyddoedd Switzerland, y rhai sydd yn uwch ac yn fwy llethrog na'r rhanau uchelaf yn Mhrydain Fawr. Dylid, gan hyny, bigo teirw o fantioli da, yn gystal ag o waedoliaeth dda. Gellai perchenogion tiroedd wneud llawer gyda golwg ar wellâu anifeiliaid ar eu hetifeddiaethau trwy brynu teirw, hyrddod, a baeddi o rywogaethau da er gwasanaeth eu deiliaid am bris rhesymol; a pha olwg bynag a gymerir ar y pwnc, ni all lai na bod yn llesiol i'r meistriaid eu hunain yn y pen draw.

Wrth brynu anifail, dylid bob amser fod yn sicr o'i oedran; a'r ffordd oreu i gael hyn allan yw, trwy edrych ei ddannedd. Mae gan lo, yn gyffredin, ddau ddant yn mlaen wrth ei fwrw, neu yn mhen diwrnod neu ddau ar ol hyny. Erbyn y byddo yn bythefnos, caiff bedwar; yn mhen tair wythnos, chwech; ac erbyn y byddo yn fis, bydd ganddo wyth: dannedd sugno yw y rhai hyn, a chaiff yn raddol ddannedd ereill yn eu lle. Yn ddwy flwydd oed, bydd dau ddant newydd yn y canol. Yn dair blwydd bydd pedwar bedair blwydd, bydd chwech; ac yn bump, bydd yr oll o'r wyth wedi eu hail osod. Ar ol cyraedd chwe blwydd, bydd ymylau y dannedd yn dechreu treulio yn llyfn, a bydd eu lled yn culâu gan adael lle gwag rhyngddynt. Yn ddeng mlwydd, bydd y pedwar dant canol yn cilio yn fawr, a'r llwyau wedi eu hollo dreulio allan. Ar ol pumtheg, ychydig o wartheg a allant gadw eu hunain yn dda trwy borï; ond gallant barâu i roi llaeth, neu gael eu tewâu trwy eu cor-fwydo, a rhoi iddynt fwyd wedi ei falu a'i led ferwi.

Mae gan dda corniog hefyd gylchau ar fôn eu cyrn, trwy ba rai y gellir adnabod eu hoedran. Ymddengys y cylch cyntaf pan yn dair blwydd, a chyfyd un arall rhwng hwnw a phen yr anifail bob blwyddyn o hyny

allan; ond nid yw hyn mor ddiogel a'r dannedd; gan fod yn hawdd durlifo y cylchau ymaith, yr hyn sydd yn cael ei wneud weithiau gan fasnachwyr anonest.

Y FUWCH.

Y fuwch yw y mwyaf defnyddiol o bob creadur ar y tir. Diwalla ni a llaeth yn ei bywyd, ac nid oes un darn o honi, pa un bynag a'i cig, y gwer, yr esgyrn, y croen, neu y cyrn, na wneir er ein gwasanaethu wedi iddi farw.

Mae cartrefoliad y fuwch wedi effeithio cryn gyfnewidiad yn ei chyfansoddiad, a pheri iddi roi llawer mwy o laeth nag a wnaethai yn ei sefyllfa wylt a naturiol. Mae godro aml a gofalus a thuedd ynddo i chwanegu llaeth, fel y mae pob llaethwr yn gwylbod; a gŵyr hefyd os bydd buwch yn ymddangos yn dueddol i dewychu, nad yw hono byth yn dda am roi llaeth.

Mae mesur y llaeth yn amrywio yn ol y tymor a'r dull o fwydo; ond gwnaiff buwch dda, o rywogaeth y byr-gorn, Henffordd neu Dyfnaint, os caiff ei chadw yn briodol, yn gyffredin roi o ddau i bedwar galwyn y dydd yn gyfartal trwy y flwyddyn.

Mae yn gofyn cael ychydig yn fwy na dau alwyn o laeth i wneud pwys o ymenyn; ac oddeutu 26 galwyn er cynyddu 14 pwys o gaws: Nid yw hyn, o gwrs, ddim yn gyfrif dieithriad; mae llawer yn ymddibynu ar natur y fuwch, y borfa, a'r dull o'i bwydo; ond eto geill fod yn bur agos fel ag i wasanaethu fel math o gyfarwyddyd i'r amaethwr. Gellir yn ddiogel odro buwch hyd oddi fewn i fis iddi ddyfod a llo, os bydd yn cael ei bwydo yn dda; ond gwell fyddai iddi fyned yn hesp cyn y dechreuo llaeth newydd lenwi ei chadair.

Dewiser y gwartheg o rywogaeth adnabyddus, a mager y llo i mwyaf lluniaidd a gobeithiol. Bwyder hwynt yn dda tra yn tyfu, haf a gauaf; oblegid os prinéir arnynt wrth eu magu, ni wnat byth wartheg da. Ac yn wir, ni ddaw unrhyw greadur, os caiff ei

ddihoeni wrth ei fagu, byth i'w gyflawn faintioli na'i lun. Mae porthiad tlawd yn andwyo pob math o anifeiliaid. Gellir rhoi tarw i dreisiad yn 15 neu 18 mis oed; a'r amser goreu i ddyfod a'r llo cyntaf yw yn Mai, pan fyddo'r glaswellt yn dyfod yn helaeth ac yn sudd-lawn.

Os o rywogaeth dda, gellwch fagu eich gwartheg y naill ar ol y llall oddiwrth y rhai sydd genych; ond er rhagflaeni gwaethygiad, dylai y tarw gael ei newid bob dwy neu dair blynedd. Gwnaiff cymeriad yr anifeiliaid ymddibynu yn fawr ar ddetholiad priodol a chyfnewidiad mynuch ar y tarw; ac ni ddichon yr amaethwr dalu gormod o sylw i'r pwnc pwysig hwn.

Lle nad yw cor-fwydo yn cael ei arferyd trwy y flwyddyn, dylai y gwartheg gael eu rhoi i mewn y nos, a'u bwyda ag ymborth fr; trwy yr hyn y cedwir y bis-wail a'r tail i'r tir, a gellir yn hawddach eu godro yn y ty nag ar y cae. Bydd y gwartheg hefyd yn iachach, a rhoddant fwy o laeth. Ar dywydd garw, neu pan fyddo yr haul yn wresog iawn, byddai hefyd yn fuddiol i gadw y gwartheg yn y ty.*

Cynydd a llo yn well o'u gadael i sugno, na'u porthi a llaw; ond os na ellir hebgor digon o laeth, dylent gael maidd a blawd pys, neu gawl blawd ceirch a llaeth, yr hyn sydd yn faethlon iawn. Ni wnaiff llo wedi ei newynu byth eidion lluniaidd, pa cystal bynag y caiff ei fwyda ar ol hyny, neu pa mor rhagorol bynag y byddo y rhywogaeth.

Y pethau sydd i edrych am danynt mewn buwch, ydynt:—Cefn hir a llydan; coesau byrion; ystlys hir; pen bychan; cyrnau teg gleision, neu felynion; blewyn cryf tew; croen rhydd, yn teimlo yn deg ac ystwyth; a chynffon fain a lluniaidd.

Mae y nodau canlynol yn rhai rhagorol er dewis buwch:—

* Gwel Cor-fwydo, tu dalen 146.

“ Mae'n deg yn ei chorn, a'i hwyneb cyhyd,
 Gwna'n fuaa dewâu heb deisen nac ŷd ;
 Mae'n gyflawn ei glain, a'i chernau yn fwyn,
 Mae'n drwm ei thenewyn—yn llydan ei llwyn.

“ Mae'n ddyfniion ei heis, a'i chloren yn bir,
 Mae'n drwchus ei ffolen, a'i llygad yn glir ;
 Ei chefn yn wastad, heb gam, yn ddigêl,
 Ei morddwyd yn denau, a'i hysgwydd yn ddêl.

“ Ei gwddf sydd yn ysgafn, a'i chynffon yn fain,—
 Lluniaidd ei heagyrn,—sidanaidd ei chroen ;
 Mae'n llydan ei dwyfron, a'i chadair yn llawn,
 Mae'n deg oddi allan, a bras oddisewn.”

Y CEFFYL.

Pryd bynag y byddo y tir yn chwaneg nag ychydig erwau, bydd yn amhosibl ei amaethu yn briodol heb ynorthwy anifail; a'r un mwyaf defnyddiol i'r amaethr at hyn yw ceffyl. Dewisir ychain mewn rhai amylchiadau o flaen ceffylau; a lle byddo y tir yn fychan, yn agos i gimle, i ba un y gellir eu troi yn achlysurl, geill ychain hwyrach fod yn ddefnyddiol; ond ar iroedd mwy, ac fel rheol gyffredin, y mae yn awr yn sel ei addef gan bawb mae ceffyl yw'r anifail goreu er wneud pob gwaith; o herwydd paham anaml iawn y welir ychain yn awr mewn offer, oddieithr yn sir yfneint a rhyw fanau ereill yn Ngorllewin Lloegr.

Mae cael ceffylau da ar y fferm yn fater o bwys lawr. Gellai ceffyl mawraelodog wneud mwy o ymrech am ychydig mewn tynu llwyth trwm; ond gwnaiff effyl bywiog ysgafnach, yn ysdod diwrnod hir, fyned :wy waith a laddai anifaef trymach. Ceffylau o deutu 15 llaw o uchder, a choesau byrion, a dwyonau llydain, megys y *Suffolk Punches*, neu geffylau ywiog y Scotiaid, yw y rhai goreu o lawer er gweithio'r y tir, a'r rhai hawddaf eu cadw. Pan fyddo y ceffylau yn fawrion a dioglyd, mae y dynion hefyd yn dioglyd; ac y mae y gwaith, o ganlyniad, yn cael ei wneud yn chwarian a mochyniadd. Mae ceffylau byw-

iog o faintioli rhesymol, yn well, gan hyny, na'r rhai mawr dioglyd, oddieithr at ryw waith neillduol, lle byddo eisiau pwysau a nerth mawr. Y mae achosion cyffredin fferm, megys aredig, llyfnau, a chertwynu, yn gofyn bywiogrwydd yn gystal a grym; a gwnaiff ceffyl cryf o'r desgrifiad uchod y tro er tynu, yn gystal a'i farchogaeth i ffeiriau a marchnadoeld.

Mae o grym bwys i'r ffermwyr i allu cyfrif, mor agos ag y byddo yn possibl, pa sawl un o geffylau sydd yn wir angenrheidiol er amaethiad priodol ei dir; ac er ei alluogi i wneuthur hyn, dylid ystyried yr holl amgylchiadau cysylltiedig ag ef—megys natur y tir, pa faint o dir llafur ac o dir pori, pa un a'i cryno neu aniben ydyw, yn nghyd ag ansawdd y ffyrrd, a'r pellder i'r farchnad. Gyda golwg ar hyn, ni ellir gosod i lawr un reol ag fyddo yn taro pob achos; ond fel un gyffredinoł gellir dyweud, fod marl-dir ysgafn yn gofyn ceffyl am bob 25 erw, yn nghyd ag un chwanegol am bob 200 o erwau; hyny yw, naw ceffel am 200 cyfair, ac felly yn mlaen mewn cyfartalrwydd. Pa eangaf fyddo y caeau, lleiaf yn y byd o geffylau fydd yn ofynol er gwneud y gwaith, gan fod llawer o amser yn cael ei golli wrth droi yn ol ac yn mlaen lle byddo y caeau yn fychain.

Dylai y gwaith ar y maesydd gael ei drefnu fel ag i roddi dwy awr o leiaf o orphwys i'r ceffylau bob canol dydd, pryd y dylent gael eu bwydo a'u glanâu yn ofalus. Yn yr haf, os bydd yr hîn yn dwym iawn, geill yr oriau gweithio fod o 5 hyd 10 yn y boreu, ac yna o 2 hyd 7—gan orphwys felly am bedair awr ar yr amser poethaf o'r dydd; neu ynte, o 6 hyd 11, ac o 1 hyd 6—gan orphwys dwy awr. Yn y gauaf, dylai yr amser fod o 7 hyd 4, gan orphwys awr rhwng 12 ac 1. Pa fwyaf gofalus fyddir am y ceffylau wrth eu gweithio a'u bwydo, mwyaf buddiol a gwasanaethgar y *byddant hwythau*.

Ni ddylai ceffylau gwaith braidd byth gael eu gollwng allan i bori; oblegid maent yn blino wrth

chwilio am ymborth, ac yn cael eu hanghymwyso gan oerfel, gwlaw, haul, neu gylion; ac y mae'r tail yn cael ei golli a'i afradu. Geill ceffylau ieuinc segur, er hynny, redeg allan ar bob fwydd, oblegid creadur caled yw ceffyl; ond mae ceffyl gwaith yn gofyn gorhwys wrth fwyta ei ymborth, ac y mae diwalliant digonol o ebran yn beth ag y mae ganddo, fel gwas da, hawl iddo wedi ei barotöi ar ei gyfer, ar ddiwedda ei ddiwrnod gwaith.

Gellai trefnusrwydd yn nghylch ymborth ceffylau gwaith arbed llawer iawn. Er nad oes dim yn fwy cydnawsol a chylla ceffyl na gwair da a cheirch, yn nghyd a pheiswyn, a ffa wedi eu briwio, eto mae ymborth mwy rhadlon i'w gael, yn neilidduol yn yr haf, ar yr hwn y geill ceffyl fyw yn dda. Gwnaiff efrau, meillion, lucerne, a sainfoin, gadw ceffyl mewn agwedd dda at waith; a byddai ychydig o foron ac erfin Swedaidd, hefyd yn llesiol iawn. Ac fe ddarpara y ffermwyr synwyrol bob amser y llysiau a'r gwreiddiau hyn; a bydd y draul o gadw ei geffylau yn llai o lawer na phe'u portħid a gwair a cheirch trwy y flwyddyn.

Mewn prynu ceffyl, mae ychydig bethau y rhai y dylid sylwi arnynt bob amser, a gwell fyddai gosod y rhai hyn ger bron, na rhoi rhyw hyfforddiadau hirfaith yn nghylch yr amrywiol ragoriaethau gofynol. Os bydd gan geffyl ben bychan, a chlustiau byrion tebyg i gadnaw, yn nghyd a choesau byrion, ac asenau baril-aidd crwn, yn cauad i fynu hyd at afael y glun, ni ellir ei cholli yn mhell wrth brynu y cyfryw un. Nid oes un ceffyl da heb *rai* o'r nodau hyn, ac y maent *oll gyda'r ceffylau goreu*.

Mae caseg yn well yn aml i'r ffernwr na cheffyl, yn neilidduol i'r ffermwyr bychan. Mae caseg yn gyffredin yn llai o bris, ac ystyrir y gwnaiff fwy o waith, a byw yn hwy na cheffyl. Nid oes achos i'r gaseg fod yn segur tra yn gyfabol; ac os na fydd yn gorfod dwyn pwysau trymion, gellid gyda gofal ei gweithio yn mron

o fewn i ychydig oriau hyd nes ei dyfod ag ebol ; ond rhaid iddi gael ychydig o wythnosau i orphwys ar ol hynny, yn nghyd a gwaith ysgafnach hyd nes y byddo yr ebol wedi ei dynu.

Pe cymysgid caseg dda aelodog a cheffyl o haner breed lluniadd cryno, byddai y ffermwyr yn go debyg o gael ebol defnyddiol. Dylai yr ebol gael ei fwyda yn ofalus, onidê, ni wna ddod i fynu. Na thorer ef at waith hyd nes y byddo yn dair blwydd oed ; yna y gosoder ef i weithio yn ysgafn yn yr aradr a'r oged, gan ei ddwyn yn raddol at waith trymach, fel y byddo ei rym yn chwanegu gyda'i oedran. Pa fodd bynag, dylai gael ei weithio gyda gofal, ac nid i ormodedd, hyd nes y byddo wedi gadael ei bump, canys ni ellir cyfrif fod ceffyl wedi cyrhaedd ei gyflawn rym nes y byddo yn chwe' mlwydd oed, ac yn brin y pryd hwnnw.

Bydder yn dra gofalus yn nghylch dewis y march, a thaler am un da yn hytrach na chymeryd rhyw heglyn am ddim. Dylai fod ganddo ben bychan, clustiau byrion, llygaid llawnion, coesau byrion, dwyfron lydan, a thalcen uchel. Dylai ei glyniau blaen ac ol fod yn gryfion a chyhirog, ei gefn yn union a llydan, a'i gorff yn hir, ac heb ond ychydig le rhwng ei asen a gafael ei glun. Mae y clefydau a'r diffygion i ba rai mae ceffyl yn ddarostyngedig, yn gystal a'i ragoriaethau, yn disgyn o waedoliaeth fynychaf bob amser. Cerddiad cul, traed chwyddedig, llyncoes, anadliad byr, a dallineb, sydd yn deilliaw oddiwrth y tad neu'r fam ; o ganlyniad, mae bod yn ofalus yn newisiad y naill neu y llall, o bwys mawr.

DEFAID.

Y nifer gyffredin o ddefaid a gyfrifer fod yn yr Ynys-oedd Prydeinig yw 40,000,000, a phe cyfrifem hwynt ond yn unig gwerth punt yr un, byddai y swm yn werth £40,000,000, yr hyn sydd, pa fodd bynag, ryw faint islaw yr hyn ydynt. Yr ydys yn cyfrif hefyd fod y gwlan

a gneifer oddi arnynt bob blwyddyn, yn £20,000,000 o werth, a bod 10,000,000 o ddefaid yn cael eu lladd a'u dwyn i'r farchnad bob blwyddyn—gesyd hyn y defaid yn werth £30,000,000 i'r wlad yn flynyddol; ac os ystyriwn eto y nifer sydd o ddynion yn cael eu bywoliaeth wrth ofalu am y defaid, ac wrth drin y gwlan yn ei holl drafodiaeth, ni a welwn gymaint gwerth yw y defaid i ni fel cenedl, a pha mor angenrheidiol yw sylwi ar y gangen hon o fasnachaeth Prydeinig.

Mae defaid yn gyffredin o natur grwydraidd, yn enwedig y rhywogaethau caletaf, ac ar helaethrwydd o dir y ffynant oreu; ond gwnant yn dda, a gellir eu cadw gyda buddioldeb ar fferm o faintioli cyffredin, ond gofalu fod y nifer yn ateb i'r tir. Gellir cadw defaid trwy eu bwyda yn y tŷ. Ac yn wir, gwnaiff defaid dewâu lawer yn gynt trwy eu cor-fwydo, nag wrth eu gadael ar hyd y meusydd, gan fod y cerdded a wnan, yn nghyd ag effeithiau y tywydd, yn rhwystro eu tewychiad. Mae cynesrwydd a gorhysiad bob amser yn prysuro tewychiad pob creadur, ac y mae hyn yn cael eu sicrâu trwy gor-fwydo.

Mae llawer o wahanol rywogaethau o ddefaid, ond y maent yn gyffredin yn cael eu dosparthu i ddau fath, sef yr hir a'r byr wlanog; cynwys y cyntaf y Leicester a'r Coteswold, a'r olaf y Southdown, y Cheviot, a'r Penllwyd, neu ddefaid y Fforest neu'r Mynydd.

Mae'r *Leicester* yn ddefaid mawrion lluniaidd, ond y maent yn gofyn porfa dda, ac ni chanmolir hwynt yn gystal gan y cigydd a'r Southdowns, y rhai nid ydynt cymaint, ond yn ddanteithiol iawn eu cig. Mae y Leicester er hynny yn fath o ddefaid rhagorol, a chyn-yddant yn dda mewn porfeydd isel bras.

Mae y *Southdowns*, megys y mae eu henw yn arwyddo, yn gyffredin i'w cael ar y gwastadedd eang sydd yn rhedeg trwy holl barthau deheuol Lloegr; ac y maent, fe allai, ar y cyfan y rhagoraf o'n holl defaid; y maent, yn mhellach, yn ol pob tebygolrwydd, y rhyw-

ogaeth hynaf o honynt. Gwnaiff cymysgiad o'r Southdown a'r Leicester eu gwneuthur yn drymach, heb niweidio dim ar ansawdd y cig; ond ni ddylid gwneud hyn yn fynych, onidê, collir y gwir rywogaeth.

Mae y *Coteswold* ryw faint yn fwy na'r Southdown, ac y maent yn ddefaid rhagorol, yn neilidol am eu gwlan, yr hwn sydd yn hir ac yn deg.

Y *Cheviot* sydd rywogaeth Ysgotaidd wedi eu gwellâu yn fawr. Maent yn ddefaid celyd, ac yn addas iawn i leoedd uchel oer a mynyddig, a gwnant yn well yno na'r Southdowns; ac y maent yn rhagori ar ddefaid mynyddig mewn gwlan a chyrff.

Mae defaid *Pen Llwydion Mynyddig* yn cael eu canmol am eu caledwch ac ansawdd eu cig, ond y maent yn fychain, ac yn wyltton anarferol; ac ni chyfrifir eu bod yn taro ond y rhanau mynyddig o Gymru a gorllewin Lloegr.

Y *Foresters* sydd amrywiaeth o'r rhywogaeth ddi-weddaf, y rhai mae'n debyg yn wreiddiol oedd ynt ddefaid y wlad hon; ond nid ydynt, megys defaid Cymru, yn taro dybenion cyffredin y ffermwyr; ac ni ellir eu cadw gydag un buddioldeb ond ar y mynyddau, ac yno hefyd y ceir fod y Cheviot yn atebl oreu.

Dyma y rhywogaethau a febir yn fwyaf cyffredin yn Lloegr. Mae gan bob math eu rhagoriaethau a'u canmolwyr; ond y rhai a ddylai gael y blaenoriaeth yn mhob man yw y rhai a fyddo yn taro y lle hwnnw oreu, gan fod y naill rywogaeth o ddefaid, o ran eu cyfansoddiad a'u tueddiadau, yn taro y naill fan, ac un arall yn taro y llall; ac y mae ffermwyr ar y pen hwn i gael ei arwain gan ei synwyr a'i brofiad ei hun.

Pa oreu y megor y defaid, mwyaf ffrwythlon y byddant i'r ffermwyr, a mwyaf cyfeillgar y byddant a'u gilydd. Y Southdown, y rhai a ystyrir y rhagoraf, a'r rhai sydd wedi eu magu oreu, a borant yn agosach i'w gilydd, ac y maent yn hawddach eu dofi, a'u gwneud yn ddiadelloedd mwy crynog nag unrhyw fath arall. Pa

oreu y megir defaid, mwyaf darostyngedig ydynt, er hyny, o ddirywio, os esgeulusir hwynt; a mwyaf o ofal sydd yn ofynol er cadw eu rhagoriaethau rhag amâru. Cynigir gwneud hyn weithiau trwy achlysurol gymysgu rhywogaethau; ond os bydd y rhywogaeth yn bur, bydd cymysgiad yn niweidiol, ac ni ellir ond anfynych ei gymeradwyo. Os bydd cymysgiad yn cael ei wneud, dylai fod a'r Leicester, yr hwn ydyw y goreu, ac yn wir braidd yr unig un a ellir gymysgu gyda buddioldeb. Gwnaiff cymysgiad weithiau ddwyn ddefaid mwy lluniaidd, a mwy gwlanog, a hawddach eu tewâu; ond nid yw hyn un amser yn sier o gymeryd lle.

Y llwybr sicraf o wellâu a chadw i fynu rywogaeth dda o ddefaid, yw trwy bigo yn wastadol oreuon y ddiadell er eppilio, a thro'i ymaith yn ofalus y gwael a'r afluniaidd. Gellir gwneud hyn yn raddol, heb luddias ffrwythlonrwydd cyffredinol y ddiadell; ac os caiff ei ddilyn gyda chysondeb, ni fethir ond anfynych a chyraedd y dyben. Dylid bod yn synwyrol gyda dethol, gan olygu y rhywogaeth a'r lle; a dylai yr hyrddod a'r mamogiad detholedig gael eu cadw ar y neilldu oddiwrth y defaid ereill; a bod o dan nod neillduol, fel y y gellir bob amser eu hadnabod. Dylai eu hwyn hefyd gael eu cadw ar wahan, a chael eu nodi yr un modd.

Mewn chwanegiad at ddetholiad gofalus o'r eiddoch eich hun, mae cyfnewidiad arall yn achlysurol angen-rheidiol, onidê, bydd parâd cyson o'r un rhai yn debyg o niweidio y ddiadell. Cyll y mamogiad eu ffrwythlonrwydd, a dygant lai o wlyn, a dirywir ansawdd y defaid. Er rhagflaenu hyn, dylai y ffermwr gyfnewid ei hyrddod bob dwy neu dair blynedd a ffermwr arall, yr hwn y mae ei ddefaid o'r un rhywogaeth, ac mor agos ag y gellir, yn gystal o ran magwraeth. Gwnaiff y cyfnewidiad hwn ragflaenu y dirywiad a fyddai yn debyg o ddeilliaw oddiwrth barâd cyson o'r un rhai. Goreu pa bellaf oddiwrth eu gilydd fyddo y tiroedd fyddo felly yn cyfnewid yr hyrddod.

Yr amser cyffredin i olwgng yr hyrddod at y mamogiaid, yw o ganol Hydref hyd ganol Tachwedd; a chan fod cyfnod y cyfebiad yn bum mis, neu 152 o ddiwrnodau, cymer y llydniad le rhwng canol Mawrth a chanol Ebrill. Dylai y mamogiaid, cyn gollwng yr hyrddod atynt, gael eu chwilio yn ofalus; a dylai y rhai hyn y fyddo ag unhyw arwydd o afiechyd, megyss trymder a marweidd-dra llygaid, duwch dannedd, ac anadl ddrygsawrus, gael eu neillduo er eu tewâu. Wedi pigo allan fel hyn y rhai anghymeradwy, gosoder y mamogiaid mewn porfa dda cyn gollwng yr hyrddod atynt.

Dylai y mamogiaid gael eu trin yn esmwyth, ac ni ddylent gael eu cyflymu na'u canlyn a chwn yn eu symudiad o'r naill gae i'r llall. Fel y byddo amser dyfod ag wlyn yn nesau, dylid neillduo iddynt rhyw fan sych cysgodol, a'r mamogiaid i gael eu symud yno rai diwrnodau o'r blaen. Maent yn gofyn gofal neillduol yn amser y llydniad, ac ni ddylent byth gael eu gadael heb gynorthwy os bydd angen. Mae y gofal angenrheidiol ar y fath amgylchiadau yn cael, yn gyffredin, ei weini gan fugail cyfarwydd, neu gan ryw un arall a fyddo yn adnabyddus o natur a thriniaeth defaid.

Nid yw yn beth dymunol i arfer cwn er gyru a chasglu defaid, oblegid y mae eu cyfarthiad bob amser yn eu dychrynu; ac maent mor ofnus hyd y nod pan eu buarthir ar gae o erfin, fel gwna presenoldeb ci wrth sawdl y bugail yn aml eu rhwystro i bori. Ar ryw randiroedd eang agored, gellai arfer cwn fod yn angenrheidiol; ond ni ddylai hyn gael ei wneud os gellir ei hebgor, gan y bydd yn sicr o rwystro tewychiad i ryw raddau, er i'r bugail arfer y gofal mwyaf yn ei gylch.

Y MOCHYN.

Mae y mochyn i'w gael yn mhob part o'r byd, o'r cyhydedd hyd y pegynau. Bydd fyw a chynydda ar bob math o fwyd, ac nid oes un creadur a wna besgi

mor fuan. Ymborth moch gwylltion yn benaf yw porfa, gwreiddiau, mês, cynyrch y ffawydd, a ffrwythau gwylltion; ond yn eu sefyllfa ddofaidd, fe'u porthir yn fwyaf cyffredin a blawd haidd, pys, cloron, erfin, ac a gwehilion y gegin, y llaethdy, a'r ardd.

Y mae amrywiol fathau o foch yn cael eu codi yn y wlad hon, ac mae y naill rywogaeth yn cael ei chymysgu a'r llall yn barâus, yn ol dymyniad a barn y perchenog.

Y mae *moch China* o wreiddyn Chineaidd, megys y mae yr enw yn arwyddo. Y mae y rhai hyn o benau byrion, clustiau sythion, cernau llydain, cefnau uchel, a thraed byrion. Mae y rhywogaeth hon yn dda am hilio, yn hawdd eu tewâu, ac er nad ydynt yn tyfu i faintioli mawr, eto gwnant dalu yn dda am eu bwyda, a gellir eu lladd er eu halltu yn ddeuddeg mis oed.

Mae y *moch Neapolitanidd* yn dduon, yn ddiflew, ac yn llyfnwedd, gyda chlustiau sythion. Gwnant besgi mor gynted a'r Chineaidd, ond nid ydynt mor dda am hilio, nac mor galed rhywogaeth. Mae cymysgiad o'r Chineaidd a'r Neapolitanidd a'r rhywogaethau caletaf y wlad hon, yn tueddu yn fawr at wellâu y diweddaf, trwy eu gwneud yn fwy hiliogaethol, ac yn hawddach eu tewâu.

Mae *rhywogaeth Suffolk* yn gyffredin yn wynion, a chlustiau pigfeinion, dwyfron, a lwynau llydain, yn nghyd a chyrff byrion cryno, yn debyg i'r Chineaidd.

Y mae *moch Essex* gan mwyaf yn dduon, neu yn frythion, a blewyn tenau, ac yn tebygoli yn fawr, o ran natur a ffurf, i'r Neapolitanidd. Tewânt yn hawdd ac yn ieueinc.

Y mae *rhywogaeth Berkshire* yn rhai lluniaidd iawn, a chanddynt glustiau sythion a bychain, cefnau a lwynau llydain, ffolenau da, a thraed byrion. Y mae'r fath hyn yn rhywogaeth rhagorol, ac yn well nag un arall i'r amaethwr.

Y rhai hyn yw y rhywogaethau a febir yn benaf yn

y wlad hon, ond eto mae mewn rhai manau fathau o foch mawrion, y rhai a ganmolir oblegid eu maintioli; ond byddant yn hir cyn y delont i'w cyflawn dwf, ac ni wnant ateb cystal a rhywogaethau llai, y rhai sydd yn fwy hiliogaethol, ac a besgant yn gynt, ac yn ieuangach.

Dylid bob amser ddewis y rhai mwyaf lluniaidd o'r doraid er magu oddiwrthynt. Gwnai hyn wellâu y rhywogaethau heb unrhyw gymysgiad; ond lle byddo yr hwch a'r baedd yn berthynasau rhy agos, lleieir eu ffrwythlonrwydd, ac o ganlyniad bydd yn aml yn angen-reidiol ceisio baedd o rywogaeth arall. Er cynydd lliosogrwydd, nid oes un cymysgiad mor effeithiol a'r Chineaid.

Er cael y buddioldeb mwyaf oddiwrth gadw moch, dylid mabwysiadu cynllun rheolaidd mewn magu a phesgu. Dylai fod tylcau priodol i foch o wahanol oedran, a dylai yr hychod magu gael eu cadw ar wahan. Darparer llestri copr er berwi a darparu eu hymborth, a lleoedd cyflêus er ei gadw a'i gymysgu; a dylai y glanweithdra mwyaf gael ei arferyd yn nghylch pob peth perthynol iddynt. Y mae mochyn yn naturiol yn greadur sydd yn caru glendid, ac er ei fod weithiau i'w weled yn ymdreiglo yn y dom, nid oblegid ei hoffder o le bawlyd y gwna hyn, ond er cael gwaredd o'r gwres a'r ysfa sydd yn ei gnawd ar dywydd twym. Pe caniatêid iddo ddigon o wellt a dwfr glân, ni fyddai y mochyn byth yn frwnt; ac nid oes dim a'i boddâ yn fwy, nag a effeithia yn well er ei gynydd, na chael ei fynych olchi a'i ysgrafellu.

Parâ yr hwch yn dorog bedwar mis, a phan ar ddyfod a pherchyll, dylai gael ei rhoi mewn twlc ar ei phen ei hun. Ni ddylai perchyll gael eu tynu oddiwrth yr hwch yn rhy ieueinc, gan y gwna hyny eu gosod yn agored i glefydau; ond os caint sugno nes y byddont yn gryfion, anaml y byddant yn ddarostyngedig i unrhyw glefydau drachefn. Ni ddylent byth gael eu tynu nes y byddont yn chwech wythnos neu ddau fis oed; ac ar

amser eu bwriad ni ddylai fod llawer o wellt yn y twlc, rhag iddynt gael eu sathru a'u mogu; a dylai yr hwch gael edrych am dani yn aml, gan fod rhai hychod yn dueddol i ladd y perchyll. Mae wyth neu ddeg yn ddigon i gael eu magu ar un doraid.

Dylai hwch a perchyll yn ei sugno, gael ei bwyda yn dda, a phys, blawd haidd, a llaeth, neu faidd. Mae soeg hefyd yn beth da iawn, os gellir ei gael. Yn yr haf, gellir ei gollwng allan yn awr ac yn y man, am awr neu ddwy, i gae gerllaw i bori, os bydd hyny yn gyflëus; ond ni ddylid gollwng y rhai bychain allan gyda hi, nes y byddant yn bythefnos neu yn dair wythnos oed. Bydd hwch byw am lawer o flynyddoedd, a dwyn amrywiol doreidau o foch; ac yn gyffredin gwna hen hwch well mamaeth nag un ieuanc, ac o ganlyniad dylai gael ei chadw cyhyd ag y gwnelo fagu. Gallai hychod ieueinc tua deg neu ddeuddeg mis oed, ddwyn toraid o berchyll, ac yna eu dyspaddu a'u pesgi er eu halltu; yr hyn hefyd a ddylid wneud a phob hwch ieuanc na fyddo yn dda am fagu, neu yn dueddol i fwyta ei perchyll.

Er trin moch, mae cael twlc cynes a chysurus iddynt yn un o'r pethau mwyaf pwysig. Nid oes eisiau iddo fod yn helaeth iawn; ond dylai fod yn agor tua'r dêau os bydd yn bosibl. Os caiff mochyn ei gadw yn lân, sych, a chynes, gwnaiff haner y bwyd y tro iddo a fyddo yn angenheidiol mewn lle oer gwylb a bawlyd; a chofier, os caiff mochyn y driniaeth ofalus a ddylent gael, gwnaiff dalu ar ei ddegfed am y drafferth. Dylai llawr y twlc gael ei godi a'i lechlario, neu ei osod a phridd-feini neu geryg tô, fel y gallo ar dywydd twym gael ei olchi yn lân, gan na bydd ar y moch y pryd hwnnw eisiau dim danynt.

Gwnaiff unrhyw beth y tro yn mron er porthi moch; pilion cloron, meillion wedi eu tori, erfin wedi eu berwi, gwehilion gerddi, gwan yd, mês, ffrwythau ffawydd, a golchion llestri; ond beth bynag a roir iddynt, bydded

iddo yn gyntaf gael ei ferwi neu ei anweddu (*steamed*), ac yna i aros diwrnod neu ddau cyn ei ddefnyddio; megys y mae yn ddigon gwybodus y gwnaiff moch dewâu yn well ar fwyd wedi heneiddio nag ar un newydd. Gwnaiff haner y cloron y tro iddynt wedi eu berwi, ag a wnelai yn amrwd; ar un fath am bob llyisiau ereill.*

Ni ddylai moch byth gael ei goddef i grwydro oddi-amgylch am beth i'w fwyta, oblegid os heb fodrwy eu trwynau, tyriant a dystrywant y tir; ac os wedi eu modrwy, ymdreuliant yn ofer wrth geisio tyrio. Am bob diwrnod y caffo mochyn fyned allan, bydd yn sicer o golli mewn cnawd a bloneg; ac ni ddylai adael ei dwlc cysurus o'r pryd y byddo yn barchell hyd nes byddo yn barod i'w ladd, oddieithr ychydig pan yn ieuanc i ganlyn ei fam, fel y crybwyllyd uchod.

CREADURIAID PLYFOG.

Mae iawn driniaeth creaduriaid plyfog yn beth adnabyddus yn gyffredin gan bob gwraig amaethwr; gan hynny, ychydig sydd eisiau eu ddyweud yma ar hynny.

Ond pan ystyrir gymaint o honyt sydd yn cael eu defnyddio bob blwyddyn, a'r cynyrch anferthol o wyau a ddygir i'r farchnad yn feunyddiol, † mae yn eglur fod y pwnc yn un o bwys neillduol; a gwir yw, na wnaiff yr amaethwr synwyrol fod yn ddisylw o hono.

Dylai nifer y gwyddau, hwyaid, gieir, a'r adar tyrciaidd a gedwir ar y beili fod yn ateb i'r llafur fyddo yn

* Mae cloron wedi eu pobi ar odyn, tebyg i odyn geirch pob ydd, yn ymborth rhagorol i foch. Gwna y tân felly, trwy ddifa y sudd niweidiol, chwanegu eu hinsawdd feithrinol, a'u gwneuthur yn fwy iachus. Gellir gwneud yr odyn trwy ychydig iawn o draul, yr hyn yn fuan a atdelir yn rhwyddineb darpariaeth y cloron. Mae cig moch wedi eu pesgi fel hyn yn gystal a chig rhai wedi eu pesgi a hadd neu geirch.—CYF.

† Cyfrifer fod gwerth uwchlaw £10,000 o greaduriaid plyfog yn cael eu difa yn Llundain ei hunan bob blwyddyn.

debyg o gael ei golli ar hyd-ddo a'i afradu, oni bai fod y creaduriaid hyn i'w bigo i fynu. Hyn yw yr achos fod wyau a chreaduriaid plyfog yn cael eu gwerthu am bris mor isel; canys pe byddai eu bwyd yn cael ei brynu am ei lawn werth, byddai y draul o'u cadw yn llawer uwch.

Gieir.—Mae'r amrywiol fathau o ieir a gedwir yn y wlad hon yn gyffredin wedi eu cymysgu yn fawr, ac yn aml wedi gwaethygwr wrth yr hyn oedd ynt yn wreiddiol; ond y mae y rhywogaeth gyffredin, fe allai, yn gystal ag un. Mae gieir llwydion Dorking, a'r duon Yspaen-aidd, p'odd bynag, yn rhagori ar bob math arall, pan y gellir eu cael yn ddigymysg. Mae'r ddaau fath hyn yn rhai da am ddodwy, rhoddant wyau mawrion, maent yn hawdd eu tewâu, ni chrwydrant yn mhell, a cheir pris da am danynt.

Mae pob gieir a thraed gwynion yn rhagori ar rai ereill; a dyli'd gochelyd y rhai a thraed gwyrddion a melynion, oblegid eu bod yn rhy dynar; ac nid yw y rhai a thraed duon mor werthadwy, gan fod eu cig yn gyffredin yn edrych yn dduaidd. Nid yw gieir a choesau hirion yn werth eu cadw.

Tewâiff gieir yn well o'u cadw i mewn, ac felly hefyd gwnaiff llai o fwyd y tro iddynt; ond rhaid iddynt gael lle cynes. Os goddefir iddynt grwydro oddiamgylch, ni wnant dewâu ond anaml, pa gystal bynag byddant yn cael eu bwydo.

Wyau.—Dylai y nyth fod yn nhŷ y gieir, ac mor bell ag y gellir oddiwrth y glwyd, fel na byddo iddynt gael eu haflonyddu wrth ddodwy na dëori. Mae basgedau yn well na chistau er gwneud nythau ynddynt. Nid oes dim yn eisiau ond ychydig o wellt; a bydded iddo gael ei gadw bob amser yn lân ac yn syber; oblegid os na ofalir am hyn, gwaethyga yr wyau yn mhen ychydig o oriau ar ol eu dodwy.

Nid oes dim yn well na gwres tuag at wneud i iar fod yn un dda am ddodwy; a gwnaiff giar dda a goesau

byrion, os caiff ei chadw yn gynes ac heb ei aflonyddu, ddodwy 150 o wyau, a magu nythaid o gywion bob blwyddyn. Cadw llawer o ieir a'u haner newynu sydd beth holol ddidrefn, gan y byddai tair neu bedair, a'u bwydo yn dda, yn werth mwy na chymaint arall heb ofalu am danynt; a phe cedwid chwech giar am bob ceiliog, byddent yn fwy ffrwythlon na phe cedwid chwaneg.

Gan fod cynhesrwydd o'r pwys mwyaf i ieir, dylai ty y gieir fod yn wynebu tua'r deau, ac yn rhydd oddiwrth bob lleithder, ac wedi cael ei adeiladu, os bydd posibl, fel ag y gallo gwres simnai neu ffumer gael mynedfa iddo.

Er cadw wyau yn beraidd ac yn dda, dylent gael ei gosod yn union ar ol eu dodwy mewn llestraid o ddwfr calch, neu eu rhwbio drostynt ac ychydig o floneg, gwer manllwyn, neu ymenyn, a'u gosod i sefyll ar eu penau. Pe gosodid hwynt i sefyll ar eu hochrau, gwnai y melyn llynw wrth y plisg, yr hyn a'u hanafa wrth eu cadw yn hir. Wedi rhwbio brasder ynddynt, ni ddylent fod uwchlaw pythefnos heb eu troi, a'u sychu drostynt; ond dwfr calch yw y mwyaf didraul, a didrafferth, a'r dull goreu o'u cadw; gwnant fel hyn, ond eu troi yn achlysurol, gadw chwech mis heb fod ddim gwaeth.

Hwyaid.—Os oes llyn neu ddwfr rhedegog gerllaw, dylid cadw hwyaid yn ddilai. Maent yn rhai da am ddodwy yn y gwanwyn; a magant eu rhai bychain gydag ychydig iawn o gymorth; ond ni ddylai yr hwyaid ieueinc gael eu gollwng nemawr i'r dwfr nes y byddont tuag wytynos oed, gan y byddant yn debyg o farw o anwyd. Ni ofynant ond ychydig iawn o ymborth na gofal ar ol y diwrnodau cyntaf; ac os bydd llyn, gwaun-dir, neu faes cyffredin yn agos, gan eu bod mor hoff o bryfedach a thrychfilod, gwnant ymdaro drostynt eu hunain. Byddai chwech o hwyaid yn fwy buddiol yn y gwanwyn i ddyn tlawd a'i deulu, na'r afreu a ellir gael; ac ni byddai y draul o'u cadw yn

nemawr o ddim, ac ni cheid haner y drafferth wrthynt oll ac a geid wrth un llwdn gafr. Mae un mailart yn ddigon gyferbyn a chwech o hwyaid.

Twrciod.—Mae y rhai hyn yn greaduriaid gwerthfawr, ond yn dyner, ac yn gofyn gofâl wrth eu magu, ac yn fwytawyr helaeth. Gellid gosod yr wyau dan iar gyffredin, a'i chadw hi i mewn, gan oddef i'r rhai bychain i redeg allan, a chyfnewid eu hymboeth trwy eu bwyda a danadl wedi briwio, enwyn, ceulfran, a blawd ceirch, a gwnant gynyddu yn dda; ond bydd yn rhaid eu cadw mor ofalus ag byddo yn bosibl rhag cael eu gwlychu, megys yn wir dylai pob adar ieueinc gael. Er cael ceulfran unrhyw amser, ni bydd eisiau ond yn unig berwi ychydig o alym yn y mesur angenrheidiol o laeth, a gwnaiff yn union droi yn geulfran, ac yn barod i'w ddefnyddio.

Gwyddau, ni ofynant ond ychydig o ofal; ond y maent yn rhai drygionus iawn yn yr ydlan, trwy dynu tywys allan o'r helmi, &c. Lle byddo dwfr, a thir cyffredin iddynt bori arno, gellir eu magu gyda buddioldeb heb ond ychydig drafferth; ac y mae eu plyf bob amser yn werthfawr.

Ni ddylid gadael i'r gwyddau bychain fyned nemawr oddiamgylch y diwrnodau cyntaf, ond na chauer yr hen wydd i mewn ychwaith. Clôs, neu ysgubor wâg, yw y lle goreu i'r rhai bychain am yr wythnos gyntaf, gan eu gollwng allan ddwy neu daир awr bob dydd i bori glaswellt. Er eu tewâu i'r farchnad, anfoner hwynt i'r sofydd, a bwyder hwynt gartref ag erfin oerion wedi eu briwio, a dwfr, gydag ychydig o lafur.

Yr ydys wedi sylwi lawer gwaith mae anfynych mae un afiechyd ar yr anifeiliaid lle byddo nifer resymol o wyddau yn cael eu eadw, oblegid gwnant fwytta a chynyddu ar y llysiau hyny ag sydd i raddau mwy neu lai yn niweidiol i greaduriaid ereill, a pha rai sydd yn gyffredin i'w cael ar bob math o dir. Mae y rhan fwyaf o amaethwyr yn wybodus o hyn, a mynuch y

gwneir troi buwch neu fustach afiachus i gae lle byddo gwyddau yn arfer pori, gyda golwg ar iddo dderbyn llesâd trwy y cyfnewidiad. Mae y glaswellt ar y manau lle mae gwyddau yn arfer pori bob amser yn deg a melus.

Gellid sylwi wrth ddiweddu ar y pen hwn, na ddylai creaduriaid plyfog mewn un modd gael eu tybied yn anheilwng o sylw. Gellai gwraig amaethwr ofalus droi heibio gryn swm o arian bob blwyddyn, trwy ychydig o drafferth, a nemawr o draul. Mae yr adar, yr wyau, a'r plyf, oll yn bethau gwerthadwy, a gwnaiff yr arian a geir am danynt i raddau mawr ddiwallu yr angenrheidiau teuluaidd.

Y LLAETHDY.

Y llaethdy sydd ychwanegiad angenrheidiol at bob tŷ fferm. Dylai wynebu tua'r gogledd; a dylai bob amser gael ei gadw yn oer, yn agored i awyr, ac yn eithaf glân. Dylai yr holl lestri llaeth gael eu ysgaldanu, eu dwys-rwbio, eu glan-olchi, a'u sychu bob tro eu defnyddir. Os o goed eu gwneir, derw, neu waglwyfen yw y goreu; os o fettel, mae *zinc* yn rhagori ar blwm.

Nid yw llestri pridd wedi eu marneisio yn rhai dy munol i gadw llaeth; gan y gwnaiff surni y llaeth effeithio ar y farnais, ac a'i try yn wenwyn pur, er yn yr amgylchiad hwn yn wanaidd iawn. Mae llestri coed fe allai ar y cwbl yn well nag un math yn y llaethdy;* ond y maent hwy yn ddarostyngedig i gael eu heffeithio gan surni y llaeth, gan hyny nid ellir eu trwadl lanâu ond trwy eu berwi; ac os bydd hyn yn methu, cymysger

* Mae gwydr yn cynwys llawer o ragoriaethau fel defnydd llestri llaeth. Mae yn rhâd ac yn hawdd ei lanâu, a chan ei fod yn beth na effeithia trydaniaeth arno, gwnaiff nid yn unig gadw y llaeth yn berfaid am hir amser, ond mewn ffurf o bedyll llaeth, gwnaiff roi oddeutu y ddegfed ran yn fwy o hufen na llestri pridd neu goed.—*CYF.*

ychydig *soda* a'r dwfr berwedig, yr hyn a wnaiff yn holol glirio ymaith y surni. Dylai y llestri yn ganlynol i hyn gael aros dau ddydd neu dridiau mewn dwfr, yr hwn a ddylai gael ei newid yn achlysurol.

Llaeth.—Bydded i'r gwartheg gael eu trin gyda thynerwch, a gofaler beidio bod yn arw hyd y nod mewn geiriau, yn neillduol ar amser godro. Pan osoder y llo'i i sugno, tyner y tethau bob amser yn llwyr ar eu holau. Nid oes un arferiad yn waeth na gadael llaeth yn y piw, oblegid pa fwyaf adawer yn awr, lleiaf yn y byd y geir y tro nesaf; ac y mae y llaeth ar y diwedd bob amser yn well nag ar y dechreu; parâ i frasâu hyd y diferyn diweddaf.

Yr arferiad cyffredin yn y wlad hon yw godro y gwartheg ddwy waith yn y dydd; ond pan eu bwydir yn y tŷ, ac y cânt yn helaeth o ymborth iraidd a maethlawn, mae yn angenrheidiol eu godro dair gwaith yn y dydd, sef, yn foreu iawn, haner dydd, a'r nos; oblegid ni roddant gymaint o laeth yn y pedair awr ar hugain, o'u godro ddwy waith yn unig, ag a roddant wrth eu godro dair gwaith. Gwnaiff buwch yn yr amgylchiadau hyn roi yn agos cymaint o laeth bob tro, wrth eu godro dair gwaith, ag a roddai wrth ei godro ddwy waith. Yn Flanders a Switzerland, lle mae y gwartheg yn cael eu bwyda yn y tai, maent bob amser yn cael eu godro dair gwaith.

Dylai y gwartheg gael eu godro yn agos i'r llaethdy, fel y gallo y llaeth gael ei osod heibio cyn oeri, neu siglo llawer arno. Dylai llaeth gael ei hidlo trwy wagr rhawn, a dylai y glanweithdra a'r syberwyd mwyaf gael ei arferyd yn holl oruchwyliaeth y llaethdy. Pe digwyddai fod y llaeth a blas erfin, bresych, neu unrhyw ymborth arall arno, ychydig o halen y graig a wna yn gyffredin ei ddyfetha, ac a'i gwna yn beraidd.

Dylai godro bob amser gael ei gyflawni mewn modd esmwyth ac araf, fel na byddo mewn un wedd yn boenus i'r anifael. Mae engreiftiau i'w cael na roiff

gwartheg ddimm o'u llaeth i odrwr byrbwyll, chwimwth, a gerwin ; ond gwnant ei roi yn ewillysagar i laethwraig fwynaidd a thirion. Pan fyddo gwartheg yn anhywaith, yr hyn weithiau a ddigwydd fod, dylent gael eu trin gyda mwyneidd-dra diddanol, ac nid un amser gyda byrbwylldra afrywiog, yr hyn yn unig a'i gwna yn waeth. Pan fyddo y piw yn galed ac yn boenus, dylai gael ei olchi yn esmwyth a dwfr twym, a'i rwbio yn araf er esmwythau y boen, ac yna gwna y fuwch roi ei llaeth yn rhydd, ac heb un atalfa.

Mae y rhan gyntaf o'r llaeth pob amser yn denauach, ac nid yw crystal am ymenyn a'r rhan ddiweddaf. Yr hufen hwnw a goda gyntaf i'r wyneb yw y brasaf, ac felly â yn waelach waelach hyd oni chodo y cwbl.

Gwnaiff llaeth tew roi llai o hufen mewn cymariaeth na llaeth fo yn deneuach, ond bydd yr hufen yn frasach yn ol yr hyn fyddo ; a phe cymysgid dwfr a llaeth tew, gwnai roi mwy o hufen, ac o ganlyniad fwy o ymenyn nag a wnai pe heb gymysgu dwfr ag ef. Lle byddo gwueuthur ymenyn yn brif bwnc, dylai hyn gael ei arferyd.

Pan fyddo llaeth yn cael ei ddwyn o grynn bellder ar ol ei odro, fel ac i'w ysgwyd a'i oeri cyn ei hidlo, ni wnaiff byth roi cymaint o hufen a phan yn cael ei roi yn y pedyll yn dwym ; gan hyny, dylai gwartheg gael eu godro mor agos ac y gellir i'r llaethdy.

Ymenyn.—Lle byddo llawer o laeth, mae corddi yn awr yn gyffredin yn cael ei wneud trwy beirianwaith, yn cael ei weithio gan agerdd, ceffyl, neu ddwfr, neu trwy gydio y fuddai a'r peiriant-dyrnu. Y dull mwyaf cyffredin, er hyny, i'w a llaw.

Tybial rhai, oddieithr i'r hufen gael ei dynu ymaith tra byddo y llaeth yn newydd, na all yr ymenyn fod yn dda, ond camsynied yw hyn. Dylai y llaeth gael aros hyd ag y gellir heb suro, cyn tynu ei hufen, a *gwnaiff* yn y canlyniad roi mwy a gwell ymenyn.

Mewn rhai parthâu o Loegr, ac yn gyffredin yn yr

Iwerddon a Scotland, mae yn arferiad i beidio neillduo yr hufen oddiwrth y llaeth, ond corddi y ddau yn nghyd; trwy yr hyn ceir llawer iawn o enwyn, yr hwn a ddefnyddir gan ddynion yn helaeth; er yn y dull hwn nad yw y llaeth byth yn cael ei gorddi nes y byddo wedi suro. Pa un a'i ar wahan, neu yn nghyd y byddo y llaeth a'r hufen, mae y corddi yn cael ei ddwyn yn mlaen yn yr un dull. Pan fyddo y ddau yn nghyd, mae mwy o amser yn ofynol i gorddi, gofyna weithiau dair awr felly; ond pe gosodid yr hufen yn y fuddai ar ei ben ei hun, bydd haner awr yn gyffredin yn ddigon.

Pan fyddo caws yn cael ei wneud o'r llaeth, bydd yn ofynol tynu ei hufen yn o fuan, ond pan na fyddo ond ymenyn yn unig, nid yw hyn yn angenrheidiol. Mae llawer yn ymddibynu ar yr hin. Ar hin oer, geill llaeth fod dri, pedwar, pump, neu chwech diwrnod, heb dynu ei hufen; ond ar hin boeth, neu daranllyd, fe allai mai o braidd bedair awr ar hugain. Ceidw yr hufen yn well ar y llaeth cyd ag y byddo heb suro, ac wedi ei dynu oddiar y llaeth, goreu pa gyntaf y caffo ei droi yn ymenyn.

Yn yr haf dylai y fuddai, wrth roi yr hufen ynddi, fod mor oer ag y byddo yn bosibl; ac i'r gwrthwyneb ar dywydd oer, trwy dywallt dwfr poeth iddi i'w thwymo cyn rhoi yr hufen i mewn. Gosoder y fuddai a'i gwaellod mewn dwfr oer tra yn corddi yn yr haf; ac yn y gauaf neu ar dywydd oer, gellir corddi mewn lle twym, ond nid yn agos i'r tân.

Dylai ymenyn gael ei osod mewn dwfr ffynnon oer yn union ar ol ei gorddi, i'r dyben iddo galedu; ac ar ddiwedd y trydydd neu'r pedwerydd golchiad, tafler ychydig o halen i'r dwfr er gwellâu lliw yr ymenyn, a gwasger o hono yn drwadl yr oll o'r llaeth, ac onidê, bydd ei flas yn anhyfryd. Yna bydd yn barod i'r farchnad, ond os bwriedir ei gadw, halter a llestrer ef yn uniongyrchol.

Y dull goreu i halltu ymenyn er ei gadw yw, ceisier

un ran o siwgr, un ran o nitr, a dwy ran o'r halen cyffredin goreu wedi eu cymysgu yn dda, a'u malu yn fân, a rhodder wns o'r cymysgedd hwn i bob pwys o ymenyn. Pan yn llestri ymenyn i fynu er ei werthu, ni ellir ei wasgu a'i galedu yn ormodol, na bod yn rhy ofalus yn nghylch ei gauad yn glos, fel ag i gadw yr awyr allan oddiwrtho.

Peth holol allan o le yw cadw un corddiad o ymenyn heb eu halltu hyd nes y delo y llall, i'r dyben o gymysgu y ddau yn nghyd, oblegid mae hyn yn drygu y blas, ac yn peri fod yr oll mor dyner fel na ellir byth wedin ei galedu.

Gellir gwneud ymenyn o'r fath oreu, a hyny gyda y buddioldeb mwyaf yn y llaethdy hyny lle bydd caws hefyd yn cael eu gwneud, oblegid felly gellir cadw y llaeth a'r hufen teneuaf er gwneud caws o honynyt.

Mae yn achwyniad yn erbyn rhoi erfin i wartheg, oblegid eu bod yn peri adflas ar yr ymenyn, ond gellir i raddau mawr ragflaenu hyn trwy ofal a sylw priodol. Gwnaiff llaeth oddiwrth erfin waethygu yn gynt na llaeth oddiwrth laswellt, ac wrth gorddi chwanegir y drygedd hwn yn aml trwy osod y fuddai yn rhy agos i'r tân. Dylai y fuddai ei hun gael ei chadw yn oer, ac mewn lle oer y dylid corddi, er y dylid rhoi cymaint y ddwfr brwd ar y llaeth ag fyddo yn angenrheidiol. Mae o bwys neillduol i gorddi yn aml, o'r hyn lleiaf ddwy waith yn yr wythnos; ond lle na ellir gwneud hyn, chwaneger yr wythfed ran o ddwfr berwedig at y llaeth fel y byddo yn dyfod oddiwrth y fuwch, a goruchuddier ef a lliain dwbl, yr hwn a gymer i fynu yr anwedd, ac a ddwâg ymaith yr adflas fydd bwyta erfin yn debyg o roi ar y llaeth.

Caws.—Mewn gwneuthur caws, y peth sydd yn gofyn y sylw blaenaf, yw yr hyn a ddefnyddir er ceulo y llaeth. Cynwysiad crombil neu gylla llo ieuanc ydyw, yr hyn weithiau a barottör gyda, ac weithiau heb, y caul sydd ynddo; ond yn y naill ffordd neu'r llall, y

gwlybwr sydd yn y cylla sydd yn effeithio er ceulo y haeth.

Y dull y parotöir y cylla yw, yn gyntaf trwy ei halltu, ac yna ei grogi i fynu i sychu am dri neu chwech mis, neu ddeuddeg mis, yn ol fel y dywed rhai. Er ei ddefnyddio, rhodder ef mewn ysten, a thywallter arno ryw nifer o chwartau o ddwfr twym tyner, a gadawer iddo sefyll yn yr ysten am ddau neu dri diwrnod; yna hidler ef ymaith, a chadwer ef mewn costrel wedi ei chorcio yn dyn. Bydd llonaid llwy bwrdd yn ddigon i geulo deg galwyn ar ugain o laeth. Mae y dull yma o barotöi y defnydd hwn yn gystal ag un, er fod amrywiol ereill mewn ymarferiad yn nghwahanol ranau y wlad. Yr hyn sydd o bwys yw, medru defnyddio y gwlybwr hwn yn y fath fod fel na byddo unrhyw flas anhyfryd ar y caws ar ei ol.

Caer yr hyn a ganlyn yn gyfarwyddyd da tuag at wneuthur caws:—Wedi casglu at eu gilydd fesur digonal o laeth er gwneud cosyn o'r maintioli a fwriedir, dihufener ef, a thwymer ef ar y tân i wres y gwaed, a cheuler ef trwy offerynoldeb y gwlybwr crybwylledig. Yna chwaneger ato gymaint o hufen a fyddo yn ofynol er ateb y brasder yr amcenir i'r cosyn fod; a phe chwanegid ychydig o enwyn eilwaith at hyn, gwnai y caws yn fuan yn las. Ceulfraener ef yn ysgafn ar y cyntaf trwy ei rygnu a chyllell, ac yna briwier ef yn fanach, ond yn esmwyth fel ag i ollwng y maidd allan o hono yn llwyr, yna cymysger ag ef haner wns o halen am bob pwys o geulfraen, a gosoder ef dan wasg.

Dylid dwyn yr holl oruchwyliaeth hon yn mlaen gyda brys, ond eto nid yn fyrbwyll. Wedi i'r cosyn fod dan wasg am ddwy awr, tröer, a gosoder ef yn ei ol drachefn; a gwneler hyn gan newid y lliain dair neu bedair gwaith y dydd, am ddau neu dri diwrnod; yna gadawer ef dan y wasg am wythnos, gan ei droi yn awr ac yn y man. Pan ddelo yn weddol galed, gellir ei

symud i'r ystafell caws, gan ei droi yn achlysurol hyd nes y byddo yn eithaf sych.

Dylai yr ystafell fod yn oer, ac yn agored i'r awyr redeg trwyddi, yr hyn bob amser sydd yn fuddiol i'r caws.

GWENYN.

Mae gwenyn i'w gwerthfawrogi, nid yn unig ar gyfrif eu bod yn eu mel yn darparu lluniaeth o'r fath iachusaf, ac yn eu cwyr ddefnydd rhagorol tuag at lanâu y dodrefn; ond hefyd ar gyfrif y gwensi buddiol a ddysgant i ni yn y diwydrwydd a arferant; myfyrdod ar yr hyn a'n dŵg i sylwi mwy ar ddoeithineb a daioni yr Hellalluog, rhagluniaeth yr hwn sydd yn gofalu am y trychflyn distadlaf, ac yn ei ddysgu i ymwneud a'r hyn sydd yn addas i'w sefyllfa a'u angen.

Ychydig o bethau sydd yn arddangosiad gwell o deulu diwyd a llwyddiannus, na rhestr o gychau gwenyn yn nghornel gardd daclus. Meddylia rhai fod triniaeth gwenyn yn gofyn llawer o amser a medrusrwydd, ond gamsynied mawr yw hyn. Fe allai y meddylia rhai fod ein hinsawdd ni yn rhy oer a gwlyb i wenyn, ac na wnant, fe allai, ffynu cystal yn y wlad hon ag y gwnant mewn hinsoddau twymach; ond eto gwnant ffynu yma i'r fath raddau fel y rhoddant dligon o fêl i ddiwallu angenheidiau teuluaid, a difyru plant, os na bydd dim i'w werthu, a hyny heb nemawr o draul, ond yr hyn a elo i brynu yr haid gyntaf yn nghyd ar cychau.

Bydd yr ychydig reolau canlynol, o'u cadw, yn ddigon er iawn driniaeth a ffyniant gwenyn.

Pwyser y cwch cyn ac ar ol rhoi yr haid ynddo, a noder hyny lawr ar lyfr, felly gellir gwybod y swm o fêl a gynwysa yn yr hydref.

Dylai y cwch gael ei gysgodi gan fur, clawdd, neu wregys o goed, fel y gallo y gwenyn pan yn dyfod adref yn lluddiedig ac yn llwythog, ddyfod yn hawdd o hyd

i'r fynedfa i mewn; yr hyn fydd yn anmhosibl iddynt os bydd gwthwynt cryf o gwmpas iddynt. Yn y cyfryw amgylchiadau syrthia llawer o honynt i'r ddaear oddiamgylch y cwch, a hwyrach nas byddant yn alluog i gyfodi nes delo oerni a lleithder y nos yn mlaen a'u lladd.

Dylai fod dwfr yn agos i'r cychau, canys y mae y gwenyn gweithgar yn sychedig iawn yn y gwanwyn, ac y maent yn hoff iawn o ddisgyn ar welltach fyddo ar hyd wyneb y dwfr, a llymeitian oddiyno yr hyn fyddo arnynt eisiau.

Dylai fod y cwch yn wynebu tuag at yr haul yn y boreu; ac ni ddylai gael ei osod uwchlaw 18 modfedd oddiwrth y llawr.

Tybiwn yn awr fod y gwenyn wedi ystorio digon dros y gauaf, a fod y perchenog yn ewyllsio cyfranogi o'u hystor; dywedwn *cyfranogi*, oblegid nid ydym yn tybied fod neb mor ffôl a lladd y gwenyn. Heb ddyweud dim am y creulondeb diangenrhaid o'r fath weithred, a'i tybied y cyfrifid y dyn hwnw yn gall a laddai ei fuwch er mwyn cael ei llaeth? Pa fwyaf o wenyn fo gan un; sicr yw, mae mwyaf o fêl fydd ganddo. Byddai gan y dynion sydd yn lladd eu gwenyn, er mwyn dod o hyd i'r mel, lawer mwy o fêl pe gadawent hwynt yn fyw.

Tua diwedd mis Medi, bydd tymor y blodau drosodd, ac ni bydd ond ychydig yn aros i'r gwenyn sugno mel o honynt. Dyma yr amser goreu er edrych pa faint o fêl a allant hebgor. Pwyser, gan hynny, bob cychaid, a thyner allan o hynny bwysau y cwch a'r gwenyn, yn ol yr hyn gafwyd eu bod pan osodwyd yr haid i mewn, megys y crybwyllwyd uchod.

Er byw trwy y gauaf, dylai cychaid o wenyn gael o leiaf un pwys ar bumtheg o fêl; ac os byddir am iddynt godi yn gynar, dylent gael ugain pwys; ond na rŵg-nacher gadael iddynt bump, deg, neu bumtheg pwys ar hugain, os bydd achos, gan y gwnant trwy hynny ffynu lawer yn well. Dylai cychiad blwydd oed, neu henach,

gael deg, neu bumtheg pwys ar hugain, tra byddo un ar bumtheg neu ugain pwys yn ddigon i rhai a lestrwyd eleni, o herwydd fod hen ddiliau yn drymach na'r rhai newydd.

Bydd bob amser rai cycheidau na bydd yr oll fydd ganddynt o fêl ddim yn ddigon i'w cadw hyd y gwanwyn dyfodol. Os bydd ganddynt o ddeg i bedwar pwys ar ddeg, chwaneger at hyny gymaint fyddo eisiau arnynt; os llai na hyny, cymerer oddi arnynt yr hyn sydd ganddynt, a llestrer y cychaid yn yr un cwch a chychaid arall, lle byddo digon o fêl ar gyfer yr oll.

Cymerer, gan hyny, y mîl o'r cychau fyddo a llawer dros ugain pwys, neu lai na deg pwys, ond ni fyddai yn fuddiol cymeryd y mîl o gwch a fyddo a dim ond digon, hyd yn nod os achubid y gwenyn; gan y gwneid trwy hyny leiâu nifer y cycheidau am y flwyddyn ddyfodol; ac nid oes achos i neb ofni cael gormod o'r rhai hyn.

Ni a dybiwn, gan hyny, fod gan ddyn dri cwech, 1, 2, a'r 3. Rhif. 1 sydd hen un oddiar llynedd, Rhif. 2 a'r 3 sydd heidiau a lestrwyd eleni. Ni wnaeth Rhif. 1, trwy i'r haid Rhif. 3 godi yn ddiweddar, gasglu ond ychydig o fêl, dyweder naw pwys; ac ni chafodd Rif. 3 ddim amser i gasglu ond deg pwys; ond fe gasglodd Rhif. 2 saith pwys a deugain. Pe gadawer hwynt oll heb eu cyffwrdd, ni wnai Rhif. 1 a'r 3 ond braidd byw hyd y gwanwyn, ac yno marw; neu os na byddent farw, ni allent gasglu digon o fêl er eu cynal yn y gauaf dyfodol, na heidio chwaitha.

Yn awr, er cadw y tri a'u cynyddu, cymerer Rhif. 2, a thorer ymaith yn ofalus oddeutu ugain pwys o'i fêl, megys y cawn ddesgrifio eto, a rhaner ef rhwng Rhif. 1 a'r 3. Ond gan y bydd y perchenog yn ewyllsio cael ychydig o'r mîl ei hun, wedi disgwyl cyhyd am dano, cymerer yr oll allan o Rhif. 2, a rhodder i Rhif. 1 a'r 3 yr hyn a ofynant, a'r gweddill oll fydd eiddo y perchenog. Yna uner Rhif. 2 a'r 3 a'u gilydd yn y dull a enwir isod; rhai fel hyn a ddont yn gryfion erbyn y

tymor dyfodol. Mabwysiader yr un cynllun beth bynag fyddo rhifedi y cychau.

Yr unig ddirgelwch mewn trin gwenyn, i'w gofalu am iddynt gael digon o ymborth yn yr hydref. Ni waeth ei roddi iddynt na pheidio yn y gwanwyn, ac er mor anhygoel y gallai ymddangos, gwnaiff yr un faint o fêl ag a gadwo un haid gadw dwy, neu dair, ond eu cael yn nghyd yn yr un cwch.

Pan gymerer y mîl ymaith o'r cwch, naill ai er ei ddefnyddio, neu ynte er ei gyfranu i gwch arall, gwneler fel y canlyn :— Y boreu tawel cyntaf ar ol byddo tymor casglu mîl drosodd, cerdder at y cwch a phibell a myglys yn y genau, ac a dysgl fawr i ddal y mel yn un llaw, ac a chyllell hir flaen-gam, yn nghyd ag asgell gwydd neu dwrci yn y llaw arall. Yna gollynger dau neu dri o chwiffiadau o fwg tuag at ddrws y cwch, a throer ef a'i wyneb i fynu nes y byddo yn sefyll ar ei waelod, a rhoer i'r gwenyn (y rhai a ymgasglant ar ymylau y diliau er gweled beth sydd yn myned yn mlaen) yn uniongyrchiol ychydig yn chwaneg o fwg. Gwna hyn eu dyddelwi mor drwadl, fel na bydd dros un neu ddwy o honynyt yn abl i hedeg allan; a byddant mor glaf nes gollwng brathu dros gof. Dechreuer ar un ochr i'r cwch, a thorer allan un o'r diliau, wedi yn gyntaf ollwng chwiffiad da o fwg er peri i'r gwenyn gilio i'r canol, ac i'r ochr arall. Eler yn mlaen fel hyn (gan ysgubo y gwenyn allan o'r diliau i'r cwch a'r asgell fyddo yn eich llaw) hyd nes y deler i'r canol, gan osod pob darn yn y dysgl wedi ei gorchuddio a lliain, fel y bydd yn cael ei dori ymaith; yna dechreuer yr ochr arall, a gwneler yr un modd; ac yn ddiweddaf oll, torer y canol ymaith. Yr unig beth sydd yn gofyn bod yn ofalus yn ei gylch, yw ysgubo y gwenyn naill ochr, rbag iddynt gael eu llethu. Os gwneir hyn fel y dylid, ni chaiff uwchlaw dwsin o'r gwenyn eu lladd. Cymerer y cwch yn awr a gosoder yn ei ol megys o'r blaen.

Y peth nesaf sydd i'w wneud, yw llestru y gwenyn hyn

oddiwrth ba rai y cymerwyd y mel yn yr un llestr a chychaid arall, yn mha un y bwriedir iddynt gael eu diwallu; ar dull i wneud hyn sydd fel y canlyn:—Yn y prydawn, os edrycher i'r cwch a ymddfadwyd o'r mel, ceir gweled yr holl wenyn yn ymfaelyd yn y canol fel haid newydd. Dyger y cwch i ymyl yr un maent i gael eu llestru ynddo. Ceisier oddeutu wyth llonaid llwy bwrdd o fêl rhedegog, neu un wedi ei buro, mor denau fel y rhedo yn hawdd, a gosoder ef mewn llestr gerllaw y cwch sydd i dderbyn y dieithriaid. Gollynger ychydig chwifiau o fwg myglys tua drws y cwch hwn, troer ef i fynu a gollynger iddo ychydig yn chwaneg o fwg, a thywallter y mel oll dros y gwenyn rhwng y diliau, nes y byddont wedi eu dwbio ynddo. Yna taener lliain glân ar y ddaear o flaen y cwch, ac un ymyl iddo ar lawr y cwch, wedi ei sicrâu yno a dwy gareg arno rhag iddo golli ei afael; y rhai hefyd a wasanaethant er codi y cwch yr ochr hono dipyn oddiwrth y llawr. Troer y cwch, yn awr, yn ei ol drachefn, fel ag y byddo ymyl y lliain dano, a'r ddwy gareg arno yn ei godi oddeutu modfedd oddiwrth y llawr. Nesaf, cymerer y cwch arall, dalier ef uwch ben y lliain, ac ag ym ergyd disymwth tarawer yr holl wenyn yn un clamp allan o hono. A dechreuant yn uniongyrchol i ddringo y lliain i fynu i'r cwch newydd, ac er fe allai yr erys rhai o honyt allan y prydawn hwnnw, ond erbyn y boreu bydd pob un wedi myned i mewn, pryd y gellir tynu ymaith y lliain a'r ceryg; a gwnaiff y ddwy haid fyw yn heddychlawn byth o hyny allan. Pe llestrid hwynt gyda'u gilydd heb oruchuddio y naill neu'r llall a mel yn gyntaf, hwyrach y dyfethid y naill haner o honyt wrth ymladd.

Y dull goreu er cyflawni cychaid ysgafn a digon o fêl er eu cynal hyd yr haf dyfodol, sydd fel y canlyn:— Cymerer darnau o diliau llawn mewn dysgl, ac astell yn hytrach yn lletach nag wyneb y cwch; chwyther ychydig o fwg myglys i ddrws y cwch, troer ef i fynu,

gollynger iddo ychydig yn chwaneg o fwg, a thorer ymaith gynifer o ddiliau gwag ag fyddo o ddiliau llawn i roi yn eu lle. Wedi gwneud felly, a rhoi cymaint o fêl i mewn ag fyddo yn angenrheidiol, gosoder yr astell ar wyneb y cwch, a throer i lawr yn esmwyth, a gosoder ef yn ei le. Yn mhen dau neu dri diwrnod bydd y gwenyn wedi cydio yr holl ddiliau rhyddion a'r eiddynt eu hunain; yna gellir cymeryd yr astell ymaith. Yn y gwanwyn, wedi iddynt wagâu y celloedd, troer y cwch i fynu a thafler ymaith y diliau gwag, a gwnaiff y gwenyn yn fuan lenwi eu lleoedd a diliau newyddion. Os na bydd dim diliau na mel i'w cael i roi iddynt, gwneler cymaint o gyffaith o siwgr a dwfr wedi ei ferwi yn dda, ag a wnelo y tro yn lle yr hyn sydd yn ofynol o fêl; neu ynte gellir defnyddio triagl a dwfr o dewder mel, a rhodder ef tu fewn i ymyl y cwch, mewn cafnau hirion o goed. Ond dylid cofio bob amser, os mynir i'r gwenyn ffynu, mae yn yr hydref, ac nid yn y gauaf a'r gwanwyn, mae gofalu am danynt.

Mae y cyfarwyddiadau blaenorol wedi ei seilio ar brofiad, a gellir eu dilyn yn ddibetrus; ond y mae dull newydd o gael gafael ar y mel heb afonyddu ar gwenyn, wedi ei gael allan yn ddiweddar, ac ymddengys yn rhagori ar yr hen a ddesgrifwyd uchod; ac y mae yn deilwng o brawf, ac yna gellir naill ai ei ddilyn neu ynte ei wrthod, fel y byddis yn barnu oreu.

Yn Mawrth, cyn dechreuo y gwenyn weithio, gosoder twba, neu ryw lestr cyffelyb, o dan y cwch, a gosoder astell ar ei wyneb oddeutu haner modfedd o drwch, a dau dwll modfedd o led ynddi, a gosoder y cwch arni. Pan lanwo y gwenyn y cwch, neu pan fyddant gerllaw ei lanw yn ysdod yr baf, disgynant i lawr i'r twba odditanodd trwy y ddau dwll yn yr astell waelod, ac yno dechreuant weithio diliau, a'u llenwi o fêl, yr hyn yn hawdd a ellir ei ddwyn ymaith heb afonyddu dim ar y cwch. Mae hyn yn ddigon rhwydd, ac fe ddywedir y ceir llawer o fêl weithiau yn y dull hwn, ac y mae yr

hyn a adewir yn y cwch bob amser yn ddigon er dwyn y gwenyn trwy y gauaf, gan na wnant byth ddechreu gweithio yn y llestr isod, hyd oni byddant yn gyntaf wedi ystorio digon ar gyfer eu cynaliaeth yn y llestr uchod.

Heidiau fyddo wedi codi yn ddiweddar, ac na fyddo wedi cael digon o amser i ddarparu erbyn y gauaf, raid eu porthi fel arferol.

Yn y gauaf, dyweder o'r 1af o Tachwedd hyd y 1af o Mawrth, dylai y cychau gael eu gosod i wynebu y gogledd; neu p'odd bynag ni ddylai yr haul gael llewyrchu arnynt, gan y gwnai hyny hudo y gwenyn ddyfod allan, a marw gan oerfel yn y canlyniad. Gwnant hefyd ddifa cymaint arall o'r ystor gauaf, na phe cedwid hwynt yn y cysgod.

Geill y cychod fod o wellt neu o goed. Gwnaiff y gwenyn ddyfod yn inlaen yn y naill yn gystal ar llall; ond coed a bar hwyaf, ac y mae yn haws cael y mel allan o honynag o'r rhai gwellt; gan hyny maent, ar y cyfan, yn well. Dylai y coed fod yn fodfedd a haner o drwch, fel na byddo y gwenyn i gael eu niweidio gan gyfnewidiad tywydd.

Dylid cadw cychau o wahanol faintioli, fel y gellid gosod heidiau bychain a diweddar yn y cychau bach, gan y gwnaiff heidiau cynar gynhyddu yn well yn y rhai mawr.

Pan geir o hyd i haid ieuanc, os bydd y tywydd am ddiwrnodau yn wlyb, dylent gael eu bwyda yn ofalus a mel neu driagl a dwfr; onidê, byddant mewn perygl o farw.

Na rodder byth goed yn y cychau i ddal y diliau i fynu. Nid oes dim o'u heisiau; a byddant yn rhwystr i dori y diliau ymaith, pan fyddo hyny yn ofynol.

CRYNODEB O WAITH POB MIS.

Dylai y ffermwr a fynd fod yn llwyddiannus, drefnu ei waith yn y fath fod fel y byddo i bob peth gael ei wneud yn ei amser priodol, ac na byddo i unrhyw beth i ddyfod am draws y llall; oblegid nid oes dim o gymaint pwys ag iawn drefniad amser er dygiad pob goruchwyliaeth yn mlaen yn rheolaidd. Pan wneler pob peth yn ei dymor priodol, arbedir gormodol frys ac afradaeth, gwneir y gwaith yn well, a byddir i'r graddau hynny yn fwy tebyg o fod yn llwyddiannus. Gan hynny, ni ellai crynodeb o'r hyn sydd i'w wneud bob mis trwy y flwyddyn fod yn anfuddiol yma, fel diweddglo i'r cyfarwyddiadau blaenorol.

Hydref.—Gellir cyfrif y mis hwn fel dechreuad y flwyddyn amaethyddol, gan fod cnydau y flwyddyn o'r blaen yn awr wedi eu diogelu, a pharotoadau yn cael eu gwneud tuag at yr un ddyfodol. Mor fuan ag y clirir y tir, dechreuer aredig y sofydd; a dylid hau y gwenith had mor gynnar ag y gellir yn y mis hwn. Helier y da o'r meusydd i'r lluestai. Gollynger yr hyrddod at y mamogiaid; a dylai y da sydd yn cael eu tewâu gael yn awr eu gwala o erfin.

Tachwedd.—Mae hwn yn fis ffwdanus ar diroedd arddadwy. Gellir hau gwenith hyd tua chanol y mis; a dylid gwneud parotoadau gyferbyn a chnydau y tymor dyfodol. Dylai yr aradr gael ei chadw ar gerdded o hyd, mor belled ag y byddo y tywydd yn caniatâu. Mae pob math o dir yn well o gael ei droi i fynu cyn rhew y gauaf; ac ni ddylai dim attal y ffermwr llafurus rhag cyflawni hyn o orchwyl, os bydd yn bosibl.

Bydd y borfa yn awr wedi darfod, ac ni wnae yr anifeiliaid pe'u troid i'r meusydd ond yn unig eu maeddu a'u traed. Rhaid gan hynny iddynt gael eu bwyda gartref a gwair, gwellt, ac erfin, neu ryw fwyd gwyrdlas arall; a chofier, mae gofalu am ei greaduriaid yn y

gauaf yw y peth goreu a all y ffermwyr ei wneud. Gellir gadael y defaid ar y inanau uchelaf hyd ddiwedd y mis hwn; yna gwahaner yr hyrddod oddiwrth y mamogiaid.

Rhagfyr.—Gellir parâu i aredig y sofydd eto am y mis hwn, os bydd yr hin yn caniatâu. Pan ddelo rhew i attal hyn, cyweiner tail allan erbyn y gwanwyn, gan ofalu gwneuthur y tomenau yn grono, fel na choller dim o'r biswail; a dylid tynu rhywfaint o erfin, a'u gosod i gadw yn agos i'r ty er eu defnyddio.

Bwyder y gwartheg a'r anifeiliaid ereill megys yn y mis o'r blaen; gadawer y mamogiaid i redeg ar hyd y tir, ac mewn tywydd caled rhodder gwair iddynt.

Ionawr.—Yn gyffredin ni ellir gwneud ond ychydig o waith allan yn y mis hwn, ac ymae dyrnu, a rhyw waith arall i mewn, yn taro y tymor yn well. Eto pan fyddo yr hin yn caniatâu, ni ddylai yr amaethwr fod yn segur, ond ymosod ar y gwaith,—aredig y tir pori a fwriedir ei drin, fel y gallo y tywyrch bydru yn dda, a'r tir gael ei frynar gan y rhew.

Chwefror.—Os bydd y tywydd yn rhoi, ardder a pharotöer tir ffa a gwenith gwanwyn; ac os bydd yn alluadwy, gosoder yr had yn y ddaear cyn diwedd y mis hwn. Dylai mamogiaid yn awr gael eu bwyda yn dda ag erfin a mangles, er eu cryfâu erbyn amser llydnu.

Mawrth.—Dyma amser ag y mae yr amaethwr yn ddiwyd iawn, a dylid gwneud pob ymdrech er hwylusu y gwaith yn mlaen. Gellid eto hau gwenith gwanwyn lle byddo yn angenrheidiol, a dylid hefyd hau ceirch yn y mis hwn, a thraws-aredig tir cloron ac erfin. Fe allai ei bod eto yn rhy gynar i rolio tir gwlyb, gwell hwyrach fyddai ei adael hyd y mis nesaf; ond ni ddylid esgeuluso defnyddio y rholet er chwalu y tir mor gynted ag y delo yn addas i wneud hyny.

Bydd y mamogiaid erbyn hyn yn dechreu llydnu, a byddant yn gofyn gofal mawr a chyson am danynt.

Ebrill.—Mor gynar ag y byddo yn bosibl dylai y

gweddill o'r ceirch gael ei hau. Dylid aredig y tir cloron drachefn, chwaler ef yn fân, a gosoder yr had ynddo. Dylai'r haidd hefyd gael eu hau yn ysdod y mis hwn, yn gystal a meillion, mangles, lucerne, a ffacbys. Dylai y tir gwair yn awr gael ei lanâu yn lân, a'i lwyn-lyfñu a'i rolio yn dda. Mae hyn yn anhebgorol angenrheidiol, ac ni ddylai byth gael ei esgeuluso. Dylid bod yn ofalus hefyd yn nghylch parotöi tir erfin.

Yn nghylch diwedd y mis hwn daw y cesyg ag ebolion, a'r gwartheg a lloí. Ni ddylent gael eu troi allan i'r borfa nes y byddo digon o honi, ond dylent gael eu gwala o erfin Swedaidd, efrau gauaf, gwair, a bwyd wedi ei dori yn y tŷ.

Mai.—Dylid gorphen hau haidd cyn canol y mis hwn. Gellir eto hau ffacbys. Dylai y gweddill o'r cloron gael eu planu bellach, a'r rhychiau a blanwyd y mis o'r blaen gael eu llaw-chwynogli, neu dynu yr oged drostynt. Dylai y ffa hefyd gael tuyu y drul-oged trwyddynt. Tua chanol y mis, dylai erfin Swedaidd gael eu hau; ond gofaler fod y tir wedi ei barotöi yn dda yn gyntaf: mae bellach yn bryd glanâu y cnydau haidd a cheirch oddiwrth ysgall a phob chwyn arall.

Gellir yn awr droi allan y lloí i'r borfa, a goruch-wyliaeth y llaethdy a ganlyna gyda bywiogrwydd.

Mehefin.—Gellir parâu i hau erfin trwy gydol y mis hwn. Dylid bod yn ofalus yn nghylch defnyddio chwynogl-ceffyl a chwynogl-llaw at y cloron a'r ffa; ac erbyn diwedd y mis hefyd bydd yr erfin Swedaidd yn barod i'w chwynogli.

Gellid cneifio bellach, a bydd yr wîn cynar yn dyfod yn barod i'r farchnad, a dylent, gan hyny, gael y borfa oreu ar y tir.

Gorphenaf.—Dyma amser cynauafa gwair, yr hwn a eilw am ofal a bywiogrwydd mawr oddiwrth y ffermwyr. Ni ddylai y glaswellt gael ei adael i addfedu ei hadau; ac wrth ei gynauafa, dylid bod yn ofalus i gadw cymaint

ag a ellir o'r sudd naturiol a siwgradd sydd ynddo. Dylai chwynnogl-ceffyl a chwynnogl-llaw fod ar waith o hyd yn mhllith yr erfin, cloron, mangles, a'r ffa; a dylai hau erfin gael ei orphen erbyn canol y mis, gan na ellir braidd disgwyl gael cnwd da yn ddiweddarach na hyn.

Dylai yr wyn a fwriedir gadw yn awr gael eu tynu, a'u gosod mewn porfa dda, yn mhell oddiwrth eu mamau.

Awst.—Defnyddir dechreu y mis hwn yn benaf i gywain y gwair o'r maesydd, a'i wneuthur yn dasau gerllaw y manau y bwriedir ei ddefnyddio. Ar dymorau ffafriol, dechreuir medi yr wythnos gyntaf neu'r ail; a dylai yr amaethwr fod yn ofalus na adawo i'w lafur fyned yn rhy addfed cyn ei dori, ac ystacaner ef mor fuan ag y byddo yn bosibl.

Medi.—Bydd holl ofal y ffermwyr yn awr yn cael ei roi ar waith i ddiogelu ei lafur. Pryd bynag y delo yr ystacanau yn eithaf sych, cyweiner hwynt adref i'r ydlan; a chofier am bob cyfleusdra a esgeuluser, na cheir hwyrach byth ail gynyg arno. Yn ysdod y mis hwn, a'r nesaf, dylai y cloron gael eu tynu a'u diogelu mewn beddau dros y gauaf. Mewn rhai manau gellid hau gwenith yn y mis hwn, er na wneir hyn yn gyffredin hyd y mis nesaf. Dylai y gwenyn gael gofalu am danynt yn niwedd y mis hwn, a'r hyn fyddo yn ormodol o fêl i gael ei dynu oddiwrthynt, a'u trefnu yn y fath fodd ag y gallant fyned trwy y gauaf a'r gwanwyn dyfodol yn gysurus.

Yn y crynodeb bychan yma o oruchwyliaethau y flwyddyn, er fod llawer wedi ei adael allan, a'r hyn sydd wedi ei roi ond fyr ac amherffaith, eto gobeithir y caiff yr amaethwr ryw fuddioldeb oddiwrtho, ac y gwnaiff ei adgofio o'r hyn, yn gyffredinol, a ddylai gael ei gyflawni yn mhob tymor.

OL-YSGRIFF.

TREFNIADAU TEULUAIDD.

y cyfarwyddiadau blaenorol er hyfforddiant yr, cynygiwn chwanegu mewn ffordd o Ol-y-sgrif, ig o sylwadau byrion yn fwyaf neilidol ar drefn-teuluaid llafurwaith amaethyddol. Ni all neb yn dal tir, pa un bynag a'i meistr neu ddeiliad, i anheimladwy o bwysigrwydd y pwnc hwn yn ei erthynasau; ac ni all un dyn ystyriol, beth bynag ei sefyllfa a'i raddoliaeth, lai na dymuno gwneuthedro er gwellâu cyflwr y llafurwr, yn naturiol ac esol,—ei wneuthur yn well, yn ddoethach, yn ryddach; ac mor gysurus ac anibynol ag y gellid yl i ddyn o'i sefyllfa fod.

cyflawni y gorchwyl hyn, rhaid i ni yn y lle f, osod ger bron ein holl ddosparth gweithyddol y oldeb o addysg foesol a chrefyddol, yn nghyd a fathau ereill a ddichon eu cynorthwyo er dwyn eu i fynu yn aelodau buddiol mewn cymdeithas; ac lle nesaf, ni a ymdrechwn wellâu cyflwr naturiol marferiadau cymdeithasol ein llafurwyr yn gy-i. Mae hyn oll yn angenrheidiol er mwyn y wr, yn gystal ag er mwyn y cyflogedig, ac er pawb yn gyffredinol, a chyda golwg ar lâu y ffordd tuag at gyraedd y dyben pwysig hwn ygir y sylwadau canlynol.

allai, er hyny, na bydd y sylwadau hyn yn holol diol i'r ffermwyr bychain, ac i'r rwy rai ereill o yb sefyllfaoedd, trwy alw eu sylw at ryw bethau g, na buasent hwy hwyrach yn meddwl dim am

danynt oni buasai hyn; ac fe obeithir na fydd i'r amaethwr i ystyried fod ei amser yn cael ei gamdreulio, os bydd iddo gymeryd ychydig o drafferth i argraffu yr hyn a ganlyn ar feddyliau ei bobl.

O tan y pen cyffredinol "Trefniadau Teuluaid," cynwysir sylwadau ar yr Ardd, Iechyd, Ymborth, Dillad, Preswylfeydd, Rhagddarbodaeth, Priodas, a Phlant; y rhai sydd oll yn bynciau o bwys; a gosodir yr Ardd yn gyntaf, oblegid ein bod yn ystyried fod ei thriniaeth yn dylanwadu cymaint ar hapusrwydd teulu gweithiwr ag un peth a all fod. Meddiannu chwarter cyfair o dir gardd a eill, ac yn fynych a wna gymaint o wahaniaeth yn nheulu y gweithiwr, ac sydd rhwng eisiau a digonedd, rhwng ymddifadrwydd a chysur, rhwng meddwl boddlon a chyflawniad siriol o ddyledswyddau bywyd, a meddwl surllud, diflas, ac anfoddlon, parod i ymollwng gyda phob tueddiadau drwg, ac i ruthro yn anystyriol i droseddu cyfraith ei wlad.

Nid oes eisiau i'r ardd fod yn fawr, chwarter cyfair yn gyffredin fydd yn ddigon er ateb angenrheidiau y gweithiwr; beth bynag, ni ddylai fod cymaint fel ag i ormesu ar unrhyw ddyledswyddau ereill, neu i gymeryd i fynu yr amser a ddylai gael ei ddefnyddio at ryw orchwylion gwahanol. Gobeithir nad yw yr amser yn mhell, pan fyddo gan bob llafurwr a chrefftwr ardd o'r desgrifiad hwn, gan nas gallant feddiannu unrhyw beth a fyddo yn debycach o weini cysur iddynt hwy a'u teuluoedd, a thangnefedd a diogelwch i'r wladwriaeth yn gyffredinol, o ba un y mae dospeirth gweithyddol yn gwneud i fynu ran bwysig.

YR ARDD.

Mae gardd ffrwythlon nid yn unig yn cynyrchu mwyniant a phleser i'r cyfoethog, ond hefyd cyson ddi-fyrwch, a diwalliant o lawer o angenrheidiau y tlawd. *Nid oes na llafurwr na chrefftwr mor gaeth fel nas gall hebgor haner awr bob dydd er trin ei ardd;* ac ni

ddylai un dyn ag sydd yn gweithio i mewn fod heb yr ymarferiad sydd yn ofynol er cadw gardd fechan mewn iawn dre. Gwnaiff llafur ysgafn yr ardd lawer o les i wraig a phlant y crefftwr, ac iddo yntau ei hun, trwy newidiad achlysurol oddiwrth ei orchwylion cyffredin. Heuad a phlaniad ei lysiau, blodeuad ei goed, a chasgliad ei ffrwythau a'i flodau, a roddant oll ddifyrwch nid bychan iddo. Rhydd hyn y pleser mwyaf, ac nis tywysa i ddim ond daioni. Nis geill arwain neb i arferion drwg, ond i'r gwrthwyneb, gwnaiff ddiogelu y neb a'i harfero rhag hudoliaethau llygredig, afradlonrwydd, a drygioni.

Mewn gair, mae gardd yn hanfodol i iechyd a chysur llafurwr a chrefftwr; a gellir chwanegu hefyd, mae gardd yn hanfodol i fwyniant a dedwyddwch yr amaethwr o bob dosparth.

I'r gweithiwr hur, beth all fod yn fwy hyfrydol na haner awr yn yr ardd ar ol llafurwaith y dydd, a'i wraig a'i blant oddiamgylch iddo? Newidiad o ymdrechion llafurus ei ddiwrnod, i oruchwyliaeth ysgafn yr ardd, raid fod yn olyngdod iddo.

Pa gynifer o oriau y ffermwyr a dreulid yn ddiwaith a dibleser, oni bai goruchwyliaeth yr ardd; ac yn mha un y gall wneud prawf mewn mesurau bychain o ryw bethau a fyddo yn ymgynyg i'w feddwl, neu ynte wirio profion rhyw rai ereill cyn eu hymarferyd ar y fferm.

Mae plant yn aml yn cael eu harwain i ddrygioni am nad oes ganddynt ddim arall i'w wneud. Pa mor wahanol y byddau pe'u dysgid i droi eu meddyliau at lafurwaith a phleserau garddwriaeth! Byddent felly yn awyddus i ddangos i'w rhieni beth a allent wneud; a pha mor addysgiadol gwers a gaent yn y blodau a'r ffrwythau a gynyrchai yr ardd yn ei thymor priodol, fel gwobrwyon am eu gofal a'u diwydrwydd! Pa mor hyfryd eu gweled yn cynghori, ac yn cynorthwyo naill y llall er cyraedd eu hamcan! Pa mor heddychlon a diniwed yw y fath ddifyrwch, ac mor wahanol i sarug-

rwydd, ymryson, ymladd, neu dreulio eu hamser mewn campau ofer!

Mewn neillduo lle yr ardd, ni ddylai ansawdd y ddaear fod ond ail beth, canys gellir ei wellâu bob blwyddyn trwy rigoliad, dyhysbyddiad, achlesiad, a thrwy ddwyn pridd da iddi o fanau ereill; ac yn wir, gwna rhai ddewis y darnau gwaethaf er gwneud gerddi o honynt, a hyny er dangos eu medrusrwydd yn y driniaeth yn ol llaw, tuag at yr hyn nid oes dim yn well na rhigoliad dwfn, a'i godi i fynu yn rynau geirwon, er i'r rhew yn y gauaf, a'r haul yn yr haf i weithredu arno.

Dylai yr ardd, p'odd bynag, wynebu tua'r dë, os bydd yn bosibl; a dymunol fyddau ei bod yn ngolwg y tŷ. Cadwer ychydig o'r ymyl i flodau; ac os bydd yr ardd yn ddigon o faint, gellir gosod coed ceiros ac eiryn yn nesaf i'r tŷ, ac yna gelleigwydd ac afalau cynar; a choed afalau gauaf a chelyd yn y cwr pellaf. Gellid tarfu yr adar yn well oddiwrth y ceiros a'r eiryn, pan yn agos i'r tŷ; ac y mae ffrwythau cynar, pan yn y golwg yn fwy diogel rhag lladron, na'r rhai diweddar. Gwnaiff eiryn mair, rhyswydd, a mefus, dyfu rhwng y coed mawrion, neu oddiamgylch y gwelyau llysiau. Pe gellid cael dwfr i redeg trwy yr ardd, byddai yn gyflëus iawn er ei dyfrâu yn amser sychder; neu gellid cloddio pwll ynddi er cael dwfr at y tŷ. Dylai yr ardd gael ei amgylchu gan wal geryg, neu glawdd coettrych da, er ei chadw rhag treiswyr, y rhai, oni bai hyny, a allent dori i mewn a gwneud mwy o golled mewn haner awr nag a ellid ei wneud i fynu mewn mis.

Gwnaiff gardd o fesuriad da, ac a gaffo ofalu am dani yn briodol, gynyrchu afalau, gelleig, eiryn, ceiros, mefus, eiryn Mair, mafon, a rhyswydd, yn gystal a chyflawnder o lysiau er diwallu yr angenion teuluaid; ac ychydig hefyd yn achlysuol ar gyfer y moch a'r creaduriaid plyfog. Yn nghylch yr afalau a'r gelleig, dewiser y *mathau hyny ag fyddo yn gyffredin yn ffynu yn y gymydogaeth*. Hon yw y rheol oreu, oblegid y mae

gwahanol fathau yn taro gwahanol ansoddau. Orleans cyffredin, y Damson, a'r Wellington, yw y mathau goreu o eiryn ; o geiros, Mayduke a Morello. Aiff dynion yn aml at y planigfâwr am fathau newyddion o afalau, &c., a chânt rai amhriodol a drwg, tra y byddai yn llawer gwell iddynt geisio rhai priodol o berllanau a gerddi y gymydogaeth.

Torer ymaith y blagur a'r cangenau mewnol oddiar y coed afalau, &c., er eu teneuo, ac hefyd oddiar y rhyswydd a'r eurddrain, fel y gallo y ffrwythau fod yn fwy agored i'r haul a'r awyr, a deuant yn fwy eu maintioli ac yn well eu blas. Cadwer y coed yn isel ac yn llydain, er gochelyd coliant ffrwythau trwy ysgwydiad gwyntoedd cryfion ; ac wrth gasglu y ffrwythau, gofaler i beidio rhwygo y cangenau, neu niweidio y coed. Mae gweled brigau y coed afalau a'r ceiros wedi eu rhwygo a'u tori yn arwydd sicr o ddiofalwch.

Gofaler am y rhyswydd a'r eurddrain mor gynted ag y byddont yn llawn o ddail, a bydded iddynt gael eu cadw rhag y lindys. Dylai pob llwyn yr amser hwn (yn gyffredin tua chanol Mehefin) gael ei edrych ddwy waith yr wythnos, yr hyn fydd yn orchwyl i fachgenyn neu fachgenes am ddwy neu dair awr, a thrwy hynny fe'u diogelir rhag y cyfryw bryfed ; ond os eu hesgeulusir ar y dechreu, ymdaena y llindys, dystrywir y ffrwyth, a niweidir y coed. Gwnaiff gosod cwlwm o ysgubell gyffredin i fynu yn nghanol y llwyn weithiau ei ddiogelu rhag y llindys ; ond y llwybr sicraf yw eu pigo ymaith bob un.

Planer y coed mafon yn rhesi gydag ymylau y rhodfeydd, a naill ai clymer pen bob dau o honynyt yn nghyd, fel ag i wneud math o fwa ; neu ynte wedi eu tori at yr uchder o dair neu bedair troedfedd, clymer tri neu bedwar paladr yn nghyd wrth bawl wedi ei sicrâu yn y ddaear.

Rhai o'r llysiau mwyaf defnyddiol yw cloron cynar ; ac ar ol eu tynu, gellir planu bresych neu flodgawl yn

eu lle, y rhai sydd bob amser yn bur fuddiol. Y gelynion gwaethaf i fresych yw malwod, ac weithiau bryf gwyn yn y gwraidd. Er rhagflaenu y ddau fath hyn, ac hefyd er achlesu y tir, tywallter yn aml ar hyd-ddo ddwfr calch cryf. Gosoder dail bresych yma a thraw ar hyd y ddaear gyda'r hwyr fel maglau, ac edrycher am danynt boreu dranoeth gyda'r wawr, ac fe'u ceir yn llawn o'r ymlysgiaid dystrywiol hyn, pa rai felly a fyddant eu hunain yn barod i'w dyfetha. Gellir hefyd osod llechau neu geryg teneuon a chafnog, yma a thraw ar hyd yr ardd, a'u troi i fynu ar hyd y dydd, a lladd y molwad danynt. Heb y fath ragofal, geill planiad hellath o fresych neu flodgawl gael eu dystrywio mewn ychydig o noswaithiau. Er cyfarwyddiadau cyffredinol pa fod i hau a phlanu, gwel tudal 114.

Er codi hadau erfin a bresych, dewiser ychydig o'r planigion goreu, a gosoder hwynt mor bell oddiwrth bob blodau ereill, fel na allo yr hadau ymgymysgu, yr hyn a fydd yn debyg o gymeryd lle, oddieithr bod yn ofalus yn eu cylch.

Winwyn hefyd sydd yn llysiau defnyddiol iawn. Gellid eu hau yn yr un tir am amryw flynyddoedd olynol, ond iddo gael ei barotöi yn briodol, yn nghyd a chael ychydig gymysgiad o bridd tywodlyd. Mae achlesoedd cymellyddol, megys huddygl, tail moch a cholomenod, calch, &c., oll yn dda iawn i winwyn, ond eu harferyd yn gymedrol. Y winwyn goreu yw rhai cochion a'r Strasburgh; a gwant ddyfod yn well o'u cymysgu. Paler y tir yn dda, chwaler ef yn fân, a hauer yr hadau tua diwedd Mawrth neu ddechreua Ebrill.

Cenin sydd hefyd yn llysiau buddiol iawn i deulu bwthynwr; maent yn gelyd ac yn gynyrchiol, ac i'w trin yn gyffelyb i'r winwyn.

Moron.—Mae y rhai hyn yn werthfawr, a ffynant yn dda mewn unrhyw fath o dir, os bydd yn sych ac yn ddwfn. Dylent gael eu hau yn gynar yn Ebrill. Nid

arferiad drwg mewn gardd fechan, yw hau ychydig o honynnt yn gymysgedig ag winwyn, oblegid os gwnaiff yr olaf fethu byddir yn sicr o foron mawrion; ac os daw yr winwyn yn mlaen yn dda, gellir chwynu y moron allan, neu eu tynu a'u bwyta yn ieueinc. Dylai hadau moron gael eu gwlychu mewn dwfr cyn eu hau, ac yna eu cymysgu a thywod sych, fel y byddont yn hawddach eu hau.

Beatus.—Mae y llysiau hyn yn gynrych garddol gwych, ac os eu traws-blenir yn gynar, gellir eu cymeryd i fynu yn Awst, a gosod bresych gauaf yn eu lle. Hauer yr hadau yn Ebrill, ac yn Mai trawsblaner hwynt a phlanbren, mewn tir wedi ei achlesu yn dda. Torer y brig ymaith yn Tachwedd, a gellir eu bwyta fel pigoglys, a diogeler y gwraidd rhag y rhew, er eu defnyddio yn y gauaf.

Persli sydd hefyd yn llysiau defnyddiol, a thyfant mewn unrhyw le, a gwnant barâu o'r naill flwyddyn i'r llall, ond gadael yn achlysurol i frigyn neu ddau o honynnt redeg i fynu i hadau.

Cenin sifi.—Mae y rhai hyn yn agos mor ddefnyddiol a winwyn, a dylent fod yn mhob gardd cottî. Maent yn hawdd eu cael, a gwnant gynyddu yn ddirfawr.

Pys.—Mae y rhai hyn yn ddefnyddiol iawn mewn teulu; a phe heuid y rhai byrion, mewn rhychiau, a thair troedfedd rhngddynt, ni ofynent ond ychydig iawn o goed, ac yn wir, gwnaent y tro heb ddim coed, ond nid cystal. Gwna rhai talion ofyn mwy o le rhngddynt, a hefyd eu coedio yn dda.

Ffa sydd hefyd yn llysiau rhagorol, ac a ellir eu planu bob y n un, mewn rhychiau a dwy droedfedd a haner neu dair troedfedd rhngddynt; neu ynte gellid eu planu yn mis Mawrth rhwng y planigion bresych. Y mathau goreu yw rhai Windsor a Mazagan.

Mae amrywiaethau o lysiau ereill, ond nid rhaid manylu arnynt yma, gan y bydd y rhai a enwyd yn ddigon yn gyffredin i ardd y ffermwyr a'r bwthynwr.

Mesurau gofynol o Had i Ardd Cotty.—Gwnaiff peint o bys hau rhych o bedair llath ar ddeg o hyd ; a pheint o ffa, ddwy lath ar hugain ; wns o had winwyn, deg llathen ysgwar ; haner wns o had cennin, chwech llathen ysgwar ; wns o had moron, ddeg llathen ysgwar ; wns o had panas, ddeuddeg llathen ysgwar ; wns o had bresych, rhwng tair a phedair llathen ysgwar.

Blodau.—Dylai yr ardd gynwys amrywiaethau o'r rhai hyn, yn enwedig os yn agos i'r ty; yn y fath amgylchiad, yn neilduol, ni ddylai yr ardd gael ei chyfyngu i ddwyn llysiau bwytaol yn unig, ond dylai gynwys yr addurniadol yn gystal a'r buddiol. Ni ddylid, er hyny, roddi gormod o amser na lle i'r blodau, o herwydd paham, gwnawn grybwyl ychydig o'r rhai caletaf a hawddaf eu trin, a rhai hefyd a fyddont yn foddaol ar bob tymor o'r flwyddyn.

Oddeutu ae uwch ben y drws gellir gosod ychydig o rosynau celyd talion, er addurno y fynedfa. Gosoder rhosynau misol cyffredin, neu rosynau China oddiamgylch conglau y ty, neu dan ac ar hyd ymylau y ffenestri, yn gymysgedig a *laurestinus*, *arbutus*, a *pyracantha*; a gofaler fod gwlynwydd mewn rhyw gongl neu gilydd, yn ymglymu am ryw bren, neu yn crogi wrth gornel y mur.

Ceisier planigion can' dalen, mwsym, a rhosynau amryliw a chyffredin, a rhodder hwynt yn y cornelau o'r ardd nesaf i'r ty; ac yn yr ymylau, planer addifferion, saffarn, llysiau yr afu, gauafol lysiau y blaidd, y tiwlib coch a melyn, gwyrif-fotymau gwynion a melynion, briallu, llysiau y gwynt, gwayw y brenin, aml-flodeulys, tewbanog, lili felen a gwen, paladr a murflodau o wahanol liwiau, hocysybendigaid, *dahlia*s, *jonquils*, llysiau y drindod, a'r cyff Virginia bychan a thlws, ac unrhyw flodeuyn arall a ddymunir ac a ellir gael.

Pe celai y gwelyau blodau eu hymylu ag aspygau yr ardd, a rhywogaethau celyd o *auriculas*, ni byddai ond

ychydig o dyddiau yn y flwyddyn na byddai rhyw flodeuyn yn ymagor, ac yn boddâu y llygad wrth edrych arno. Gwnaiff celyn, lawryf, neu'r *rhododendron*, edrych yn hyfryd yn y cysgod, a gwnaiff eu gwyrddlesni paraol adfywio y llygaid yn y gauaf; a diamheu fod y fath olygfa ag a rydd gardd drwsiadus bob amser yn werthfawr; gwna ddaioni i'r galon, cyfrana fath o deimlad mwynaidd a hynaws i fynwes yr edrychwr, a gwasanaetha er cadw allan feddyliau drwg.

Anoger plant yn eu chwaeth am flodau. Dysger hwynt i blanu hadau a gwreiddiau, ac i'w chwynu a'u cadw yn lan, ac i'w trefnu a'u hamaethu; ac nis ymedu hyn a hwynt pan heneiddiont. Yn y cyfryw bethau, ac mewn adgofion o'r dyddiau a aethant heibio, mae ymlyniad lleawl yn cael ei sylfeini; hyn a wna ymwelliad i fro genedigaeth yn hyfryd, ac a ddŷg adref y crwydryn o hinsoddau pellenig i geisio yr orphwysfa ddiweddaeth yn ei hen dreftadaeth.

IECHYD.

Iechyd da yw un o'r bendithion penaf a all dyn fwynâu, beth bynag fyddo ei sefyllfa; ac i'r llafurwr mae mor hanfodol angenrheidiol, fel y gellir dyweud fod ei fywoliaeth yn ymddibynu ar hyny. Heb iechyd, ni all y llafurwr ganlyn ei waith, na bod yn alluog i gyflawni ei angenrheidiau teuluaid; ac heb iechyd, ni all y ffermwyr gyflawni ei arolygiaeth, neu gymeryd rhan yn llafurwaith y tir. Gan hyny, ni ellir bod yn rhy ofalus i gadw iechyd heb ei niweidio, ar ba un y mae cymaint yn ymddibynu.

Mewn amgylchiadau cyffredin, mae cadwraeth iechyd yn sefyll i raddau mawr ar ymarferiadau dynion, ac ar natur a diwallrwydd o ymborth a gwisgiad, ac ar y lleoedd y preswylir ynddynt. Cynigiwn sylw byr ar bob un o'r rhai hyn; ac yn y lle blaenaf, gwnawn ychydig o sylwadau cyffredinol mewn perthynas i iechyd, pa rai, os telir sylw priodol iddynt, hwyrach y diengir rhag

ymweliadau clefydau; ond os eu hesgeulusir, byddir yn debyg o ddioddef o'u herwydd yn y canlyniad.

Dylid yn benderfynol ochelyd pob gormodaeth mewn bwyta ac yfed. Diwaller natur, ag unrhyw beth fyddo dros ben hyny sydd niweidiol; ac y mae llaweroedd o glefydau yn cael eu hachosi gan órmodedd yn yr ystyr hyn. Mewn anhwylderau na wnat ymostwng i driniaethau cyffredin bydd bob amser yn sicrach, ac yn llai o gost yn y pendraw, i geisio cynorthwy meddyg deallus, a dilyn yn fanwl ei gyfarwyddiadau.

Mae rhagflaeniad bob amser yn well nag adferiad; megys ag y gellid yn ddiamheu yn fynych ragflaenu aflechyd trwy ochelyd gormodaeth mewn bwyta ac yfed; yt un modd y gellid hefyd ei ragflaenu trwy fod yn ofalus yn nghylch ymddilladu. Nid oes dim yn debycach o beri anwyd, ac o achosi twymyn, na dillad gwlybion. Tra yn gweithio, neu mewn ymarferiad gorchestol, mae y corph yn gyffredin yn alluog i wrthweithredu effeithiau dillad gwlybion; ond o eistedd yn llonydd, neu orwedd i lawr ynddynt, byddir yn gyffredin yn sicr o gael anwyd, ac yn debyg o gael twymyn, gewynwst, neu ryw aflechyd poenus arall. Dylid gan hyny ofalu ar fod dillad sychion yn gyflëus i'w newid bob amser os yn bosibl. Mae dillad gwlybion wedi bod yn achos o lawer o glefydau peryglus.

Gyda golwg ar breswylfeydd, gellir yn gyffredin wneud llawer tuag at eu gwneud yn fwy cyflëus a chysurus, yn gystal ac yn fwy iachus. Dylid bod yn ofalus na byddo llynoedd o ddwfr llonydd yn cael aros oddiamgylch iddynt. Mae y tawch afiach a gyfyd o honyt, ac o'r tomenau, neu o unrhyw ddefnydd braenol, bob amser yn neweidiol er achosi twymynau a chlefydau ereill, yn neillduol ar dywydd gwresog. Dylai y tir oddiamgylch y tŷ fod wedi ei ddyhysbyddu, a'i gadw mor sych ag y byddo yn bosibl; a dylai pob achles, a'r cyffelyb, gael eu symud mor belled fel na byddo unrhyw arogl afiachus i gyraedd y tŷ.

Rhaglawiaeth neillduol y wraig yw goruchwyliaeth dufewnol y tŷ, a bydd ei nodweddiaid a'i chyfrifiad gyda ei gwr a'i chymydigion i ymddibynu yn fawr ar y drefn a'r tlynni a arfera; a phan gofir fod cysur a iechyd ei theulu yr un modd yn sefyll i raddau mawr ar ei bywiogrwydd a'i threfnusrwydd yn yr ystyr hyn, ni bydd ar wraig dda a synwyrol eisiau chwaneg er ei chymhell i fod yn ofalus yn nghylch cyflawni ei dyledswyddau.

Pa mor fychain bynag y byddo yr ystafelloedd, dylent gael eu cadw yn sychion ac yn lan bob rhan o honyn, a ddylai y gwelydd gael eu gwyngalchu yn aml. Na osoder dillad gwlybion un amser i aros yn yr ystafell a drigfenir. Ysgyber y lloriau yn lan, a thafler allan bob brynti i'r tomenau.

Dylai yr ystafelloedd gael eu priodol wyntyllio, yn enwedig yn y boreu, pan ddylai y drysau a'r ffenestri gael eu hagoryd, er gollwng helaethrwydd o awyr iachus i mewn. Mae hyn o'r pwys mwyaf mewn afiechyd, yn neillduol twymyn; oblegid heb y cyfryw ragflaeniad bydd twymyn heintus yn sicr o ymledu a gafaelu yn mhawb o fewn ei chyraedd. Mewn gair, ni ellir bod yn rhy ofalus yn nghylch cadw y tai yn lan, a'u gwyntyllio yn dda, fel moddion er cadw clefydau draw, ac er lleiâu eu grym pe digwyddai iddynt dori allan.

Mae cysur pob un yn bersonol yn ymddibynu i raddau mawr ar gadw ei hun yn lan, a gwnaiff hyn hefyd dylanwadu ar orchwylion bywyd yn gyffredinol, oblegid lle byddo glanweithdra yn eisiau mewn teulu, bydd y diogi a'r musgrellni a'i hachosa yn sicr o effeithio ar y cwbl; tra gwnelo ychydig o ragfeddwli, sylw, bywiogrwydd, a threfnusrwydd, yr hyn a bair gadw pob beth mewn tŷ yn lan ac yn syber, hesyd effeithio ar bethau ereill, a chynyrchu llwyddiant a dedwyddwch cyffredinol.

YMBORTH.

Ymborth yw un o brif angenrheidiau bywyd, ac nid yn unig ni a ddylem gael digon o hono, ond hefyd y mathau goreu a mwyaf cyfaddas, yn nghyd ar dull mwyaf cyflëus a diwastraff o'i barotöi.

Hyd ag na byddo yn gaeth i'w flys, dylai pob dyn, beth bynag fyddo ei sefyllfa, ymgais am gael i'w fwyta yr hyn fydd yn foddaol i'r archwaeth, yn gystal ag yn feithrinol i'r cyfansoddiad. Geill gwendid yn y cylla gael ei achosi gan ddifyg digon o amrywiaeth mewn ymborth, neu ynte o eisiau ymborth digon cymellyddol; ac y mae yn debyg fod llawer o anhwylderau peiriannau y cylla yn cyfodi yn wreiddiol oddiwrth yr achos hyn.

Gydag ychydig gyfnewidiad a chwanegiad, gallai ymborth y llafurwr yn aml fod yn fwy boddadol ac iachusol nag ydyw yn gyffredin yn y dull y trinir ef yn bresenol. Pysgod, os gellir eu cael, a wnant chwanegiad gwerthfawr; hefyd, gydag ychydig ofal a rhagfeddwl, geill pob dyn a fyddo ganddo ardd fechan neu ryw gymaint o dir, gael yn achlesurol fesurau cymedrol o wyau, ymenyn, mêl, caws, a bacwn. Er engraifft, gellir gwneud llawer pryd rhagorol o fresych wedi eu berwi a'u briwio yn fân, yn gymysgedig ag ychydig o halen a phubyr, gyda chwanegiad o ddyrnaid o flawd neu gan, tafell o facwn, neu ychydig frasder o unrhyw fath; ac ni fyddai yr holl draul mewn gwneud cyflawn bryd i deulu cyfan, -ddim dros ychydig geiniogau. Gellir chwanegu at hyn, erfin, cloron, moron, neu ryw lysiau ereill, fel y byddo amgylchiadau yn rhoi. Mae winwyn, cenin, a garleg, o werth mawr mewn ceginiaeth cotty; ac y mae yr Yspaeniaid, y rhai sydd yn hynod am eu cryfder a'u hymddangosiad iachus, yn defnyddio llawer iawn o honynnt.

Heb fod yn fanwl iawn, gellid crybwylly y gwnaiff halen, winwyn, cenin sifi, persli, ac ychydig o bubyd du,

nid yn unig roi blas hyfryd ar ddysglaid o fresych, cloron, neu ryw lysiau ereill, ond hefyd ragflaenu gwyntogrwydd, neu unrhyw glefydau ereill yn cyfodi oddiar ormodedd ddefnyddiad o lysiau-fwyd; a dylid cadw gwêr, ymenyn, y rhanau brasaf o'r bacwn, neu ryw frasder arall, er ei daenu dros boten gloron, a physgod ffriedig, y rhai, o'u berwi yn unig, nid ydynt mor feithrinol.

Mae cig oer yn llai rhinweddol, ac nid aiff mor bell a chig twym; a phe gwneid cawl neu lymedfwyd o hono, cyraeddai mor belled arall ag y gwnai wrth ei rostio, ei bobî, neu eu ferwi. Mae pob math o gawl mall ferwadau, a briwfwyd o gig, yn gymysgedig a llysiau, persli, cenin sifi, wynwyn, halen, a phubyd, yn well ac yn rhatach, yn fwy rhinweddol a blasus i'r gweithwyr, na chig ei hunan. Gwnaiff pen eidion gydag ychydig o flawd ceirch, neu gan, ychydig winwyn, cenin, blagur bresych, erfin wedi eu tafellu, neu unrhyw fath o lysiau, ugain chwart o isgell hyfrydol.

Os bydd y pysgod yn hali, gwneler poten o honynt, wedi ei briwio yn fân, a'u cymysgu a chloron, ag ychydig winwyn neu cenin sifi, a mesurau angenrheidiol o bubyr. Bydd hyn yn well na phe'u bwytéid wedi eu berwi yn unig; neu ynte os gellir hebgor ychydig o ymenyn, bloneg, neu unrhyw fath arall o frasder, a'i gymysgu a hwynt, a'u rhoi o flaen y tân, nes y byddai y tu allan yn dechreu cochi, gwnai eu gwellâu yn fawr iawn.

Pan fwyteir unrhyw fath o bysgod newydd eu dal, glanäer a thrwsier hwynt yn lân; yna torer hwynt yn ddarnau, a gosoder hwynt mewn crochan a dwfr drostynt; chwaneger atynt rhyw gymaint o gloron, wedi eu pilio neu eu crafu, yn nghyd ag ychydig bersli a cenin sifi, neu winwyn, wedi eu briwio yn fân, gyda halen a phubyd; a thra yn berwi, dylid cymeryd wyneb y gwlybwr ymaith yn ofalus, hyd nes y byddo yn eitha glân. Gwnaiff hwn ddisglaid o fwyd blasus, pan pe buasai

y pysgodyn yn cael ei ferwi wrtho ei hun, a'r dwfr i gael ei dafiu ymaith, buasai ei haner yn cael ei afradu.

Pa ddull bynag y parotöer y bwyd, dylid tuhyd y sylw manylaf i lanweithdra. Heb hyn bydd yr ymborth goreu yn afiachus; a lle byddo syberwyd, bydd ymborth cyffredin yn flasus, iachus, a rhinweddol. Mae edrychiad salw a theneu mor aml yn cael ei achosi gan ddifyg gofal priodol, medrusrwydd, a glanweithdra mewn parotöi bwyd, ag ydyw gan ddifygiolrwydd o beth yw barotöi.

Ac am ddiiod, ni all fod un amheuaeth nad dwfr, diod ein rhieni cyntaf, ydyw y mwyaf iachus. Geill cwrw frasâu, a phoethlynoedd, mewn amgylchiadau o flinder a lluddled mawr, roi ymddangosiadol adnewyddiad am ryw gymaint o amser; ond tra y mae miliynau o ddynion wedi ei niweidio a'u dystrywio trwy ddefnyddio diodydd brag a phoethlynoedd, nid oes neb wedi ei niweidio trwy yfed dwfr, yr hwn sydd yn feddianol ar burdeb a wna nid yn unig ragflaenu, ond yn fynych wellâu clefydau; ac y mae wedi ei brofi tu hwnt i bob amheuaeth, mewn amgylchiadau o luddled blin oblegid anwyd, fod cymeryd peint o ddwfr twym yn well moddion adferol na phoethlynoedd o unrhyw fath, y rhai na wnant ond yn unig cynhyrfu math o dwymyn ar y pryd; ac mewn gwirionedd, y maent yn fath o wenwyn i'r cyfansoddiad o'u cyson harferyd.

Y mae yn dda nad yw nerth angenrheidiol er beunyddiol lafur yn ymddibynu ar borthiant moethus, ond ar ddiwalliant o ymborth syml a rhinweddol; ac yn gyffredin gall pob dyn iach o gorff a meddwl gael yr hyn sydd yn angenrheidiol er ei ddiwallu, ond iddo arferyd gofal ac ymdrech priodol.

DILLAD.

Mae y fath ddillad a fyddo yn gweddu cael eu defnyddio, bob amser yn ymddibynu i raddau mawr ar amgylchiadau a galwedigaeth dyn, yn nghyd ag ar y

lleoedd y byddo yn byw ynddynt. Brethyn cryf, neu ryw ddefnydd tew arall, wedi ei wneud yn glös neu yn Bodrâu, hugan fer neu siaced gron, a hosanau gwlan, yw y gwisgiad sydd yn fwyaf cyffredin yn gweddu dyn fo yn agored i'r tywydd wrth ennill ei fywoliaeth; a gallir chwanegu hugan, ac arwisiq, yn cyraedd hyd y gennist, gyferbyn a thywydd garw a gwlawog. Dylid cadw dau bár o esgidiau; un ar gyfer gwaith caled, a'r Hall ar gyfer gwaith ysgafn, ac i'w gwisgo yn y tŷ, ac ar y Sabbathau. Ac yn wir pe byddai chwaneg na dau bár, fel y gallai un gael amser i hollo sychu ar ol eu gwlychu cyn eu gwisgo drachefn, goreu yn y byd yn y pen draw, gan y parânt felly lawer yn hwy. Ni ddylai esgidiau bryntion byth gael eu goddef i ddyfod yn nes yn mlaen na'r drws, lle y dylai par sychion gael eu cadw er eu defnyddio yn y tŷ.

Mae y fath amrywiaeth yn ngwisgiadau benywod, fel y mae yn fynych yn bur amhëus pa un sydd oreu mewn unrhyw amgylchiad neillduol; ond mewn gwisgoedd uchaf, mae rhai gwlan yn gyffredin yn rhagori ar rai cotwm; y rhai er eu bod ar y cyntaf yn edrych yn fwy hoyw a rhatach, a gollant eu lliw yn gynt, ac ni pharânt cyhyd. Mae clogynau cochion a gleision, a gwddf-leni (*shaws*) gwlan rhwyllog tywyll yn gynes, ac yn brydferth; ac y mae penguwch yn anhebgorol i wraig ag fyddo yn ewyllsio cadw ei phrydferthwch, a gochelyd crychni anamserol. Mae pob beth na fyddo yn angenrheidiol er glanweithdra a chysur, ac er tlysni a gweddeidd-dra i'w ochelyd mewn gwisgiadau, pa un bynag a'i yr eiddo gwrrywod neu fenywod fyddont.

Mewn dilladu plant, cynearwydd ddylai gael ei ystyried yn benaf. Gwraig drefnus, yr hon fyddo yn wneddyddes dda, a fydd yn aml yn alluog i ddilladu ei phlant yn ddestlus o ddarnau o'i hen ddillad ei hun ag eiddo y gwr; a chaiff y rhai bychain felly eu dilladu yn weddus ar ychydig fawn o draul. Gwnaiff hyn, pa fod bynag, ymddibynu llawer ar ei dyfaisgarwch a'i

threfnusrwydd; ac ni ellir cymell hyn yn ormodol ar bob merch neu wraig.

Dywed yr hen ddiareb y gwnaiff "pwyth mewn pryd arbed naw;" a pha le bynag yr amlygir gofal priodol am adgyweirio dillad y teulu, gellir bod yn sier nad yw cysuron teuluaidd ereill ddim yn eisiau. Gwnaiff dillad plant neu ddillad gwaith y gwr, er yn hen, os yn lan ac wedi eu gweddus ddarn-bwytho, ganmol trefnusrwydd y wraig, ac arddangos arferiad hollol wrth-wynebol i'r hyn a ganfyddir mewn dillad bryntion neu fratiog, y rhai sydd yn arwydd sier o wraig ddiog ac esgeulus.

PRESWYLFYDD.

Gwnaiff porth o flaen y drws chwanegu yn fawr at gynesrwydd, glendid, a chysur cyffredin annedd-dy, pa un bynag a'i bychan a'i mawr fyddo ei faintioli. Gwnaiff porth o flaen tŷ ffermwyr bychan, neu gotty gweithiwr, wasanaethu fel lle i gadw hugan a het wlyb, yn nghyd ag esgidiau bryntion y gwr, yn gystal ag ysgubelli a gwrych rugloedd y wraig lanwedd, yr hon ni wnaiff oddef i ddim bawlyd ddyfod yn nes i mewn i aflanâu ei hystafelloedd taclus. Gwnaiff y fath reolaidd-dra chwanegu yn fawr at gysur cyffredinol, a chadw draw yr afliendid a'r anrhefnusrwydd a fyddai yn sier o gymeryd lle oni bai hyn.

O'r porth eir i mewn i'r gegin, neu yr ystafell lle y coginir ac y bwyteir, a'r lle y mae y tylwyth yn arfer byw, ac yn mha le y dygir yn mlaen oruchwyliaeth gyffredinol y tŷ; ac o ganlyniad, y mae yn fwy o bwys i gadw yr ystafell yma yn lan ac yn syber, ac ar fod i bob peth perthynol iddi gael ei wneud gyda golwg ar fuddioldeb a chysur.

Dylai ystafelloedd gwelyau fod wedi eu cyflêu fel ag na byddo i reolau gweddaidd-dra gael eu troseddu. Pa mor dlawd ac isel bynag fyddo'r amgylchiadau, ni ddy-lai aelodau ieuangaf y teulu o wahanol ystlen, gael eu

gadail i gysgu yn yr un ystafell ar ol cyraedd deng mlwydd oed. Mae o'r pwys mwyaf i'w nodweddiad a'u hymddugiad mewn bywyd dyfodol i'r bechgyn ar merched, brodyr a chwiorydd gael gwahanol ystafelloedd i gysgu ynddynt Os na ofelir am hyn tra byddont yn blant, bydd y gwylder a'r moesgarwch hyny sydd yn cyfansoddi prydferthwch hawddgaraf, a'r diogelwch sicraf i nodweddiad dynes yn sicr o gael eu dystrywio, a bydd nodweddiad yr ystlen arall yn debyg o gael ei niweidio yn fawr. Mae y pwnc yn deilwng o sylw pob pen teulu ; ac ni ddylai byth gael ei esgeuluso.

Beth bynag fyddo maintioli a nifer ystafelloedd y gwelyau, dylent oll gael eu cadw yn lan ac yn syber ; a pha frys bynag fyddo, ni ddylai boreufwyd gael eu fwyta cyn agor y ffenestri i ollwng awyr newydd i mewn, a chyn i'r gegin, y porth, ac oddeutu y drws gael eu hysgubo yn lan.

Fel rheol gyffredin, dylai y gwelyau gael eu hysgwyd yn dda, a'u gwneud i fynu yn daclus, y llestri gael eu golchi, a'r holl dŷ gael eu awyro a'i ysgubo bob dydd y peth cyntaf yn y boreu. Ni ddylid gwneud unrhyw esgusodion dros beiddio cario allan y lludw, yr ysgubion, a'r golchion, y rhai a ddylai bob amser gael eu taflu i'r tom-bwll, ac nid eu hysgubo i ryw gornel naill ochr.

Mewn trefnidaeth tŷ, dylai pob peth gael ei wneud yn drefnus a rheolaidd bob dydd, gan y byddai hyn yn y diwedd yn arbediad amser a thrafferth. Ac yn wir, lle byddo teulu o blant, dylid eu rhoi ar waith er eu dysgu i fod yn drefnus a defnyddiol. Nid oes un plentyn, os bydd wedi cyraedd chwech oed, na all helpu mewn dyledswyddau teuluaid ; a phan ystyrir na wnaiff cario y lludw, golchion, neu unrhyw garthion ereill i'r lle y dylid, ddim cymeryd dros bum' mynyd o amser, sicr na fydd hyny ddim i gael ei dybied yn ormod er diogelu cysur, glendid, a threfnusrwydd ; oblegid dylid cofio yn wastad, nad oes dim mor afradus a threulfawr a dull mochynaidd o fyw.

RHAGDDARBODAETH.

Nid oes un dyn ystyriol na theimla bwysigrwydd ac angenheidrwydd o ragddarparu erbyn henaint; pan ddelo gwendidau, a methiant i ganlyn dyledswyddau bywyd yn mlaen, gwnaiff eisiau a thlodi fel gwyr arfog amgylchynu yr hwn na fyddo wedi rhagddarbodi ar eu cyfer; oblegid trwy ddiwydrwydd, gofal, ac ymdrech mewn ieunctyd ac iechyd, mae bod yn gysurus mewn henaint a methiant.

Hwyrach yr ymddengys cynilio ychydig e'r hyn a ennillant i rai yn beth amhosibl; ond gwyr y rhan fwyaf sydd yn gwneud hyn, bod mwy yn ymddibynu ar ofal a diysgogrwydd meddwl, nag ar y swm a ennillir; tra y mae ereill a aillent ac a ewyllysient, na ddarfu iddynt erioed wneud, a hyny yn unig oblegid na wnaethant y prawf. Bydded i bob un *benderfynu* dechreu; ac yna fe diflana yr anhawsdra. Beth bynag a roir heibio, gosoder yn ddiogel mewn banc cynilio. Na fydded i neb ymddiried yr arian a enilla yn galed, yn nwylaw unrhyw bersonau neillduol, na chwaith i'w cadwraeth eu hunain: yn nwylaw y cyntaf gellid eu colli trwy anffawd, twyll, neu afradaeth; ac yn nwylaw yr olaf, hwyrach y'u temptir i'w gwario neu eu gwastraffu, ac felly yn y canlyniad i fod yn y diwedd yn ymddfifad o ffrwyth y cyniliad o'r blaen.

Pa le y mae y dyn a eill yn wirioneddol ddyweud na allasai rhwng deunaw a phumtheg ar hugain oed roi heibio 6ch. yn yr wythnos? A phwy a ddarfu erioed fethu ag a ymosododd at hyn yn ddifrifol? Pa mor anewyllysgar bynag i ddechreu, a pha mor *benderfynol* bynag yn ei feddwl y gallai un fod o amhosibl rwydd hyn, eto yr ydym yn credu nad oes braidd un engraisft, lle cafodd ei gychwyn, nad aethpwyd yn mlaen gan chwanegu at y drysorfa, ac mewn cynyddu mewn ymdrechiadau arbedol; ac yr ydym yn holol gredu mae felly fyddai yn mhob amgylchiad, pe gwnelid

prawf teg o hyny. Mewn gair, dechreuer ac yna fe lwyddir.

Mewn cysylltiad a rhagddarbodaeth, gwnawn yn mheliach ymdrin ychydig a'r pynciau pwysig,—priodi, magu, ac addysgu plant; oblegid fod nid yn unig dedwyddwch tymorol y rhieni, ond hefyd eu dedwyddwch tragywyddol hwy a'u plant yn ymddibynu ar uniondeb yr egwyddōrion a fabwysiedir yn nghyflawniad y dyledswyddau hyn.

PRIODASAU.

Mae fod cytundeb mor bwysig ag yw priodas yn gofyn, o angenheidrwydd, gael ei ragflaenu gan yr ystyriaethau difrifolaf, yn wirionedd hunan brofedig i bob dyn ystyriol; ac eto pa gynifer sydd a frysiant i glymu eu hunain am eu bywyd, yn hollol ddifeddwel am y canlyniadau.

Mae yn sier nad yw yr Ysgrythyr wrth gyhoeddi priodas yn anrhyydeddus, ddim yn pleidio y drygedd a'r ynfydrwydd o i rieni arwain eu hunain a'u plant i dlodi, ymrystonau, a gofidiau. I'r gwrthwyneb tybia y Bibl y sefyllfa briodasol yn un ddedwydd, serchiadol, a chy-surus yn holl gysylltiadau bywyd. Ond ai felly y mae? A oes posiblrywydd iddi fod felly, yn y dull y mae llawer o ddynion yn fynych yn ieueinc iawn, mewn modd difeddwel yn ymruthro i wneud y cytundeb difrifolaf ar y ddaear? A eill y cyfryw' briodasau diddarbodus fod yn iawn neu yn anrhyydeddus? Onid gwir y dywediad cyffredin, "pan ddel tlodi i mewn trwy y drws, yr â cariad i maes trwy y ffenestr?" Pa fodd gan hyny y gellir disgwyl bod yn ddedwydd yn y sefyllfa briodasol, oddieithr i ni ymddwyn yn ddoeth, ac yn deilwng wrth ymlwybro tuag ati?

Mae dynion ieueinc yn gyffredin yn tybied eu hunain yn ddigon hen a chall i briodi, ac i gymeryd arnynt ofal a threfnidaeth deuluaid; a hyny cyn y byddont yn medru rheoli eu nwydau anystywalt eu

hunain, a chan ystyried priodas fel math o goelbrenaeth (*lottery*), ymruthrant iddi heb nag ystyriaeth na rhagddarbodaeth er cyflawni eu rhwymedigaethau canlynol.

Pa mor gyffredin y gwelir dau yn priodi, ac yn dwyn rhai bychain i'r byd, heb unrhyw ragddarbol tuag at eu cynal, a bywoliaeth pa rai eu hunain oddiar pan aethant at eu gilydd, sydd yn ymddibynu yn holol ar adnoddau ag a allai clefyd, neu fil o ddamweiniau ereill, ei ddinystrio mewn mynydyn! Fe allai y gwna y cyfryw bersonau apelio at yr Ysgrythyr, ac ymdrechu cysgodi eu hunain dan yr esgus o ymddiried yn Rhagluniaeth: ond cynysgaeddodd Rhagluniaeth ni a rheswm er rheoleiddio ein ymarweddiaid; ac arfeiddio ei hyffordd-iadau yw peidio gwrando ar lais rheswm.

Ymostwng cyn iseled ag afresymolion, ac i ddwyn ein rhai bychain i'r byd, mor ddifeddwyl am eu dedwyddwch ac yw yr estrys am ei hwyau, y rhai a ollynga i'r tywod, ac a'i gedy i'r haul ddeor arnynt, ni all yn sicer fod yn briodol ymorphwysiad ar Ragluniaeth. I'r gwrthwyneb, di-ddarbodaeth yn uniongyrchol yw hyn, ac arddangosiad o greaduriaid wedi ynfedu, a'r canlyniad yw yr hyn a bair i'r tosturiol a'r dyngurol yn feunyddiol i wylo.

Ni chyflawn-eir un creadur rhesymol, yn ngolwg Duw na dynion, am osod ei hun mewn sefyllfa o ddwyn plant i'r byd, heb allu darparu ar eu cyfer, ar neb a ddelo yn dad, heb unrhyw olwg am fodd i gadw ei blant rhag bod mewn eisiau angenrheidiau bywyd, sydd yn euog, mewn ystyr foesol, bron o gymaint camwedd a phe taflai ei blentyn allan i'r heol fawr i farw.

Nid ydym mewn un modd am ymddifadu un dosparth o bobl, ond i'r gwrthwyneb, yr ydym yn ddiffuant ddymuno i bob dosparth sicrâd o'r mwyniant, a'r cysuron hyny a gyfodant oddiwrth ymarferiad o rinweddau teuluaid a serchiadau cymdeithasol; ond i'r dybenion *hyn mae pob un o bob dosparth yn rhwym o gadw tueddiadau anifeilaidd o dan reolaeth rheswm*, ac i ym-

ddwyn fel ag i beidio dystrywio ei ddedwyddwch ei hun na'r eiddo ereill, oblegid peidio sylwi ar gyfarwyddiadau rheswm, a thrwy hyny ddarostwng ei hun yn gydstatd ag anifeiliaid y maes.

Dylai y rhai fyddo yn nghylch myned i'r ystad briodasol ofyn iddynt eu hunain, neu ynte dylai ereill ofyn iddynt, a ydynt yn ystyried y dyledswyddau a'r gofalon y maent yn ymgymeryd a hwynt, ac a oes ganddynt olwg eu bod yn alluog i'w cyfarfod pan ddelont i'w cwrdd? Os nad oes, y maent yn sicr yn parotöi iddynt eu hunain a'u rhai bach ofidiau a thlodi parâus. Ac wrth wneuthur felly, gwnant hefyd annedwyddu eu cymydogion trwy daflu arnynt feichiau ac y dylent hwy eu hunain eu dwyn, a thrwy chwanegu nifer y llafur-wyr i ddwyn gwaith a bywoliaeth oddiar y rhai ac y mae eisoes yn ddigon prin arnynt.

DYGIAD PLANT I FYNU.

Ni ellir dechreu yn rhy foreu ar addysgu plant. Mae pob mam yn alluog i ddysgu uffudd-dod, gos-tyng-eiddrwydd, glanweithdra, ac ymddygiad gweddus i'w phlant; ac y mae yn hyfryd fod dechreuad gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo i'r plentyn gan un sy mor dyner o hono. Ac mewn caniatâu i blant gyda mwyn-eidd-dra serchiadol, yr hyn sydd yn iawn, ac mewn gomedd iddynt gyda phenderfyniad synwyrol, yr hyn sydd amhriodol, y mae eu dedwyddwch i gael ei hyrwyddo, ac ymddygiad da i gael ei sicrâu. Os caiff plant eu harfer yn foreu i fod yn addfwyn ac uffudd, ni cheir mewn cymariaeth nemawr o drafferth gyda hwynt yn y canlyniad.

Nid yw hyfforddiant ac addysgiaeth plant i'w ystyried ond fel moddion er cyraedd y dyben; oblegid nid yw pob cyraeddiadau a phob gwybodaeth ond ofer, os na fydd iddynt ein gwneud yn well dynion yn ngwahanol sefyllfaodd bywyd, fel rhieni, plant, gwyr, a gwragedd; a'n harwain i ymarferyd y rheol ddwyfol

hono, " Pa beth bynag a ewyllysioch wneuthur o ddynion i chwi, felly y gwnewch chwithau iddynt hwy."

Meddylier ynte ein bod wedi rhoddi addysg digonol i'n plant, eu bod wedi bod yn yr ysgol yn rhai bychain, ac eilwaith wedi tyfu i fynu, a'u bod wedi dyfod yn mlaen yn ngwahanol gangenau dysgeidiaeth, i'r graddau angenrheidiol er canlyn y gwahanol alwedigaethau y bwriedir hwynt iddynt, eto mae rhyw beth chwanegol yn ofynol oddiwrth iieni plant; gelwir arnynt i ofalu am eu haddysg foesol a chrefyddol, ac hefyd i roddi siamplau da o'u blaenau, rhag iddynt gael eu llygru ganddynt.

Camsynied mawr mewn rhieni yw gallant guddio eu beiau rhag eu plant, oblegid y mae plant yn graffus iawn ar yr hyn sydd ddrwg, ac yn hawdd ganddynt efelychu yr hyn sydd feius; ac os gyda y geiriau "Na ledrata" yn eu genau, y gwna y rhieni gymeryd rhyw beth nad yw eiddynt, neu gymeryd mantais amhriodol ar ereill, gwnant aneffeithioli y gorchymyn, a dysgu eu plant i fod yn anonest.

Pa fodd y gellir disgwyl i'r plant ddychrynu rhag meddwdod, os byddant yn gweled eu rhieni yn meddwi, neu eu clywed yn siarad am yfed fel peth pleserus? Ac os cymellir y plant trwy addevidion teg i gyfaddef eu bai, ac yna eu ceryddu am dano, oni wna hyny eu digaloni i ddyweud y gwir drachefn? Neu ynte os byddir yn dal nad oes dim i'w ddyweud ac a fyddo mewn uhrhyw fodd yn taro yn eich erbyn chwi, gan orchymyn i'r plant, "Cofiwch beidio dyweud fel hyn ar fel," a ellir disgwyl iddynt beidio dyweud anwired pan y byddo hyny yn taro eu tro?

Os bydd y rhieni yn erwin a nwydwyllt yn eu hymddygiad, eu hiaith yn drosgl a chreulon, a'u dull yn annyoddefol a thraâus, oni wna y plant gael eu heffeithio gan y cyfryw esiampl; ac oni wna hynddystrywio y rhinweddau gwir Gristionogol hyny, sef, addfwynder, hir ymaros, a chariad, gyda eu gwaith yn tori allan?

Iawn y dywedwyd fod "Meddwdod yn bwrw allan reswm, yn anhwylusu y corph, yn poethi y gwaed, yn amharu y cof, a'i fod yn rheibiaeth i'r synwyrau, yn ddiafol i'r enaid, yn lleidr i'r pwrs, yn gydymaith i'r rheidus, yn wae i'r wraig, ac yn ofid i'r plant; ac y mae hunan leiddiad, ac arlun o anifail yw y meddwyn, un yn yfed iechyd da rhai ereill, ac yn dinystrio ei ddedwyddwch ei hun, yn nghyd ag eiddo y rhai hyny y dylai eu hamddiffyn, eu caru, a'u cysuro." Ond ni raid i neb fod yn euog o'r bai hwn nag o un bai arall, *yn y drygedd eithaf o honynt* er dylanwadu ar ei blant trwy ei esiampl; ond os myn neb eu dwyn i fynu yn yr ymarferiad o gyflawni eu dyledswyddau yn briodol, fel ag i sicrâu eu llwyddiant yn y byd hwn, a'u dedwyddwch tragedywyddol yn y byd a ddaw, rhaid iddo ymgadw oddiwrth bob rhith drygioni.

CYFARWYDDIADAU MEDDYGOL ER GWELLAU CLEFYDAU ANIFEILIAID.*

GWARTHEG.

Archollion.—Isgell at y clwyf: Pedair wns o aloes *Socotra* neu *Barbadoes*, wns o fyrr wedi ei falu yn fras, peint o *spirits of wine*, a dau beint o ddwfr. Bydded iddo gael aros pedwar diwrnod ar ddeg, gan ei siglo yn achlysurol; yna defnyddier ef. Gwellâ clwyf yn well heb ei wnio, ond iddo gael ei lanâu yn ofalus oddiwrth bob baw. Os yn enynol iawn defnyddier sugaethan. Os yn codi yn dethau marw, golcher ef a'r cymysgedd canlynol cyn defnyddio yr isgell. Wns o *blue vitriol* ar ben peint o ddwfr.

Bwrw Lloi.—Y driniaeth ddylai buwch gael cyn bwrw llo, yw ei chadw yn dda, nid yn rhy dew nag yn rhy denau; cefier ei bod yn cyflawni gwasanaeth

* Gelwir y cyffleiriau meddygol yma ar yr enwau a elwir arnynt yn masnachdai y fferyllwyr.

dwbl, sef rhoddi llaeth ac ymgeleddu y llo : hespâer hi ychydig o wytynosau cyn byddo ei hamser i lydnu. Bydded iddei choluddion gael eu cadw yn weddol rydd —gosoder hi mewn lle cysgodol neu ynte yn y tŷ —na aflonydder arni pan yn glaf, ond bydder yn barod i'w chynorthwyo, os bydd eisiau —ceisier iddi ychydig o grual twym, a gocheler gwlybwr oer. Peint o gwrw da iachus ar ben grual fyddai yn feddyglyn rhagorol.

Claf.—Haner pwys o frwmstan, chwarter peint o turpentine, a pheint o train oil. Elier y manau clwyfus yn dda a'r cymysgedd hwn.

Clefyd Melyn.—Dwy wns o diapente, dwy wns o bowdr had cwmin, a dwy wns o bowdr fenugreek. Berwer hwynt am ddeg mynyd mewn chwart o ddwfr, a rhodder i'r anifail yn feunyddiol mewn ychydig grual.

Clefyd Rhydd.—Rhodder haner wns o bowdr catechu, a deg gronyn o bowdr opium mewn ychydig grual.

Colig.—Y feddyginaeth oreu yw peint o olew had llin, yn gymysgedig a haner wns o laudanum.

Chwaren.—Haner pwys o halen, dwy wns o had coriander wedi ei friwio, ac wns o bowdr gentian.

Chwyddaint ar ol Meillion, &c.—Os byddir yn ofni, defnyddier rhefr-chwistrell er ei ragflaenu. Rhodder iddynt ddogn da o halen cyffredin, a chadwer hwynt rhag bod ar y dechreu yn rhy frysio wrth fwyta meillion neu laswellt bras.

Diod Landol.—*Bay berry*, brwmstan, a hadau cwmin, wns o bob un, wedi eu malu yn dda, yn nghyd ag wns o diapente. Berwer hwynt yn nghyd am ddeg mynyd, ac yna wedi oeri, rhodder i'r creadur, yn gymysgedig ag ychydig grual.

Fflammeg ar y perfedd.—Yr unig beth a ellir wneud yn y clefyd hwn, yw cymeryd gafael ar ryw fesurau BUAN iawn. Gwaeder yn gynar, ac yn aml os bydd achos. Yna rhodder diod wedi ei gwneud o bwys o halen Epsom, wns o nitre (*saltpetre*) wedi ei falu, a haner dram

o tartar emetic. Rhodder hyn mewn dau beint o grual; gan ei chwanegu bob chwech neu wyth awr.

Gormwyth (*Hoose, Catarrh*). — Magwraeth dda, gwaedu, ac yna dogn o halen Epsom, yn gymysgedig a dwy wns o sinsir. Yr un driniaeth i loi, ond fod y dognau fod yn haner cymaint.

Gwenwyn. — Y gwenwyn a lyngceir gan dda yn gyffredin yw crogedyf y dwfr, y pren yw, y cegid cyffredin, a chegid y dwfr. Y feddyginaeth oreu yw peint a haner o olew had llin; neu bwys o halen cyffredin mewn chwart o ddwfr neu grual.

Llaeth-dwymyn. — Dwy wns o frwmstan, wns o *dianpente*, wns o bowdr had cwmin, ac wns o bowdr *nitre*. Rhodder hyn yn feunyddiol mewn ychydig grual, a rhwbier y piw yn dda ag ychydig o saim gwydd.

Meddyglyn (*Cordial*). — Gellir ei wneud yn hawdd o wns o had *anis*, wns o had *carraway*, chwarter wns o sinsir wedi ei falu, a dwy wns o hadau *fenugreek*. Berwer hwynt mewn peint a haner o gwrw am ddeg mynyd, a phan oero rhodder i'r creadur.

Pigad Neidr neu Fadfall. — Rhodder ar y fan, yn uniongyrchol, ddiferion cryf o *hartshorn*. Ar bigad gwenyn, rhodder sialc neu *whiting*, yn gymysgedig a finegr.

Piso Gwaed. — Yn gyntaf gwaedu, yna pwys o halen Epsom, a chwaneger haner bwys bob wyth awr, hyd oni ryddâer y perfedd. Yn *Hampshire* rhoddir pedair wns o *bole ammoniac*, a dwy wns o *spirits of turpentine* mewn peint o grual.

Pryfaid. — Rhodder haner pwys o halen Epsom, a dwy wns o had *coriander* wedi eu briwio mewn chwart o ddwfr.

Twymyn. — Gwaeder, ac yna rhodder wns o *nitre* a dwy wns o sinsir, mewn ychydig o grual. Os yn rhwym, rhodder haner pwys o halen Epsom, mewn tri pheint o ddwfr, bob dydd, cyhyd ag y byddo eisiau.

Yssigdod. — Golcher y fan a'r cymysgedd o wyth

wns o olew pêr, pedair wns o *spirits of hartshorn*, a haner wns o olew teim.

LLOI.

Bol Rwydiad.—Y feddyginaeth oreu at hyn yw, dognau o ddwy neu dair wns o *castor oil*, neu olew had llin.

Clefyd Rhydd.—Gall y ffermwyr YMDDIRIED yn y cymysgedd canlynol. Cadwer hyn yn gyflëus yn wastad; gwnaiff y tro i bob creadur sugno. Pedair wns o sialc wedi ei barottöi, wns o bowdr rhisgl *canella*, wns o *landanum*, a pheint o ddwfr. Rhodder dwy neu dair llonaid llwy bwrdd, yn ol oedran y creadur ddwy neu dair gwaith y dydd.

Clefyd y Bogel.—Y driniaeth i'r clefyd peryglus hwn yw yn gyntaf, rhodder iddynt ddau neu dri dogn (o ddeutu lloniad gwydr gwin) o *castor oil*, neu olew had llin. Yn ail, meddyglyn wedi ei wneuthur o ddwy dram o had *carraway*, dwy dram o had *coriander*, dwy dram o bowdr *gentian*; briwier yr hadau, a berwer hwynt ar dan araf mewn cwrw neu grual am chwarter awr, a rhodder hyn iddynt unwaith neu ddwy bob dydd.

Gormwyth.—Gwel GWAERTHEG.

CEFFYLAU.

Bolwst, neu *Golig*.—Yn y clefyd peryglus hwn, yn absenoldeb meddyg anifeiliaid, y feddyginaeth oreu a ellir gael yw, peint a haner o olew had llin, wns a haner o *laudanum*, mewn ychydig o grual twym. Gwna rhai ddefnyddio rhefr-chwistrell, cynwysedig o haner pwys o halen Epsom, haner pwys o driagl, thri chwart o ddwfr twym.

Clafr.—Gwel yr unrhyw ar wartheg.

Peswch, neu *Anwyd*, a drinier oreu trwy ddwfr oer a bran, yn nghyd a phwys a haner o had llin ac wns o *nitre* ar ben pob dogn o hono.

Powdwr Gwelladol i Groen Clwyfus a Diffyg Archwaeth

at Fwyd.—Cymysger haner pwys o frwmstan, haner pwys o *nitre*, a phedair wns o *antimony* du, a rhodder llwyaid fawr o hono iddynt ar ben llafur, nos a boreu.

Yssigiadau ac Archollion.—Cymysger wns o *Goulard's extract*, wns o *spirits of turpentine*, wns o *spirits of wine*, a pheint o'r finegr cryfaf, a rhwbier y man clwyfus yn esmwyth a llaw neu a chlwtyf.

DEFAID.

Bendro.—Gwaeder yn heliaith; yna rhodder dwy wns o halen Epsom mewn peint o ddwfr.

Clafr.—Defnyddir y gwlybwyr canlynol, wns o *corrosive sublimate*, pedair wns o *sal ammoniac* ar ben pedwar chwart o ddwfr gwlaw. Mae hwn yn gryf iawn, a dylid ei arferyd gyda gofal. Torer y grachen, a rhwbier ychydig ddiferion ar y man clwyfus. Potel a rhwgn bychan wedi ei dori yn y corc fyddai y modd goreu i'w ddiferu.

Clefyd Rhydd.—Gwel LLOI.

Clwyfau.—Golcher y man dolurus, a chymwyser ato y cymysgedd canlynol:—Peint o finegr, wns o *spirits of wine*, wns o *spirits of turpentine*, ac wns o *Goulard's extract*. Os newydd ei gael y bydd y clwyf, gwell fyddai rhoi ychydig bwythau ynddo, yr hyn a ellir yn hawdd ei ddad-wneud, a golcher ef a ddwfr oer.

Cylion.—Powdr cylion: dau bwys o frwmstan du, haner pwys o *hellebore*; cymysger hwynt yn nghyd, a thaener ef trwy dreill-flwch, ar hyd y defaid o'r pen i'r gynffon.

Dwfr Coch.—Cadwer y coluddion yn rhydd a halen Epsom, a rhodder llonaid llwyd de o *elixir of vitriol*, neu *sulphuric acid*, ar ben cymaint a hyny saith waith o drwyth rhisgl deri.

Duaidd-safn-rwymiad, (Blackmuzzle).—Cymysger wns o *verdigris*, pedair wns o fêl, haner peint o finegr; bérwer hwynt ar dan araf, am ddeg mynyd, mewn

crochan pridd. Cymhwysen ef at y genau ar ddernyn o liain.

Enaint Mercuriol at y Clasfr.—Pwys o arian byw, saith pwys o hen floneg; rhwbier yr arian byw gydag ychydig o'r bloneg, hyd oni byddo y gronynau dwrlyd wedi cilio yn holol, yna defnyddier y gweddill o'r bloneg; gwna rhai chwanegu ychydig o bowdr *charcoal* ato, er ei wneud yn dywyllach.

Golch-defaid.—Profa y ffermwyr fod hwn yn gyfarwyddyd rhagorol: haner pwys o bowdr *arsenic gwyn*, pedwar pwys a haner o sebon du. Berwer hwynt am haner awr, neu hyd oni lwyd doddo yr *arsenic*, mewn pump galwyn o ddwfr. Yna rhodder hyn ar ben digon o ddwfr i olchi haner cant o ddefaid. Mae'r hyn a ddefnyddir yn gyffredin o *arsenic* yn ormod.

Pesuch, neu Anwyd.—Gwaeder, a rhodder iddynt ddognau o halen Epsom.

Pwd.—Er ei ragflaenu, gofaler fod telpyn o halen bob amser yn eu cafnau er iddynt ei lyo.

Troed-lygriad.—Dram o *verdigris*, dram o *vitriol glas*, dram o *vitriol gwyn*, dwy wns o ddwfr, dwy ddrum o *nitric acid*, dwy ddrum o *butter of antimony*. Pilier ymaith yr ewin a chymwysen y gwlybwr ag asgell at y man dolurus.

MOCH.

Ar gyfer clefydau moch yn gyffredin, gwnaiff y cyfarwyddyd canlynol y tro:—haner pwys o frwmstan, haner pwys o *madder*, pedair wns o *nitre*, a dwy wns o *antimony* du; cymysger yn nghyd, a rhodder llwyaid o hono bob nos a boreu yn eu bwyd.

Mae yn anhebgorol angenhreidiol er iechyd pob anifail, yn gystal ag er gwneud eu hymborth yn llesiol, ar fod iddynt gael diwalliad rheolaidd o fwyd a dwfr, cyneswydd cysurus, a llonyddwch, yn nghyd a pherffaith lanâd arnynt eu hunain, a'r manau y trygant ynddynt:

PWYSAU A MESURAU.

Gosodir y Daflen ganlynol o bwysau a mesurau i lawr yma gan y meddyllir y gall fod yn fuddiol i'r ffermwyr.

PWYSAU.			MESURAU.		
16 Dram	wna	1 Wns.	4 Gill	wna	1 Peint.
16 Wns	"	1 Pwys.	2 Beint	"	1 Chwart.
14 Pwys	"	1 Maen.	4 Chwart	"	1 Galwyn.
28 Pwys	"	1 Chwarter.	2 Alwyn	"	1 Phiolaid.
4 Chwarter, neu 112 } ,	1 Cant.		4 Phiolaid	"	1 Pwysel.
pwys			8 Pwysel	"	1 Chwarter.
20 Cant	"	1 Tunell.	5 Chwarter	"	1 Llwyth.

Nodwn.—Gwnaiff pwysel *Imperial* o wenith da bwys o 63 pwys, tra na wnelo un canolig dros 53 phwys. Pwysa ceirch da 42 bwys, un cyffredin tua 36 pwys am bob pwysel *Imperial*. Gwna pwysel *Imperial* o haidd da bwys o 52 i 55 pwys, ac un cyffredin 48 pwys.

MESUR YSGWAR NEU FESUR TIR.

9	Troedfedd Ysgwar	wna	1 Llathen Ysgwar.
30½	Llathen Ysgwar	"	1 Gwialenod Ysgwar.
40	Gwialenod Ysgwar	"	1 Rood.
4	Roods	"	1 Erw.
640	Erw	"	1 Filldir Ysgwar.

MESUR HIR.

12	Llinell	wna	1 Fodfedd.
12	Modfedd	"	1 Droedfedd.
3	Troedfedd	"	1 Lathen.
5½	Lathen	"	1 Gwialenod.
40	Gwialenod	"	1 Ystad.
8	Ystad	"	1 Filldir
3	Milldir	"	1 League.
69½	<i>Statute</i> Milldir, neu } "		1 Gradd.
60	Milldir Daear-argraffol } "		
360	Gradd	"	Amgylchiad y Ddacar.

PWYSAU GWLAN.

7	Pwys	wna	1 Clove.	6½	Tod	wna	1 Wey.
2	Clove	"	1 Maen.	2	Wey	"	1 Sach.
2	Faen	"	1 Tod.	12	Sach	"	1 Last.

DYDDIAU CHWARTEROL.

Gwyl Fair	.	.	.	25ain o Mawrth.
Gwyl Ifan	.	.	.	24ain o Mehefin.
Gwyl Mihangel	.	.	.	29ain o Medi.
Nadolig	.	.	.	25ain o Rhagfyr.

TAFLEN

YN DANGOS PRYD I DDISGWYL LLO NEU OEN AR OL I FUWCH
GAELE TARW, NEU DDAAFAD GAELE HWRDD.*

Cadd Darw neu Hwrdd.	Daw Llo.	Daw Oen.	Cadd Darw neu Hwrdd.	Daw Llo.	Daw Oen.
Ionawr	7 Hydref	8 Mehefin	Gorph.	7 Ebrill	7 Rhagfyr
	14	15		14	13
	21	22		21	20
	28	29		28	27
Chwefor	7 Tach.	8 Gorff.	Awst	7 Mai	8 Ionawr
	14	15		14	13
	21	22		21	20
	28	29		28	27
Mawrth	7 Rhagfyr	6 Awst	Medi	7 Mehefin	8 Chwefor
	14	13		14	13
	21	20		21	20
	28	27		28	27
Ebrill	7 Ionawr	6 Medi	Hydref	7 Gorff.	8 Mawrth
	14	13		14	15
	21	20		21	22
	28	27		28	29
Mai	7 Chwefor	5 Hydref	Tach.	7 Awst	8 Ebrill
	14	12		14	15
	21	19		21	22
	28	26		28	29
Mehefin	7 Mawrth	8 Tach.	Rhagfyr	7 Medi	8 Mai
	14	15		14	15
	21	22		21	22
	28	29		28	29

* Cyfrifir yma 274 o ddiwrnodau i Fuwch, a 152 i Ddafad; ond mae rhai yn eu gosod ychydig o ddiwrnodau yn fwy neu yn llai.

PWYSAU A MESURAU.

Gosodir y Daflen ganlynol o bwysau a mesurau i lawr yma gan y meddyllir y gall fod yn fuddiol i'r ffermwyr.

PWYSAU.			MESURAU.		
16 Dram	wna	1 Wns.	4 Gill	wna	1 Peint.
16 Wns	"	1 Pwys.	2 Beint	"	1 Chwart.
14 Pwys	"	1 Maen.	4 Chwart	"	1 Galwyn.
28 Pwys	"	1 Chwarter.	2 Alwyn	"	1 Phiolaid.
4 Chwarter, neu 112 pwys	112	1 Cant.	4 Phiolaid	"	1 Pwysef.
20 Cant ^t	"	1 Tunell.	8 Pwysef	"	1 Chwarter.
			5 Chwarter	"	1 Llwyth.

Nodwn.—Gwnaiff pwysel *Imperial* o wenith da bwyso 63 pwys, tra na wnelo un canolig dros 53 phwys. Pwysa ceirch da 42 bwyss, un cyffredin tua 36 pwys am bob pwysel *Imperial*. Gwna pwysel *Imperial* o haidd da bwyso o 52 i 55 pwys, ac un cyffredin 48 pwys.

MESUR YSGWAR NEU FESUR TIR.

9	Troedfedd Ysgwar	wna	1 Llathen Ysgwar.
30½	Llathen Ysgwar	"	1 Gwialenod Ysgwar.
40	Gwialenod Ysgwar	"	1 Rood.
4	Roods	"	1 Erw.
640	Erw	"	1 Filldir Ysgwar.

MESUR HIR.

12	Llinell	wna	1 Fodfedd.
12	Modfedd	"	1 Droedfedd.
3	Troedfedd	"	1 Lathen.
5½	Lathen	"	1 Gwialenod.
40	Gwialenod	"	1 Ystad.
8	Ystad	"	1 Filldir
3	Milldir	"	1 League.
69½	Statute Milldir, neu	"	1 Gradd.
60	Milldir Daear-argraffol	"	Amgylchiad y Ddaear.
360	Gradd	"	

PWYSAU GWLAN.

7	Pwys	wna	1 Clove.	6½	Tod	wna	1 Wey.
2	Clove	"	1 Maen.	2	Wey	"	1 Sach.
2	Faen	"	1 Tod.	12	Sach	"	1 Last.

